

# Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

## Adroddiad Blynyddol 2024/25



# Cynnwys

<b>Cyflwyniad y Prif Weithredwr</b>	<b>4</b>
<b>Rhagair y Cadeirydd</b>	<b>5</b>
<b>Cwmpas Cyfrifoldeb Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre</b>	<b>6</b>
<b>RHAN 1: Adroddiad Perfformiad</b>	<b>9</b>
Trosolwg o Berfformiad ar gyfer 2024/25	10
Dadansoddiad Manwl o Gyflenwi Gwasanaethau a Pherfformiad 2024/25	17
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	41
Strategaeth Gynaliadwyedd a Datganiad Datgelu sy'n Gysylltiedig â'r Hinsawdd	46
Perfformiad Ariannol	52
Rheoliadau'r Gymraeg a Chydymffurfedd	53
Casgliad ac Edrych Ymlaen	59
<b>Atodiadau i Ran 1</b>	<b>61</b>
<b>Atodiad 1:</b> Trosolwg o Berfformiad Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre 2024/25	61
<b>Atodiad 2:</b> Datganiad Datgeliad Ariannol sy'n Gysylltiedig â'r Hinsawdd 2024/25	64
<b>Atodiad 3:</b> Rhestr Termau	74



<b>RHAN 2: Adroddiad Atebolrwydd</b>	<b>75</b>
Cwmpas yr Adroddiad Atebolrwydd	76
<b>2A - Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol</b>	<b>77</b>
Adroddiad y Cyfarwyddwyr	78
Datganiad o Gyfrifoldebau'r Prif Weithredwr fel Swyddog Atebol Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre	90
Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr mewn perthynas â'r Cyfrifon	91
Llywodraethu	92
Datganiad Llywodraethu Blynyddol	113
<b>Atodiadau i Ran 2A</b>	<b>114</b>
<b>Atodiad 1:</b>	
Datganiad Cydymffurfedd gan Reolwr Gyfarwyddwr Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru	114
<b>Atodiad 2:</b>	
Datganiad Cydymffurfedd gan Gyfarwyddwr Technoleg Iechyd Cymru	117
<b>Atodiad 3:</b>	
Datganiad Cydymffurfedd gan Reolwr Rhaglen Therapiau Datblygedig Cymru	120
<b>Atodiad 4:</b>	
Gweithgarwch Bwrdd yr Ymddiriedolaeth, y Pwyllgorau, y Grŵp Ymgynghorol a'r Fforymau 2024-2025	123
<b>Atodiad 5:</b>	
Presenoldeb Aelodau'r Bwrdd: Cyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth, y Pwyllgorau, y Grŵp Ymgynghorol a Fforymau 2024-2025	131
<b>Atodiad 6:</b>	
Cyfarwyddiadau Gweinidogol a Chylchlythyrau Iechyd Cymru	135
Adroddiad Atebolrwydd Ariannol	139
<b>2B – Adroddiad ar Dâl a Staff</b>	<b>144</b>
<b>2C - Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Senedd Cymru</b>	<b>157</b>
Tystysgrif Archwilio ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru	158
<b>RHAN 3: Cyfrifon Ariannol Archwiliedig Terfynol</b>	<b>163</b>

## Cyflwyniad y Prif Weithredwr



Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, sy'n adlewyrchu blwyddyn arall o ymrwymiad diysgog i ddarparu gofal rhagorol, hyrwyddo ymchwil, a chefnogi iechyd a lles ein cymunedau ledled Cymru.

Mae'r flwyddyn hon wedi gweld cyflawniadau rhyfeddol yn ogystal â heriau cymhleth a newid. Drwy'r cyfan, ymroddiad, tosturi, a phroffesiynoldeb ein staff yw ein cryfder mwyaf. Boed yn darparu gwasanaethau oncoleg arbenigol drwy Wasanaeth Canser Felindre, cefnogi gwasanaethau gwaed a thrawsblaniadau ledled Cymru, sbarduno arloesedd mewn ymchwil ac addysg, cefnogi ein helusen neu weithio yn un o'n gwasanaethau a'n rhaglenni a gynhelir fel Technoleg Iechyd Cymru, y Bartneriaeth Cydwasaethau a Therapiau Datblygedig Cymru, mae ein timau wedi mynd y tu hwnt i'r disgwyl yn gyson i gyflawni rhagoriaeth.

Rydym yn parhau i wneud cynnydd sylweddol wrth drawsnewid ein gwasanaethau, a arweinir gan ein huchelgais i ddarparu'r gofal gorau posibl i gleifion, rhoddwyr, a'u teuluoedd a'u gofalwyr. O groesawu technolegau a thriniaethau newydd i ddatblygu ein gweithlu a'n seilwaith, rydym yn gosod sylfeini cryf ar gyfer y dyfodol. Yn nodedig, mae ein gwaith tuag at ddatblygu Canolfan Canser Felindre newydd a chartref ar gyfer gwasanaethau radiotherapi Gwasanaeth Canser Felindre yn Nevill Hall yn y Fenni yn symud ymlaen gyda phwrpas, ac rydym wedi

ymrwymo o hyd i ymgysylltu'n agored â'n partneriaid a'n cymunedau wrth i'n gwasanaethau barhau i wella ac esblygu.

Mae ein rôl fel Ymddiriedolaeth Prifysgol wedi ein galluogi i ddatblygu ein partneriaethau ymchwil a'n cyfleoedd dysgu, gan sicrhau ein bod yn parhau i fod ar flaen y gad o ran arloesedd ym maes gofal iechyd.

Wrth i ni fyfyrio ar gyflawniadau'r flwyddyn, hoffwn ddiolch o galon i'n staff, gwirfoddolwyr, partneriaid, a chefnogwyr. Mae eich cyfraniadau'n gwneud gwahaniaeth parhaol, ac mae eich gwydnwch a'ch tosturi yn parhau i ysbrydoli pob un ohonom. Rwyf yn arbennig o ddiolchgar am y caredigrwydd a'r gefnogaeth rydych wedi'u cynnig i mi fel Prif Weithredwr newydd ein Hymddiriedolaeth.

Rydym yn symud ymlaen gydag agwedd benderfynol a gobeithiol, wedi'n sbarduno gan ein gwerthoedd ac wedi'n huno gan bwrpas cyffredin: darparu gofal eithriadol a gwella bywydau.

Diolch am eich ymddiriedaeth a'ch cefnogaeth barhaus.

### **David Donegan**

Prif Swyddog Gweithredol  
Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

## Rhagair gan y Cadeirydd



Mae'n fraint i mi gyflwyno Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolaeth. Rwy'n gwneud hynny gyda balchder aruthrol, diolchgarwch diffuant, ac ymdeimlad dwys o fyfyrion.

Bu'n anrhydedd gwasanaethu fel Cadeirydd y sefydliad eithriadol hwn. Dros y blynyddoedd, rwyf wedi gweld drosof fy hun ymroddiad, tosturi, a gwydnwch rhyfeddol ein staff a'n gwirfoddolwyr. Mae eu hymrwymiad diysgog i ddarparu gofal o ansawdd uchel, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, wedi fy ysbrydoli dro ar ôl tro. Mae gwaith yr Ymddiriedolaeth ym maes gwasanaethau canser, gwaed a thrawsblannu, ymchwil, addysg, ac arloesedd yn parhau i gyffwrdd â bywydau dirifedi ledled Cymru - a thu hwnt.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn un o gynnydd a thrawsnewid parhaus. O'n hagwedd flaengar at arloesi digidol, i gryfhau partneriaethau ar draws ieuchyd, y byd academaidd, a'r sector gwirfoddol, mae Felindre wedi dangos ei gallu nid yn unig i addasu i newid ond i'w arwain. Mae datblygiad Canolfan Ganser newydd Felindre ac Uned Radiotherapi Felindre @ Nevill Hall yn y Fenni yn gerrig milltir arbennig o arwyddocaol ar ein taith i ddarparu gofal o'r radd flaenaf mewn cyfleusterau o'r radd flaenaf.

Mae ein statws fel Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol yn adlewyrchu dyfnder ein hymrwymiad i ddysgu,

darganfod, a gwella'n barhaus. Bu'n destun balchder mawr i mi weld ein partneriaethau ymchwil ac academaidd yn ffynnu, gan helpu i lunio dyfodol gofal ieuchyd i Gymru a thu hwnt ar yr un pryd â chreu cyfleoedd ar gyfer datblygiad a phrofiad staff.

Mae Felindre mewn dwylo diogel — wedi'i ffurfio gan werthoedd clir, arweinyddiaeth weledigaethol, a gweithlu egniol a thosturiol. Rwyf yn hyderus y bydd yr Ymddiriedolaeth yn parhau i fynd o nerth i nerth yn ei chenhadaeth i ddarparu gobaith, urddas, a gofal rhagorol i bob unigolyn y mae'n ei wasanaethu.

Hoffwn ddiolch o galon i gydweithwyr ar draws yr Ymddiriedolaeth, i aelodau blaenorol a phresennol ein Bwrdd, i'n partneriaid a'n rhanddeiliaid, ac yn bwysicaf oll, i'n rhoddwyr, a'n cleifion a'u teuluoedd, sydd oll yn parhau i fod wrth wraidd popeth a wnawn.

Un o freintiau mwyaf fy mywyd proffesiynol oedd gwasanaethu fel eich Cadeirydd.

Gyda diolchgarwch diffuant a phob dymuniad da ar gyfer y dyfodol.

**Yr Athro Donna Mead OBE**

Cadeirydd

Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

# Cwmpas cyfrifoldeb ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

## Amdanom ni

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ym 1994, ac mae'n un o 12 sefydliad iechyd statudol yng Nghymru.

Prif bwrpas yr Ymddiriedolaeth yw darparu gwasanaethau gwaed a chanser arbenigol i bobl Cymru. Rydym hefyd yn darparu nifer o wasanaethau eraill ar ran y GIG yng Nghymru fel cynhaliwr.

## Gwasanaeth Canser Felindre

Mae Gwasanaeth Canser Felindre yn darparu gwasanaethau canser arbenigol ar gyfer Cymru (yn y de-ddwyrain gan mwyaf) gan ddefnyddio model prif ganolfan a lloerennau ac yn darparu canolfan driniaeth arbenigol, addysgu, ymchwil a datblygu ar gyfer oncoleg nad yw'n llawfeddygol. Rydym yn trin cleifion â chemotherapi, Triniaethau Gwrth-ganser Systemig (SACTs), radiotherapi a thriniaethau cysylltiedig, ynghyd â gofalu am gleifion ag anghenion gofal arbenigol, aciwt a lliniarol.

## Gwasanaeth Gwaed Cymru

Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn wasanaeth cenedlaethol sy'n chwarae rhan sylfaenol wrth ddarparu gofal iechyd. Mae'n gweithio i sicrhau bod gwaed y rhoddwr yn cael ei drawsnewid yn gyfansoddion gwaed diogel ac effeithiol, sy'n caniatáu i GIG Cymru wella ansawdd bywyd ac achub bywydau miloedd lawer o bobl yng Nghymru bob blwyddyn. Rydym yn darparu gwasanaeth sgrinio cyn-geini i sawl ysbyty ac yn cynnig gwasanaethau labordai arbenigol i'r holl ysbytai sy'n gwsmeriaid i ni er mwyn cynorthwyo gydag ymchwilio i broblemau serolegol cymhleth. Mae Labordy Trawsblannu ac Imiwnogenetig Cymru yn rhan o Wasanaeth Gwaed Cymru ac yn darparu cefnogaeth uniongyrchol i ddarparwyr lleol Gwasanaethau Trawsblannu Arennol a Bôn-gelloedd. Mae hefyd yn cynnal Cofrestr Rhoddwyr Mêr Esgyrn Cymru, sef panel cenedlaethol o roddwyr bôn-gelloedd gwaed posibl, nad ydynt yn perthyn.

Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn darparu gwasanaethau drwy ei gwasanaethau a'i rhaglenni a gynhelir – y Bartneriaeth Cydwasanaethau, a Technoleg Iechyd Cymru (HTW) a Therapïau Datblygedig Cymru.

## Cydwasanaethau GIG Cymru (Cydwasanaethau)

Rhoddwyr y cyfrifoldeb statudol i'r Ymddiriedolaeth reoli a darparu Cydwasanaethau yn 2012, gan

geflogi 12 corff statudol GIG Cymru trwy ddarparu ystod gynhwysfawr o swyddogaethau cymorth, a ddosberthir yn wasanaethau technegol, gweinyddol a phroffesiynol. Mae'r tîm sy'n cyflawni'r rhain yn cael eu cyflogi gan yr Ymddiriedolaeth, ac mae Pwyllgor Cydwasanaethau Ymddiriedolaeth Felindre (a elwir hefyd yn Bwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau) yn dwyn ynghyd bartneriaeth y sefydliadau statudol sy'n comisiynu'r gwasanaethau hyn.

## Technoleg Iechyd Cymru

Sefydlwyd Technoleg Iechyd Cymru (HTW) yn 2017 gan Lywodraeth Cymru. Fel y corff cynnal, mae'r Ymddiriedolaeth yn derbyn cyllid grant i ddarparu'r gwasanaethau HTW o dan y 'Rhaglen Effeithlonrwydd trwy Dechnoleg'. Sefydlwyd Technoleg Iechyd Cymru i hwyluso mabwysiadu technolegau iechyd clinigol a chost-effeithiol yng Nghymru mewn modd amserol, gan weithio gyda GIG Cymru, ond yn annibynnol arno. Mae ei gylch gwaith yn cwmpasu'r holl dechnolegau iechyd nad ydynt yn feddyginiaethau.

## Therapïau Datblygedig Cymru

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cyflogi tîm i gyflwyno Rhaglen Therapïau Datblygedig Cymru a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Ynghyd â'r rhaglenni Genomeg, Patholeg a Delweddu, mae'n rhan annatod o bortffolio Meddygaeth Fanwl Cymru.

## Pwrpas a Gweledigaeth

Ein nod yw gwella bywydau. Ein gweledigaeth yw gwneud hyn trwy ofal rhagorol, dysgu ysbrydoledig a phobl iachach.

Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth, rydym wedi datblygu amcanion strategol sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad i'r egwyddorion arweiniol a nodir yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda phwyslais ar yr hirdymor, trwy integreiddio, cydweithio a phartneriaeth yn ein gwaith hollbwysig.

Ein nod yw bod yn gyflogwr o ddewis, gan ddatblygu gweithlu medrus, cynaliadwy, iach ac ymgysylltiedig. Byddwn yn anelu at ragoriaeth ddigidol, gan greu gwasanaethau gwell trwy gysylltu cleifion, rhoddwyr a phartneriaid.

Byddwn yn mesur ein cynnydd trwy ein gofal, ein dysgu, ein tîm, a'n cyfraniad ehangach at ein cymunedau a'n gwlad, gan feincnodi â'n cymheiriaid.



## Ein gwerthoedd

Mae gwerthoedd cyffredin ein Ymddiriedolaeth yn crynhoi'r hyn sy'n bwysig i ni. Fe'u datblygwyd drwy broses o ymgynghori eang â staff ac aelodau'r cyhoedd ac maent yn adlewyrchu ein hymrwymiad i ddarparu a datblygu ein gwasanaethau.



### Gofalgar

Rydym bob amser yn garedig, yn gefnogol, yn hawdd mynd atynt ac yn dangos tosturi at bawb.



### Parchus

Rydym yn ceisio deall safbwyntiau pobl eraill. Rydym bob amser yn agored ac yn dryloyw.



### Atebol

Rydym bob amser yn cymryd cyfrifoldeb personol am beth rydym yn ei wneud a sut rydym yn ei wneud.

## Ein Strategaeth

Cymeradwywyd ein strategaeth, [Cyrchfan 2033](#), gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth yn 2023.

Mae ein nodau strategol yn datgan, erbyn 2033, y byddwn yn cael ein cydnabod fel a ganlyn:

- 1 Rhagorol ar gyfer ansawdd, diogelwch a phrofiad.
- 2 Darparwr gwasanaethau clinigol eithriadol enwog yn rhyngwladol sydd bob amser yn bodloni disgwyliadau ac yn rhagori arnynt fel mater o drefn.
- 3 Sefydliad disglair ar gyfer ymchwil, datblygu ac arloesi yn y meysydd blaenoriaeth a ddatganwyd gennym.
- 4 Ymddiriedolaeth Brifysgol sefydledig sy'n darparu gwybodaeth a dysgu gwerthfawr iawn i bawb.
- 5 Sefydliad cynaliadwy sy'n chwarae ei ran wrth greu dyfodol gwell i bobl ledled y byd.

# Rhan 1

## Adroddiad Perfformiad 2024-25



# Trosolwg o berfformiad ar gyfer 2024/25

## Trosolwg o'n Gwasanaethau

Mae gan ein Ymddiriedolaeth ddwy brif adran glinigol - Gwasanaeth Canser Felindre a Gwasanaeth Gwaed Cymru yn ogystal â'n swyddogaethau corfforaethol. Mae Felindre hefyd yn gyfrifol am gynnal tri gwasanaeth a rhaglen arall ar gyfer Cymru gyfan ar ran Llywodraeth Cymru a GIG Cymru - Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru, Technoleg Iechyd Cymru a Therapiau Datblygedig Cymru. Nid yw perfformiad y gwasanaethau hyn a gynhelir o fewn cwmplas yr adroddiad hwn, gan fod trefniadau amgen ar waith ar gyfer goruchwyllo perfformiad y gwasanaethau hyn nad ydynt ar hyn o bryd yn gyfrifoldeb i'r Ymddiriedolaeth fel cynhaliwr.

Mae ein Ymddiriedolaeth yn cynnwys endid elusennol hefyd, a gododd gyfanswm o £3.7m yn 2024/25 o ddigwyddiadau, codi arian, grantiau a rhoddion a £0.5m o waddol. Mae hyn yn cefnogi ymchwil hollbwysig, datblygu staff a gwasanaethau pwysig i gyfoethogi bywydau a phrofiad ein cleifion.

Mae gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre gyllideb gyffredinol o £1,159m. Mae gan yr Ymddiriedolaeth, heb gynnwys y gwasanaethau a gynhelir, gyllideb refeniw gweithredol o £262m a dyraniad cyfalaf o £36m. Rydym yn cyflogi 7,224 o staff (CALL) – 1,669 o staff craidd, 2,236 ar gyfer gwasanaethau a gynhelir, ac eithrio staff asiantaeth, a 3,319 o staff dan hyfforddiant a gyflogir gan wasanaeth a gynhelir ond sy'n gweithio mewn sefydliadau eraill GIG Cymru (e.e. Meddygon dan hyfforddiant). Mae ein staff yn gweithio ar draws ystod o wasanaethau clinigol, gwyddonol, nyrsio, therapiau, proffesiynol a chymorth gweinyddol. Mae ein gwasanaethau'n cael eu comisiynu trwy Fyrddau Iechyd Lleol ledled Cymru a Chydbwyllgor Comisiynu GIG Cymru ar gyfer rhai arbenigeddau.

## Gwasanaeth Canser Felindre

Rydym yn ganolfan driniaeth, addysgu, ymchwil a datblygu ar gyfer gwasanaethau oncoleg i gleifion o bob cwr o Dde-ddwyrain Cymru ac yn genedlaethol ar gyfer rhai cyflyrau.

Rydym yn gwasanaethu poblogaeth o 1.7 miliwn yn bennaf.

### • Yn ystod 2024 rydym wedi:

- Rhoi triniaethau radiotherapi i 4321 o gleifion.
- Darparu Triniaeth Gwrth-ganser Systemig (SACT) i 5282 o gleifion.
- Cynnal 16,650 o ymgynghoriadau cleifion allanol.

## Gwasanaeth Gwaed Cymru

Rydym yn wasanaeth cenedlaethol sy'n cwmplas poblogaeth Cymru o 3.1 miliwn gan ddarparu ystod o wasanaethau hanfodol ac arbenigol gan gynnwys casglu a chynhyrchu gwaed a chyfansoddion gwaed i drin cleifion, darparu cymorth gwyddonol ar gyfer trawsblannu yng Nghymru a darparu bôn-gelloedd i gleifion yn fyd-eang.

### • Yn ystod 2024 rydym wedi:

- Casglu tua 100,000 o unedau o waed.
- Mae gennym fwy na 75,000 o wirfoddolwyr ar ein cofrestrfa bôn-gelloedd.
- Darparu cymorth gwyddonol ar gyfer 132 o drawsblaniadau organau a 36 o drawsblaniadau bôn-gelloedd.

## Gwasanaethau Corfforaethol

Darperir gwasanaethau canser a gwaed craidd yr Ymddiriedolaeth gyda chefnogaeth nifer o wasanaethau corfforaethol ar draws yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys Pobl a Datblygu Sefydliadol, Gwasanaethau Digidol, Cynllunio a Rheoli Perfformiad, Ystadau a Chynaliadwyedd a Chyllid.

## Cyflawni ein Nodau Strategol ar gyfer 2024/25

Cyrchfan 2033 yw enw ein strategaeth sefydliadol sydd wedi'i chymeradwyo ar hyn o bryd.<sup>1</sup> Mae Cyrchfan 2033 yn amlinellu ein Nodau a'n Hamcanion Strategol.

Cynllun Tymor Canolig Integredig 2024/25 i 2026/27 yr Ymddiriedolaeth oedd y cyfrwng ar gyfer cyflawni ein hamcanion yn ystod 2024/5 ac mae'n deillio o'r gwaith rhagorol a wnaed gan dimau o bob rhan o'r Ymddiriedolaeth ac ymgysylltiad cryf â'n rhanddeiliaid niferus.

Rydym wedi gosod blaenoriaethau uchelgeisiol i ni ein hunain yn ystod 2024/25, sy'n adeiladu ar ein cryfderau, ac a fydd yn golygu bod y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau yn derbyn gofal rhagorol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Rydym yn adrodd ar gynnydd yn erbyn ein hamcanion yn chwarterol i'n Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad ac wedi derbyn adroddiadau archwilio mewnol ffafriol ar y broses hon.

### Ein Nodau Strategol:

- 1 Rhagorol ar gyfer ansawdd, diogelwch a phrofiad
- 2 Darparwr gwasanaethau clinigol eithriadol enwog yn rhyngwladol sydd bob amser yn bodloni disgwyliadau ac yn rhagori arnynt fel mater o drefn
- 3 Sefydliad disglair ar gyfer ymchwil, datblygu ac arloesi yn ein meysydd blaenoriaeth datganedig
- 4 Ymddiriedolaeth Brifysgol sefydledig sy'n darparu gwybodaeth a hyfforddiant gwerthfawr iawn i bawb
- 5 Sefydliad cynaliadwy sy'n chwarae ei ran wrth greu dyfodol gwell i bobl ledled y byd

Bydd ein cynllun yn sicrhau ein bod yn rhoi ein cleifion a'n rhoddwyr wrth wraidd popeth a wnawn; gan weithio tuag at yr ansawdd, diogelwch a'r profiad gorau posibl; a dysgu a gwella parhaus.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gweithio mewn partneriaeth agos â'n partneriaid mewn Byrddau Iechyd i sicrhau bod ein strategaethau allweddol yn cyd-fynd â'i gilydd, bod set glir o flaenoriaethau cyffredin ac i sicrhau y gallwn ddarparu digon o allu a medrusrwydd i gyflenwi gwasanaethau a gomisiynir o'r ansawdd uchaf.

Roedd ein Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2024/25 i 2026/27 yn cynnwys 171 o gamau gweithredu. Rydym yn adrodd ar gynnydd yn erbyn y camau gweithredu hyn yn chwarterol. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r rhain yn gamau gweithredu sy'n ymestyn dros gyfnod o flwyddyn o gyflawni ac felly maent wedi'u cynrychioli yn y cynllun hwn. Nid oedd unrhyw gamau gweithredu hwyr "coch", a oedd fod i gael eu cyflawni'n llawn yn ystod 2024/5, natur aml-flwyddyn y camau gweithredu a gynhwyswyd yw hynny. Cyflawnwyd 12 cam gweithredu yn llawn.

Rydym bellach yn datblygu hyn mewn dwy ffordd allweddol ar gyfer cynllun 2025/26 – 2027/28:

- Byddwn yn cynnwys adrodd yn erbyn canlyniadau;
- Byddwn yn adrodd yn erbyn ein cerrig milltir penodol fel y gellir olrhain cynnydd yn glir yn erbyn gweithgareddau tymor hwy.

Bydd cynnydd yn erbyn amcanion ein Cynllun Tymor Canolig Integredig yn cael ei fonitro unwaith eto bob chwarter a'i adrodd i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth a Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth gweler y ddolen i Gynllun Tymor Canolig Integredig 2025/26 i 2027/28 yr Ymddiriedolaeth.<sup>2</sup>

<sup>1</sup> <https://velindre.nhs.wales/about-us/publications/strategic-documentation/trust-strategy-destination-2033/>

<sup>2</sup> Cynllun Tymor Canolig Integredig VUNHST 2025/26 i 2027/28

## Y Ddyletswydd Ansawdd

Daeth y Ddyletswydd Ansawdd i rym cyfreithiol ym mis Ebrill 2023, yn unol â Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020. Yn ystod 2024/25, rydym wedi parhau i sbarduno gwelliannau ansawdd, sicrhau ansawdd a goruchwyllo, gan sicrhau ein bod yn dysgu pan nad yw pethau'n mynd yn dda, a chryfhau diwylliant y sefydliad o ran ansawdd.

Am ragor o wybodaeth gweler y ddolen i Adroddiad Ansawdd Blynyddol yr Ymddiriedolaeth.<sup>3</sup>



<sup>3</sup> Adroddiad Blynyddol Dyletswydd Ansawdd VUNHST 2024/25

## Trosolwg o'n perfformiad

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb lefel uchel o'n perfformiad ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25.

Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn disgrifio sut mae'r Ymddiriedolaeth yn rheoli ei gweithgareddau perfformiad a rheoli. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi sicrwydd ynghylch perfformiad yr Ymddiriedolaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25. Caiff metrigau perfformiad unigol eu mesur yn erbyn ystod o dargedau cenedlaethol, safonau arfer gorau a mesurau canlyniad a nodwyd yn lleol.

Paratwir cyfrifon Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ar sail busnes parhaus gan y rhagwelir y bydd gwasanaethau'n parhau i gael eu darparu yn y dyfodol, fel y dangosir gan gynnwys darpariaethau ariannol ar gyfer y gwasanaethau hynny. Ar gyfer y cyfnod adrodd hwn, nid oes unrhyw ddigwyddiadau nac ystyriaethau hysbys a allai fwrw amheuaeth ar yr asesiad hwn.

Mae'r adran ganlynol yn rhoi crynodeb lefel uchel o berfformiad yr Ymddiriedolaeth yn 2024/25 yn erbyn ystod o dargedau statudol, arfer gorau a thargedau ymestynnol lleol dros gyfres o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer ein gwasanaethau cancer a gwaed, gwasanaethau corfforaethol, yn ogystal ag ymgorffori mesurau bodddhad cleifion a rhoddwyr, lles staff a chynaliadwyedd.

Mae gan bob Dangosydd Perfformiad Allweddol ddisgrifiad byr, targed misol neu flynyddol a pherfformiad gwirioneddol ar gyfer 2024/25. Gellir gweld set lawn o berfformiad yr Ymddiriedolaeth yn erbyn targedau perfformiad allweddol yn **Atodiad 1**.

## Crynodeb o Berfformiad Gwasanaeth Cancer Felindre 2024/25

Gwellodd perfformiad yn ystod 2024/25 yn ystod gydol y flwyddyn, sy'n adlewyrchu'r daith wella barhaus a'n huchelgais i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl. Mae meysydd nad ydynt yn cyrraedd y lefelau penodedig wedi bod yn destun mentrau gwella a chraffu parhaus, ac yn parhau i fod yn destun mentrau o'r fath, i sicrhau bod buddion i gleifion yn cael eu cyflawni.

### • Mynediad at Wasanaethau Cancer

#### - Radiotherapi

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, cynyddodd y galw am wasanaethau radiotherapi yn 2024/25. Fodd bynnag, gwellodd ein perfformiad yn ystod y flwyddyn ac erbyn mis Mawrth 2025:

Cyrhaeddodd 82% o gleifion y targed atgyfeirio i driniaeth (targed 21 diwrnod)

Cyrhaeddodd 83% o gleifion y targed atgyfeirio i driniaeth (targed 7 diwrnod)

#### - Therapi Gwrth-ganser Systemig (SACT)

Yn 2024/25, cynyddodd y galw (tua 10%) am wasanaethau SACT. Arweiniodd hyn at her sylweddol yn ystod y flwyddyn o ran gallu darparu digon o gapasiti i ateb y galw. Fodd bynnag, fe wnaethom lwyddo i gyflawni'r canlynol:

Cafodd 100% o gleifion brys eu trin o fewn y targed (5 diwrnod)

Cafodd 91% o gleifion nad oeddent yn rhai brys eu trin o fewn y targed (21 diwrnod)



# 82%

o gleifion wedi cyrraedd y targed atgyfeirio i driniaeth



# 100%

o gleifion brys wedi eu trin o fewn y targed

- **Darparu Gwasanaethau Diogel a Dibynadwy**

- **Heintiau a Gafwyd yn yr Ysbyty**

Rydym wedi parhau i gadw at ein cyfraddau isel o heintiau a gafwyd yn yr ysbyty. Mae gennym bolisi dim goddefgarwch o ran heintiau a gafwyd yn yr ysbyty, fel MRSA.

- **Briwiau Pwysu**

Mae gennym bolisi dim goddefgarwch hefyd o ran niwed i feinwe a briwiau pwysu oherwydd bod ein cleifion mewnol yn gallu bod yn arbennig o agored i niwed o'r math hwn.

- **Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol (Sepsis)**

Mae cleifion y bernir eu bod mewn mwy o berygl yn cael y profion bwndel 'Chwe Phrawf Sepsis' wedi'u rhoi iddynt o fewn amser penodol. Cyflawnwyd ein targed o drin 100% o gleifion Sepsis o fewn awr yn gyson, neu fe'i methwyd o drwch blewyn yn unig.

- **Profiad y Claf**

- **A fydech chi'n ein hargymell ni? A'ch profiad chi yn Felindre?**

Roedd cleifion yng Ngwasanaeth Ganser Felindre yn gyson yn sgorio eu profiad eu hunain yn dda iawn, gan sgorio cyfartaledd o 96% ar gyfer 'Fydech chi'n ein hargymell ni?' a chyfartaledd o 94% ar gyfer 'Eich profiad chi yn Felindre'.

Archwiliwn ein perfformiad yn 2024/25 yn fanylach yn adran nesaf yr adroddiad hwn.



**96%**

Ein sgôr ar gyfartaledd ar gyfer y mesur 'fydech chi'n ein hargymell ni?'

## Gwaed Cymru 2024/25

Roedd perfformiad yn ystod 2024/25 yn debyg i dueddiadau cyffredinol ar draws Cynghrair Gwaed Ewrop ac yn adlewyrchu ein huchelgais parhaus i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl. Ategwyd hyn gan ymroddiad ein staff ac effeithiolrwydd ein prosesau cynllunio a gweithredol, a'n galluogodd i fodloni gofynion gwasanaeth yn gyson drwy gydol y flwyddyn.

### • **Bodloni'r Galw Clinigol am Gelloedd Coch y Gwaed a Phlatennau**

Drwy gydol 2024/25, llwyddodd Gwasanaeth Gwaed Cymru i fodloni'r holl alw clinigol am Gelloedd Coch y Gwaed a Phlatennau gan ein hysbytai sy'n gwsmeriaid ledled GIG Cymru. Mae hyn yn deillio o gyfathrebu dyddiol rhwng Gwasanaethau Rhoi Gwaed a Gwasanaethau Trallwys Gwaed sy'n galluogi ymatebion hyblyg i amrywiadau mewn lefelau stoc ac anghenion gwasanaeth a gweithio'n agos gyda'n hysbytai sy'n gwsmeriaid.

### • **Tyfu'n Cofrestr Mêr Esgyrn**

Ar hyn o bryd, mae ein cofrestr yn cynnwys mwy na 75,000 o roddwyr gwirfoddol. Rhagorwyd ar y targed recriwtio o 4,000 y flwyddyn yn 2024-2025 wrth i 5,765 o roddwyr gael eu recriwtio yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i gychwyn ymgyrch swabio bochau fwy rhagweithiol mewn sefydliadau addysgol a digwyddiadau eraill.

### • **Bodloni Ceisiadau Gwasanaethau Trawsblannu**

Methwyd â chyrraedd ein targed blynyddol ar gyfer 80 o gasgliadau bôn-gelloedd yn 2024/25. Wrth ymateb i hyn, mae Cofrestrfa Rhoddwyr Mêr Esgyrn Cymru wedi cychwyn cyfres o ddigwyddiadau gyda'r nod o ehangu'r panel rhoddwyr. Y nod yw tyfu'r sylfaen rhoddwyr ymroddedig, gan helpu i gau'r bwlch a gwella perfformiad casglu yn y dyfodol.

### • **Casglu a Chynhyrchu Gwaed a Chynhyrchion Gwaed**

#### - **Lleihau Gwastraff / Cynhyrchion sydd wedi Dod i Ben**

Mae alinio'r cyflenwad cyfansoddion gwaed â'r galw gan ysbytai yn gymhleth oherwydd oes silff gyfyngedig. Yn 2024/25, arhosodd cyfnod dod i ben celloedd coch yn gyson islaw'r targed o 1%, ac roedd amser dod i ben platennau i raddau helaeth o fewn ein goddefiant targed yn ystod y flwyddyn adrodd. O ganlyniad i hyn, roedd y gwasanaeth yn un o'r perfformwyr gorau o'i gymharu â gwasanaethau gwaed Ewropeaidd eraill.

#### - **Tynnu Gwaed yn Aflwyddiannus**

Mae amryw o resymau pam nad yw gwaed yn mynd i mewn i'r bag. Yn aml, gallai hyn fod o ganlyniad i wythiennau rhoddwr anhygyrch, techneg tynnu gwaed wael neu fethiant offer. Roeddem yn gweithio'n rhagorol ac yn gyson o fewn targed y lefelau goddefiant yn ystod 2024/25.

#### - **Rhoddion Cyfan o Waed Cyflawn**

Ein targed presennol yw sicrhau ein bod yn casglu llai na'r uchafswm o roddion gwaed mewn bagiau rhannol o 3% ac yn ystod 2024/25 rydym yn falch o adrodd bod canran y bagiau rhannol a gasglwyd bob mis wedi aros yn gyffredinol islaw'r trothwy o 3%.

### • **Profiad Rhoddwyr Gwaed**

Yn ystod 2024/25, mae Gwasanaeth Gwaed Cymru wedi parhau i weithio'n galed i wella systemau a phrosesau yn ymwneud â rheoli pryderon i sicrhau y caiff adborth gan roddwyr a defnyddwyr gwasanaeth ei reoli mewn modd amserol ac effeithiol, gan sicrhau y caiff gwersi eu dysgu ac y caiff gwelliannau i'r gwasanaeth eu nodi a'u gweithredu. Mae hyn wedi arwain at adborth rhagorol gan roddwyr sydd wedi cyrraedd ein targed yn gyson.

Archwiliwn ein perfformiad yn 2024/25 yn fanylach yn adran nesaf yr adroddiad hwn.

Drwy gydol 2024/25, gwnaeth Gwasanaeth Gwaed Cymru fodloni'r holl alw clinigol am Gelloedd Coch y Gwaed a Phlatennau gan ein hysbytai sy'n gwsmeriaid ledled GIG Cymru.



# Dadansoddiad manwl o gyflenwi gwasanaethau a pherfformiad

## Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn rhoi mwy o fanylion am ein perfformiad ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25.

Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn disgrifio sut mae'r Ymddiriedolaeth yn rheoli ei gweithgareddau perfformiad a rheoli. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi sicrwydd ynghylch perfformiad yr Ymddiriedolaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25. Caiff metrigau perfformiad unigol eu mesur yn erbyn ystod o dargedau cenedlaethol, safonau arfer gorau a mesurau canlyniad a nodwyd yn lleol.

## Datblygu ein Fframwaith Rheoli Perfformiad – Sut rydym yn rheoli ein perfformiad

Yn ystod 2024/25 mae ein fframwaith Rheoli Perfformiad wedi parhau i esblygu gydag ystod ehangach o fesurau a ddefnyddir yn rheolaidd i fonitro ansawdd a pherfformiad ein gwasanaethau craidd. Yn ogystal, mae gwaith wedi'i wneud i awtomeiddio ein system adrodd a monitro Fframwaith Rheoli Perfformiad sydd wedi derbyn 'sicrwydd rhesymol' mewn adolygiad Archwilio Mewnol diweddar. Yn bwysig, rydym wedi ystyried materion cymdeithasol, parch at hawliau dynol, amrywiaeth, materion gwrthlygredd a gwrth-lwgrwobrwyo. Yn ogystal â'r Fframwaith Rheoli Perfformiad, sy'n cynnwys Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer agweddau penodol, darperir sicrwydd trwy: lywodraethu'r Ymddiriedolaeth yn ehangach ar draws caffael; Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Ansawdd; a'r fframwaith Polisi.

Yn ystod y cyfnod adrodd bu nifer o becynnau gwaith i awtomeiddio prosesau a threfniadau adrodd y Fframwaith Rheoli Perfformiad. Mae'r broses barhaus o wella'r Fframwaith Rheoli Perfformiad wedi cynnwys ymgysylltu a thrafodaethau helaeth gydag Aelodau Annibynnol, Cyfarwyddwyr Gweithredol, cynrychiolwyr cleifion a rhoddwyr ynghyd â gwaith manwl gydag Arweinwyr Is-adrannol a'r holl staff.

## Nodi perthnasoedd a chysylltiadau ar draws Meysydd Perfformiad

Mae Gweithdrefn Weithredu Safonol Fframwaith Rheoli Perfformiad ar gyfer adrodd ar ein perfformiad misol i'n Bwrdd Rheoli Gweithredol, y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad ac yn olaf i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth wedi'i datblygu i amlygu unrhyw faterion perfformiad allweddol a chysylltiadau trawsbynciol a nodwyd, gan ddefnyddio saith lefel o sicrwydd ac wedi'u huwchgyfeirio'n briodol i sicrhau llywodraethu effeithiol.

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn dibynnu ar yr adolygiad arweinyddiaeth Is-adrannol a Gweithredol manwl a chraffu gan y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad, ac yn cael sicrwydd ganddynt, i sicrhau bod pob mater allweddol wedi'i uwchgyfeirio'n briodol a bod cynlluniau gweithredu effeithiol wedi'u datblygu i fynd i'r afael â nhw.

Mae fformat yr adroddiad perfformiad yn mabwysiadu dull 'cerdyn sgorio cytbwys' sy'n ceisio 'triogli' y rhyngweithio rhwng darpariaeth weithredol, ansawdd a diogelwch gwasanaeth, ein pobl ac adnoddau ffisegol/cyllid, ac mae'n seiliedig ar 'chwe pharth' y Fframwaith Diogelwch Ansawdd (QSF), sef gofal diogel, effeithiol, sy'n canolbwyntio ar y claf/rhodddwr ac sy'n amserol, effeithlon a theg.

Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn disgrifio sut mae'r Ymddiriedolaeth yn rheoli ei gweithgareddau perfformiad a rheoli. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi sicrwydd ynghylch perfformiad yr Ymddiriedolaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25


## Fframwaith Rheoli Perfformiad Cyfunol



Gwasanaeth Canser Felindre  
Velindre Cancer Service



Gwasanaeth Gwaed Cymru  
Welsh Blood Service



Cefnogir pob Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA) gan ddadansoddiad sy'n esbonio'r perfformiad presennol, gan ddefnyddio Siartiau Rheoli Proses Ystadegol (SPC) lle bynnag y bo modd, i alluogi gwahaniaethu rhwng 'amrywiadau naturiol' mewn gweithgaredd, a thueddiadau o ran perfformiad y mae angen ymchwilio iddynt.

Mae Gweithdrefn Weithredu Safonol y Fframwaith Rheoli Perfformiad ar gyfer adrodd ar ein perfformiad misol i'n Bwrdd Rheoli Gweithredol, a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad yn sicrhau bod materion allweddol yn cael eu huwchgyfeirio a'u datrys yn briodol.



### Ein Perfformiad Ariannol

Yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25, cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth ei holl Ddyletswyddau Statudol, gan weithredu o fewn ein dyraniad ariannol.

Paratoir cyfrifon Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ar sail busnes parhaus gan y rhagwelir y bydd gwasanaethau'n parhau i gael eu darparu yn y dyfodol, fel y dangosir gan gynnwys darpariaethau ariannol ar gyfer y gwasanaethau hynny. Nid oes unrhyw ddigwyddiadau nac ystyriaethau hysbys a allai fwrw amheuaeth ar yr asesiad hwn.

### Polisi Atal Twyll a Llygredd

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd ei chyfrifoldebau i ddiogelu pwrs y wlad o ddifrif iawn ac mae wedi ymrwymo'n llwyr i'r safonau moesegol uchaf, er mwyn sicrhau bod arian ac asedau cyhoeddus yn cael eu defnyddio a'u diogelu'n briodol.

Ni fydd yr Ymddiriedolaeth yn goddef twyll na llygredd gan ei gweithwyr, cyflenwyr, contractwyr, partneriaid na defnyddwyr gwasanaeth a bydd yn cymryd pob cam angenrheidiol i ymchwilio i bob honiad o dwyll neu lygredd ac yn dilyn y cosbau sydd ar gael ym mhob achos, gan gynnwys cael gwared ar swydd, camau disgyblu, diswyddo a/neu erlyn.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio'r Gwasanaethau Atal Twyll a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar gyfer gwasanaethau craidd yr Ymddiriedolaeth.

Mae'r adran ganlynol yn rhoi dadansoddiad manylach o berfformiad ein Ymddiriedolaeth yn 2024/25 ar draws ein dau faes allweddol, sef canser a gwasanaeth gwaed, yn erbyn ystod o dargedau statudol, arfer gorau a thargedau ymestynnol lleol ar draws chwe pharth y Fframwaith Ansawdd a Diogelwch.

# Perfformiad Gwasanaeth Canser Felindre



## Trosolwg

Gwellodd perfformiad yn ystod 2024/25 drwy gydol y flwyddyn, sy'n adlewyrchu'r daith wella barhaus a'n huchelgais i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl. Mae meysydd nad ydynt yn cyrraedd y lefelau penodedig wedi bod yn destun mentrau gwella a chraffu parhaus, ac yn parhau i fod yn destun y mentrau hynny, i sicrhau bod buddion i gleifion yn cael eu cyflawni. Isod, rydym yn archwilio ein perfformiad yn 2024/25 yn fwy manwl.

## Mynediad i'n gwasanaethau

Yn ystod y flwyddyn, gwelsom alw mawr am wasanaethau radiotherapi a chemotherapi a ddarperir gan Wasanaeth Canser Felindre. Gweithiodd ein staff yn galed i fodloni'r galw hwn, ac rydym o hyd yn archwilio ffyrdd newydd o weithio i leihau amseroedd aros a gwella mynediad cleifion i'n gwasanaethau.

Mae'r galw am wasanaethau canser yn cael ei yrru gan yr angen i ddarparu gofal i gleifion sydd newydd gael diagnosis o ganser, ond hefyd gan y gofyniad i sicrhau bod cylchoedd newydd o driniaeth ar gael i gleifion presennol, er enghraifft, cleifion â chlefyd


metastatig y rhagnodir cylchoedd pellach o therapi iddynt. Yn ogystal, mae'r galw dan ddylanwad argaeledd cyfundrefnau triniaeth newydd, h.y. cyfryngau triniaeth sydd newydd eu cymeradwyo, fel rhai imiwnotherapiau a thriniaethau wedi'u targedu, sy'n cyflwyno opsiynau triniaeth cwbl newydd neu sy'n dylanwadu ar newidiadau dramatig i lwybrau triniaeth.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r galw am wasanaethau canser nad ydynt yn llawfeddygol a ddarperir gan Wasanaeth Canser Felindre wedi bod yn cynyddu. Cafodd y rhagolwg galw ar gyfer 2024/25 ei lywio gan ddata a ddeilliodd o ymarfer mawr yr ydym wedi'i arwain ar y cyd â'n partneriaid byrddau iechyd, Rhwydwaith Canser Cymru, Gwelliant Cymru a Gweithrediaeth y GIG.

I ddechrau, canolbwyntiodd yr ymarfer modelu galw ar lifoedd hanesyddol cleifion o ofal sylfaenol i ddiagnosis ac ymlaen i driniaeth. Defnyddiwyd y dull hwn i ddatblygu model rhagfynegol a allai ragweld galw allanol wedi'i ysgogi gan atgyfeiriadau cleifion newydd. Rydym wedi defnyddio'r model hwn i feintioli gofynion capasiti ar gyfer 2024/25 a thu hwnt. Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r model hwn i adolygu'r galw yn y dyfodol.

## Y galw am wasanaethau yng Ngwasanaeth Canser Felindre

Bydd achosion o ganser yn codi



1.5-2%

bob blwyddyn

Bydd y galw (achosion a chymhlethdod) am wasanaethau'n parhau i gynyddu



4%

bob blwyddyn (radiotherapi)



4%

bob blwyddyn (SACT)



4%


bob blwyddyn (cleifion allanol)

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r rhagdybiaethau cynllunio a oedd yn sail i'r cynllun capasiti a chyflawni ar gyfer 2024/25:

## Twf a Ragwelir yn y Galw am ein Gwasanaethau yn 2024/25

Perfformiad Ariannol Fesul Categori Arian Contract	Ffactor % - Defnyddio Rhadgybiaethau Cynllunio
Radiotherapi	6%
Meddygaeth Niwclear	2%
Delweddu Radioleg	10%
Paratoi ar gyfer Therapi Gwrth-Ganser Systemig	10%
Cyflwyno Therapi Gwrth-Ganser Systemig	10%
Gwasanaethau Gofal Dydd	2%
Gwasanaethau Cleifion Allanol	10%
Gofal Cleifion Mewnol a Dderbynnir	2%

Er mwyn mynd i'r afael â'r cynnydd yn y galw a ddigwyddodd yn 2024/25, bu'n ofynnol gwneud newidiadau i ymarfer clinigol a darparu gwasanaethau, gan sicrhau diogelwch cleifion. Bydd angen archwilio'r defnydd cynyddol o bresenoldeb cleifion allanol rithwir, y cymysgedd o ddarparu Therapi Gwrth-ganser Systemig trwyth geneuol a mewnythiennol, y defnydd ehangach o hypoffracsiwn wrth roi triniaethau radiotherapi i rai grwpiau o gleifion a darparu gofal cleifion mewn lleoliadau allgymorth. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ochr yn ochr â gweithgarwch i nodi arbedion effeithlonrwydd a datblygiadau ar draws yr holl lwybrau triniaeth.



## Cynnydd: Gwasanaethau Ymbelydredd

Mae'r adran hon yn adolygu perfformiad Radiotherapi drwy gydol 2024/25. Yn ystod 2024-25, mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r galw cynyddol am drin cleifion. Yn ogystal, rydym wedi parhau i weithredu rhaglen newid fawr yn llwyddiannus.


Fel rhan o'r rhaglen Datrysiaid Radiotherapi Integredig (IRS), mae peiriannau triniaeth newydd wedi'u comisiynu ac mae systemau gweithredu newydd, gwell wedi'u cyflwyno. Bydd y datblygiadau hyn, a fu'n bosibl trwy fuddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru, yn caniatáu i ni resymoli llwybrau cleifion. Bydd hyn yn helpu i leihau amserau aros ar gyfer triniaeth, gwella mynediad a'n helpu i ddefnyddio'r therapiau newydd gorau, gan wella canlyniadau i'n cleifion.

Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, bu cynnydd yn y galw am wasanaethau radiotherapi yn 2024/25. Gwellodd ein perfformiad yn ystod y flwyddyn ac erbyn mis Mawrth 2025:

- Cyrhaeddodd 82% o gleifion radiotherapi'r targeted atgyfeirio a thriniaeth (targeted 21 diwrnod)

- Cyrhaeddodd 83% o gleifion radiotherapi'r targeted atgyfeirio a thriniaeth (targeted 7 diwrnod)

### Siart SPC Cleifion radiotherapi wedi'u hamserlennu a gafodd eu trin o fewn 21 diwrnod (Targeted 100%)




- Cyrhaeddodd 100% o gleifion radiotherapi'r targeted atgyfeirio a thriniaeth (targeted 1 diwrnod)

- Cyrhaeddodd 94% o gleifion radiotherapi'r targeted diwrnod dewisol (targeted 14 diwrnod)

Mae perfformiad Radiotherapi yn GCF yn cymharu'n ffafriol â pherfformiad mewn Canolfannau eraill yng Nghymru.

### Siart SPC cleifion radiotherapi brys a gafodd eu trin o fewn 7 diwrnod (targeted 100%)






### Cynnydd: Therapi Gwrth-Ganser Systemig (SACT)

Yn 2024/25, gwelsom gynnydd yn y galw (tua 10%) am wasanaethau SACT. Arweiniodd hyn at her sylweddol yn ystod y flwyddyn o ran gallu darparu digon o gapasiti i ddiwallu'r galw. O ganlyniad i fenter wella barhaus dan arweiniad y weithrediaeth a oedd yn canolbwyntio ar gyflawni SACT, mae'r perfformiad wedi gwella'n sylweddol. Cefnogwyd hyn gan achos

busnes i gynyddu'r capasiti ar gyfer asesiad cyn-SACT, fferyllfa, darpariaeth SACT a recriwtio cysylltiedig i drawsnewid y model gofal o'i ddarparu gan ymgynghorydd i'w arwain gan ymgynghorydd.

- Cafodd 100% o gleifion brys eu trin o fewn y targed (5 diwrnod)
- Cafodd 91% o gleifion nad oeddent yn rhai brys eu trin o fewn y targed (21 diwrnod)

### Siart SPC cleifion SACT nad yw'n argyfwng o fewn 21 diwrnod (Targed 98%)



## Cynnydd: targed gwasanaethau diogel a dibynadwy

**Heintiau a Gafwyd yn yr Ysbyty:** Rydym wedi parhau i gadw at ein cyfraddau isel o heintiau a gafwyd yn yr ysbyty. Mae gennym bolisi dim goddefgarwch o ran heintiau a gafwyd yn yr ysbyty, fel MRSA. Ein nod yw


peidio â gweld unrhyw heintiau o'r fath yn ein cleifion mewnol dros gyfnod o unrhyw flwyddyn. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod hefyd y gall ein cleifion mewnol fod yn arbennig o agored i haint oherwydd natur y triniaethau maen nhw'n eu cael a'u cyflwr corfforol.

Canolfan Ganser Felindre	Ion 24	Chwe 24	Maw 24	Ebr 24	Mai 24	Meh 24	Gor 24	Aws 24	Medi 24	Hyd 24	Tach 24	Rhag 24	Ion 25	Chwe 25	Maw 25
C.diff	0	0	0	0	0	0	0	1	0	1	0	1	0	0	0
MRSA	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
MSSA	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
E.coli	0	0	0	0	0	0	0	0	0	1	0	0	0	0	0
Klebsiella	0	0	0	0	0	1	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Pseudo Aerugi	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Gram Neg	0	0	0	0	0	1	0	0	0	1	0	0	0	0	0

**Briwiau Pwysu:** Mae gennym bolisi dim goddefgarwch hefyd o ran niwed i feinwe a briwiau pwysu. Eto, gall ein cleifion mewnol fod yn arbennig o agored i niwed o'r math

hwn. Roedd cydymffurfedd â'n bwndel Gofal Croen, a ddatblygwyd i leihau risg niwed i'r croen a'r feinwe ar gyfer ein cleifion mewnol, yn dangos cydymffurfedd llawn â'r targed briwiau pwysu y gellir eu hosgoi drwy'r flwyddyn.

## Briwiau pwysu yn ôl categori



- Briw pwysu – categori 1
- Briw pwysu – categori 2
- Amheuaeth o anaf i'r feinwe ddofn
- Briw pwysu heb gam penodol, hysbys




**Sgôr Rhybudd Cynnar Cenedlaethol (NEWS):**

Datblygwyd y Sgôr Rhybudd Cynnar Cenedlaethol yn wreiddiol gan Goleg Brenhinol y Meddygon a'i fwriad yw helpu i leihau nifer y cleifion y mae eu cyflyrau'n dirywio tra byddant yn yr ysbyty. Pan fydd claf yn cael ei asesu gan ddefnyddio NEWS, mae sgôr sy'n hafal i dri, neu'n fwy, yn dangos y gallent fod mewn mwy o berygl o ddatblygu cymhlethdodau.

Yng Ngwasanaeth Canser Felindre, rydym yn defnyddio'r Sgôr Rhybudd Cynnar Cenedlaethol i

benderfynu a yw ein cleifion mewn mwy o berygl o gymhlethdodau sy'n gysylltiedig â sepsis niwtropenig. Mae'r cleifion hynny yr ystyrir eu bod mewn mwy o berygl yn cael y bwndel 'Chwe Phrawf Sepsis' (cyfuniad o dair triniaeth wahanol a thri phrawf) wedi'i roi iddynt o fewn amser penodol. Mae'r graff isod yn dangos ein bod wedi cyflawni ein targed o drin 100% o gleifion Sepsis o fewn awr yn gyson neu wedi'i fethu o drwch blewyn.

**Siart SPC Triniaeth Sepsis o fewn 1 awr (Targed 100%)**





96%

ar gyfer 'Fyddech chi'n ein hargymell ni?'



94%

ar gyfer 'Eich profiad chi yn Felindre'

### Cynnydd: Profiad y Claf

Mae adborth ein cleifion yn gadarnhaol ar y cyfan. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gweithio i wella'r ffordd y mae'n casglu a derbyn adborth gan y rheiny sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Mae gwaith i ddeall beth yw'r ffordd orau o gasglu adborth, nodi themâu a defnyddio'r wybodaeth hon i helpu cleifion i wella yn hanfodol. Defnyddir dau arolwg yng Ngwasanaeth Cancer Felindre – 'A fydddech chi'n ein hargymell ni?' ac 'Eich Profiad yn Felindre'. Mae Eich Profiad yn

Felindre yn defnyddio 0-10 yn y cwestiwn am raddio Gwasanaeth Cancer Felindre, tra bod 'A fydddech chi'n ein hargymell ni?' yn defnyddio Da iawn, da ac ati.

Roedd cleifion yng Ngwasanaeth Ganser Felindre yn gyson yn sgorio eu profiad eu hunain yn dda iawn, gan sgorio cyfartaledd o 96% ar gyfer 'Fyddech chi'n ein hargymell ni?' hyd at gyfartaledd o 94% ar gyfer 'Eich profiad chi yn Felindre'. Mae pwysigrwydd dysgu oddi wrth adborth cleifion yn parhau i fod yn holl bwysig wrth ddatblygu ein gwasanaethau.

Canolfan Ganser Felindre	Ion 24	Chwe 24	Maw 24	Ebr 24	Mai 24	Meh 24	Gor 24	Aws 24	Medi 24	Hyd 24	Tach 24	Rhag 24	Ion 25	Chwe 25	Maw 25
% Fyddech chi'n ein hargymell ni?	89	97	96	92	93	98	98	96	95	97	97	98	95	94	96
% Eich Profiad Chi yn Felindre?	98	94	94	92	96	93	96	96	88	93	91	94	97	93	97
Targed CIVICA 85%	85	85	85	85	85	85	85	85	85	85	85	85	85	85	85





# Perfformiad Gwasanaeth Gwaed Cymru

## Trosolwg

Roedd perfformiad yn ystod 2024/25 yn debyg i dueddiadau cyffredinol ar draws Cynghrair Gwaed Ewrop ac yn adlewyrchu ein huchelgais parhaus i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl. Ategwyd hyn gan ymroddiad ein staff ac effeithiolrwydd ein prosesau cynllunio a gweithredol, a'n galluogodd i fodloni gofynion gwasanaeth yn gyson drwy gydol y flwyddyn.


Casglom gyfanswm o 82,105 o roddion, gan gynnwys gwaed cyflawn a phlatennau. O'r rhain, rhoddwyd 73,259 o unedau celloedd coch a 9,326 o gyfansoddion platennau - a gafwyd o roddion gwaed cyflawn ac afferesis - i ysbytai ledled Cymru. Mae'r ffigurau hyn yn tynnu sylw at ein gallu i gynnal cadwyn gyflenwi ddibynadwy ac ymatebol i gefnogi gofal cleifion. Mae meysydd nad ydynt yn cyrraedd y lefelau penodedig wedi bod yn destun craffu, ac yn parhau i fod yn destun craffu, a chymerir camau i wella. Isod, rydym yn archwilio ein perfformiad yn 2024/25 yn fwy manwl.

## Cynnydd yn erbyn: Bodloni'r galw clinigol am gelloedd coch y gwaed a phlatennau

Drwy gydol 2024/25, gwnaeth Gwasanaeth Gwaed Cymru fodloni'r holl alw clinigol am Gelloedd Coch y Gwaed a Phlatennau gan ein hysbytai sy'n gwsmeriaid ledled GIG Cymru. Mae hyn yn ganlyniad cyfathrebu dyddiol rhwng Gwasanaethau Rhoi Gwaed a Gwasanaethau Trallwys Gwaed sy'n galluogi ymatebion hyblyg i amrywiadau mewn lefelau stoc ac anghenion gwasanaeth a gweithio'n agos gyda'n hysbytai sy'n gwsmeriaid.

Mae'r graff yn dangos canran y celloedd coch a gynhyrchwyd o gymharu â'r nifer a roddwyd i ysbytai rhwng mis Ionawr 2024 a mis Mawrth 2025. Mae cyfnodau lle mae'r ganran yn fwy na 100% yn dangos bod cynhyrchiant wedi rhagori ar y galw, gan ganiatáu ar gyfer cronni stoc. Mae cronni stoc yn hanfodol, gan ei fod yn darparu gwydnwch yn ystod misoedd pan fydd cynhyrchiant yn gostwng o dan 100%. Yn nodedig, mae'r ddau achlysur pan ostyngodd y ganran islaw'r targed o 100% yn cyd-fynd â chyfnodau gwyliau banc - adegau pan fydd llai o weithgarwch casglu fel arfer. Mae'r gallu i ddefnyddio stoc a gronnyd yn flaenorol yn ystod y cyfnodau hyn yn dangos effeithiolrwydd ein cynllunio er mwyn cynnal cyflenwad parhaus.


Casglom gyfanswm o



**82,105**

o roddion, gan gynnwys gwaed cyflawn a phlatennau

O'r rhain



**73,259**

o unedau celloedd coch




**9,326**

o gyfansoddion platennau


a gafwyd o roddion gwaed cyflawn ac afferesis - i ysbytai ledled Cymru



## Cais Celloedd Coch wedi'i Gyflawni



## % Cyflenwad Platennau wedi'i Gyflawni



Mae perfformiad rhoddwyr yn ystod 2024/25 wedi dangos cynnydd calonogol, yn enwedig o ran denu a chadw rhoddwyr newydd. Gwnaed cyfanswm o 7,265 o roddion gan unigolion a oedd yn rhoi gwaed am y tro cyntaf - cynnydd o 710 o roddion o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd y cyfraniadau hyn gan roddwyr newydd yn cyfrif am 8.85% o'r holl gasgliadau, ac roedd rhoddwyr newydd yn ffurfio 14.68% o gyfanswm y rhoddwyr gwaed. Mae'r gwelliannau hyn yn adlewyrchu llwyddiant ymdrechion ymgysylltu parhaus ac yn tynnu sylw at bwysigrwydd recriwtio rhoddwyr newydd wrth gynnal cyflenwad gwaed gwydn ac ymatebol ar gyfer GIG Cymru.

### Cynnydd yn erbyn: Tyfu ein cofrestr mêr esgyrn

Mae Cofrestr Rhoddwyr Mêr Esgyrn Cymru (WBMDR) yn rhan o Wasanaeth Gwaed Cymru o dan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Mae WBMDR yn darparu panel o roddwyr gwirfoddol sy'n cael eu recriwtio o'r panel rhoddwyr gwaed neu drwy swab boch mewn digwyddiadau recriwtio sy'n fodlon rhoi bôn-gelloedd i'w defnyddio'n bennaf mewn trawsblaniad bôn-gelloedd fel triniaeth ar gyfer canser y gwaed. Gall rhoddwyr cymwys ymuno â'r panel gwirfoddolwyr bôn-gelloedd rhwng 16 a 30 oed os ydynt o ethnigrwydd Cawcaidd a rhwng 16 a 45 oed os ydynt o ethnigrwydd arall. Mae rhoddwyr yn aros ar y panel tan eu pen-blwydd yn 61 oed.


Ar hyn o bryd, mae ein cofrestr yn cynnwys mwy na 75,000 o roddwyr gwirfoddol. Y targed recriwtio yw 4,000 y flwyddyn. Ni chyrrhaeddwyd y targed yn 2023/2024 (gwirioneddol – 3,341) ond rhagorwyd arno yn 2024-2025 wrth i 5,765 o roddwyr gael eu recriwtio yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i gychwyn ymgyrch swabio bochau fwy rhagweithiol mewn sefydliadau addysgol a digwyddiadau eraill.

Mae'r ystodau oedran recriwtio rhoddwyr yn adlewyrchu'r data cyfredol a oedd yn dangos bod rhoddwyr iau yn darparu trawsblaniad mwy effeithiol yn glinigol a chanlyniad gwell i gleifion. Fodd bynnag, er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg amrywiaeth ethnig ymhlith y panel rhoddwyr bôn-gelloedd gwirfoddol, cytunwyd ar ystod oedran ehangach i roddwyr o leiafrifoedd ethnig ymuno â'r panel i fynd i'r afael â'r diffyg hwn a'r angen heb ei ddiwallu mewn trawsblaniadau ar gyfer y grwpiau cymunedol hyn.

Hyd yn hyn, mae Cofrestr Rhoddwyr Mêr Esgyrn Cymru wedi cyflenwi dros 1500 o gynhyrchion celloedd ar gyfer trawsblaniadau cleifion yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol ac wedi mewnfario dros 650 o gynhyrchion celloedd o gofrestrfeydd eraill yn y Deyrnas Unedig neu rhyngwladol ar gyfer trawsblaniadau cleifion o Gymru yn Ysbyty Prifysgol Cymru, Caerdydd.

Mae Cofrestr Rhoddwyr Mêr Esgyrn Cymru yn cymryd cyfrifoldeb am gasglu neu fewnfario cynhyrchion celloedd ar gyfer trawsblaniadau cleifion yng Nghymru.

### Nifer y Gwirfoddolwyr Newydd yn y Gofrestr Ddonorau Meddal (WBMDR) sy'n 17-30 oed a Recriwtiwyd y Mis (4000 y flwyddyn yn gronnu)



Mae Cofrestr Rhoddwyr Mêr Esgyrn Cymru yn cynrychioli 3% o gronfa rhoddwyr y Deyrnas Unedig - dros 2 filiwn o roddwyr ar draws pedair cofrestr - ac mae ganddi'r mynegai casglu uchaf yn eu plith. Mae'n gyson yn cael ei graddio'n uchel mewn meincnodau rhyngwladol fel Adroddiad Tueddiadau Byd-eang Cymdeithas Rhoddwyr Mêr y Byd (WMDA) ac Adroddiad Cofrestrfa Fyd-eang Unol Daleithiau America Rhaglen Rhoddwyr Mêr Genedlaethol (NMDP). Yn ddiweddar, pasiodd Cofrestrfa Rhoddwyr Mêr Esgyrn Cymru arolygiadau gan yr Awdurdod Meinweoedd Dynol (HTA) a Chymdeithas Rhoddwyr Mêr Esgyrn y Byd ac mae'n parhau i fod yn ganolfan rhoddwyr weithredol ar gyfer y Rhaglen Rhoddwyr Mêr Esgyrn Genedlaethol. Mae hefyd ar y trywydd iawn i gyflawni cofrestriad â'r Cydbwyllgor Achredu a'r Gymdeithas Ryngwladol ar gyfer Therapi Celloedd a Genynnau ac achrediad y Gymdeithas Ewropeaidd ar gyfer Trawsblannu Gwaed a Mêr Esgyrn (JACIE) yn yr haf 2025, yn dilyn arolygiad cyntaf llwyddiannus a chwblhau'r holl gamau cywirol gofynnol.

### Cynnydd yn erbyn: Bodloni ceisiadau am wasanaethau trawsblannu


Mae ein targed blynyddol ar gyfer nifer y casgliadau bôn-gelloedd a ddisgwylir mewn unrhyw gyfnod o 12 mis yn cael ei osod ar ddechrau'r flwyddyn; ar gyfer 2024/25, y targed hwn oedd 80 o gasgliadau.

Mae sawl ffactor amrywiol yn dylanwadu ar nifer y casgliadau bôn-gelloedd bob mis. Ar ôl prawf cadarnhau cychwynnol, mae'r ganolfan drawsblannu yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â rhoddwr yn seiliedig ar baru genetig, argaeledd a pharodrwydd y rhoddwr, a chyflwr a chynllun triniaeth y derbynnydd. Mae'r ffactorau hyn i gyd yn effeithio ar nifer derfynol y casgliadau. Ar hyn o bryd, mae cyfradd ganslo gyfartalog y Deyrnas Unedig ar gyfer casgliadau bôn-gelloedd dros 35%.

Gostyngodd perfformiad casglu bôn-gelloedd yn ystod y cyfnod hwn yn sylweddol islaw'r targed, yn bennaf oherwydd cyfraddau canslo uchel - a achosir yn aml gan broblemau iechyd cleifion neu argaeledd rhoddwyr - a diffyg o ran nifer y rhoddwyr cofrestredig. I ddiwallu'r galw, mae angen panel o 123,000 o roddwyr, ond dim ond 73,500 sydd ar y panel presennol.

Er mwyn ymateb i hyn, mae Cofrestr Rhoddwyr Mêr Esgyrn Cymru wedi rhoi cyfres o gamau gweithredu ar waith trwy ei Fframwaith Rheoli Perfformiad. Mae'r rhain yn cynnwys strategaeth newydd i ymgysylltu â rhoddwyr, a chyfres o ddigwyddiadau swabio boch gyda'r nod o ehangu'r panel rhoddwyr. Y nod yw tyfu'r sylfaen rhoddwyr ymroddedig, gan helpu i gau'r bwlch a gwella perfformiad casglu yn y dyfodol.

### Nifer y casgliadau celloedd ynni a gynhelir eleni, a ymchwiliwyd yn erbyn y targed misol cymulatedig





## Cynnydd yn erbyn: Lleihau gwastraff oherwydd bod dyddiad defnyddio celloedd coch a plattennau wedi dod i ben


Mae alinio'r cyflenwad cyfansoddion gwaed â galw ysbytai yn gymhleth oherwydd oes silff gyfyngedig. Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn gosod targedau dod i ben misol o  $\leq 1\%$  ar gyfer celloedd coch (oes silff o 35 diwrnod) a  $\leq 10\%$  ar gyfer plattennau (oes silff o 7 diwrnod). Yn 2024/25, arhosodd nifer y celloedd coch sy'n dod i ben yn gyson islaw'r targed o 1%, gan adlewyrchu rheolaeth gref ar y gadwyn gyflenwi a pherfformiad gwasanaeth rhagorol. Roedd y cyflawniad hwn yn golygu bod y gwasanaeth ymhlith y perfformwyr gorau o gymharu â gwasanaethau gwaed Ewropeaidd eraill.

Roedd amser dod i ben plattennau i raddau helaeth o fewn ein goddefiant targed yn ystod y flwyddyn


adrodd. Fodd bynnag, roedd chwe mis pan aethom dros y trothwy goddefiant targed gyda pherfformiad cyfartalog o 12.7%, a dangoswyd gwelliant sylweddol yn hanner olaf y flwyddyn. Rydym yn parhau i ganol-bwyntio ar ddarparu gwasanaethau ac wedi datblygu'r camau gweithredu canlynol i sicrhau ein bod yn parhau i wella'r gwasanaeth a lleihau gwastraff.

- Monitro oedran stoc yn ddyddiol yn ystod y cyfar fodydd dyddiol rhwng Gwasanaethau Rhoddwyr a'r Gwasanaethau Trallwys.
- Mae Strategaeth Plattennau Gwasanaeth Gwaed Cymru yn cael ei datblygu sy'n cynnwys argymhellion i wella'r aliniad rhwng cynhyrchu plattennau a'r galw amdanynt.
- Rydym yn datblygu offeryn rhagweld i lywio pen derfyniadau ynghylch gweithgynhyrchu plattennau cyfun.

### % y celloedd coch y mae eu cyfnod wedi dod i ben



### % y plattennau y mae eu cyfnod wedi dod i ben




## Cynnydd yn erbyn: Rhoddion cyfan o waed cyflawn

Bag rhannol yw'r term a ddefnyddiwn i ddisgrifio rhodd gwaed cyflawn o lai na 420ml o waed ac nad yw felly'n ymarferol ar gyfer defnydd clinigol ac sy'n cael ei ddiystyru. Mae nifer o resymau pam y gallai fod angen stopio rhodd cyn i'r cyfaint angenrheidiol o waed gael ei gasglu. Mae'r rhesymau hyn yn cynnwys techneg tynnu gwaed, y rhoddwyr yn teimlo'n sâl neu fethiant yr offer. Ein targed presennol yw sicrhau ein

bod yn casglu llai na'r uchafswm o roddion gwaed mewn bagiau rhannol o 3% ac yn ystod 2024/25 rydym yn falch o adrodd bod canran y bagiau rhannol a gasglwyd bob mis wedi aros yn gyffredinol islaw'r trothwy o 3%. Fodd bynnag, ym mis Mawrth 2025, roedd canran y bagiau rhannol a gasglwyd ychydig yn uwch na'r targed, gan gyrraedd 3.1%. Er gwaethaf y perfformiad rhagorol hwn, bydd Gwasanaeth Gwaed Cymru yn parhau i foderneiddio ein gwasanaeth ac yn ymdrechu i leihau nifer y bagiau rhannol lle bynnag y bo modd.

## % Bagiau Annigonol



## Cynnydd yn erbyn: tynnu gwaed yn aflwyddiannus

Mae tynnu gwaed yn aflwyddiannus yn cyfeirio at roddwyr sydd wedi cyrraedd y gadair roi ond er gwaethaf ymgais i dynnu gwaed y rhoddwr, nid oes unrhyw waed yn mynd i mewn i'r bag. Mae nifer o resymau pam y gall hyn ddigwydd. Yn aml, gallai hyn fod o ganlyniad i wythiennau rhoddwr anhygyrch, techneg tynnu gwaed gwael neu'r offer yn methu. 2% yw ein trothwy goddefiant ar hyn o bryd ar gyfer yr holl roddwyr lle cychwynnir rhoi gwaed, ond mae'r ymgais i dynnu gwaed yn methu. Roeddem yn gweithio'n rhagorol ac yn gyson o fewn targed y lefelau goddefiant yn ystod 2024/25. Er gwaethaf perfformiad cryf yn y maes hwn, bydd GGC yn parhau i foderneiddio ein gwasanaeth ac yn ymdrechu i leihau nifer yr achosion o dynnu gwaed yn aflwyddiannus lle bynnag y bo modd.


## Cynnydd yn erbyn: targed o brofiad o'r radd flaenaf i'r rhoddwyr

Mae pwysigrwydd dysgu o adborth rhoddwyr yn parhau i fod o'r pwys mwyaf i ddatblygiad parhaus ein gwasanaethau. Yn ystod 2024/25, mae Gwasanaeth Gwaed Cymru wedi parhau i weithio'n galed i wella systemau a phrosesau yn ymwneud â rheoli pryderon i sicrhau y caiff adborth gan roddwyr a defnyddwyr gwasanaeth ei reoli mewn modd amserol ac effeithiol, gan sicrhau y caiff gwersi eu dysgu ac y caiff gwelliannau i'r gwasanaeth eu nodi a'u gweithredu. Mae hyn wedi arwain at adborth rhagorol gan roddwyr sydd wedi cyrraedd ein targed yn gyson






### Gwythïen-bigo aflwyddiannus



### Bodddhad y rhoddwyr - Rhoddwr a sgoriodd 5 neu 6 o 6 gyda'u profiad rhoi 'cyfan' ar ôl iddynt gael eu cofrestru ar y clinig



# Cyd-destun, cyfleoedd a risgiau gwasanaeth yn y dyfodol

## Gwasanaeth Canser Felindre

### Cyd-destun

Mae pob cofrestrfa cancer yn y Deyrnas Unedig a sefydliadau ymchwil eraill fel Ymchwil Canser Cymru yn amcangyfrif y bydd nifer yr achosion o ganser yn parhau i godi 2% flwyddyn ar ôl blwyddyn, ac mae hyn wedi bod yn wir ers peth amser. Bydd rhai mathau o ganser, yn enwedig canserau sy'n gysylltiedig ag oedran, yn cynyddu'n sylweddol uwchlaw'r amcangyfrif eang o 2%. Yn sgil y cynnydd a ragwelir a phoblogaeth sy'n heneiddio a thriniaethau mwy cymhleth yn cael eu cymeradwyo, mae hyn yn creu risg a chyfleoedd a fydd yn cael eu harchwilio isod. Mae llawer o'r datrysiadau / camau lliniaru wedi'u nodi yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig yr Ymddiriedolaeth.

#### • Risg Galw a Chamau Lliniaru

Mae nifer y cleifion cancer sy'n cael eu hatgyfeirio i Wasanaeth Canser Felindre yn cynyddu, ac mae hyn yn arwain at gynnydd yn y galw yn yr adran. Disgwylir y bydd gweithgarwch Radiotherapi yn codi 6%, SACT 10% a Chleifion Allanol 10%.

#### Camau Lliniaru'r Ymddiriedolaeth

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymateb i'r heriau hyn drwy'r canlynol:

- (i) Sicrhau bod ei strwythur rheoli adrannol yn addas i'r diben gydag arweinyddiaeth feddygol, glinigol a gweithredol gryfach.
- (ii) Mae'n gweithredu olrheiniwr cleifion ac yn defnyddio data i sbarduno effeithlonrwydd ar draws y Llwybr Canser.
- (iii) O ran Radiotherapi, mae cyflwyno System Radiotherapi Integredig wedi darparu triniaethau newydd a hefyd effeithlonrwydd triniaeth a gweithio di-bapur sydd wedi gwella llif gwaith ac awdurdodi.

#### • Triniaethau Mwy Cymhleth

Mae arloesi a newid clinigol a thechnolegol mewn gwasanaethau cancer yn digwydd yn gyflym. Gwyddom fod datblygiadau newydd mewn meddyginiaethau wedi'u personoli (Triniaethau SACT) ar y gorwel. Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) wedi cymeradwyo'r defnydd o driniaethau Bio-benodol gyda mwy i ddod yn y dyfodol agos. Gallai rhai o'r triniaethau modern hyn arwain at fwy o sgil-ffeithiau andwyol a bydd hyn yn golygu y bydd angen i'r Ymddiriedolaeth ddylunio ei gwasanaethau i ddarparu ar gyfer rhoi'r triniaethau newydd hyn.

#### Camau Lliniaru'r Ymddiriedolaeth

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymateb i'r heriau hyn drwy'r canlynol:

- (i) Mae gan yr Ymddiriedolaeth grŵp Therapiau Datblygedig wedi'i hen sefydlu sy'n paratoi ar gyfer rhoi'r cyffuriau newydd hyn.
- (ii) Mae adran Treialon Clinigol yr Ymddiriedolaeth yn ymwneud â nifer o dreialon a fydd, gobeithio, yn cael eu cymeradwyo gan NICE. Mae hyn yn rhoi golwg dda o'r gorwel i'r Ymddiriedolaeth a rhybudd ymlaen llaw.
- (iii) Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio'n agos gyda Phrifysgol Caerdydd a Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro mewn ymdrechion ymchwil cydweithredol a bydd yn aelod o Bartneriaid Iechyd Caerdydd (CHP).




## • Cyflenwad Gweithlu

Gan fod nifer yr achosion o ganser yn cynyddu ac yn trosi'n alw, bydd yr Ymddiriedolaeth yn ceisio cynyddu effeithlonrwydd i'r eithaf a datblygu ei gweithlu presennol. Mae'n hanfodol bod yr Ymddiriedolaeth yn cynnal gweithlu gwydn, yn enwedig mewn meysydd arbenigedd, a'i bod yn gallu tyfu ei gweithlu pan fydd angen ehangu. Enghraifft dda yw Uned Radiotherapi Felindre @ Nevill Hall.

### Camau Lliniaru'r Ymddiriedolaeth

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymateb i'r heriau hyn drwy'r canlynol:

- (i) Defnydd mwy effeithiol o gynllunio'r gweithlu ar lefel adrannol.
- (ii) Datblygu pecynnau recriwtio arbenigol sy'n manteisio ar yr Ysbyty Canser newydd, Uned Radiotherapi Felindre @ Nevill Hall, y Datrysiad Radiotherapi Integredig.
- (iii) Hysbysebu mewn cyfnodolion a gweithio'n agos gyda Sefydliadau Addysg Uwch.



# Gwasanaeth Gwaed Cymru

Mae'r her o sicrhau bod gennym ddigon o roddwyr o'r grŵp cywir i ateb ein galw yn un sy'n cael ei phrofi gan wasanaethau gwaed yn fyd-eang gyda phoblogaeth sy'n heneiddio, mwy o deithio i wledydd lle gall rhoddwyr fod yn agored i glefyd a gludir yn y gwaed a phobl â bywydau prysur.

## • Cwrdd â'r Galw a Datblygu'r Gwasanaeth

Mae cysoni galw amrywiol ysbytai â chyflenwad cydrannau gwaed, yn enwedig y rhai ag oes silff gyfyngedig, yn her.

Mae'r defnydd cynyddol o imiwnotherapi a gwell cydymffurfedd â chanllawiau cenedlaethol yn cynyddu'r galw am brofion gwaed cyfeirio arbenigol a ddarperir gan labordy Imiwnohaematoleg Celloedd Coch (RCI) Gwasanaeth Gwaed Cymru. Mae'r angen am wasanaeth hwn yn cynyddu ac efallai na fydd yn gynaliadwy o dan y trefniant comisiynu presennol. Mae adolygiad gweithlu gweithredol ar y gweill i nodi gwelliannau mewn capasiti gwyddonol.

Disgwylir i'r galw am roddion bôn-gelloedd a gwasanaethau imiwnoleg trawsblaniadau gynyddu hefyd oherwydd deddfwriaeth cydsyniad tybiedig ledled y DU a mwy o ddefnydd o driniaethau bôn-gelloedd.

## • Parhau i gydymffurfio â Chanllawiau a Rheoliadau Dethol Gwaed Llym

Mae newidiadau mewn gwyddoniaeth, technoleg a ffyrdd o weithio yn golygu bod y gwasanaeth a'r gofynion rheoliadol ar gyfer gwasanaethau gwaed yn datblygu ac yn esblygu'n barhaus.

Yn ogystal â hyn, mae newidiadau rheolaidd i Ganllawiau Dewis Rhoddwyr (DSGs) a chanllawiau Cyd-bwyllgor Cyngori Proffesiynol ar Wasanaethau Trallwys Gwaed a Thrawsblannu Meinweoedd y DU (JPAC) ar gyfer y Guidelines for the Blood Transfusion Services in the United Kingdom (Red Book) (Saesneg yn unig).

Derbyniodd y gwasanaeth yr allbynnau a'r argymhellion o'r Ymchwiliad Gwaed Heintiedig (IBI) ym mis Mai 2024, ac mae cynrychiolwyr Gwasanaeth Gwaed Cymru a'r Grŵp Goruchwylio Cenedlaethol Iechyd Gwaed (BHNOG) yn ymwneud â gwahanol grwpiau yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Grŵp Goruchwylio Ymchwiliad Gwaed Heintiedig Llywodraeth Cymru, sy'n arwain ar yr ymateb i'r argymhellion yng Nghymru.

## • Gwyddoniaeth a Thechnoleg sy'n Newid

Mae datblygiadau mewn dealltwriaeth wyddonol a meddygol o darddiad a rheolaeth afiechydon, ynghyd â datblygiadau technolegol ategol ehangach, yn darparu cyfleoedd niferus i newid llifoedd gwaith gweithredol, arbedion a'r gwasanaethau a ddarperir gan GGC. Mae hyn yn cynnwys Dilyniannu'r Genhedlaeth Nesaf (NGS) a Chynhyrchion Meddyginiaethol Therapi Uwch (ATMPs).

Yn ystod 2024/25, parhaodd Gwasanaeth Gwaed Cymru i 'sganio'r gorwel' a chefnogi Llywodraeth Cymru a GIG Cymru i ddatblygu strategaethau i hwyluso mabwysiadu'r therapiau ATMP newydd hyn. Trwy Therapiau Datblygiedig Cymru, gweithiodd GGC yn agos gyda sefydliadau GIG Cymru, y sector preifat a'r trydydd sector i wneud argymhellion ar weithgareddau wedi'u blaenoriaethu sy'n ofynnol ar gyfer cyflwyno menter o'r fath.


Mae technoleg awtomataidd yn esblygu'n gyflym ym maes gweithgynhyrchu a phrofi cyfansoddion gwaed ac mae GGC yn archwilio potensial y technolegau hyn gan gynnwys genoteipio celloedd coch.

Mae datblygiadau fel dadansoddi data yn seiliedig ar ddeallusrwydd artiffisial, a rhoi gweithdrefnau cyffredin gwell trwy realiti estynedig ar waith, sy'n cynyddu llif ac ansawdd, yn dileu camgymeriadau ac yn amlgu problemau'n gynt ac yn gost effeithiol. Bydd mabwysiadu'r technegau hyn yn galluogi datblygiadau pellach o ran effeithlonrwydd ac ansawdd ein gwasanaethau.

## • Cyflenwad Gweithlu

Rhaid i GGC ymateb i'r datblygiadau hyn o ran ei weithlu ei hun ond hefyd yn ei rôl wrth hyfforddi'r gweithlu gwyddonol presennol ac yn y dyfodol ar gyfer GIG Cymru trwy gynorthwyo darpariaeth ar gyfer israddedigion a'i allgymorth anffurfiol a ffurfiol i gefnogi cydweithwyr y GIG.

Mae strategaethau addysg sy'n cefnogi cynllunio dilyniant ac sy'n datblygu gweithlu sy'n hyblyg ac yn ymatebol i'r trawsnewidiad yn cael eu datblygu, yn ogystal â strategaethau addysg sy'n ategu'r gofynion am sgiliau newydd, sy'n dod i'r amlwg.



Yn ystod 2024/25, parhaodd Gwasanaeth Gwaed Cymru i 'sganio'r gorwel' a chefnogi Llywodraeth Cymru a GIG Cymru i ddatblygu strategaethau i hwyluso mabwysiadu'r therapiau ATMP newydd hyn.

# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Roedd yn ofynnol i'r Ymddiriedolaeth, a gydnabyddir o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 fel corff cenedlaethol, ddatblygu a chyhoeddi set o'i hamcanion llesiant ei hun. Datblygwyd yr amcanion hyn yn 2015 a'u bwriad oedd canolbwyntio ar gyfraniad yr Ymddiriedolaeth at wireddu'r nodau llesiant cenedlaethol.

Mae Amcanion Llesiant yr Ymddiriedolaeth wedi cael eu diwygio yn 2024 yn dilyn ymgysylltiad helaeth yn fewnol ac yn allanol, er mwyn iddynt gyd-fynd yn well ag anghenion ein staff a'n cleifion, a Strategaethau diwygiedig yr Ymddiriedolaeth. Yn dilyn ymgysylltu ac ymgynghori, mae mwy o ffocws ar lesiant staff a chreu swyddi yng Nghymru yn ein Hamcanion Llesiant.

Er ein bod yn cydnabod bod yn rhaid i ni wneud llawer mwy, mae'n bwysig cydnabod cyflawniadau'r sefydliad hyd yma a'r cryfderau y gall dynnu arnynt wrth inni dyfu yn gymuned gynaliadwy gyda'n gilydd.

- Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru wrthi'n datblygu achos busnes uchelgeisiol i leihau ôl troed carbon safle Tonysguboriau. Un o amcanion allweddol ac uchelgeisiol y Rhaglen hon yw trosglwyddo i ôl troed carbon niwtral ar gyfer yr adeilad. Cyflawnir hyn trwy roi mwy o ffocws ar ddefnyddio technolegau adnewyddadwy, araeau ffotofoltäig solar, pypiau gwres o'r ddaear a'r aer a boeleri biomas.
- Mae prosiect Canolfan Ganser Felindre newydd yn hyrwyddo datblygiadau cynaliadwy, fel integreiddio trafnidiaeth gynaliadwy i ddyluniad yr ysbyty newydd yn yr Eglwys Newydd ac annog y defnydd o deithio cynaliadwy.
- Rydym wedi gweithio mewn ffordd integredig i ddylunio a datblygu rhaglenni Dyfodol Felindre a Gwasanaeth Gwaed Cymru er mwyn ystyried sut gall y rhaglenni hyn ddarparu manteision ehangach wrth i'r rhaglen fynd rhagddi er mwyn sicrhau ei bod yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol. Rydym hefyd yn cydweithredu â sefydliadau partner ledled Deddyrain Cymru i ddatblygu a gwella gwasanaethau canser.

## Ein Hamcanion Cydraddoldeb

Rydym wedi ymgynghori ac ymgysylltu â chleifion, staff, partneriaid, sefydliadau cydraddoldeb a rhanddeiliaid eraill ar y cyd â Phartneriaeth Cydraddoldeb Cyrff Cyhoeddus Cymru ac wedi gofyn iddynt beth yw eu barn am flaenoriaethau cydraddoldeb yr Ymddiriedolaeth.

Rydym wedi nodi pa ymchwil a gwybodaeth oedd eisoes ar gael i helpu i ddatblygu'r amcanion, ac wedi cynnal arolwg o gleifion, staff, partneriaid, sefydliadau cydraddoldeb a'r trydydd sector a grwpiau cynrychioliadol eraill i ddatblygu'r amcanion allweddol canlynol.

<b>Amcan 1:</b>	Cynyddu amrywiaeth a chynhwysiant y gweithlu, a dileu bylchau cyflog
<b>Amcan 2:</b>	Gweithio gyda'r Gymuned
<b>Amcan 3:</b>	Cyfathrebu â phobl mewn ffyrdd sy'n diwallu eu hanghenion
<b>Amcan 4:</b>	Sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn adlewyrchu anghenion unigol





Mae ein Cynllun Gwaith ar gyfer Pobl Agored i Niwed 2024/25 i 2026/27 yn canolbwyntio ar nodi a blaenoriaethu ystod o gamau gweithredu i sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu cymorth priodol i gleifion a rhoddwyr sy'n wynebu heriau penodol wrth gael mynediad at ein gwasanaethau canser a gwaed.

Mae hyn yn golygu bod gennym ddyletswydd i ystyried anghenion amrywiol yr unigolion y maent yn eu gwasanaethu, gan leihau anfantais i'r eithaf a sicrhau bod grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn cael eu cynnwys. Mae cynnal Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, lle y bo'n briodol, yn gam hanfodol yn ein proses gynllunio ar gyfer ein holl ddatblygiadau gwasanaeth allweddol er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni mewn ffordd nad yw'n gosod unrhyw glaf, rhoddwr nac aelod o staff dan anfantais yn anfwriadol.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu ystod o brotocolau a gweithdrefnau i gefnogi cleifion, rhoddwyr a staff sydd â heriau ychwanegol, fel y'u diffinnir gan y naw nodwedd warchoddedig, ac i nodi meysydd lle rydym am wella.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010, o dan ein Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus, yn golygu ei bod yn ofynnol i ni gyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol sy'n nodi ac yn cyfiawnhau amcanion y cynllun cydraddoldeb ac yn egluro sut byddwn yn eu cyflawni.

Am ragor o wybodaeth gweler y ddolen i Gynllun Cydraddoldeb Strategol yr Ymddiriedolaeth 2024 - 2028<sup>4</sup>.

### **Amcanion ein Gweithlu a Gwerthoedd yr Ymddiriedolaeth**

Yn ystod 2024 / 2025, ymgorfforwyd Gwerthoedd yr Ymddiriedolaeth ym mhob rhan o fywyd gwaith staff craidd, o recriwtio, trwy weithgareddau datblygiad proffesiynol i danategu sut rydym yn ymwneud â'n gilydd. O ran datblygu staff, maent yn darparu'r fframwaith ar gyfer ein rhaglen sefydlu 'Croeso' a'n Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth a Rheolaeth 'Ysbrydoli'.

<sup>4</sup> <https://velindre.nhs.wales/about-us/publications/strategic-documentation/strategic-equality-plan-and-objectives-2024-2028/>

O ran darparu gwasanaethau, fe'u defnyddiwyd fel pwynt cyfeirio yn ein gwaith o fewn Cynllun Tymor Canolig Integredig yr Ymddiriedolaeth. Mae'r gwerthoedd hyn yn ganolog i'r hyn a wnawn.



### Gofalgar

Rydym bob amser yn garedig, yn gefnogol, yn hawdd mynd atynt ac yn dangos tosturi at bawb.



### Parchus

Rydym yn ceisio deall safbwyntiau pobl eraill. Rydym bob amser yn agored ac yn dryloyw.



### Atebol

Rydym bob amser yn cymryd cyfrifoldeb personol am beth rydym yn ei wneud a sut rydym yn ei wneud.

Rydym yn gwerthfawrogi ein staff ac yn cydnabod eu bod yn flaenoriaeth allweddol i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel yn llwyddiannus. Ein nodau, felly, yw parhau i ddatblygu ein gweithlu trwy:

- Gefnogi llwybrau gyrfa
- Datblygu sgiliau arwain ein staff
- Rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau y mae eu hangen ar ein staff yn awr ac yn y dyfodol
- Cefnogi llesiant ein staff
- Cydnabod a gwerthfawrogi amrywiaeth ein staff fel rhan o ddiwylliant dwyieithog a sicrhau bod yr holl staff yn gallu bod yn nhw eu hunain a gweithio mewn amgylchedd sy'n cefnogi ac yn gwerthfawrogi gwahaniaeth.

Mae ein huchelgeisiau strategol yn adeiladu ar ein sylfaen gref fel cyflogwr da ac maent yn hanfodol i gyflawni ein cynlluniau gwasanaeth.





### Gweledigaeth Ein Gweithlu: Dod yn Gyflogwr o Ddewis

**Pobl Fedrus a Datblygedig:** cyflogwr o ddewis i staff sydd eisoes yn cael eu cyflogi gennym, sy'n dechrau eu gyrfa yn y GIG neu'n chwilio am rôl a fydd yn cyflawni eu huchelgeisiau proffesiynol ac yn bodloni eu dyheadau personol.

**Pobl wedi'u Cynllunio a'u Cynnal:** bod â'r bobl iawn sydd â'r gwerthoedd, yr ymddygiad, y wybodaeth, y sgiliau a'r hyder iawn i ddarparu gofal sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chefnogi llesiant cleifion a rhoddwyr.

**Pobl Iach ac Ymgysylltiedig:** o fewn diwylliant o wir gynwysoldeb, tegwch a chydaddoldeb ar draws y gweithlu. Gweithlu sy'n adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth Cymru, yr iaith Gymraeg a hunaniaeth ddiwylliannol.

Dros y 12 mis diwethaf, mae cyflawniadau allweddol yn cynnwys:

- Sicrhau cyllid ar gyfer Prosiect Llesiant dwy flynedd, gan gynnwys penodi Cydlynnydd i weithio ochr yn ochr â'r Seicolegydd Clinigol ar gyfer Staff.
- Datblygu a gweithredu proses werthuso newydd ar gyfer staff yr Agenda ar gyfer Newid.
- Cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024 i 2028, gan adeiladu ar y cynllun blaenorol a nodi gweledigaeth ar gyfer cydraddoldeb mewn cyflogaeth a darparu gwasanaethau.
- Ymgorffori canfyddiadau adroddiad cyntaf Safon Cydraddoldeb Hiliol y Gweithlu yn ein cynlluniau ar gyfer recriwtio a datblygu rheolwyr.

- Adolygiad o'n Strategaeth Addysg sydd wedi ein galluogi i fonitro cynnydd gyda datblygiad sy'n cwmpasu'r ystod o weithgareddau o hyfforddiant statudol a gorfodol, datblygu arweinyddiaeth a rheolaeth.

Trwy weithredu'n llwyddiannus y themâu craidd a amlinellwyd yn strategaeth gweithlu'r Ymddiriedolaeth, byddwn yn gallu hwyluso'r broses o drosglwyddo ein pobl ar draws ein holl feysydd allweddol y gellir eu cyflawni. Bydd hyn yn ein helpu i greu a chynnal Gweithlu Iach ac Ymgysylltiedig, Medrus a Datblygedig a Chynllunedig a Chynaliadwy.

## Polisi Atal Twyll a Llygredd

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd ei chyfrifoldebau i ddiogelu pwrs y wlad o ddifrif iawn ac mae wedi ymrwymo'n llwyr i'r safonau moesegol uchaf, er mwyn sicrhau bod arian ac asedau cyhoeddus yn cael eu defnyddio a'u diogelu'n briodol.

Ni fydd yr Ymddiriedolaeth yn goddef twyll na llygredd gan ei gweithwyr, cyflenwyr, contractwyr, partneriaid na defnyddwyr gwasanaeth a bydd yn cymryd pob cam angenrheidiol i ymchwilio i bob honiad o dwyll neu lygredd ac yn gweithredu'r cosbau sydd ar gael ym mhob achos, gan gynnwys cael gwared ar swydd, camau disgyblu, diswyddo a/neu erlyn.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio'r Gwasanaethau Atal Twyll a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

## Ein Hamcanion Cynaliadwyedd

Rydym wedi ymrwymo i drawsnewid yr Ymddiriedolaeth ac i greu sefydliad cynaliadwy. Strategaeth yr Ymddiriedolaeth: Mae Cyrchfan 2033, ynghyd â strategaethau cysylltiedig ar gyfer Gwasanaethau Canser a Gwaed a Thrawsblannu arbenigol ar gyfer 2023 – 2034 wedi'u cymeradwyo. Mae gan y strategaethau hyn ffocws cryf ar gynaliadwyedd ac maent yn nodi'r camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd dros y blynyddoedd i gyflawni'r rhagoriaeth yr ydym wedi ymrwymo iddo.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau sector cyhoeddus yng Nghymru ganolbwyntio ar gyflawni nodau llesiant tymor hir mewn modd cynaliadwy. Er ein bod wedi gwneud cynnydd wrth ymgorffori'r Ddeddf ar draws y sefydliad, gwyddom fod yn rhaid i ni wneud llawer mwy. Mae'r Ddeddf arloesol hon a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfle cyffrous i arwain y ffordd yn rhyngwladol ac yn amlinellu ein hamcanion cynaliadwyedd gan alluogi gweithredu go iawn i greu newid cadarnhaol ac arwyddocaol.

Felly, rydym yn gyffrous ein bod yn gallu nodi ein taith tuag at gynaliadwyedd a'r manteision y bydd yn eu gwireddu dros y blynyddoedd nesaf. Mae ein Strategaeth Cynaliadwyedd yn amlinellu 10 Thema Allweddol y byddwn yn canolbwyntio arnynt er mwyn cyflawni ein huchelgeisiau:

<b>Thema 1</b>	Creu Gwerth Ehangach: Ymagwedd ein sefydliad
<b>Thema 2</b>	Modelau Gofal Cynaliadwy
<b>Thema 3</b>	Di-garbon
<b>Thema 4</b>	Seilwaith Cynaliadwy
<b>Thema 5</b>	Pontio i Ddyfodol o Ynni Adnewyddadwy
<b>Thema 6</b>	Defnydd Cynaliadwy o Adnoddau
<b>Thema 7</b>	Cysylltu â Natur
<b>Thema 8</b>	Gwneud Ein Cludiant a'n Teithio yn Wyrdd
<b>Thema 9</b>	Addasu i Newid Hinsawdd
<b>Thema 10</b>	Ein Pobl fel Asiantau dros Newid

Rhoddir rhagor o fanylion am y Themâu Allweddol uchod yn yr adran ganlynol.

Fel sefydliad angori yng Nghymru, rydym wedi ymrwymo i ymgorffori cynaliadwyedd yn ein sefydliad ein hunain a dod yn esiampl i eraill ddod i ddysgu gyda ni, ac oddi wrthym. Rydym wedi ymrwymo i roi cynaliadwyedd wrth wraidd popeth a wnawn ac i wneud y mwyafr o'r manteision y gallwn eu darparu i bobl ledled Cymru.

Strategaeth Cynaliadwyedd yr Ymddiriedolaeth: Mae Rhagoriaeth Cynaliadwyedd wedi creu map trywydd i ni gyfrannu at ein cymunedau a lleihau ein heffaith ar y blaned wrth barhau i ddarparu gwasanaethau o'r radd flaenaf i'n rhoddwyr, cleifion a gofalwyr. Am ragor o wybodaeth gweler y ddolen i Strategaeth Cynaliadwyedd yr Ymddiriedolaeth 2023 - 2033<sup>5</sup>.

<sup>5</sup> <https://velindre.nhs.wales/destination-2033/how-we-will-achieve-our-vision/sub-strategies/sustainability-strategy1/>

# Strategaeth Gynaliadwyedd



## Trosolwg o Berfformiad Cynaliadwyedd

Mae'r cysylltiad rhwng yr hinsawdd ac iechyd yn bwysicach nag erioed, ac o ystyried bod effeithiau'r argyfyngau hinsawdd a natur yn dod yn fwyfwy amlwg, a'r alwad glir i weithredu gan COP28 a Llywodraeth Cymru, mae ein Ymddiriedolaeth yn parhau i arwain trwy integreiddio cynaliadwyedd ar draws pob rhan o'n sefydliad. Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar ein perfformiad, ein cyflawniadau, a chyfeiriad ein gwaith cynaliadwyedd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae ein gwaith yn cael ei arwain gan y canlynol:

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** – sy'n gofyn am feddwl mewn modd hirdymor, integredig, ac ataliol
- **Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru** – sy'n gosod targed ar gyfer allyriadau sero net yn 2030
- **System Rheoli Amgylcheddol ISO 14001:2015** – sicrhau sicrwydd allanol a gwelliant parhaus
- **Strategaeth Gynaliadwyedd yr Ymddiriedolaeth a Chyrchfan 2033** – a lywiodd y Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd

Rydym wedi ymrwmo i sbarduno cynnydd yn erbyn ein deg thema gynaliadwyedd a chyfrannu at Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.

## Cyflawniadau Allweddol yn 2024-25

- Wedi cynnal ardystiad ISO 14001:2015 ar draws pob safle heb nodi unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio yn ystod archwiliad gwylidwriaeth allanol. Mae hyn yn adlewyrchu lefel uchel o reolaeth weithredol, cydymffurfedd cyfreithiol, ac ymgysylltiad staff.
- Cynlluniau Gweithredu Cynaliadwyedd wedi'u datblygu a'u cyflwyno ar gyfer pob safle. Mae'r rhain yn cynnwys targedau a ysgogir yn lleol ar draws ynni, gwastraff, trafndiaeth ac ymgysylltu â staff, gan gefnogi perchnogaeth ar draws yr Ymddiriedolaeth ac ar draws adrannau.
- Cynhaliwyd tair Jamborî Cynaliadwy yn ystod yr haf, yr hydref a'r gwanwyn—gan ddod â staff, cleifion a chymunedau lleol ynghyd trwy ddigwyddiadau sy'n hyrwyddo lles, llythrennedd hinsawdd, ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth a chreadigrwydd.
- Lansiodd y Cynllun Ailgylchu Cymhorthion Cerdded yn CGF mewn partneriaeth â Men's Sheds a Walters UK. Wedi'i adeiladu gan ddefnyddio coed wedi'u torri o safle CGFn, mae'r cynllun yn hyrwyddo cylcholrwydd, yn lleihau allyriadau ac yn arbed adnoddau'r GIG. Mae gwaith ar y gweill i greu cynllun Cymru Gyfan.
- Lansiodd Cynllun Beicio i'r Gwaith newydd sy'n fwy hygyrch—yn cynnwys beiciau trydan a nifer o bartneriaid manwerthu—gan ymateb yn uniongyrchol i adborth staff o'n harolygon teithio.
- Wedi cyflawni a chynnal Dim Gwastraff i safleoedd tirlenwi, gan adlewyrchu system rheoli gwastraff sy'n aeddfedu sy'n blaenoriaethu lleihau, aildefnyddio ac ailgylchu.



- Mae hyfforddiant ymwybyddiaeth amgylcheddol ar gyfer staff wedi parhau i dyfu, gyda chyfradd gydymffurfio o dros 93%, a gefnogir gan ymgyrchoedd wedi'u targedu, e-ddysgu, a gweithdai wyneb yn wyneb.

## Ein Strategaeth Gynaliadwyedd: 10 o Themâu

### 1. Creu Gwerth Ehangach

Fe wnaethon ni ehangu ein dull o gyflawni gwerth cymdeithasol ac amgylcheddol trwy gaffael, cynllunio, a phrosiectau cyfalaf. Mae ein mentrau Buddion Cymunedol - sydd wedi'u hymgorffori yng Nghanolfan Ganser newydd Felindre (CGFn) ac Uwchraddio Seilwaith Tonysguboriau yn sicrhau bod cyflogaeth, sgiliau, grantiau cymunedol a thwf economaidd lleol yn cael eu monitro a'u cynyddu i'r eithaf. Galluogodd menter Hefyd staff a chleifion i gyd-greu cartrefi cynefin a chyfrannu at wella bioamrywiaeth leol trwy ymgysylltu.

### 2. Modelau Gofal Cynaliadwy

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd o ran cynaliadwyedd clinigol, ochr yn ochr â'r hyfforddiant Ymwybyddiaeth Amgylcheddol gorfodol, cyflwynwyd hyfforddiant cynaliadwyedd radiotherapi pwrpasol i fyfyrwyr radiotherapi ar ffurf hybrid, gan dynnu sylw at fannau problemus o ran allyriadau mewn ymarfer clinigol a chynnwys staff mewn newidiadau ymarferol. Ar ben hynny, mae astudiaeth hirdymor

fanwl o ddefnydd ynni cyflymwyr llinellol (LINACs) yn mynd rhagddi, mewn cydweithrediad â BIP Bae Abertawe. Ymgymerodd myfyrwyr meddygol â phrosiectau SSC sy'n canolbwyntio ar archwiliadau ynni a mapio caffael. Mae Tîm Amlddisgyblaethol Cynaliadwyedd Clinigol wedi'i gynllunio ym mhob isadran er mwyn ceisio manteisio ar syniadau staff a gwneud newidiadau pendant.

### 3. Dileu Carbon (Datgarboneiddio)

Mae Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio'r Ymddiriedolaeth wedi'i gwblhau ac mae'n amlinellu prosiectau blaenoriaeth i gyflawni sero net erbyn 2030. Mae'n categoreiddio allyriadau yn ôl cwrpas a ffynhonnell, gyda phwyslais ar gaffael (62%), defnydd adeiladau (21%), a theithio (17%). Rhagwelir y bydd prosiectau cyfalaf mawr fel CGFn yn lleihau allyriadau gweithredol yn sylweddol. Mae trydan **wedi lleihau 25.86%** ar draws yr Ymddiriedolaeth yn erbyn ein ffigur sylfaenol yn 2018/19, tra bod y defnydd o nwy hefyd **wedi lleihau hyd at 11.33%** o gymharu â'n ffigur sylfaenol yn 2018/19.

### 4. Seilwaith Cynaliadwy

Mae ein dull datblygu cyfalaf ar gyfer CGFn a Seilwaith Tonysguboriau yn ymgorffori metrigau carbon, bioamrywiaeth, a lles o'r dylunio i'r adeiladu. Ffurfiwyd Bwrdd Llywodraethu Buddion Cymunedol ac mae wedi ariannu prosiectau cymunedol lleol yn llwyddiannus. Mae'r Bwrdd yn cynnwys partneriaethau â grwpiau cymunedol a

sefydliadau'r sector gwirfoddol sydd wedi galluogi cyd-greu seilwaith safle gan ddefnyddio deunyddiau cynaliadwy, o ffynonellau lleol.

## 5. Pontio i Ddyfodol Adnewyddadwy

Daw'r holl drydan a gafaelir gan yr Ymddiriedolaeth o ffynonellau carbon isel. Mae gwaith ychwanegol wedi archwilio dichonoldeb storio ynni solar a batris ar y safle. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi integreiddio ynni adnewyddadwy ar y safle ar gyfer CGFn ac Uwchraddio Seilwaith Tonysguboriau, gan sicrhau bod y dyluniadau'n cefnogi integreiddio a gwydnwch y grid yn y dyfodol.

## 6. Defnydd Cynaliadwy o Adnoddau

Wrth ymateb i Fil Plastigau Untro (Cymru), mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn gweithio i gael gwared ar blastigau anghlinigol allweddol o gaffis a chlinigau rhoddwyr. Er enghraifft, mae cael gwared ar gyllyll a ffyrc plastig a chasgliadau gwastraff bwyd wedi'u cyflwyno i geginau staff, ac mae arwyddion biniau newydd, hyfforddiant a chyfathrebu wedi helpu i wella gwahanu yn y gweithle yn unol â deddfwriaeth Cymru.

## 7. Cysylltu â Natur

Cymerodd yr Ymddiriedolaeth gamau i wella bioamrywiaeth, yn dilyn ein harchwiliad yn 2022, a gwblhawyd ar draws pob safle - rydym yn parhau i ddilyn camau gweithredu gan gynnwys plannu blodau gwyllt, cynefinoedd sy'n gyfeillgar i beillwyr, a chael gwared ar rywogaethau goresgynnol. Yn Nhonysguboriau, mae cwch gwenyn wedi cael ei gynnal yn llwyddiannus gan staff gwirfoddol hyfforddedig, ac mae wedi bod yn llwyddiant ysgubol! Mae ein partneriaeth â Chymorth Canser Ray of Light yn parhau i gefnogi cymorth canser sy'n seiliedig ar natur, gwaith coed gwyrdd, a gweithgareddau therapiwtig. Eleni, cefnogodd yr Ymddiriedolaeth fwy o sesiynau, gan gynnwys cwrs Garddwriaeth Gymdeithasol a Therapiwtig, a fynychwyd gan gleifion.

## 8. Gwyrddu ein Teithio a'n Trafndiaeth

Yn dilyn arolwg teithio'r Ymddiriedolaeth, mae data'n dangos llai o ddibyniaeth ar geir a mwy o ddefnydd o feicio, cerdded, a thrafnidiaeth gyhoeddus flwyddyn ar ôl blwyddyn. Lansiodd yr Ymddiriedolaeth Gynllun Beicio i'r Gwaith newydd yn 2025, sy'n rhoi cyfle i staff brynu beic drwy gynllun aberthu cyflog. Mae

Map Teithio Egniol rhyngweithiol newydd, ar gyfer pob safle, wedi gwneud cymudo egniol yn haws ei gynllunio. Llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i gael cyllid grant gan Lywodraeth Cymru i osod gwefrwyr cerbydau trydan ar draws sawl safle, gan ddiogelu ein seilwaith at y dyfodol ar gyfer fflyd drydanol, ac ar gyfer teithio gan staff.

## 9. Addasu i Newid Hinsawdd

Mae'r tîm Cynaliadwyedd wedi bod yn datblygu asesiadau risg hinsawdd ar gyfer pob safle; mae'r rhain yn cael eu croesgyfeirio â'r cynlluniau cyfalaf mawr i sicrhau eu bod yn ymgorffori addasu i'r hinsawdd a gwydnwch. Mae prosiectau Tonysguboriau a CGFn wedi integreiddio i sicrhau bod adeiladwaith adeiladau, draenio, a rheoli gwres yn wydn o ran hinsawdd. Mae cyfundrefnau diogelwch dŵr gwell wedi lleihau risg ac wedi arwain at Sicrwydd Sylweddol mewn archwiliadau allanol.

## 10. Ein Pobl fel Cyfryngau Newid

Mae ein cydymffurfedd â hyfforddiant amgylcheddol wedi bod yn gyson uchel ac wedi cyrraedd 93% yn 2024-2025. Mae prosiectau dan arweiniad staff wedi cynyddu, er enghraifft y Bws Beic a grëwyd, gyda chefnogaeth gan y tîm cynaliadwyedd ac ymgyrchoedd mewnwyd, rhwydwaith cynyddol o Hyrwyddwyr Cynaliadwyedd, a chynnwys amcanion amgylcheddol mewn rolau swyddi ac arfarniadau. Roedd digwyddiadau Jamborî hefyd wedi tynnu sylw at greadigrwydd ac ymgysylltiad staff.

## Datganiad Datgeliad Ariannol Cysylltiedig â'r Hinsawdd 2024/25

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a meithrin gwydnwch ar draws ei gwasanaethau. Yn unol â'r Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol Cysylltiedig â'r Hinsawdd a gofyniad Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024/25, mae'r datganiad hwn yn cyflwyno datgeliad yr Ymddiriedolaeth yn unol â:

- **Llywodraethu, a**
- **Metrigau a Thargedau (b)** — lle mae data ar gael o brosesau adrodd presennol.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cwblhau Cam Dau ac wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o lywodraethu, strategaeth, rheoli risg, a metrigau a thargedau, fel yr amlinellir yn Atodiad 2.

# Llywodraethu

## Goruchwyliaeth y Bwrdd

- Mae gan y Cyfarwyddwr Trawsnewid gyfrifoldeb uwch dros gynaliadwyedd, gan gynnwys materion sy'n ymwneud â'r hinsawdd.
- Yn 2024/2025, cymeradwyodd y Tîm Rheoli Gweithredol y strwythur llywodraethu Cynaliadwyedd newydd, sef Bwrdd Rheoli Cynaliadwyedd – a ailenwyd yn Dasglu Gweithredu ar Newid Hinsawdd – a fydd yn cyfarfod yn chwarterol ac yn adrodd i'r Bwrdd Rheoli Gweithredol a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth.
- Mae Hyrwyddwr Cynaliadwyedd Aelod Annibynnol yn sicrhau eiriolaeth a goruchwyliaeth ychwanegol ar lefel y Bwrdd.
- Mae amcanion hinsawdd a chynaliadwyedd wedi'u hintegreiddio yn y Strategaeth Gynaliadwyedd gyda deg thema allweddol fel map trywydd tuag at 'Ragoriaeth Cynaliadwyedd'. Adroddir ar gynydd y Strategaeth Gynaliadwyedd i'r Pwyllgor Datblygu Strategol.

## Datganiad Cydymffurfedd â'r Ddeddf Newid Hinsawdd ac Adrodd ar Addasu

- Mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu gwaith yn weithredol i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'i rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Newid Hinsawdd a'r gofynion Adrodd ar Addasu. Er y disgwylir cydymffurfedd llawn erbyn dyddiad cau Llywodraeth Cymru, sef mis Rhagfyr 2025, mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n cynnal rhaglen strwythuredig o asesiadau risg sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.
- Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio'n agos gydag adrannau i nodi, asesu, a chynllunio ar gyfer risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, ar lefel sefydliadol ac adrannol. Mae'r dull hwn yn cefnogi dealltwriaeth o risgiau strategol lefel uchel ac ymreolaeth weithredol ar gyfer adrannau, gan wella ymwybyddiaeth a pharatoadau staff.
- Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn ymwneud ag ymdrechion cydlyn cenedlaethol trwy gymryd rhan yng Ngrŵp Addasu i'r Hinsawdd Cymru Gyfan. Bydd yr holl risgiau a chamau gweithredu a nodwyd yn cael eu hadrodd a'u monitro trwy Dasglu Gweithredu ar Newid Hinsawdd yr Ymddiriedolaeth, sy'n darparu llwybr llywodraethu clir ar gyfer uwchgyfeirio a sicrwydd.

- Mae'r Ymddiriedolaeth ar y trywydd iawn i gyflawni ei rhwymedigaethau ac mae'n ymgorffori cynllunio ar gyfer addasu ar draws gwasanaethau a seilwaith fel rhan o'i strategaethau cynaliadwyedd a rheoli risg ehangach.

## Rôl Rheolwyr

- Mae'r ffrydiau gwaith cynaliadwyedd a newid hinsawdd yn cael eu cydlynu trwy weithgorau pwrpasol sy'n bwydo i'r Tasglu Gweithredu ar Newid Hinsawdd sydd newydd ei ddatblygu:

- **Tasglu Gweithredu ar Newid Hinsawdd** (grŵp cyffredinol sy'n goruchwyllo'r Cynlluniau Gweithredu Cynaliadwyedd)

- **Grŵp Rheoli ISO14001:2015** (cydymffurfedd â System Rheoli Amgylcheddol)

- **Grŵp Rheoli Ystadau'r Ymddiriedolaeth** (cyflawni gweithredol)

- **Tîm Amlddisgyblaethol Cynaliadwyedd Clinigol** (yn cael ei ddatblygu a bydd yn adrodd ar effeithiau clinigol i'r Bwrdd Clinigol a Gwyddonol ac yn cyflwyno diweddariadau i'r Tasglu Gweithredu ar Newid Hinsawdd)

- **Rhwydweithiau Staff ar Gynaliadwyedd** (digwyddiadau a chyfathrebu parhaus ar gyfer yr holl staff, cymysgedd o bethau wyneb yn wyneb ac ar-lein i asesu syniadau, hyrwyddo prosiectau ac addysgu staff).

- Mae cynaliadwyedd wedi'i ymgorffori mewn prosesau llywodraethu strategol, gydag Adroddiadau Uchafbwyntiau Chwarterol sy'n cynnwys diweddariadau ar adrodd ar allyriadau, rheoli amgylcheddol, a datgarboneiddio.
- Mae adroddiadau'r Fframwaith Rheoli Perfformiad yn cynnwys trosolwg o'r defnydd o gyfleustodau, a gyflwynir i'r Bwrdd Rheoli Gweithredol bob mis, ac i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth bob chwarter.

## Aliniad Strategol

- Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi creu Strategaeth Gynaliadwyedd sy'n galluogi, mae hefyd yn Nod Strategol yn Strategaeth yr Ymddiriedolaeth.
- Mae'r strategaeth yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ac uchelgeisiau Sero Net GIG Cymru, ac mae'n anelu at ymgorffori cynaliadwyedd mewn gofal clinigol, gweithrediadau, ystadau, llywodraethu a'r gweithlu.
- Mae'r strategaeth wedi'i strwythuro o amgylch 10 thema strategol i sbarduno trawsnewid system gyfan, gan gynnwys Dim Carbon, Defnydd Cynaliadwy o Adnoddau a Gwyrddu ein Teithio a'n Trafnidiaeth.
- Mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu asesiadau risg sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd. Mae risgiau lefel uchel, wedi'u croesgyfeirio â chofrestr risg Llywodraeth Cymru, wedi'u datblygu ac mae asesiadau risg adrannol pwrpasol (a fydd yn cynnwys yr effaith ar offer) yn mynd rhagddynt.
- O fewn yr Ymddiriedolaeth, mae gennym ddwy raglen gyfalaf fawr (CGFn ac Uwchraddio Seilwaith Tonysguboriau) sy'n ymgorffori gwydnwch hinsawdd mewn dylunio a chyflawni.



## Adrodd ar Allyriadau

Mae'r Ymddiriedolaeth yn adrodd ar allyriadau carbon yn flynyddol gan ddefnyddio Offeryn Allyriadau Sector Cyhoeddus Llywodraeth Cymru, gyda goruchwyliaeth gan y Bwrdd Rheoli Ystadau (ac o hyn ymlaen yn 2025/2026 y Tasglu Gweithredu ar Newid Hinsawdd).

## Perfformiad

Mae'r Ymddiriedolaeth yn adrodd ar allyriadau Cwmpas 1 a 2 yn fisol trwy Fframwaith Rheoli Perfformiad yr Ymddiriedolaeth.

Cwmpas	Disgrifiad	Cynnydd
Cwmpas 1	Allyriadau uniongyrchol (nwy, fflyd)	Mae'r Ymddiriedolaeth wedi lleihau ei defnydd o nwy 25% o gymharu â'r ffigurau sylfaenol. Wedi'i leihau trwy drydaneiddio'r fflyd, effeithlonrwydd ynni
Cwmpas 2	Allyriadau anuniongyrchol (trydan a brynwyd)	Mae'r Ymddiriedolaeth wedi lleihau ein defnydd o drydan 11% o gymharu â'r llinell sylfaen. Gostyngiad oherwydd ffactor allyriadau, a gosod goleuadau LED, gwella monitro System Rheoli Adeilad (BMS).
Cwmpas 3	Cadwyn gyflenwi, cymudo	Y maes sy'n cael yr effaith fwyaf, gwaith parhaus i ddatblygu a mireinio monitro.

- **Cyfanswm yr allyriadau** (Cwmpasau 1–3) ar gyfer 2023/24: 46,856,596 kgCO<sub>2</sub>e
- Yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru, bydd data 2024/25 yn cael ei gyflwyno ym mis Medi 2025.

## Targedau Allweddol

Targed	Statws
Dim gwastraff i safleoedd tirlenwi erbyn 2025	Yn ystod 2024/2025, ni anfonodd yr Ymddiriedolaeth unrhyw wastraff i safleoedd tirlenwi.
Cael gwared ar blastigau untro yn raddol	<p>Bron wedi'i gwblhau yng nghantîn GCF (mae newidiadau'n cynnwys cyllyll a ffyrc compostadwy wedi'u gwneud o wymon a chwpanau compostadwy wedi'u gwneud o ludwymon).</p> <p>Mae staff Labordy Gwasanaeth Gwaed Cymru yn mynychu Grŵp Lleihau Plastig Defnydd Untro Labordy Cymru Gyfan.</p> <p>Lansiwyd ymgyrch Defnydd Gorau o Fenig ar draws yr Ymddiriedolaeth gyda chefnogaeth y tîm Atal a Rheoli Heintiau.</p>
Lleihau nwyon tŷ gwydr (GHG) 16% erbyn 2025, 34% erbyn 2030 (targedau GIG Cymru)	Ar y trywydd iawn ar gyfer Cwmpas 1 a 2. Ar y trywydd iawn i ostyngiad sylweddol yn dilyn CGFn ac Uwchraddio Seilwaith Tonysguboriau.

## Perfformiad Ariannol

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi bodloni pob un o'i thri tharged ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025: Mae'r Adroddiad Atebolrwydd Ariannol i'w weld o dudalen 139. Mae ein set lawn o Gyfrifon Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25 ar gael yn Rhan 3 yr Adroddiad Blynyddol hwn.

### Hysbysiadau System Gwariant Cyhoeddus y Trysorlys (PES):

Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn ymwybodol o unrhyw hysbysiadau PES yn y cyfnod adrodd y mae angen adrodd arnynt fel rhan o'i pherfformiad.



**Matthew Bunce**  
Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid



# Rheoliadau'r Gymraeg a Chydymffurfedd

## Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Gymraeg 2024/25

Mae ein hadroddiad blynyddol yn cefnogi nod diwylliannol a Llywodraethol cryf i ddarparu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg presennol ond hefyd, i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg drwy amcanion strategaeth 2050.

Fel Ymddiriedolaeth, rydym wedi cael y dasg o gyflawni Safonau'r Gymraeg ers 2018, ac rydym wedi cynyddu ein cydymffurfiaeth â'r gofynion hyn.

Rydym yn gwbl ymwybodol o'r heriau iaith a'r Safonau sy'n parhau i fod yn anodd i ni yng ngoleuni'r anawsterau sy'n wynebu'r GIG gyda'r gweithlu, fodd bynnag rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod popeth a wnawn yn ystyried yr heriau o ddatblygu gweithlu sy'n siarad Cymraeg er mwyn cynyddu ein gallu i ddarparu presenoldeb dwyieithog cryf.

Rydym yn parhau i weithio gyda Byrddau Iechyd Lleol eraill ac yn aelod gweithredol o grŵp Cymru Gyfan sy'n canolbwyntio ar rannu arferion gorau ar lefel genedlaethol. Rydym hefyd yn cymryd rhan yng ngrŵp Llywodraeth Cymru sy'n edrych ar gyflawni canlyniadau cadarnhaol ar y fframwaith 'Mwy na Geiriau'. Mae'r holl waith hwn yn bwydo'n gadarnhaol i'n mentrau i gefnogi Safonau'r Gymraeg.

Ers ein hadroddiad blynyddol diwethaf rydym wedi datblygu cynllun Cleifion Mewnol gyda mwy o ffocws, cynllun ymgynghori clinigol wedi'i dargedu'n fwy ac rydym yn parhau i herio ein dealltwriaeth fewnol o'r anghenion am asesiadau dwyieithog fel rhan o'r broses recriwtio.

## Cydymffurfedd

Mae Safonau'r Gymraeg a'r fframwaith Mwy na Geiriau yn parhau i lywio ein gwaith cydymffurfio, gan roi ffocws a gallu cryfach inni i wreiddio ein darpariaeth Cymraeg. Fel Ymddiriedolaeth rydym bob amser wedi bod yn gadarn bod cefnogaeth iaith i'n cleifion a'n rhoddwyr a'n staff o'r pwysigrwydd mwyaf a'i bod yn cael ei hategu gan y fframweithiau cyfreithiol ledled Cymru. Mae deddfwriaeth wedi codi ymwybyddiaeth o'r anghenion hyn a byddwn yn parhau i fwrw ymlaen â'n cydymffurfedd.

## Cleifion mewnol

Mae ein cynllun yn darparu ffocws ar gyfer cleifion mewnol, gan fod yn glir ynghylch yr hyn y mae ganddynt hawl i'w dderbyn tra byddant yn treulio amser yng Ngwasanaeth Canser Felindre. Yn ei symlrwydd mae'n darparu llwybr i gleifion gan roi'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt os bydd angen gwybodaeth neu gyfathrebu dwyieithog arnynt. Mae ein systemau TG yn ein galluogi i gofnodi eu hanghenion ac yna caiff hyn ei drosi'n gamau gweithredu os bydd angen i glaf ddefnyddio'r Gymraeg.

## Ymgynghoriadau Clinigol

Mae gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg a mynychu'r digwyddiadau trafod agored wedi ein galluogi i ganolbwyntio ein cynllun (safon 110)

Rydym wedi gweithio'n agos gyda Chomisiynydd y Gymraeg a'i hamcanion ar gyfer cydweithio ac rydym wedi ein calonogi gan y gefnogaeth a'r ymagwedd agored at y nod hwn. Mae'n amlwg gweld sut y gall cydweithio rheoleiddiol wella dealltwriaeth a pherfformiad, gan drosi'n gefnogaeth well i anghenion dwyieithog ein cleifion a'n rhoddwyr. Mae canolbwyntio ar yr hyn y gallwn ei gyflawni a chyflawni'r nodau hyn wrth gynnal trafodaethau agored ar feysydd anhawster yn hyrwyddo perthynas iach â swyddfa'r Comisiynydd.

## Hyfforddiant ar y cynnig rhagweithiol

Mae darparu'r Cynnig Rhagweithiol i gleifion a rhoddwyr yn ganolog i fframwaith Llywodraeth Cymru a'i fwriad yw ategu popeth y mae'r sector cyhoeddus yn ei ddarparu. Eleni, rydym wedi gweithio'n llwyddiannus gyda'r timau casglu rhoddwyr i ddarparu dealltwriaeth ddyfnach o'r nod hwn, gan ymgorffori ffyrdd syml ond effeithiol o atgoffa rhoddwyr o'n gallu i gefnogi eu hanghenion iaith Gymraeg.

Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru hefyd wedi gweithio gyda Menter Rhondda Cynon Taf i ddarparu hyfforddiant penodol i dimau'r iaith Gymraeg, gan weithio gyda thîm y dderbynfafa yn y pencadlys i gynyddu eu hyder a'u dealltwriaeth o'r iaith. Mae hyn wedi bod yn llwyddiant ysgubol ac yn rhoi hyder i'r staff ymarfer eu hiaith mewn amgylchedd diogel a chefnogol.

Mae'r grŵp sgwrsio a sefydlwyd, sef 'Coffi a Chlonc', yn ategu hyn. Cyflwynir y grŵp hwn gan diwtor proffesiynol hefyd, ac mae'n agor yr hyfforddiant i bob aelod o staff ymarfer eu sgiliau a chynyddu eu hyder yn y gwaith.

### Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg

Rydym yn falch o nodi bod yr Ymddiriedolaeth ar hyn o bryd yn cydymffurfio 89.48% o ran y nifer sy'n manteisio ar yr hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae ein rhaglen sefydlu 'Croeso' yn parhau i roi cyfle i staff craidd newydd ddeall anghenion gwasanaethau dwyieithog. Mae hefyd yn gyfle i drafod safonau'r Gymraeg a sut mae'r iaith a diwylliant Cymru yn cael eu hymgorffori ar draws yr Ymddiriedolaeth. Eleni, rydym wedi darparu sesiynau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i 193 o weithwyr newydd mewn gwasanaethau craidd.

Mae ein holl hyfforddiant a ddarperir trwy'r system Cofnod Staff Electronig ar gael yn y Gymraeg a gall ein staff ddewis defnyddio eu hiaith ar draws y system yn Genedlaethol.

### Cyfieithu

Mae ein tîm cyfieithu yn parhau i fynd o nerth i nerth, gan symleiddio'r broses gyfieithu a darparu cyfieithiadau sy'n gallu bodloni gofynion y gwasanaeth. Mae gennym fynediad at feddalwedd cof cyfieithu a rennir sy'n rhoi gwell dealltwriaeth i ni o ddogfennau wedi'u cyfieithu gan arbed amser yn y broses gyfieithu.

Bydd ffigurau cyfieithu dogfennau yn gostwng gan fod y broses bellach yn nodi cyfieithiadau blaenorol ac felly mae llawer llai o bethau sydd angen eu cyfieithu. Mae'n system y byddwn yn ei pharhau yn 2025/26.

Mae staff cyfieithu hefyd wedi gallu manteisio ar hyfforddiant cyfieithu cenedlaethol, gan sicrhau eu bod yn gyfarwydd â dulliau cyfieithu modern. Mae'r buddsoddiad hwn yn profi i fod yn gadarnhaol iawn i'r broses gyfieithu.



89.48%

o ran y nifer sy'n manteisio ar yr hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg



193

rydym wedi darparu sesiynau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i 193 o weithwyr newydd mewn gwasanaethau craidd




1,000,000+

nifer y geiriau a gyfieithwyd yn 2024/2025

Mae gwybod sgiliau ein gweithlu yn ein galluogi i gynllunio yn unol â hynny ar gyfer swyddi gwag. Mae'r Ymddiriedolaeth, ynghyd â phob Bwrdd Iechyd arall, yn defnyddio'r Cofnod Staff Electronig i gofnodi eu sgiliau iaith Gymraeg. Eleni rydym wedi ymgorffori'r angen i gofnodi'r sgiliau hyn ac ar hyn o bryd mae gennym gyfradd cydymffurfio o dros 95%. Bydd hyn yn ein cynorthwyo i nodi meysydd ar gyfer recriwtio ac anghenion iaith ar draws yr Ymddiriedolaeth.

Eleni rydym wedi gweithio'n agos gyda'r adrannau i ymgorffori dealltwriaeth ddyfnach o ofynion iaith, a byddwn yn parhau i gryfhau'r ddealltwriaeth a'r broses hon, trwy ddarparu canllawiau a chefnogaeth i reolwyr recriwtio a dysgu gan ein partneriaid ar draws y GIG.

## Ffigurau cyfieithu - nifer y geiriau



## Adrodd ar sgiliau iaith ledled yr Ymddiriedolaeth (gwasanaethau craidd yn unig)

Cymraeg (Gwranddo/Siarad) 31-Maw-25			
	Nifer	Nifer y bobl	%
0 - Dim Sgiliau	1320	1913	69.00%
1 - Mynediad	250	1913	13.07%
2 - Sylfaen	79	1913	4.13%
3 - Canolradd	52	1913	2.72%
4 - Uwch	60	1913	3.14%
5 - Hyfedredd	68	1913	3.55%
Gallu a Nodwyd	<b>1829</b>	<b>1913</b>	<b>95.61%</b>
Heb Nodi	84	1913	4.39%
Cyfanswm terfynol	<b>1913</b>	<b>1913</b>	<b>100%</b>



## Gwasanaeth Gwaed Cymru 2024-2025

Cyfanswm nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd fel:

Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol	0
Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol	110
Bydd angen dysgu sgiliau Cymraeg pan benodir rhywun i'r swydd.	3
Nid yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.	2
Cyfanswm nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd 01/04/2024 - 31/03/2025	115

## Gwasanaeth Canser Felindre 2024-2025

Cyfanswm nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd fel:

Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol	1
Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol	315
Bydd angen dysgu sgiliau Cymraeg pan benodir rhywun i'r swydd	0
Nid yw sgiliau iaith Gymraeg yn angenrheidiol	3
Cyfanswm nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd 01/04/2024 - 31/03/2025	319

## Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre 2024-2025

Cyfanswm nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd fel:

Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol	2
Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol	172
Bydd angen dysgu sgiliau Cymraeg pan benodir rhywun i'r swydd	0
Nid yw sgiliau iaith Gymraeg yn angenrheidiol	9
Cyfanswm nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd 01/04/2024 - 31/03/2025	183

## Pryderon a Chwynion

Mae pryderon ynghylch ein gwasanaethau dwyieithog yn parhau i fod yn isel. Fodd bynnag, eleni rydym wedi derbyn dau gŵyn swyddogol. Roedd y ddau yn canolbwyntio ar ein presenoldeb ar gyfryngau cymdeithasol ac un yn canolbwyntio ar allu'r Ymddiriedolaeth i ddarparu gwasanaethau ffôn dwyieithog. Yn dilyn proses drylwyr o nodi ble roedd y risg i wasanaethau fwyaf, dechreuodd Grŵp Llywio'r Gymraeg ddatblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r materion a godwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Gweithiodd y timau Cyfathrebu yn ddiwyd i ddatrys y problemau. Rydym yn parhau i fonitro'r pryderon a godwyd yn drylwyr ac yn cynnal ymarferion 'siopwr dirgel', gan roi adborth ar y canlyniadau a sicrhau bod ymwybyddiaeth yn cael ei chodi'n barhaus gyda staff.

## Dyma nifer yr ymweliadau â'n gwefan

Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre - 126,923 o ymweliadau â'r wefan Saesneg a 198 o ymweliadau â'r wefan Gymraeg.

Mae ymweliadau Gwasanaeth Gwaed Cymru yn 316,771 ac o'r rheini mae 2,746 yn y Gymraeg sef 0.86% o'r edrychiadau. Gobeithiwn y bydd y newidiadau a wnaed i gynhwysiant y wefan yn arwain at fwy o ymweliadau yn y dyfodol.

Roedd gwaith partneriaeth fewnol cryf yn golygu bod y problemau wedi'u datrys yn gyflym gan ein galluogi i sicrhau bod gwybodaeth i gleifion a rhoddwyr ar gael yn y ddwy iaith ar yr un pryd. Rydym yn parhau i fonitro hygyrchedd i gleifion ac yn edrych ymlaen at ymgorffori newidiadau i deffoni yn 2025/26, gan gofio y bydd gwersi a ddysgir yn cael eu cario ymlaen a'u bwydo i ddatblygiad y Ganolfan Ganser newydd yn 2029.

Ar hyn o bryd, mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn derbyn 4.2% o'i alwadau rhoddwyr yn y Gymraeg ac mae'n gallu darparu ymateb dwyieithog i'r galwadau hyn. Ar draws yr Ymddiriedolaeth, mae staff yn ymwybodol o'r angen i ymateb yn ddwyieithog, ac mae nifer o ddogfennau canllaw wedi'u cyhoeddi i gynorthwyo a chefnogi staff.

### Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre



**126,923**


o ymweliadau â'r wefan  
Saesneg



**198**

o ymweliadau â'r wefan  
Gymraeg

### Gwasanaeth Gwaed Cymru



**316,771**

o ymweliadau â'r wefan  
Saesneg



**2746**

o ymweliadau â'r wefan  
Gymraeg



**Eisteddfod Dydd Gŵyl Dewi**  
Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre



Velindre University NHS Trust  
**St David's Day Eisteddfod**

### Hyrwyddo

Rydym yn falch o'n gwaith hyrwyddo yma yn yr Ymddiriedolaeth ac yn parhau i sicrhau bod staff yn teimlo ymdeimlad o berthyn i'r iaith Gymraeg a'i diwylliant. Eleni, rydym wedi tynnu sylw at ddyddiadau pwysig fel 'Santes Dwynwen', diwrnod cerddoriaeth Cymru a Dydd Gŵyl Dewi gan gynnal Eisteddfod fewnol a hyrwyddo digwyddiadau o'r fath ar ein tudalennau cyfathrebu dyddiol.

Mae gennym agenda Celfyddydau mewn Iechyd gyffrous ac mae'r gwaith hyrwyddo a chynnwys staff yn cyd-fynd yn gadarnhaol â'n mentrau Iechyd a Lles ac yn cael ei sbarduno gan ein Polisi Pobl. Rydym o'r farn bod y gwaith hwn yn hynod bwysig wrth hyrwyddo gwerthoedd ein Hymddiriedolaeth gyfan, sef bod yn Ofalgar, yn Barchus ac yn Atebol.

## Casgliad ac Edrych Ymlaen

Mae'r adroddiad Perfformiad Blynyddol hwn yn nodi perfformiad Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ar gyfer 2024-25. Mae'n disgrifio sut mae'r Ymddiriedolaeth yn rhoi pwyslais cryf ar ei threfniadau rheoli perfformiad a sut mae hyn yn rhoi sicrwydd i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth.

Yn ystod y tair blynedd nesaf, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru a chomisiynwyr yr Ymddiriedolaeth, mae buddsoddiad digynsail wedi'i gynllunio ar draws yr Ymddiriedolaeth. Mae hyn yn amrywio o Ysbyty Canser newydd @Yr Eglwys Newydd, Uned Radiotherapi Felindre @Nevill Hall, offer Radiotherapi wedi'i uwchraddio, a chyfleusterau modern newydd ar gyfer ein Gwasanaeth Gwaed.

Bydd y newidiadau seilwaith hyn yn helpu i wella effeithlonrwydd ac ystod y triniaethau sydd ar gael i'n cleifion.

Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi cynhyrchu ein Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2024/25 – 2026/27 sy'n nodi sut y byddwn yn darparu gwasanaethau o 1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2028. Mae'n disgrifio pa wasanaethau y byddwn yn eu darparu, o ble y byddant yn cael eu darparu a sut y byddwn yn parhau i sicrhau diogelwch cleifion, rhoddwyr a staff. Mae hefyd yn amlinellu'r trefniadau sydd gennym ar waith ar gyfer rheoli ein capasiti fel y gallwn fodloni'r cynnydd disgwylidig yn y galw am ein gwasanaethau.





# Atodiad 1 i Ran 1

## Trosolwg o Berfformiad Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ar gyfer 2024/25

Y Fframwaith Diogelwch Ansawdd (QSF) Maes	Cerdyn Sgorio Fframwaith Rheoli Perfformiad yr Ymddiriedolaeth gyfan			Perfformiad Cyfartalog Blynyddol ar gyfer 2024/25		
	Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA)	Targed	Adroddwyd	Gwaelodli March 24	Targed	Gwirion eddol
Diogelwch	% cydymffurfedd ar gyfer staff sydd wedi cwblhau cymwyseddau Lefel 1 y Fframwaith Sgiliau a Hyfforddiant Craidd	Cenedlaethol	Bob mis Cymedrol	85%	86%	85%
	Nifer y cwmpïadau (y gellid eu hosgoi) ymysg cleifion mewnol CGF	Cenedlaethol	Bob mis Cymedrol	4	0	2
	Nifer y briwiau pwyso cleifion a gafwyd (y gellid eu hosgoi) mewn Canolfan Ganser	Cenedlaethol	Bob mis Cymedrol	1	0	<1
	Nifer yr achosion o Thromboses (y gellid efallai bod wedi eu hosgoi) (HAT) a gafwyd mewn Ysbytai	Cenedlaethol	Blynyddol Cyfanswm	2	0	0
	Nifer yr Heintiau a Gafwyd yn Felindre (VAIs) Bacteriaemia MRSA (targed WHC 2024 (38))	Cenedlaethol	Blynyddol Cyfanswm	0	<1 24/25	0
	Nifer yr Heintiau a Gafwyd yn Felindre (VAIs) Bacteriaemia MSSA (targed WHC 2024 (38))	Cenedlaethol	Blynyddol Cyfanswm	0	<1 24/25	1
	Nifer yr Heintiau a Gafwyd yn Felindre (VAIs) P. aeruginosa bact. (targed WHC 2024 (38))	Cenedlaethol	Blynyddol Cyfanswm	0	0 24/25	0
	Nifer Heintiau a Gafwyd yn Felindre (VAIs) Klebsiella spp bact. (targed WHC 2024 (38))	Cenedlaethol	Blynyddol Cyfanswm	0	4 24/25	1
	Nifer yr Heintiau a Gafwyd yn Felindre (VAIs) C Difficile. (targed WHC 2024 (38))	Cenedlaethol	Blynyddol Cyfanswm	0	<3 24/25	0
	Nifer yr Heintiau a Gafwyd yn Felindre (VAIs) Bacteriaemia E Coli (targed WHC 2024 (38))	Cenedlaethol	Blynyddol Cyfanswm	0	3 24/25	1
	Nifer yr Heintiau a Gafwyd yn Felindre (VAIs) Bacteriaemia gram-negyddol	Cenedlaethol	Blynyddol Cyfanswm	0	<13 24/25	2
	% Cydymffurfiaeth â safon 5 Eiliad o Hylendid Dwylo Sefydliad Iechyd y Byd	Cenedlaethol	Bob mis Cymedrol	100%	100%	98%
	Nifer y Digwyddiadau Adroddadwy CGF Cenedlaethol a gofnodwyd gyda Llywodraeth Cymru	Cenedlaethol	Blynyddol Cyfanswm	0	0	2
	Nifer y Digwyddiadau Gwasanaeth Gwaed Cymru a adroddwyd i'r Rheoleiddiwr / Awdurdod Trwyddedu	Lleol	Blynyddol Cyfanswm	0	0	12
	Nifer y digwyddiadau Iechyd a diogelwch a gofnodwyd	Lleol	Blynyddol Cyfanswm	15	0	14
	Allyriadau Carbon – rhannau carbon fesul miliwn yn ôl cyfaint	Cenedlaethol	Blynyddol Cyfanswm	2018/19 1900 kgCO <sub>2</sub>	-16% 18/19 kgCO <sub>2</sub>	1600 kgCO <sub>2</sub>

Cerdyn Sgorio Fframwaith Rheoli Perfformiad yr Ymddiriedolaeth gyfan				Perfformiad Cyfartalog Blynyddol ar gyfer 2024/25		
	Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA)	Targed	Adroddwyd	Gwaelodli March 24	Targed	Gwirion eddol
Effeithiolrwydd	Nifer yr Heintiau a Gafwyd yn Felindre (VAIs) Bacteriaemia gram-negyddol	Cenedlaethol	Blynyddol Cyfanswm	0	<13 24/25	2
	% Cydymffurfiaeth â safon 5 Eiliad o Hylendid Dwylo Sefydliad Iechyd y Byd	Cenedlaethol	Bob mis Cymedrol	100%	100%	98%
	Nifer y Digwyddiadau Adroddadwy CGF Cenedlaethol a gofnodwyd gyda Llywodraeth Cymru	Cenedlaethol	Blynyddol Cyfanswm	0	0	2
	Nifer y Digwyddiadau Gwasanaeth Gwaed Cymru a adroddwyd i'r Rheoleidiwr / Awdurdod Trwyddedu	Lleol	Blynyddol Cyfanswm	0	0	12
	Nifer y digwyddiadau Iechyd a diogelwch a gofnodwyd	Lleol	Blynyddol Cyfanswm	15	0	14
	Allryiadau Carbon – rhannau carbon fesul miliwn yn ôl cyfaint	Cenedlaethol	Blynyddol Cyfanswm	2018/19 1900 kgCO <sub>2</sub>	-16% 18/19 kgCO <sub>2</sub>	1600 kgCO <sub>2</sub>
Effeithiolrwydd	Meincnod Marwolaethau 30 Diwrnod Radiotherapi (RT)	Iachael	Bob mis Cymedrol	2.00%	2.00%	Ddim yn berthnasol
		Lliniarol	Bob mis Cymedrol	2.00%	2.00%	Ddim yn berthnasol
	Meincnod Marwolaethau 30 Diwrnod SACT	Iachael	Bob mis Cymedrol	2.00%	2.00%	0.14%
	Lliniarol	Bob mis	Cymedrol	2.00%	2.00%	1.25%
	% y Galw am Gelloedd Coch y Gwaed a Fodlonwyd	Arfer gorau	Bob mis Cymedrol	104%	100%	105%
	% yr Amser yr oedd Dyddiad Celloedd Gwaed Coch (oedolion) wedi dod i ben	Lleol	Bob mis Cymedrol	0.02%	Uchafswm o 1%	0.06%
	% y Galw am Gyflenwad Platennau a Fodlonwyd	Arfer gorau	Bob mis Cymedrol	133%	100%	125%
	% yr Amser yr oedd dyddiad Platennau (oedolion) wedi dod i ben	Lleol	Bob mis Cymedrol	20%	Uchafswm o 10%	12%
	Cyfanswm blynyddol Nifer y Casgliadau Bôn-gelloedd	Lleol	Cyfanswm Blynyddol	53	80	41
	% Cyfartaledd treigl lefelau Salwch Staff	Cenedlaethol	Treigl Cymedrol	6.22%	3.54% 4.70%	5.20%
% y cydymffurfedd ag Adolygiadau Gwerthuso Datblygiad Personol (AGDP) gyda'r gwerthusiad wedi'i gynnal gan reolwyr	Safon Broffesiynol	Bob mis Cymedrol	73%	85%	78%	

	Cerdyn Sgorio Fframwaith Rheoli Perfformiad yr Ymddiriedolaeth gyfan	Perfformiad Cyfartalog Blynyddol ar gyfer 2024/25				
	Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA)	Targed	Adroddwyd	Gwaelodli March 24	Targed	Gwirion eddol
Profiad y Claf/ Rhoddwr/Staff	% y Cleifion sy'n Barnu bod Profiad yng Nghanolfan Ganser Felindre yn dda iawn neu'n rhagorol	Safon Proffesiynol	Bob mis Cymedrol	95%	85%	97%
	% Boddhad Rhoddwyr	Lleol	Bob mis Cymedrol	95%	95%	97%
	% y pryderon 'ffurfiol' i CGF yr ymatebwyd iddynt o fewn 30 diwrnod gwaith	Lleol	Bob mis Cymedrol	100%	85%	75%
	% yr Ymatebion i Bryderon Ffurfiol i Wasanaeth Gwaed Cymru o fewn 30 Diwrnod Gwaith	Lleol	Bob mis Cymedrol	100%	100%	100%
	Cleifion Radiotherapi Wedi'u Trefnu sy'n cael eu Trin 80% o fewn 14 Diwrnod a 100% o fewn 21 Diwrnod	Cenedlaethol	Bob mis Cymedrol	29% 47%	80% 100%	82%
Amseroldeb	Cleifion Radiotherapi Rheoli Symptomau Brys sy'n cael eu Trin 80% o fewn 2 ddiwrnod a 100% o fewn 7 diwrnod	Cenedlaethol	Bob mis Cymedrol	6% 50%	80% 100%	83%
	Cleifion Radiotherapi Brys sy'n cael eu Trin 80% o fewn 1 Diwrnod a 100% o fewn 2 ddiwrnod	Cenedlaethol	Bob mis Cymedrol	94% 100%	80% 100%	100%
	Cleifion Radiotherapi Oedi Dewisol sy'n cael eu Trin 80% o fewn 7 Diwrnod a 100% o fewn 14 Diwrnod	Cenedlaethol	Bob mis Cymedrol	27% 32%	80% 100%	94%
	% y cleifion a ddechreuodd SACT nad oedd yn frys o fewn 21 diwrnod	Cenedlaethol	Bob mis Cymedrol	98%	98%	97%
	% y cleifion a ddechreuodd SACT brys o fewn 5 niwrnod	Cenedlaethol	Bob mis Cymedrol	100%	98%	100%
	% yr Amseroedd Gweithredu Cyn Geni (o fewn 3 diwrnod gwaith)	Arfer gorau	Misol	96%	90%	94%
	% yr Amseroedd Gweithredu (Cyn-geni - meintioliad D & -c) o fewn 5 diwrnod gwaith	Arfer gorau	Yn chwarterol	83%	90%	89%
Tegwch	Bwlch Cyflog Cymedrig rhwng y Rhywiâu – Blynyddol	Lleol	Yn flynyddol	13.45%	5%	I'w Gadarnhau
	Amrywiaeth y Gweithlu – % Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig	Lleol	Yn chwarterol	5.18%	6%	6.74%
	Amrywiaeth y Gweithlu – % y Bobl ag Anabledd o fewn y gweithlu	Lleol	Yn chwarterol	4.63%	22%	6.85%
	% o'r Gweithlu sydd wedi datgan y gallu i Wrando/Siarad yn y Gymraeg	Cenedlaethol	Yn chwarterol	11.63%	0%	95.61%

# Atodiad 2 i Ran 1

## Datganiad Datgeliad Ariannol Cysylltiedig â'r Hinsawdd 2024/25

### 1. Llywodraethu

Argymhellion datgeliad llywodraethu	Statws	Sylwadau	Y camau nesaf	Yr adnoddau sydd eu hangen?
Datgeliad a Argymhellir a) Disgrifiwch oruchwyliaeth y bwrdd o risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.				
Wrth ddisgrifio goruchwyliaeth y bwrdd o faterion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, dylai sefydliadau ystyried cynnwys trafodaeth ar y canlynol:				
<ul style="list-style-type: none"> <li>prosesau a pha mor aml y mae'r bwrdd a/neu bwyllgorau'r bwrdd (e.e., pwyllgorau archwilio, risg, neu bwyllgorau eraill) yn cael gwybod am faterion sy'n ymwneud â'r hinsawdd;</li> </ul>		Adrodd rheolaidd trwy brosesau DCR, ac Adrodd Sero Net i Lywodraeth Cymru. Adroddiad Uchafbwyntiau Rheolaidd ac Adroddiadau Fframwaith Rheoli Perfformiad.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Aseidiadau risg adrannol yn seiliedig ar newid hinsawdd ac addasu.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Tîm Cynaliadwyedd</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>a yw'r bwrdd a/neu bwyllgorau'r bwrdd yn ystyried materion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd wrth adolygu ac arwain strategaeth, cynlluniau gweithredu mawr, polisiau rheoli risg, cyllidebau blynyddol, a chynlluniau busnes yn ogystal â gosod amcanion perfformiad y sefydliad, monitro gweithrediad a pherfformiad, a goruchwyllo gwariant cyfalaf mawr, caffaeliadau, a gwarediadau; a</li> </ul>		Mae gan yr Ymddiriedolaeth Strategaeth Ymddiriedolaeth, gydag amcan strategol sy'n ymroddedig i gynaliadwyedd, a Strategaeth Alluogi sy'n ymroddedig i fap trywydd manwl ar gyfer Strategaeth Gynaliadwyedd.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Parhau i weithredu'r Cynlluniau Gweithredu Cynaliadwyedd (a ddatblygwyd i gyflawni pob un o'r deg thema yn y Strategaeth Gynaliadwyedd)</li> <li>Roedd y Tasglu Gweithredu ar Newid Hinsawdd yn cynnwys amrywiaeth o gydweithwyr, gan gynnwys Digidol, Cynllunio Cyfalaf, Cyllid a Chaffael.</li> <li>Bydd ffocws ar Gynllunio Addasu i'r Hinsawdd – mapio rhaglenni cyfredol i nodi bylchau mewn cynllunio addasu a lliniaru</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Tîm Cynaliadwyedd</li> <li>Aelodau'r Bwrdd</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>sut mae'r bwrdd yn monitro ac yn goruchwyllo cynnydd yn erbyn nodau a thargedau i fynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.</li> </ul>		Adrodd yn rheolaidd trwy Adroddiadau Uchafbwyntiau, Fframwaith Rheoli Perfformiad. Yn ogystal â hyn, mae c yfathrebu a digwyddiadau'n cael eu dosbarthu'n rheolaidd.  Aelod Annibynnol ar gyfer Cynaliadwyedd wedi'i enwi.  Wedi'i gyhoeddi ar y dudalen we gyhoeddus ac mae aelod annibynnol o'r Bwrdd wedi'i recriwtio i fod yn hyrwyddwr.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Archwilio cyfleoedd ar gyfer Sesiwn Datblygu'r Bwrdd</li> <li>Parhau i fod yn weladwy trwy adrodd</li> <li>Briffiau rheolaidd i'r Aelod Annibynnol ar gyfer Cynaliadwyedd i sicrhau ei fod yn ymwybodol o'r holl waith</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Tîm Cynaliadwyedd</li> <li>Aelodau'r Bwrdd</li> <li>Aelod Annibynnol ar gyfer Cynaliadwyedd</li> </ul>

Argymhellion datgeliad llywodraethu	Statws	Sylwadau	Y camau nesaf	Yr adnoddau sydd eu hangen?
<p>Datgeliad a Argymhellir b) Disgrifiwch rôl y rheolwyr wrth asesu a rheoli risgiau a chyfluoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.</p>	<p>Wrth ddisgrifio rôl rheolwyr sy'n gysylltiedig ag asesu a rheoli materion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, dylai sefydliadau ystyried cynnwys y wybodaeth ganlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>a yw'r sefydliad wedi neilltuo cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd i swyddi neu bwyllgorau lefel rheoli; ac, os felly, a yw'r swyddi neu'r pwyllgorau rheoli hynny'n adrodd i'r bwrdd neu i bwyllgor o'r bwrdd ac a yw'r cyfrifoldebau hynny'n cynnwys asesu a/neu reoli materion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd;</li> <li>disgrifiad o'r strwythur(au) sefydliadol cysylltiedig;</li> <li>prosesau lle mae rheolwyr yn cael gwybod am faterion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd; a</li> <li>sut mae rheolwyr (trwy swyddi penodol a/neu bwyllgorau rheoli) yn monitro materion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.</li> </ul>	<p>Yn 2024/25, cymeradwyodd yr Ymddiriedolaeth y Bwrdd Rheoli Cynaliadwyedd – a ailenwyd yn Dasglu Gweithredu ar Newid Hinsawdd – i fonitro'r broses o weithredu'r Cynlluniau Gweithredu Cynaliadwyedd. Mae'r ailstrwythuro llywodraethu hwn (a oedd yn cael ei fonitro'n flaenorol trwy'r Grŵp Rheoli Ystadau) yn ceisio rhoi mwy o sicrwydd a chraffu ar effeithiau a phrosiectau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.</p> <p>Y Cyfarwyddwr Trawsnewid yw'r arweinydd Gweithredol ar gyfer Cynaliadwyedd.</p> <p>Papurau rheolaidd a dderbynnir gan y Bwrdd Rheoli Gweithredol gan gynnwys Adroddiadau Uchafbwyntiau, Adroddiadau Rheoli Perfformiad ac adroddiadau blynyddol ar allyriadau ac adroddiadau eraill sy'n ymwneud â'r hinsawdd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithredu Tîm Aml-ddisgyblaethol Cynaliadwyedd Clinigol</li> <li>Tasglu Gweithredu ar Newid Hinsawdd yn adrodd i isadrannau i ddarparu mwy o welededd</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Tîm Cynaliadwyedd</li> <li>Cyfarwyddwr Trawsnewid</li> <li>Tîm Cynaliadwyedd</li> </ul>
			<ul style="list-style-type: none"> <li>Adolygiad Blynyddol [neu pan fo angen]</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Tîm Cynaliadwyedd</li> </ul>
		<p>Gwybodaeth a dderbyniwyd trwy bapurau a digwyddiadau cyfathrebu ac ymgysylltu.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu Asesiadau Risg Newid Hinsawdd ac Addasu ar gyfer adrannau a sicrhau eu bod yn weladwy.</li> </ul>	
		<p>Gwybodaeth a dderbyniwyd trwy bapurau a digwyddiadau cyfathrebu ac ymgysylltu.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu Asesiadau Risg Newid Hinsawdd ac Addasu ar gyfer adrannau a sicrhau eu bod yn weladwy.</li> </ul>	

## 2. Strategaeth

Argymhellion datgeliad llywodraethu		Statws	Sylwadau	Y camau nesaf	Yr adnoddau sydd eu hangen?
Datgeliad a Argymhellir a) Disgrifiwch y risgiau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd y mae'r sefydliad wedi'u nodi dros y tymor byr, canolig a hir.	Dylai sefydliadau ddarparu'r wybodaeth ganlynol:				
	<ul style="list-style-type: none"> <li>disgrifiad o'r hyn y maent yn ei ystyried yn orwelion amser perthnasol tymor byr, canolig a hir, gan ystyried oes ddefnyddiol asedau neu seilwaith y sefydliad a'r ffaith bod materion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn aml yn dod i'r amlwg dros y tymor canolig a'r tymor hwy</li> </ul>		<b>Ddim yn ofynnol yn 2024/25</b> – Heb ei ddatblygu ar hyn o bryd.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Caiff ei ymgorffori yn y gwaith Addasu i'r Hinsawdd lechyd a Gofal Cymdeithasol (yn seiliedig ar y pecyn cymorth) a'r Asesiadau Risg Newid Hinsawdd ac Addasu</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mewnbwn gan adrannau ynghylch asedau a seilwaith yn yr ardal leol</li> <li>Cymorth Ystadau</li> <li>Tîm Cynaliadwyedd</li> </ul>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>disgrifiad o'r materion penodol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a allai godi ym mhob cyfnod amser (tymor byr, canolig a hir) a allai gael effaith ariannol sylweddol ar y sefydliad</li> </ul>		<b>Ddim yn ofynnol yn 2024/25</b> – Heb ei ddatblygu ar hyn o bryd.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Caiff ei ymgorffori yn y gwaith Addasu i'r Hinsawdd lechyd a Gofal Cymdeithasol (yn seiliedig ar y pecyn cymorth) a'r Asesiadau Risg Newid Hinsawdd ac Addasu</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mewnbwn gan adrannau ynghylch asedau a seilwaith yn yr ardal leol</li> <li>Cymorth Ariannol</li> <li>Tîm Cynaliadwyedd</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>disgrifiad o'r broses/prosesau a ddefnyddir i benderfynu pa risgiau a chyfleoedd a allai gael effaith ariannol sylweddol ar y sefydliad</li> </ul>		<b>Ddim yn ofynnol yn 2024/25</b> – Heb ei ddatblygu ar hyn o bryd.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Caiff ei ymgorffori yn y gwaith Addasu i'r Hinsawdd lechyd a Gofal Cymdeithasol (yn seiliedig ar y pecyn cymorth) a'r Asesiadau Risg Newid Hinsawdd ac Addasu</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mewnbwn gan adrannau ynghylch asedau a seilwaith yn yr ardal leol</li> <li>Cymorth Risg</li> <li>Tîm Cynaliadwyedd</li> </ul>	
Datgeliad a Argymhellir b) Disgrifiwch effaith risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ar fusnesau, strategaeth, a chynllunio ariannol y sefydliad.	Dylai sefydliadau ystyried darparu disgrifiad o'u risgiau a'u cyfleoedd yn ôl sector a/neu ddaearyddiaeth, yn ôl yr angen. Wrth ddisgrifio materion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, dylai sefydliadau gyfeirio at Dablau A1.1 ac A1.2 (tud.(au) 75–76).		<b>Ddim yn ofynnol yn 2024/25</b> – Heb ei ddatblygu ar hyn o bryd.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Caiff ei ymgorffori yn y gwaith Addasu i'r Hinsawdd lechyd a Gofal Cymdeithasol (yn seiliedig ar y pecyn cymorth) a'r Asesiadau Risg Newid Hinsawdd ac Addasu</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mewnbwn gan adrannau ynghylch asedau a seilwaith yn yr ardal leol</li> <li>Cymorth Risg</li> <li>Tîm Cynaliadwyedd</li> </ul>

Argymhellion datgeliad llywodraethu	Statws	Sylwadau	Y camau nesaf	Yr adnoddau sydd eu hangen?
<p>Dylai sefydliadau ystyried cynnwys yr effaith ar eu busnesau, eu strategaeth, a'u cynllunio ariannol yn y meysydd canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynhyrchion a gwasanaethau</li> <li>• Cadwyn gyflenwi a/neu gadwyn werth</li> <li>• Gweithgareddau addasu a lliniaru</li> <li>• Buddsoddi mewn ymchwil a datblygu</li> <li>• Gweithrediadau (gan gynnwys mathau o weithrediadau a lleoliad cyfleusterau)</li> <li>• Caffaeliadau neu werthiannau</li> <li>• Mynediad at gyfalaf</li> </ul>		<p><b>Ddim yn ofynnol yn 2024/25</b> – Heb ei ddatblygu ar hyn o bryd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd grwpiau amlddisgyblaethol, fel y Tasglu Gweithredu ar Newid Hinsawdd a'r Tîm Amlddisgyblaethol Cynaliadwyedd Clinigol, yn cefnogi adolygiad o'r meysydd a amlinellwyd.</li> <li>• Wedi'i drin gan waith Fframwaith Addasu Hinsawdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n parhau yn ystod 2025/26</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mewnbwn gan staff o bob rhan o'r sefydliad</li> </ul>
<p>Dylai sefydliadau ddisgrifio sut mae materion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn gwasanaethu fel mewnbwn i'w proses gynllunio ariannol, y cyfnod(au) amser a ddefnyddir, a sut mae'r risgiau a'r cyfleoedd hyn yn cael eu blaenoriaethu. Dylai datgeliadau sefydliadau adlewyrchu darlun cyfannol o'r rhyngddibyniaethau ymhlith y ffactorau sy'n effeithio ar eu gallu i greu gwerth dros amser.</p>		<p><b>Ddim yn ofynnol yn 2024/25</b> – Heb ei ddatblygu ar hyn o bryd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd cydweithwyr Cyllid a Chynllunio Cyfalaf yn mynychu'r Tasglu Gweithredu ar Newid Hinsawdd i roi cipolwg ar gyllid</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymorth ariannol</li> </ul>
<p>Dylai sefydliadau ddisgrifio effaith materion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ar eu perfformiad ariannol (e.e., referniw, costau) a'u sefyllfa ariannol (e.e., asedau, rhwymedigaethau). Os defnyddiwyd senarios sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd i lywio strategaeth a chynllunio ariannol y sefydliad, dylid disgrifio senarios o'r fath.</p>		<p><b>Ddim yn ofynnol yn 2024/25</b> – Heb ei ddatblygu ar hyn o bryd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithio gyda chyllid i ddeall yr effaith ar berfformiad ariannol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymorth ariannol</li> </ul>
<p>Dylai sefydliadau sydd wedi gwneud ymrwymadau i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, sy'n gweithredu mewn awdurdodaethau sydd wedi gwneud ymrwymadau o'r fath, neu sydd wedi cytuno i fodloni disgwyliadau buddsoddwyr ynghylch lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ddisgrifio eu cynlluniau ar gyfer newid i economi carbon isel, a allai gynnwys targedau allyriadau nwyon tŷ gwydr a gweithgareddau penodol sydd wedi'u bwriadu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yn eu gweithrediadau a'u cadwyn werth neu i gefnogi'r newid fel arall.</p>		<p><b>Ddim yn ofynnol yn 2024/25</b> – Mae gan yr Ymddiriedolaeth Gynllun Gweithredu Datgarboneiddio cymeradwy (sydd bellach wedi'i integreiddio i'r Cynlluniau Gweithredu Cynaliadwyedd) a Strategaeth Gynaliadwyedd – dogfen gyhoeddus.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gofnion i'w croesgyfeirio yn erbyn Cynlluniau Gweithredu Cynaliadwyedd i sicrhau eu bod wedi'u cynnwys</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Tîm cynaliadwyedd</li> </ul>

Argymhellion datgeliad llywodraethu		Statws	Sylwadau	Y camau nesaf	Yr adnoddau sydd eu hangen?
Datgeliad a Argymhellir c) Disgrifiwch wydnwch strategaeth y sefydliad, gan ystyried gwahanol senarios sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, gan gynnwys senario o 2°C neu is.	Dylai sefydliadau ddisgrifio pa mor wydn yw eu strategaethau i risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, gan ystyried newid i economi carbon isel sy'n gyson â senario 2°C neu is a, lle bo'n berthnasol i'r sefydliad, senarios sy'n gyson â risgiau ffisegol cynyddol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.		<b>Ddim yn ofynnol yn 2024/25</b> – Heb ei ddatblygu ar hyn o bryd.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Caiff ei ymgorffori yn y gwaith Addasu i'r Hinsawdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol (yn seiliedig ar y pecyn cymorth) a'r Asesiadau Risg Newid Hinsawdd ac Addasu</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mewnbwn gan staff o wahanol adrannau</li> </ul>
	<p>Dylai sefydliadau ystyried trafod:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>lle maen nhw'n credu y gallai risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd effeithio ar eu strategaethau;</li> <li>sut y gallai eu strategaethau newid i fynd i'r afael â'r risgiau a'r cyfleoedd posibl hynny;</li> <li>effaith bosibl materion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ar berfformiad ariannol (e.e., refeniw, costau) a sefyllfa ariannol (e.e., asedau, rhwymedigaethau);<sup>27</sup> a</li> <li>y senarios sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a'r gorwel(ion) amser cysylltiedig a ystyriwyd.</li> </ul>		<b>Ddim yn ofynnol yn 2024/25</b> – Heb ei ddatblygu ar hyn o bryd.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Caiff ei ymgorffori yn y gwaith Addasu i'r Hinsawdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol (yn seiliedig ar y pecyn cymorth) a'r Asesiadau Risg Newid Hinsawdd ac Addasu</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mewnbwn gan staff o wahanol adrannau</li> </ul>
	Cyfeiriwch at Adran D yn adroddiad y Tasglu am wybodaeth ar gymhwyso senarios i ddadansoddiad sy'n edrych tua'r dyfodol.				

### 3. Rheoli Risg

Argymhellion datgeliad llywodraethu	Statws	Sylwadau	Y camau nesaf	Yr adnoddau sydd eu hangen?
Datgeliad a Argymhellir a) Disgrifiwch brosesau'r sefydliad ar gyfer nodi ac asesu risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.		Wedi'i ohirio oherwydd nad yw'r canlynol yn cael eu cyhoeddi tan fis Hydref 2024:  <ul style="list-style-type: none"> <li>• Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru</li> <li>• Pecyn Cymorth Addasu i'r Hinsawdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• wedi'i ymgorffori yn y gwaith Addasu i'r Hinsawdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol (yn seiliedig ar y pecyn cymorth) a'r Asesiadau Risg Newid Hinsawdd ac Addasu</li> <li>• Risgiau lefel uchel i'w cwblhau erbyn mis Rhagfyr 2025 fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Tîm Cynaliadwyedd</li> <li>• Cymorth Risg</li> </ul>
Dylai sefydliadau ddisgrifio a ydynt yn ystyried gofynion rheoleiddio presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd (e.e., terfynau ar allyriadau) yn ogystal â ffactorau perthnasol eraill a ystyriwyd.		Monitro a rheoli Deddfwriaeth Amgylcheddol trwy System Reoli ISO14001:2015.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• wedi'i ymgorffori yn y gwaith Addasu i'r Hinsawdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol (yn seiliedig ar y pecyn cymorth) a'r Asesiadau Risg Newid Hinsawdd ac Addasu</li> <li>• Risgiau lefel uchel i'w cwblhau erbyn mis Rhagfyr 2025 fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Tîm Cynaliadwyedd</li> <li>• Cymorth Risg</li> </ul>
Dylai sefydliadau hefyd ystyried datgelu'r canlynol:  <ul style="list-style-type: none"> <li>• prosesau ar gyfer asesu maint a chwmpas posibl risgiau a nodwyd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a</li> <li>• diffiniadau o derminoleg risg a ddefnyddir neu gyfeiriadau at fframweithiau dosbarthu risg presennol a ddefnyddir.</li> </ul>		Datblygu asesiad risg lefel uchel, wedi'i groesgyfeirio â sgoriau risg Llywodraeth Cymru. Yn dilyn hyn, cynhelir asesiadau risg pwrpasol gan adrannau.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Wedi'i ymgorffori yn y gwaith Addasu i'r Hinsawdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol (yn seiliedig ar y pecyn cymorth) a'r Asesiadau Risg Newid Hinsawdd ac Addasu</li> <li>• Risgiau lefel uchel i'w cwblhau erbyn mis Rhagfyr 2025 fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru</li> <li>• Bydd System Reoli ISO14001:2015 yn integreiddio Newid Hinsawdd ac Addasu, gan gynnwys asesiadau cylch bywyd, a fydd yn cefnogi gwaith</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Tîm Cynaliadwyedd</li> <li>• Cymorth Risg</li> </ul>
Datgeliad a Argymhellir b) Disgrifiwch brosesau'r sefydliad ar gyfer rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.		Datblygu asesiad risg lefel uchel, wedi'i groesgyfeirio â sgoriau risg Llywodraeth Cymru. Yn dilyn hyn, cynhelir asesiadau risg pwrpasol gan adrannau.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Wedi'i ymgorffori yn y gwaith Addasu i'r Hinsawdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol (yn seiliedig ar y pecyn cymorth) a'r Asesiadau Risg Newid Hinsawdd ac Addasu</li> <li>• Risgiau lefel uchel i'w cwblhau erbyn mis Rhagfyr 2025 fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru</li> <li>• Caiff ei fonitro a'i reoli trwy'r Tasglu Gweithredu ar Newid Hinsawdd</li> <li>• Bydd System Reoli ISO14001:2015 yn integreiddio Newid Hinsawdd ac Addasu, gan gynnwys asesiadau cylch bywyd, a fydd yn cefnogi gwaith</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Tîm Cynaliadwyedd</li> <li>• Cymorth Risg</li> </ul>

Argymhellion datgeliad llywodraethu		Statws	Sylwadau	Y camau nesaf	Yr adnoddau sydd eu hangen?
Datgeliad a Argymhellir c) Disgrifiwch sut mae prosesau ar gyfer nodi, asesu a rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd wedi'u hintegreiddio i'w rheolaeth risg gyffredinol y sefydliad.	Dylai sefydliadau ddisgrifio sut mae eu prosesau ar gyfer nodi, asesu, a rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd wedi'u hintegreiddio i'w rheolaeth risg gyffredinol.		Datblygu asesiad risg lefel uchel, wedi'i groesgyfeirio â sgoriau risg Llywodraeth Cymru. Yn dilyn hyn, cynhelir asesiadau risg pwrpasol gan adrannau.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Wedi'i ymgorffori yn y gwaith Addasu i'r Hinsawdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol (yn seiliedig ar y pecyn cymorth) a'r Aseidiadau Risg Newid Hinsawdd ac Addasu</li> <li>• Risgiau lefel uchel i'w cwblhau erbyn mis Rhagfyr 2025 fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru</li> <li>• Caiff ei fonitro a'i reoli trwy'r Tasglu Gweithredu ar Newid Hinsawdd</li> <li>• Bydd System Reoli ISO14001:2015 yn integreiddio Newid Hinsawdd ac Addasu, gan gynnwys asesiadau cylch bywyd, a fydd yn cefnogi gwaith</li> <li>• Bydd methodoleg yn cael ei hymgorffori yn y Tasglu Gweithredu ar Newid Hinsawdd, a thrafodir diweddariadau a chynnydd yn y cyfarfod hwnnw.</li> </ul>	

## 4. Metrigau a thargedau

Argymhellion datgeliad llywodraethu	Statws	Sylwadau	Y camau nesaf	Yr adnoddau sydd eu hangen?
<p>Datgeliad a Argymhellir a) Datgelwch y metrigau a ddefnyddir gan y sefydliad i asesu risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn unol â'i strategaeth a'i broses rheoli risg.</p>		Mae'r Strategaeth Gynaliadwyedd yn amlinellu targedau uchelgeisiol, a ddatblygwyd trwy adolygu targedau'r sector cyhoeddus a'r sector preifat.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Caiff ei fonitro a'i graffu trwy'r Tasglu Gweithredu ar Newid Hinsawdd</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Tîm Cynaliadwyedd</li> </ul>
		Mae'r Strategaeth Gynaliadwyedd yn amlinellu targedau uchelgeisiol, a ddatblygwyd.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Caiff ei fonitro a'i graffu trwy'r Tasglu Gweithredu ar Newid Hinsawdd</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Tîm Cynaliadwyedd</li> </ul>
		Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
		Angen ymchwilio ymhellach	<ul style="list-style-type: none"> <li>Adolygu trwy'r Tasglu Gweithredu ar Newid Hinsawdd i benderfynu a yw'n newid Cynllunio Newid Hinsawdd ac Addasu</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Tîm Cynaliadwyedd</li> </ul>
<p>Datgeliad a Argymhellir b) Datgelu allyriadau nwyon tŷ gwydr (GHG) Cwmpas 1, Cwmpas 2, ac, os yw'n briodol, Cwmpas 3, a'r risgiau cysylltiedig</p>		Adroddiad Sero Net a gyflwynir i Lywodraeth Cymru bob mis Medi yn ôl yr angen.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Parhau i gyflwyno cyflwyniadau amserol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Tîm Cynaliadwyedd</li> </ul>

Argymhellion datgeliad llywodraethu	Statws	Sylwadau	Y camau nesaf	Yr adnoddau sydd eu hangen?
<p>Dylid cyfrifo allyriadau nwyon tŷ gwydr yn unol â methodoleg y Protocol nwyon tŷ gwydr er mwyn caniatáu ar gyfer cydgrynhoi a chymharu ar draws sefydliadau ac awdurdodaethau. Fel y bo'n briodol, dylai sefydliadau ystyried darparu cymarebau effeithlonrwydd nwyon tŷ gwydr cysylltiedig, sy'n benodol i'r diwydiant ac sy'n cael eu derbyn yn gyffredinol.</p>		<p>Adroddiad Sero Net a gyflwynir i Lywodraeth Cymru bob mis Medi yn ôl yr angen.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Defnyddio Adroddiad Sero Net</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Tîm Cynaliadwyedd</li> </ul>
<p>Dylid darparu allyriadau nwyon tŷ gwydr a metrigau cysylltiedig ar gyfer cyfnodau hanesyddol er mwyn caniatáu ar gyfer dadansoddi tueddiadau. Yn ogystal, lle nad yw'n amlwg, dylai sefydliadau ddarparu disgrifiad o'r methodolegau a ddefnyddir i gyfrifo neu amcangyfrif y metrigau.</p>		<p>Adroddiad Sero Net a gyflwynir i Lywodraeth Cymru bob mis Medi yn ôl yr angen.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Defnyddio Adroddiad Sero Net</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Tîm Cynaliadwyedd</li> </ul>
<p>Datgeliad a Argymhellir c) Disgrifiwch y targedau a ddefnyddir gan y sefydliad i reoli risgiau a chyfluoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a'r perfformiad yn erbyn targedau.</p>		<p><b>Targedau uchelgeisiol a amlinellir yn y Strategaeth Gynaliadwyedd, sy'n cael eu croesgyfeirio yn erbyn targedau Llywodraeth Cymru, er enghraifft targedau allyriadau nwyon tŷ gwydr:</b> Mae'r targedau o ostyngiad 16% erbyn 2025 a gostyngiad 34% erbyn 2030 yn cael eu llywodraethu gan GIG Cymru a Llywodraeth Cymru, nid yn benodol i Fyrddau Iechyd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ymchwilio i'r hyn sy'n ofynnol i ddatblygu targedau penodol i'r sefydliad</li> <li>Bydd System Reoli ISO14001:2015 yn integreiddio Newid Hinsawdd ac Addasu, gan gynnwys asesiadau cylch bywyd, a fydd yn cefnogi gwaith</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Tîm Cynaliadwyedd</li> </ul>
<p>Wrth ddisgrifio eu targedau, dylai sefydliadau ystyried cynnwys y canlynol:  <input type="checkbox"/> a yw'r targed yn absoliwt, neu'n seiliedig ar ddwyosedd;  <input type="checkbox"/> y cyfnodau y mae'r targed yn berthnasol iddynt;  <input type="checkbox"/> y flwyddyn sylfaen y mesurir cynnydd ohoni; a  <input type="checkbox"/> dangosyddion perfformiad allweddol a ddefnyddir i asesu cynnydd yn erbyn targedau.</p>		<p><b>Targedau uchelgeisiol a amlinellir yn y Strategaeth Gynaliadwyedd, sy'n cael eu croesgyfeirio yn erbyn targedau Llywodraeth Cymru, er enghraifft targedau allyriadau nwyon tŷ gwydr:</b> Mae'r targedau o ostyngiad 16% erbyn 2025 a gostyngiad 34% erbyn 2030 yn cael eu llywodraethu gan GIG Cymru a Llywodraeth Cymru, nid yn benodol i Fyrddau Iechyd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd System Reoli ISO14001:2015 yn integreiddio Newid Hinsawdd ac Addasu, gan gynnwys asesiadau cylch bywyd, a fydd yn cefnogi gwaith</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Tîm Cynaliadwyedd</li> </ul>

Argymhellion datgeliad llywodraethu		Statws	Sylwadau	Y camau nesaf	Yr adnoddau sydd eu hangen?
	Dylai sefydliadau sy'n datgelu targedau tymor canolig neu hirdymor hefyd ddatgelu targedau interim cysylltiedig yn gyfanredol neu fesul llinell fusnes, lle bo modd.		Targedau uchelgeisiol a amlinellir yn y Strategaeth Gynaliadwyedd, sy'n cael eu croesgyfeirio yn erbyn targedau Llywodraeth Cymru, er enghraifft targedau allyriadau nwyon tŷ gwydr: Mae'r targedau o ostyngiad 16% erbyn 2025 a gostyngiad 34% erbyn 2030 yn cael eu llywodraethu gan GIG Cymru a Llywodraeth Cymru, nid yn benodol i Fyrddau Iechyd.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ymchwilio i'r hyn sy'n ofynnol i ddatblygu targedau penodol i'r sefydliad</li> </ul> <p>NODER: Targedau amgylcheddol eraill: Angen ymchwilio gan y byddai'r rhain yn cael eu cynnwys gydag Ystadau trwy ISO 14001</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Tîm Cynaliadwyedd</li> </ul>
	Lle nad yw'n amlwg, dylai sefydliadau ddarparu disgrifiad o'r methodolegau a ddefnyddir i gyfrifo targedau a mesurau		Targedau uchelgeisiol a amlinellir yn y Strategaeth Gynaliadwyedd, sy'n cael eu croesgyfeirio yn erbyn targedau Llywodraeth Cymru, er enghraifft targedau allyriadau nwyon tŷ gwydr: Mae'r targedau o ostyngiad 16% erbyn 2025 a gostyngiad 34% erbyn 2030 yn cael eu llywodraethu gan GIG Cymru a Llywodraeth Cymru, nid yn benodol i Fyrddau Iechyd.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Nid oes angen gweithredu</li> </ul> <p>NODER: Targedau amgylcheddol eraill: Angen ymchwilio gan y byddai'r rhain yn cael eu cynnwys gydag Ystadau trwy ISO 14001.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Tîm Cynaliadwyedd</li> </ul>

## Atodiad 3 i Ran 1

### Rhestr Termau

IMTP	Cynllun Tymor Canolig Integredig
IQPD	Cyflenwi Ansawdd a Chynllunio Integredig
IPC	Atal a Rheoli Heintiau
Linac	Cyflymydd Llinol
RT	Radiotherapi
Therapiau Gwrth-ganser Systematig (SACT)	Therapi Gwrth-ganser Systemig
CGF	Gwasanaeth Canser Felindre
GGC	Gwasanaeth Gwaed Cymru
CGFn	Canolfan Ganser Newydd Felindre
WCP	Porth Clinigol Cymru
WRP	Cronfa Risg Cymru
LFER	Adroddiad Dysgu o Ddigwyddiadau
EAP	Rhaglen Gymorth i Weithwyr
TCS	Trawsnewid Gwasanaethau Canser
CDPS	Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol
DCW	Cymunedau Digidol Cymru
WPAS	System Gweinyddu Cleifion Cymru
IGDC	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
WTAIL	Labordy Trawsblannu ac Imiwnogeneteg Cymru
BECS	System Gyfrifiadurol y Sefydliad Gwaed
WNCR	Cofnod Gofal Nyrsio Cymru
PCGC	Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
HTW	Technoleg Iechyd Cymru
ESR	Cofnod Staff Electronig

# Rhan 2

## Adroddiad Atebolrwydd 2024-25



# Cwmpas yr Adroddiad Atebolrwydd

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru a Thrysorlys Ei Fawrhydi, mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre wedi cynhyrchu Adroddiad Atebolrwydd ar gyfer cyfnod adrodd ariannol 2024-2025.

Diben yr Adroddiad Atebolrwydd, sydd wedi'i gynnwys yn Adroddiad Blynyddol Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, yw adrodd i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r gofynion atebolrwydd allweddol.

Mae'r wybodaeth sy'n ymwneud â Gwasanaethau Corfforaethol yr Ymddiriedolaeth, Gwasanaeth Gwaed Cymru a Gwasanaeth Canser Felindre wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Atebolrwydd hwn ac mae wedi'i llofnodi a'i dyddio gan Swyddog Atebol Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, sef y Prif Weithredwr. Mae'r Adroddiad yn cynnwys y tair adran ganlynol:

- Yr **Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol**: mae'r adroddiad hwn yn egluro cyfansoddiad a threfniadaeth Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre a'i strwythurau llywodraethu a sut maent yn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Mae iddo dair prif ran; Adroddiad y Cyfarwyddwyr, y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Datganiad Llywodraethu.
- Yr **Adroddiad ar Dâl Cydnabyddiaeth a Staff**: mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am dâl uwch reolwyr fel y'i diffinnir gan Lawlyfr Cyfrifon cyfredol GIG Cymru. Mae hyn yn golygu bod cyflogau Aelodau Gweithredol ac Annibynnol Bwrdd yr Ymddiriedolaeth wedi'u cynnwys, ond nid yw cyflogau uwch reolwyr y gwasanaethau a gynhelir wedi'u cynnwys. Rydym wedi codi'r angen am fwy o dryloywder ar y materion hyn gyda Llywodraeth Cymru ac Archwilio Cymru yn ystod y misoedd diwethaf ac yn gobeithio y bydd hyn yn derbyn sylw mewn diwygiad i'r polisi a'r Llawlyfr Cyfrifon. Mae'r adroddiad yn manylu ar gyflogau a thaliadau eraill, polisi Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ar dâl cydnabyddiaeth i uwch reolwyr, ac a oedd unrhyw daliadau ymadael neu ddyfarniadau arwyddocaol eraill i uwch reolwyr presennol neu gyn-reolwyr. Mae hefyd yn nodi aelodaeth Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth yr Ymddiriedolaeth, a gwybodaeth staff o ran

niferoedd, cyfansoddiad ac absenoldeb oherwydd salwch, ynghyd â gwariant ar ymgynghoriaeth a gwariant oddi ar y gyfloges.

- **Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Senedd Cymru**: mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth am faterion fel rheoleidd-dra gwariant, ffioedd a thaliadau, ac Adroddiad Archwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol.

Yn hanesyddol, er mwyn i'r Bwrdd allu cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon (sy'n cynnwys data ariannol cyfunol ar gyfer yr holl wasanaethau a gynhelir), cymerir datganiadau cydymffurfedd gan Gyfarwyddwyr gwasanaethau a gynhelir i roi'r ymrwymiad i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth bod gwasanaethau a gynhelir yn cydymffurfio'n llawn â threfniadau llywodraethu a pholisiau'r Ymddiriedolaeth. Mae'r fframwaith cynnal presennol ar gyfer Cydwasanaethau yn nodi'n benodol nad yw'r Ymddiriedolaeth yn 'atebol' am y gwasanaethau hyn. Fodd bynnag, mae hyn yn cael ei adolygu fel rhan o adolygiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i'r trefniadau hyn.

Yn ystod pedwerydd chwarter 2024/2025, mynegodd yr Ymddiriedolaeth bryderon i Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru ynghylch trefniadau llywodraethu presennol Cydwasanaethau nad oeddent wedi'u hadolygu ers 2012. Mae trafodaethau diweddar gyda Llywodraeth Cymru, Archwilio Cymru a gwasanaethau a gynhelir wedi tynnu sylw at farn yr Ymddiriedolaeth bod angen iddynt gryfhau'r broses sicrwydd y mae'r Ymddiriedolaeth yn ei chynnal yn sylweddol yn barhaus ac i lywio'r broses o gwblhau Adroddiadau Blynyddol yn y dyfodol.

Ar 9 Ebrill 2025, ysgrifennodd Cyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Blynyddoedd Cynnar/Prif Weithredwr GIG Cymru at Brif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth a Rheolwr Gyfarwyddwr y Cydwasanaethau i nodi ei bwriad i gomisiynu adolygiad o'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Cydwasanaethau. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn ymgysylltu'n llawn â'r adolygiad hwn ac yn archwilio gydag Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru yn ystod blwyddyn ariannol 25/26 a yw gwasanaethau a gynhelir wedi'u cynnwys yng nghynlluniau archwilio mewnol ac allanol yr Ymddiriedolaeth yn y dyfodol a bod proses sicrwydd gadarn ar waith.

Ar gyfer cyfnod adrodd 2024-25, mae'r Ymddiriedolaeth wedi derbyn ac wedi dibynnu ar y dogfennau canlynol gan ei gwasanaethau a gynhelir i lywio ei Hadroddiad Blynyddol. Mae'r dogfennau hyn ar gael fel atodiadau i'r Adroddiad Atebolrwydd:

1. Datganiad Cydymffurfedd gan Reolwr Gyfarwyddwr Cydwasanaethau – Atodiad 1

2. Datganiad Cydymffurfedd gan Gyfarwyddwr Technoleg Iechyd Cymru – Atodiad 2  
3. Datganiad Cydymffurfedd gan Reolwr Rhaglen Therapiau Datblygedig Cymru – Atodiad 3.

## 2A – Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

Mae'r Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol yn rhoi trosolwg o'r trefniadau a'r strwythurau llywodraethu a oedd ar waith ar draws Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn ystod 2024-2025. Mae'n cynnwys:

- **Adroddiad y Cyfarwyddwr:** mae hwn yn rhoi manylion y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol sydd ag awdurdod neu gyfrifoldeb dros gyfarwyddo a rheoli prif weithgareddau'r Ymddiriedolaeth yn ystod y flwyddyn. Darperir peth o'r wybodaeth a fyddai'n cael ei dangos yma fel arfer mewn rhannau eraill o'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon Blynyddol a thynnir sylw at hyn lle bo'n berthnasol.

- **Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr:** mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Swyddog Atebol, y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid gadarnhau eu cyfrifoldebau wrth baratoi'r datganiadau ariannol a bod yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, yn eu cyfanrwydd, yn deg, yn gytbwys, ac yn ddealladwy; a'r

- **Y Datganiad Llywodraethu:** mae hwn yn egluro'r trefniadau a'r strwythurau llywodraethu o fewn Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ac yn dwyn ynghyd sut mae'r sefydliad yn rheoli llywodraethu, risg a rheolaeth.



## Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Mae Adroddiad y Cyfarwyddwyr yn dwyn ynghyd wybodaeth am aelodau Bwrdd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, cyfansoddiad Bwrdd yr Ymddiriedolaeth ac elfennau eraill o'i strwythur llywodraethu a rheoli risg. Mae hefyd yn cynnwys datgeliadau a gofynion adrodd sy'n ofynnol gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre mewn perthynas â gweithrediadau busnes beunyddiol yr Ymddiriedolaeth.

Mae Bwrdd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn cynnwys Cyfarwyddwyr Gweithredol, sy'n cael eu cyflogi gan yr Ymddiriedolaeth,

ac Aelodau Annibynnol, a benodwyd i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol trwy broses penodiadau cyhoeddus agored a chystadleuol. Prif rôl y Bwrdd yw ychwanegu gwerth at y sefydliad trwy arfer arweinyddiaeth a rheolaeth gref, gan gynnwys: gosod cyfeiriad strategol y sefydliad; sefydlu a chynnal fframwaith llywodraethiant ac atebolrwydd y sefydliad, gan gynnwys ei gwerthoedd a'i safonau ymddygiad, a sicrhau y cyflawnir nodau ac amcanion y sefydliad trwy herio a chraffu'n effeithiol ar berfformiad yr Ymddiriedolaeth ar draws pob maes gweithgaredd.

### Cadeirydd ac Aelodau Annibynnol yr Ymddiriedolaeth 2024-2025



#### Yr Athro Donna Mead, OBE Cadeirydd

**Penodiad:**

Penodwyd yr Athro Mead yn Gadeirydd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ym mis Mai 2018

**Meysydd Arbenigedd:**

Addysg Uwch, Ymchwil, y GIG ac Addysg, Partneriaethau a Chydweithio

**Aelodaeth o Bwyllgor Bwrdd yr Ymddiriedolaeth, Grŵp Ymgynghorol a Fforymau:**

Yr Athro Mead sy'n cadeirio:

- Bwrdd yr Ymddiriedolaeth
- Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth
- Pwyllgor Penodi Ymgynghorwyr Cynghorol
- Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol
- Bwrdd Partneriaeth Academiaidd

**Mae'r Athro Mead hefyd yn aelod o:**

- Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad
- Pwyllgor Datblygu Strategol
- Yr Is-bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi
- Is-Bwyllgor Craffu ar Raglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser
- Bwrdd Rhaglen Cronfa Hyrwyddo Radiotherapi

**Rôl Hyrwyddwr:**

Hyrwyddwr yr Ymddiriedolaeth dros y Lluedd Arfog a Chyn-filwyr, Ymddiriedolaeth y Brifysgol



## Mr. Stephen Harries Is-gadeirydd ac Aelod Annibynnol

### Penodiad:

Penodwyd Mr Harries yn Aelod Annibynnol o Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ym mis Ebrill 2017

Ym mis Tachwedd 2018, penodwyd Mr Harries yn Is-Gadeirydd Dros Dro yr Ymddiriedolaeth ac fe'i penodwyd yn barhaol ym mis Ebrill 2022

### Meysydd Arbenigedd:

Cyllid, Llywodraethu Gwybodaeth, Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg

### Aelodaeth o Bwyllgor Bwrdd yr Ymddiriedolaeth, Grŵp Ymgynghorol a Fforymau:

Hyd at fis Rhagfyr 2024, Mr. Harries oedd Cadeirydd y:

- Pwyllgor Datblygu Strategol
- Is-Bwyllgor Craffu ar Raglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser

### Mae Mr Harries hefyd yn aelod o:

- Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth
- Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad

### Rôl Hyrwyddwr:

Hyrwyddwr yr Ymddiriedolaeth dros Wasanaethau Digidol a Llesiant Staff



## Mr. Gareth Jones Aelod Annibynnol

### Penodiad:

Penodwyd Mr Jones yn Aelod Annibynnol o Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ym mi Rhagfyr 2019

### Maes Arbenigedd:

Cyfreithiol

### Aelodaeth o Bwyllgor Bwrdd yr Ymddiriedolaeth, Grŵp Ymgynghorol a Fforymau

Mae Mr. Jones yn cadeirio:

- Pwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth
- Pwyllgor Archwilio Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ar gyfer Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

### Mae Mr Jones hefyd yn aelod o:

- Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth
- Pwyllgor Datblygu Strategol
- Is-Bwyllgor Craffu ar Raglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser

### Rôl Hyrwyddwr:

Hyrwyddwr yr Ymddiriedolaeth dros Wybodaeth i Gleifion/Rhoddwyr a'r Gymraeg



### **Mrs Hilary Jones** **Aelod Annibynnol**

**Penodiad:**

Penodwyd Mrs Jones yn Aelod Annibynnol o Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ym mis Mawrth 2020

**Maes Arbenigedd:**

Ystadau a Chynllunio

**Aelodaeth o Bwyllgor Bwrdd yr Ymddiriedolaeth, Grŵp Ymgynghorol a Fforymau:**

Mae Mrs. Jones yn Cadeirio'r Is-bwyllgor Adolygu Perfformiad Buddsoddiadau Cronfeydd Elusennol a daeth yn Gadeirydd yr Is-bwyllgor Craffu ar y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser ym mis Ionawr 2025

**Mae Mrs Jones yn aelod o:**

- Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad
- Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol
- Bwrdd Rhaglen Cronfa Hyrwyddo Radiotherapi

**Rôl Hyrwyddwr:**

Hyrwyddwr yr Ymddiriedolaeth ar gyfer Ymgysylltu â Chleifion/Rhoddwyr a Phrofiad y Claf, Datblygu Cynaliadwy a Dylunio



### **Mrs Vicky Morris** **Aelod Annibynnol**

**Penodiad:**

Penodwyd Mrs Morris yn Aelod Annibynnol o Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ym mis Tachwedd 2021

**Maes Arbenigedd:**

Ansawdd a Diogelwch

**Aelodaeth o Bwyllgor Bwrdd yr Ymddiriedolaeth, Grŵp Ymgynghorol a Fforymau:**

Mrs Morris sy'n cadeirio:

- Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad

**Mae Mrs Morris hefyd yn aelod o:**

- Pwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth
- Pwyllgor Archwilio Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ar gyfer Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
- Yr Is-bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi

**Rôl Hyrwyddwr:**

Hyrwyddwr yr Ymddiriedolaeth dros Atal Heintiau, Gwendid a Thrais ac Ymddygiad Ymosodol



## Yr Athro Andrew Westwell Aelod Annibynnol

### Penodiad:

Penodwyd yr Athro Westwell yn Aelod Annibynnol o Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ym mis Awst 2021

### Maes Arbenigedd:

Cynrychiolydd y Brifysgol

### Aelodaeth o Bwyllgor Bwrdd yr Ymddiriedolaeth, Grŵp Ymgynghorol a Fforymau:

Yr Athro Westwell yw Cadeirydd:

- Yr Is-bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi
- Bwrdd Rhaglen Cronfa Hyrwyddo Radiotherapi

### Mae'r Athro Westwell hefyd yn aelod o:

- Pwyllgor Datblygu Strategol
- Bwrdd Partneriaeth Academaidd.

### Rôl Hyrwyddwr:

Hyrwyddwr yr Ymddiriedolaeth dros Ymchwil, Datblygu ac Arloesi



## Ms. Lindsay Foyster Aelod Annibynnol

### Penodiad:

Penodwyd Ms. Foyster yn Aelod Annibynnol o Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ym mis Ebrill 2024

### Maes Arbenigedd:

Amrywiaeth a Chynhwysiant

### Aelodaeth o Bwyllgorau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth

Daeth Ms. Foyster yn Gadeirydd y Pwyllgor Datblygu Strategol ym mis Ionawr 2025

### Mae Ms. Foyster hefyd yn aelod o:

- Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol
- Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad

### Rôl Hyrwyddwr:

Hyrwyddwr yr Ymddiriedolaeth dros Amrywiaeth a Chynhwysiant

## Cyfarwyddwyr Gweithredol a Chyfarwyddwyr



### Mr. David Donegan Prif Weithredwr a Swyddog Atebol

(ers mis Rhagfyr 2024)

#### Aelodaeth o Bwyllgor Bwrdd yr Ymddiriedolaeth, Grŵp Ymgynghorol a Fforymau:

Mae Mr. Donegan yn aelod o:

- Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol
- Is-bwyllgor Adolygu Perfformiad Buddsoddiadau'r Cronfeydd Elusennol

#### Mae Mr. Donegan yn mynychu'r:

- Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad
- Pwyllgor Datblygu Strategol
- Y Pwyllgor Archwilio
- Fforwm Partneriaeth Lleol
- Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth
- Is-Bwyllgor Craffu ar Raglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser
- Pwyllgor Penodi Ymgynghorwyr Cyngorol



### Mr Matthew Bunce Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid

#### Aelodaeth o Bwyllgor Bwrdd yr Ymddiriedolaeth, Grŵp Ymgynghorol a Fforymau:

Mae Mr Bunce yn aelod o:

- Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol
- Is-bwyllgor Adolygu Perfformiad Buddsoddiadau'r Cronfeydd Elusennol

#### Mae Mr Bunce yn mynychu:

- Pwyllgor Datblygu Strategol
- Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad
- Yr Is-bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi
- Is-Bwyllgor Craffu ar Raglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser
- Pwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth
- Pwyllgor Archwilio Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ar gyfer Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
- Fforwm Partneriaeth Lleol

**Prif Swyddogaeth:** Cyllid, Llywodraethu Gwybodaeth, Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth a Chronfeydd Elusennol



### **Dr Jacinta Abraham** **Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol**

#### **Aelodaeth o Bwyllgor Bwrdd yr Ymddiriedolaeth, Grŵp Ymgynghorol a Fforymau:**

Dr Abraham yn mynychu:

- Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad
- Pwyllgor Datblygu Strategol
- Yr Is-bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi
- Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol
- Pwyllgor Penodi Ymgynghorwyr Cynghorol

**Prif Swyddogaeth:** Cyfarwyddwr Meddygol ac Ymchwil



### **Mr Carl James** **Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid Strategol, Cynllunio, a Digidol / Dirprwy Brif Weithredwr**

#### **Aelodaeth o Bwyllgor Bwrdd yr Ymddiriedolaeth, Grŵp Ymgynghorol a Fforymau:**

Mae Mr James yn mynychu:

- Pwyllgor Datblygu Strategol
- Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad
- Is-Bwyllgor Craffu ar Raglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser

**Prif Swyddogaeth:** Trawsnewid Strategol, Cynllunio, Digidol



### **Ms. Sarah Morley** **Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol**

#### **Aelodaeth o Bwyllgor Bwrdd yr Ymddiriedolaeth, Grŵp Ymgynghorol a Fforymau:**

Mae Ms Morley yn Gyd-gadeirydd:

- Fforwm Partneriaeth Lleol

**Mae Ms Morley yn mynychu:**

- Pwyllgor Datblygu Strategol
- Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad
- Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth
- Is-Bwyllgor Craffu ar Raglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser

**Prif Swyddogaeth:** Datblygu Sefydliadol a'r Gweithlu



**Mrs Nicola Williams**  
**Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio,**  
**Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd**  
**a Gwyddor Iechyd**

**Aelodaeth o Bwyllgor Bwrdd yr Ymddiriedolaeth,**  
**Grŵp Ymgynghorol a Fforymau:**

Mrs Williams yw'r Pwyllgor Gwaith arweiniol ar gyfer:

- Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad

**Mae Mrs Williams yn mynychu:**

- Pwyllgor Datblygu Strategol
- Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol
- Yr Is-bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi
- Is-Bwyllgor Craffu ar Raglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser

**Swyddogaethau Arweiniol:** Ansawdd a Diogelwch, Diogelu, Atal a Rheoli Heintiau, Arweinydd Proffesiynol ar gyfer Nyrsio, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddonwyr Gofal Iechyd

**Aelodau'r Tîm Gweithredol (Cyfarwyddwyr Eraill, Heb Hawliau Pleidleisio)**



**Dr Non Gwilym**  
**Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol**  
(Dros dro)

Prif Gynghorydd i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth a'r sefydliad cyfan ar bob agwedd ar lywodraethu corfforaethol, ac yn gyfrifol am sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn bodloni'r safonau llywodraethu da sydd wedi cael eu gosod ar gyfer y GIG yng Nghymru.



**Ms. Anne Carey**  
**Prif Swyddog Gweithredu**

Yn gyfrifol am oruchwylio a sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer yr Ymddiriedolaeth gyfan:

- Cyflwyno Gwasanaeth Gweithredol
- Gwella Gwasanaethau
- Arlwyo
- Rheoli/Gwella Perfformiad Is-adrannol
- Gwybodaeth Busnes
- Parhad Busnes
- Cynllunio at Argyfwng
- Dyfeisiau Meddygol



**Mrs Lauren Fear**  
**Cyfarwyddwr Trawsnewid** (Dros Dro)

**Aelodaeth o Bwyllgor Bwrdd yr Ymddiriedolaeth, Grŵp Ymgynghorol a Fforymau:**

Mae Mrs. Fear yn mynychu'r:

- Pwyllgor Datblygu Strategol
- Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad
- Is-Bwyllgor Craffu ar Raglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser

**Prif Swyddogaeth:** Trawsnewid Strategol, Cynllunio, Perfformiad ac Ystadau

## Gwasanaethau a gynhelir (nid aelodau o Fwrdd yr Ymddiriedolaeth)

### Technoleg Iechyd Cymru



**Dr Peter Groves**

Cadeirydd Panel Arfarnu  
Technoleg Iechyd Cymru



**Dr Susan Myles**

Cyfarwyddwr Technoleg  
Iechyd Cymru

### Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru



**Yr Athro Tracy Myhill OBE**

Cadeirydd Pwyllgor  
Partneriaeth  
Cydwasanaethau  
Ymddiriedolaeth GIG  
Prifysgol



**Mr Neil Frow OBE**

Rheolwr Gyfarwyddwr  
Partneriaeth  
Cydwasanaethau GIG  
Cymru

### Therapiau Datblygiedig Cymru



**Rachel Savery**

Pennaeth y Rhaglen,  
Therapiau Datblygiedig  
Cymru

## Newidiadau i Aelodau'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol yn Ystod 2024-2025

### Aelodau Annibynnol:

- Ailbenodwyd yr Athro Donna Mead OBE, Cadeirydd, ar 1 Mai 2024.
- Ailbenodwyd Mrs. Hilary Jones, Aelod Annibynnol (Ystadau a Chynllunio), ar 1 Ebrill 2024.
- Ailbenodwyd Mrs. Vicky Morris, Aelod Annibynnol (Ansawdd a Diogelwch), ar 12 Tachwedd 2024.

### Aelodau o'r Tîm Gweithredol

- Gadawodd Mr. Steve Ham, Prif Weithredwr a Swyddog Atebol, ar 30 Mehefin 2024.
- Dechreuodd Mr. David Donegan ei benodiad fel Prif Weithredwr a Swyddog Atebol ar 1 Rhagfyr 2024.
- Penodwyd Mr. Carl James, Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid Strategol, Cynllunio a Digidol, yn Brif Swyddog Gweithredol Dros Dro ar 1 Gorffennaf 2024 ac wedi hynny dychwelodd i'w rôl barhaol fel Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid Strategol, Cynllunio a Digidol ar 1 Rhagfyr 2024.
- Penodwyd Dr Jacinta Abraham, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol, yn Ddirprwy Brif Weithredwr ar 1 Gorffennaf 2024 tan 1 Rhagfyr 2024.
- Penodwyd Mrs. Lauren Fear, Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol a Phennaeth Staff, yn Gyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Trawsnewid Strategol, Cynllunio a Digidol ar 1 Gorffennaf 2024 tan 1 Rhagfyr 2024. Ar 2 Rhagfyr 2024, penodwyd Mrs. Lauren Fear yn Gyfarwyddwr Dros Dro Trawsnewid.
- Penodwyd Dr Non Gwilym, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyfathrebu ac Ymgysylltu, yn Gyfarwyddwr Dros Dro Llywodraethu Corfforaethol ar 1 Awst 2024.

O ran cyfansoddiad y Bwrdd, fel y nodwyd uchod, yn ystod 2024-2025, ymddeolodd Mr. Steve Ham, Prif Weithredwr a Swyddog Atebol, ar 30 Mehefin 2024. Er bod y gwaith o recriwtio olynydd parhaol wedi'i gwblhau, rhoddwyd trefniadau dros dro ar waith i sicrhau parhad busnes a threfniadau llywodraethu effeithiol. Parhaodd trefniadau o'r fath i gefnogi'r Ymddiriedolaeth i gynnal sefydlogrwydd a sicrhau y gellid cyflawni dyletswyddau'r Bwrdd yn ystod cyfnod absenoldeb deiliad parhaol swydd.

Er gwaethaf ymdrechion i recriwtio'n barhaol i rôl yr Aelod Annibynnol Cyllid ers mis Chwefror 2024,

roedd y swydd yn parhau i fod yn wag. Cytunodd Lindsay Foyster i ddod yn aelod dros dro o'r Pwyllgor Archwilio ym mis Mai 2024. Bydd yr Aelod Annibynnol (Cyllid) yn ymuno â'r pwyllgor pan gaiff ei benodi.

Rhoddwyd trefniadau dros dro ar waith ar gyfer rôl y Prif Swyddog Gweithredu nes i'r penodiad parhaol ddechrau. Penodwyd Ms. Anne Carey i rôl y Prif Swyddog Gweithredu dros dro o 29 Gorffennaf 2024 tan 31 Mawrth 2025.

Ni fu unrhyw effaith andwyol ar gydbwysedd y Bwrdd a'r penderfyniadau a wnaed yn ystod y cyfnod adrodd. Ceir rhagor o fanylion am benodiadau i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth yn Adroddiad ar Dâl Cydnabyddiaeth yr Ymddiriedolaeth ar dudalen 144.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2025-2026, bydd cyfnod Cadeirydd ac Is-gadeirydd yr Ymddiriedolaeth yn dod i ben. Daeth y broses o benodi Is-gadeirydd newydd i ben ym mis Mawrth 2025 a dechreuodd yr ymgeisydd llwyddiannus, sef Lindsay Foyster, yn ei swydd ar 1 Mai 2025. Mae'r broses o recriwtio Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth yn mynd rhagddi a disgwylir iddi ddod i ben yn gynnar ym mis Mehefin. Os bydd yn llwyddiannus, disgwylir i Wrandawriad Cyn-Penodi a Chadarnhad Penodiad y Senedd ddigwydd ym mis Gorffennaf 2025. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn parhau i sicrhau bod Bwrdd sefydlog yn cael ei gynnal ac yn galluogi trefniadau trosglwyddo cadarn.

Daeth cyfnod Cadeirydd Panel Arfarnu Technoleg Iechyd Cymru i ben ar 31 Mawrth 2025.

### Datganiad o Fuddiannau Cyhoeddus

Mae'n ofynnol i bob Aelod o Fwrdd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre gwblhau datganiad buddiant cyhoeddus a adolygir bob chwe mis ac a gyflwynir i Bwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth, ac maen nhw wedi gwneud hynny.

Mae holl Aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth a'r Uwch Reolwyr o fewn yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys y gwasanaethau a gynhelir, wedi datgan unrhyw fuddiannau mewn cwmnïau neu faterion a allai arwain at wrthdaro â'u cyfrifoldebau rheoli. Mae [cofrestr lawn o fuddiannau](#) ar gyfer 2024-2025 ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth.

## Datganiadau Datgelu

### Llywodraethu Gwybodaeth:

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth i gyflawni ei rhwymedigaethau gorfodol a statudol a safonau eraill yn ymwneud â deddfwriaeth berthnasol. Mae deddfwriaeth berthnasol yn cynnwys ond nid yw'n gyfyngedig i ddeddfwriaeth sy'n cefnogi egwyddorion y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, Deddf Hawliau Dynol 1998, Deddf Diogelu Rhyddid 2012, Deddf Diogelu Data 2018 (yn cynnwys Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol yr UE 679/2016 (UK GDPR) a gedwir), Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, Dyletswydd Hyder Cyfraith Gwlad a Deddf Mynediad at Gofnodion Meddygol 1990.

Cefnogir y ddeddfwriaeth hon gan ganllawiau anneddfwriaethol megis; Cod Ymarfer Camerâu Diogelwch 2021, Egwyddorion Caldicott a'r Cod Ymarfer Rheoli Cofnodion ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2022 sydd ynddo'i hun yn seiliedig ar God Ymarfer Rheoli Gwybodaeth Adran 46 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid yr Ymddiriedolaeth yw'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) sy'n gyfrifol am risg gwybodaeth i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth. Mae gan yr Ymddiriedolaeth Warcheidwad Caldicott hefyd, sef Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol yr Ymddiriedolaeth. Mae gan Wasanaeth Canser Felindre a Gwasanaeth Gwaed Cymru Warcheidwad Caldicott ar waith. Mae seiberddiogelwch, sy'n elfen annatod o Ddiogelwch Gwybodaeth, yn rhan o bortffolio Prif Swyddog Digidol yr Ymddiriedolaeth

Fel awdurdod cyhoeddus, mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth o dan [Erthygl 37\(1\)\(a\)](#) Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) y Deyrnas Unedig benodi Swyddog Diogelu Data. Y Pennaeth Llywodraethu Gwybodaeth fel arweinydd yr Ymddiriedolaeth ar gyfer Llywodraethu Gwybodaeth yw Swyddog Diogelu Data penodedig yr Ymddiriedolaeth. Mae tasgau'r Swyddog Diogelu Data wedi'u cynnwys yn [Erthygl 39](#) o Reoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU, sef sicrhau bod rheolaethau a mecanweithiau effeithiol ar waith i sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn cydymffurfio â'i rhwymedigaethau Gorfodol a Statudol yn ogystal â chefnogi gallu staff trwy ddarparu hyfforddiant ac ymwybyddiaeth i gydymffurfio ag egwyddorion a gweithdrefnau sylfaenol Llywodraethu Gwybodaeth.

Mae'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth, y Prif Swyddog Digidol, y Swyddog Diogelu Data a

Gwarcheidwad Caldicott yn cwrdd yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn er mwyn mabwysiadu ymagwedd gyflawn at Lywodraethu Gwybodaeth. Yn ystod y cyfnod adrodd, mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i reoli'r risg gyffredinol sydd wedi parhau i leihau. Law yn llaw â'r asesiad hwn y mae gwaith cwblhau Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data yn barhaus i asesu risg Gwybodaeth a Seiber, ymchwilio i ddigwyddiadau llywodraethu gwybodaeth gan nodi themâu cyffredin a gweithredu gweithgarwch i fynd i'r afael â'r themâu hynny. Gwneir hynny trwy ddarparu cyngor, canllawiau a hyfforddiant wedi'i dargedu ar gyfer gweithwyr newydd a gweithwyr presennol yr Ymddiriedolaeth, sy'n cynnwys cynnal gweithdai arbenigol lle bo angen i fynd i'r afael â risg a'i lliniaru.

Darperir hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth yn rhan o becyn sefydlu ar gyfer yr holl staff sy'n ymuno â'r Ymddiriedolaeth. Mae'r becyn yn cynnwys deddfwriaeth, rheoli cofnodion, diogelwch gwybodaeth a seiberddiogelwch. Derbynnir adroddiadau bob mis sy'n galluogi'r Swyddog Diogelu Data i dargedu grwpiau ac unigolion lle mae cydymffurfiaeth yn isel.

Parhaodd yr Ymddiriedolaeth i ddefnyddio Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Cymru Gyfan sy'n darparu tystiolaeth o feysydd gwelliant a gyflawnwyd ac yn nodi camau gweithredu ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

Cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth ddau adolygiad o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth/Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol yn 2024/25 y gofynnwyd amdanynt gan aelodau'r cyhoedd.

Adroddwyd am dri digwyddiad tor diogelwch data i'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod 2024-25. Achoswyd dau ddigwyddiad gan ryddhau data personol i'r cyfeiriad anghywir. Y cyntaf oedd e-bost a gamgyfeiriwyd gan Wasanaeth Canser Felindre ym mis Mai 2024 yn cynnwys data personol gan gynnwys gwybodaeth ddemograffig a gwybodaeth am driniaeth. Ar ôl ei dderbyn, cafodd yr e-bost ei ddileu gan y derbynnydd. Yn dilyn ymchwiliad mewnol, gweithredwyd argymhellion a oedd yn canolbwyntio ar hyfforddiant gwell a chryfhau cydymffurfed. Llythyr wedi'i gyfeirio'n anghywir oedd yr ail. Digwyddodd yr achosion yn yr un adran. Derbyniodd yr holl staff becyn hyfforddi i'w hatgoffa o'u rhwymedigaethau yn ystod ail hanner 2024.

Adroddwyd am drydydd digwyddiad ym mis Ebrill 2024. Collwyd pedwar Cofnod Digwyddiad Niweidiol Rhoddwyr (DAER) mewn safle casglu gwaed anghlinigol. Yn dilyn ymchwiliad, adolygwyd a chryfhawyd gweithdrefnau a phrotocolau a darparwyd hyfforddiant am ddim.

Adroddwyd am y tri digwyddiad i'r Comisiynydd Gwybodaeth. Ym mhob achos, ni chymerwyd unrhyw gamau pellach gan y Comisiynydd Gwybodaeth yn erbyn yr Ymddiriedolaeth.

### Ansawdd y Data:

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwneud pob ymdrech i sicrhau ansawdd a chadernid ei data, ac mae gwiriadau rheolaidd yn eu lle i sicrhau y gellir dibynnu ar gywirdeb yr wybodaeth. Fodd bynnag, cydnabyddir bod lluosogrwydd systemau a mewnbynnwyr data ar draws y sefydliad yn golygu bod posibilrwydd o amrywiaeth mewn ansawdd yn bodoli bob amser, felly mae lle i wella bob amser. Mae gennym ddull gwella ansawdd data parhaus sy'n asesu ansawdd ein data ar draws systemau clinigol allweddol yn rheolaidd. Mae data clinigol o ansawdd da yn chwarae rhan sylfaenol yn y gwaith o reoli ein gwasanaethau. Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre sydd â'r sgôr cwblhau ac ansawdd uchaf ar gyfer codio clinigol yng Nghymru. Mae data wedi'i godio yn sail i lawer o'r wybodaeth reoli o ddydd i ddydd a ddefnyddir yn y GIG ac fe'i defnyddir i gefnogi cynllunio gofal iechyd, dyrannu adnoddau, dadansoddi costau, ac asesiadau o effeithiolrwydd triniaethau. Gall hefyd fod yn fan cychwyn amhrisiadwy ar gyfer llawer o archwiliadau clinigol.

Fel Ymddiriedolaeth, rydym wedi ymrwymo i [Strategaeth Ddigidol](#) uchelgeisiol sy'n cynnwys datblygu i fod yn sefydliad â data yn ei lywio. Rydym yn gwella ansawdd ein data drwy: Gwella ein technolegau digidol, gan eu gwneud yn haws ac yn gyflymach i'w defnyddio; Democrateiddio a chynyddio ein defnydd o'r data ar gyfer gwneud penderfyniadau bob dydd, fel bod ein timau clinigol a'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau yn cael mwy o fudd o ba mor gyflawn a chywir ydyw; a Gwella gwybodaeth, sgiliau a hyder digidol a data ein timau ym mhob adran o'r Ymddiriedolaeth. Mae hon yn daith ac felly lle mae unrhyw bryderon ynghylch ansawdd data ar hyn o bryd, mae data a ddarperir i'r Bwrdd wedi'i nodi'n glir yn unol â hynny gyda chafeatau ar gyfer ei ddefnydd.

### Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Chymunedol:

Mae Strategaeth yr Ymddiriedolaeth '[Cyrchfan 2033](#)' yn amlinellu uchelgais clir ar gyfer y sefydliad dros y blynyddoedd i ddod; darparu gwasanaethau gofal iechyd cynaliadwy o ansawdd uchel sy'n lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd ac yn darparu gwerth ehangach i'n cymunedau. Mae hon yn her gyffrous i ni a fydd yn gofyn i ni barhau i fynd ar

drywydd rhagoriaeth yn ein gwasanaethau clinigol gan gyfrannu hefyd at gyfoeth, iechyd a ffyniant ar draws y wlad. Mae [Strategaeth Cynaliadwyedd](#) yr Ymddiriedolaeth wedi creu map trywydd i ni gyfrannu at ein cymunedau a lleihau ein heffaith ar y blaned wrth barhau i ddarparu gwasanaethau o'r radd flaenaf i'n rhoddwyr, cleifion a gofalwyr. Mae gan y Strategaeth 10 thema, a dynnwyd o Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac maent wedi'u cynllunio i gyflawni Amcanion Llesiant ein Ymddiriedolaeth.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod ei gweithgareddau o ddydd i ddydd yn cael effaith uniongyrchol ar yr amgylchedd ac mae wedi ymrwymo i gyflawni'r ysgogwyr deddfwriaethol a nodwyd gan Lywodraeth Cymru i ymdrin â hyn lle bynnag y bo'n bosibl. Mae gan Lywodraeth Cymru uchelgais i'r sector cyhoeddus fod yn garbon niwtral erbyn 2030. Mae'r uchelgais hwn yn cydfynd â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fel ysgogwyr deddfwriaethol ar gyfer datgarboneiddio a chofleidio'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy o fewn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn parhau â'i gwaith ar fonitro ôl troed carbon yn unol â Strategaeth Datgarboneiddio GIG Cymru. I wireddu'r uchelgais hwn, mae'r Ymddiriedolaeth wedi creu camau gweithredu pendant mewn Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio manwl.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd camau uchelgeisiol, yn strategol trwy Strategaeth Gynaliadwyedd yr Ymddiriedolaeth ac yn weithredol i addasu i newid hinsawdd ac ymateb i risg hinsawdd trwy ddatblygu Canolfan Ganser newydd Felindre, y Ganolfan Loeren Radiotherapi a phrosiect Uwchraddio Seilwaith Tonysguboriau. Caiff cynlluniau cyfalaf eu dylunio gan ddefnyddio data hinsawdd rhagamcanol i sicrhau bod y dyluniad yn darparu ar gyfer cynhesu byd-eang a aseswyd o fewn oes yr adeiladu. Mae'r dull hwn yn sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, bod ffabrigau a systemau a ddefnyddir i reoli cysur mewnlun yn parhau i fod yn addas i'r diben.

Ochr yn ochr â'r cynlluniau cyfalaf mawr hyn, mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n addysgu ei staff i ysgogi newid ymddygiad ystyrion, trwy ddigwyddiadau a chodi ymwybyddiaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cael ei llywio gan ei Strategaeth Gynaliadwyedd ac mae wedi parhau i fod yn uchelgeisiol gyda'i hamcanion strategol yn y cyd-destun hwn a bydd yn parhau i gynllunio ac asesu risg ei gwaith i sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio â'r Ddeddf Newid Hinsawdd a'r gofynion Adrodd Addasu. At hynny,

bydd cynnydd yn erbyn y targed yn parhau i gael ei adrodd gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar risg drwy'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad. Ar gyfer 2024-25, cydymffurfiodd yr Ymddiriedolaeth â'i rhwymedigaethau o dan y Ddeddf. Disgwylir i'r Adroddiad Blynyddol Tân, Risg, Cynaliadwyedd ac Iechyd a Diogelwch yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2024/2025 gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad ar 17 Gorffennaf 2025.

### **Cod Llywodraethu Corfforaethol ar Gyfer Adrannau Llywodraeth Ganolog: Cod Arfer Da 2017:**

Er nad oes unrhyw ofyniad i gydymffurfio â holl elfennau Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU ar gyfer Adrannau'r Llywodraeth Ganolog, mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre wedi cynnal asesiad yn ôl y prif egwyddorion fel y maent yn berthnasol i sefydliad sector cyhoeddus y GIG yng Nghymru. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i adolygu'n barhaus a cheisio rhagoriaeth wrth sicrhau llywodraethu da. Mae hyn yn cynnwys y rhaglen waith sydd ar y gweill i adolygu a chryfhau ansawdd/manylion y wybodaeth a ddarperir i'r Bwrdd er sicrwydd. Yn ogystal, mae pob un o Bwyllgorau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn cynnal Adolygiad Blynyddol o'i Effeithiolrwydd, gan fynd ati i chwilio am gyfleoedd pellach ar gyfer datblygiad a gwelliant parhaus gan sicrhau y cynhelir llywodraethu da. Er mwyn cefnogi llywodraethu da a chryfhau sicrwydd i'r Bwrdd, mae'r Grŵp Aelodau Annibynnol yn cwrdd bob dau fis.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydymffurfio â phrif egwyddorion y Cod lle bo'n berthnasol, yn dilyn ysbryd y Cod yn effeithiol, ac yn cyflawni ei busnes yn agored ac mewn modd tryloyw yn unol â'r Cod. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn cydnabod nad yw holl elfennau adrodd y Cod wedi'u hamlinellu yn y Datganiad Llywodraethu hwn, ond adroddir arnynt yn llawnach yn Adroddiad Blynyddol ehangach yr Ymddiriedolaeth. Ni adroddwyd am unrhyw wriadau oddi wrth y Cod Llywodraethu Corfforaethol yn ystod y flwyddyn.

### **Cynllun Pensiwn y GIG:**

Fel cyflogwr gyda staff sydd â hawl i fod yn aelodau o Gynllun Pensiwn y GIG, mae mesurau rheoli ar waith i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â holl rwymedigaethau'r cyflogwr sydd wedi'u cynnwys yn rheoliadau'r Cynllun. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod didyniadau cyflog, cyfraniadau'r cyflogwr a thaliadau i mewn i'r Cynllun oll yn digwydd yn unol â

rheolau'r Cynllun, a bod cofnodion aelodau yn cael eu diweddarau'n gywir yn unol â'r amserlenni y manylir arnynt yn y Rheoliadau.

### **Cyfarwyddiadau Gweinidogol:**

Mae rhestr o Gyfarwyddiadau Gweinidogol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025 ar gael yma. Er bod Cyfarwyddiadau Gweinidogol yn cael eu derbyn gan Fyrddau Iechyd, nid yw'r rhain bob amser yn berthnasol i Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi dosbarthu'r rhai sy'n berthnasol i'r Ymddiriedolaeth fel y bo'n briodol yn ystod y cyfnod adrodd a cheir manylion amdanynt yn Atodiad 6 ar Dudalen 135. Yn ychwanegol, mae Cylchlythyrau Iechyd Cymru a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru yn cael eu logio gan y Swyddogaeth Llywodraethu Corfforaethol a'u neilltuo i Arweinydd/ Arweinyddion Gweithredol i asesu'r effaith ar yr Ymddiriedolaeth, ac i gymryd unrhyw gamau angenrheidiol fel sy'n briodol. Mae cofrestr a log gweithredu yn cael eu cynnal gan y Swyddogaeth Llywodraethu Corfforaethol. Mae rhestr o Gylchlythyrau Iechyd Cymru a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025 yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi'u rhestru yn **Atodiad 6** ar dudalen 135.

### **Cydraddoldeb ac Amrywiaeth:**

Mae mesurau rheoli ar waith i sicrhau bod holl oblygiadau'r sefydliad o dan ddeddfwriaethau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu bodloni.

Mae'r mesurau rheoli'n cynnwys:

- Cynllun ac Amcanion Cydraddoldeb Strategol yr Ymddiriedolaeth
- Adroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau
- Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol yr Ymddiriedolaeth
- Adroddiadau Cydraddoldeb I'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad ar Amcanion a Chamau Gweithredu'r Ymddiriedolaeth o ran Cydraddoldeb
- Adroddiadau i ymholiadau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Adroddiad i Dîm Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru.
- Asesiad Integredig o'r Effaith ar Gydraddoldeb

# Datganiad o Gyfrifoldebau'r Prif Weithredwr fel Swyddog Atebol Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

Mae Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo y dylai'r Prif Weithredwr fod yn Swyddog Atebol Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (VUNHST).

Mae cyfrifoldebau perthnasol Swyddogion Atebol, gan gynnwys eu cyfrifoldeb am briodoldeb a chysondeb y cyllid cyhoeddus maen nhw'n atebol amdano, ac am gadw cofnodion priodol, yn cael eu manylu ym Memorandwm y Swyddog Atebol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Hyd eithaf fy ngwybodaeth, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr VUNHST yn ymwybodol ohoni, ac rwyf i fel y Swyddog Atebol wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd i wneud fy hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac wedi cadarnhau bod archwilwyr VUNHST yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Mae'n ofynnol i mi gadarnhau bod yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn gyffredinol yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac rwyf yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon a'r barnau sy'n ofynnol i benderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Rwyf yn gyfrifol am awdurdodi cyhoeddi'r datganiadau ariannol ar y dyddiad y cawsant eu hardystio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, rwyf wedi cyflawni'n briodol y cyfrifoldebau a nodwyd yn y llythyr sy'n fy mhenodi fel Swyddog Atebol.

Llofnodwyd gan:



**Mr. David Donegan**  
Prif Weithredwr  
Dyddiad: 26 Mehefin 2025

## Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr Mewn Perthynas â'r Cyfrifon

Mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwyr, o dan Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae Gweinidogion Cymru, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys, yn rhoi cyfarwyddyd bod y cyfrifon hyn yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ac o incwm a gwariant Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r cyfrifon hynny, mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwyr wneud y canlynol:

- cymhwyso ar sail gyson egwyddorion cyfrifyddu a osodwyd gan Weinidogion Cymru gyda chymeradwyaeth y Trysorlys

- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n gyfrifol ac yn ddarbodus
- datgan p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelwyd ac a esboniwyd yn yr adroddiad.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn cadarnhau eu bod wedi cydymffurfio â'r gofynion uchod wrth baratoi'r cyfrifon.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu cywir, sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol sefyllfa ariannol yr awdurdod ar unrhyw adeg, a'u galluogi i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio â'r gofynion a amlinellir yn y cyfarwyddyd uchod gan Weinidogion Cymru.

Drwy Orchymyn y Bwrdd Arwyddwyd:

**Yr Athro Donna Mead OBE**  
**Cadeirydd**  
Dyddiad: 26 Mehefin 2025

**Mr. David Donegan**  
**Prif Weithredwr**  
Dyddiad: 26 Mehefin 2025

**Mr Matthew Bunce**  
**Cyfarwyddwr Gweithredol**  
**Cyllid**  
Dyddiad: 26 Mehefin 2025

# Llywodraethu

## Fframwaith Llywodraethiant ac Atebolrwydd

Mae'r Datganiad Llywodraethu hwn yn manylu ar y trefniadau sydd ar waith ar gyfer cyflawni cyfrifoldeb y Prif Weithredwr i reoli adnoddau Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn ystod y flwyddyn ariannol 2024-2025.

## Cyflawni Cyfrifoldebau

Cyfansoddiwyd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth i gydymffurfio â Gorchymyn Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (Sefydlu) 1993 Rhif 2838 a Gorchymynion Diwygio dilynol (1995 Rhif 2492, 1999 Rhif 808, 1999 Rhif 826, 2002 Rhif 442 (W.57) a 2002 Rhif 2199 (W.219, 2009 Rhif 2059, 2012 Rhif 1261 (W.156), 2015 Rhif 22, 2017 Rhif 912, 2018 Rhif 887 (W176), 2021 Rhif 232 (W.58). Yn ogystal â'r cyfrifoldebau a'r atebolrwydd sydd wedi'u cyflwyno yn y telerau ac amodau penodi, mae aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn cyflawni nifer o swyddogaethau hyrwyddo hefyd, ac yn gweithredu fel llysgenhadon dros y materion hyn (y manylir arnynt ar dudalennau 78-81).

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn atebol am lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol ac yn canolbwyntio ar strategaeth, perfformiad ac ymddygiad. Mae Aelodau'r Bwrdd yn gyfrifol am y cyfeiriad strategol ac am ddarparu arweiniad a chyfeiriad i'r sefydliad, gan sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn ar waith. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth hefyd yn gyfrifol am annog diwylliant agored gyda'r nod o sicrhau safonau uchel.

Mae aelodau'r Bwrdd yn rhannu cyfrifoldeb corfforaethol am bob penderfyniad ac yn chwarae rhan allweddol wrth fonitro perfformiad y sefydliad a sicrhau ei fod yn ymatebol i anghenion ei gymunedau.

Caiff Aelodau Annibynnol eu cefnogi gan drafodaeth arfarnu datblygiad flynyddol gyda'r Cadeirydd.

Caiff perfformiad y Cadeirydd ei asesu gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol tra bod perfformiad y Prif Weithredwr yn cael ei asesu gan y Cadeirydd gyda mewnbwn gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru, Llywodraeth Cymru.

## Trefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd

O dan y Trefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd ar y Cyd, mae Llywodraeth Cymru yn cyfarfod ag Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (Grŵp Triphlyg) ddwywaith y flwyddyn i drafod yr asesiad cyffredinol o bob Bwrdd Iechyd, Ymddiriedolaeth ac Awdurdod Iechyd Arbennig mewn perthynas â'r trefniadau. Caiff ystod eang o wybodaeth a deallusrwydd eu hystyried i nodi unrhyw broblemau a llywio'r asesiad. Mae gan y fframwaith bum lefel uwchgyfeirio:

- Lefel 1 - Trefniadau Arferol
- Lefel 2 - Maes sy'n Peri Pryder
- Lefel 3 - Monitro Uwch
- Lefel 4 - Ymyrraeth wedi'i Thargedu
- Lefel 5 - Mesurau Arbennig

Parhaodd yr Ymddiriedolaeth yn Lefel 1, trefniadau arferol, ar gyfer 2024-25.

## Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog

Mae Gorchymynion Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yr Ymddiriedolaeth wedi cael eu haddasu o Reolau Sefydlog Enghreifftiol Llywodraeth Cymru ar gyfer Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru, ac maent wedi cael eu dylunio i drosi'r gofynion statudol a nodir yn Rheoliadau Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Aelodaeth a Gweithdrefnau) 1990 (1990/2024) yn arferion gweithredu beunyddiol. Ynghyd â mabwysiadu cyfres o benderfyniadau wedi'u neilltuo i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth, mae'r cynllun dirprwyo i swyddogion ac eraill a'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yn darparu'r fframwaith rheolaethol ar gyfer cynnal busnes. Cefnogir hyn ymhellach gan y ffaith y gofynnir am ddatganiadau o fuddiannau cyn dechrau holl gyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau.

Mae'r dogfennau hyn, ynghyd â'r ystod o bolisiau sydd wedi cael eu gosod gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth, yn llunio'r Fframwaith Llywodraethiant ac Atebolrwydd.

Pan fo angen amrywio'r Rheolau Sefydlog, neu pan fo angen cyflawni dyletswyddau'n wahanol, mae angen i Bwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth graffu ar y penderfyniadau hyn a chânt eu cofnodi yng nghofnodion y cyfarfodydd a'r logiau gweithredu priodol yn ôl yr angen.

Mae'r Rheolau Sefydlog wedi'u diweddarau o bryd i'w gilydd i gyfrif am newidiadau yn ystod y flwyddyn. Cymeradwyodd yr Ymddiriedolaeth set ddiwygiedig o Reolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog ar gyfer rheoleiddio trafodion a busnes i sicrhau bod y materion a ganlyn yn cael sylw:

- **Mai 2024:** Diwygiadau i Reolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth Atodlen 3.0, yn deillio o'r adolygiad blynyddol o'r Cylch Gorchwyl a'r Trefniadau Gweithredu mewn perthynas â'r Is-bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi, y Pwyllgor Datblygu Strategol a'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol.
- **Gorffennaf 2024:** Diwygiadau i Reolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth o ganlyniad i sefydlu'r Cyd-bwyllgor Comisiynu newydd, mae angen y diwygiadau canlynol i'r Rheolau Sefydlog Enghreifftiol, Cadw a Dirprwyo Pwerau ar gyfer Ymddiriedolaethau'r GIG.
- **Gorffennaf 2024:** Diwygiadau i Reolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth Atodlen 3.0, yn deillio o'r adolygiad blynyddol o'r Cylch Gorchwyl a'r Trefniadau Gweithredu mewn perthynas â'r Pwyllgor Archwilio.
- **Gorffennaf 2024:** Diwygiadau i'r Cynllun Dirprwyo o fewn y Rheolau Sefydlog ar gyfer Gweithredu Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasaethau.
- **Medi 2024:** Diwygiadau i Reolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth Atodlen 1 Cynllun Enghreifftiol ar gyfer Cadw a Dirprwyo Pwerau.
- **Medi 2024:** Diwygiadau i Reolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth Atodlen 2 Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog.
- **Medi 2024:** Diwygiadau i Reolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth Atodlen 3.0, yn deillio o'r adolygiad blynyddol o'r Cylch Gorchwyl a'r Trefniadau Gweithredu mewn perthynas â'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad ac Is-bwyllgor Adolygu Perfformiad Buddsoddiadau Cronfeydd Elusennol.
- **Tachwedd 2024:** Diwygiadau i Reolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth Atodlen 3.0, yn deillio o'r adolygiad blynyddol o'r Cylch Gorchwyl a'r Trefniadau Gweithredu mewn perthynas ag Is-bwyllgor Craffu'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser.
- **Ionawr 2025:** Diwygiadau i'r Cynllun Dirprwyo Terfynau Ariannol.

- **Mawrth 2025:** Diwygiadau i Reolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth yn dilyn Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024 a ddaeth i rym ar 20 Ionawr 2025. Diwygiodd y Rheoliadau hyn y dyddiad cau cyhoeddi ar gyfer dosbarthu papurau'r Bwrdd o 7 diwrnod calendr i 5 diwrnod clir.

Mae'r holl bapurau perthnasol ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth [yma](#).

## Cyfarfodydd Bwrdd a Phwyllgor Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn cyflawni ei gyfrifoldebau drwy ei Bwyllgorau, a restrir yn y tabl isod, a'i Gynllun Dirprwyo, a nodir yn ei Reolau Sefydlog.

Drwy gydol 2024-2025, cyfarfu Bwrdd yr Ymddiriedolaeth wyneb yn wyneb a ffrydiwyd cyfarfodydd yn fyw trwy blatfform Zoom o fis Ebrill 2024 i fis Gorffennaf 2024 a thrwy Weminar Microsoft Teams o fis Medi 2024 i fis Mawrth 2025, er mwyn parhau i alluogi mynediad cynhwysol i'r cyfarfodydd gan aelodau'r cyhoedd. Mae darllediad byw o'r cyfarfod yn cydymffurfio â'r gofyniad i gynnal cyfarfodydd o'r fath mewn modd agored a thryloyw ac fe'i cefnogir gan agenda a phapurau cyfarfod sydd ar gael ymlaen llaw trwy wefan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Mae gwasanaeth cyfieithu ar y pryd Cymraeg ar gael ar gyfer pob cyfarfod cyhoeddus o Fwrdd yr Ymddiriedolaeth hefyd. Gwahoddir y cyhoedd i bob cyfarfod cyhoeddus o'r Bwrdd a chyhoeddir hysbysiadau cyhoeddus ar wefan a sianeli digidol yr Ymddiriedolaeth. Mae recordiadau digidol o gyfarfodydd y Bwrdd ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth.

Cyhoeddir holl bapurau Pwyllgorau cyhoeddus ar wefan yr Ymddiriedolaeth. Mae'r holl Bwyllgorau cyhoeddus yn darparu eu hagendâu a'u cofnodion ar gyfer pob cyfarfod. Cyflwynir adroddiadau uchafbwyntiau i'r Bwrdd i gyfrannu at ei asesiad o sicrwydd ac i graffu ar gyflawni amcanion. Bwriedir ailddechrau gwahodd y cyhoedd i ymuno â chyfarfodydd pwyllgorau wyneb yn wyneb o drydydd chwarter 2025.

Mae wyth Pwyllgor/Fforwm Partneriaeth yn adrodd yn uniongyrchol i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth, sy'n cael eu cefnogi gan is-bwyllgorau/grwpiau i gyflawni eu swyddogaethau a amlinellir isod:

Pwyllgor, Grŵp Ymgynghorol a Fforymau	Is-bwyllgor
Pwyllgor Archwilio (Ymddiriedolaeth)	Ddim yn berthnasol
Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol	Is-bwyllgor Adolygu Perfformiad Buddsoddiadau
Fforwm Partneriaeth Lleol	Ddim yn berthnasol
Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad (ar gyfer gweithgaredd Ymchwil a Datblygu)	<ul style="list-style-type: none"> <li>Yr Is-bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi</li> <li>Is-Bwyllgor Craffu ar Raglen Trawsnewid Gwasanaethau Cancer (ar gyfer cyflwyno rhaglenni)</li> </ul>
Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth	Ddim yn berthnasol
Pwyllgor Datblygu Strategol (ar gyfer gweithgaredd Strategol / Arloesi)	<ul style="list-style-type: none"> <li>Yr Is-bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi</li> <li>Is-Bwyllgor Craffu ar Raglen Trawsnewid Gwasanaethau Cancer (ar gyfer gosod cyfeiriad i'r dyfodol)</li> </ul>
Pwyllgor Penodi Ymgynghorwyr Cynghorol	Ddim yn berthnasol

Nodir y dyddiadau y cyfarfu Bwrdd a Phwyllgorau'r Ymddiriedolaeth yn ystod 2024-2025 yn Atodiad 4 ar dudalen 123.

## Gweithgarwch Pwyllgorau

Yn unol â Rheolau Sefydlog, mae pob Pwyllgor yn adrodd yn ffurfiol i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ar ei waith yn ystod y flwyddyn, gan roi manylion y busnes, y gweithgareddau, presenoldeb a'r prif faterion y gwnaeth y pwyllgor ymdrin â nhw yn y flwyddyn adrodd. Mae copiâu o Adroddiadau Blynyddol y Pwyllgorau ar gyfer 2024-2025, sy'n amlinellu gweithgarwch pob un o'r Pwyllgorau, ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth [yma](#). Mae pob cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn derbyn adroddiad ar y prif bwyntiau hefyd, sy'n tynnu sylw at y materion a'r gweithgarwch a ystyriwyd ac y cyfeiriwyd atynt gan bob Pwyllgor yn eu cyfarfod diwethaf. Mae gan yr Ymddiriedolaeth broses lle mae Pwyllgorau yn trefnu i oedi ar ddiwedd pob cyfarfod i drafod y prif faterion maen nhw'n dymuno eu codi gyda Bwrdd

yr Ymddiriedolaeth trwy'r broses adrodd ar y prif bwyntiau o dan y penawdau canlynol:

### RHYBUDD / UWCH-GYFEIRIO

### RHOI CYNGOR

### SICRHAU

### HYSBYSU

Cyflwynir Adroddiad Uchafbwyntiau pob Pwyllgor i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor. Yn yr un modd, mae Adroddiad Uchafbwyntiau pob Pwyllgor ar gael o fewn papurau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth ar wefan yr Ymddiriedolaeth [yma](#).

Adolygir Cylch Gorchwyl y Pwyllgorau yn flynyddol yn unol â Rheolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth, neu'n amlach os yw'r Pwyllgor neu Fwrdd yr Ymddiriedolaeth yn penderfynu bod angen hynny. Mae Cylch Gorchwyl pob Pwyllgor ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth [yma](#).

Mae'r prif bwyntiau a'r materion a ystyriwyd gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth a'i Bwyllgorau yn ystod 2024-2025 yn cael eu cynnwys yn **Atodiad 4** y Datganiad Llywodraethu ar dudalen 123.

Mae cofnodion a phapurau holl gyfarfodydd cyhoeddus Bwrdd a Phwyllgorau'r Ymddiriedolaeth hefyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Ymddiriedolaeth [yma](#).

Yn ystod 2024-2025, roedd prif agweddau ar fusnes a materion Bwrdd yr Ymddiriedolaeth a ddirprwywyd i'r Pwyllgor Archwilio er ystyriaeth a chyingor, gan gynnwys y camau a gymerwyd, yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Cytuno ar y Cynlluniau Archwilio Mewnol ac Allanol ar gyfer y flwyddyn.
- Derbyn Adroddiadau Archwilio Mewnol ac Allanol, a monitro cynnydd wedi hynny yn erbyn Cynlluniau Gweithredu Archwilio. Mae'r Traciwr Argymhellion Camau Gweithredu Archwilio, sy'n olrhain gweithredu argymhellion Archwiliadau, yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan y Bwrdd Rheoli Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio.
- Cytuno ar y Cynllun Atal Twyll Blynyddol a monitro gweithgareddau atal twyll.
- Adolygu'r Gofrestr Datganiadau Buddiannau a Rhoddion, Lletygarwch, Nawdd a Honoraria a'r Gofrestr Gyfreithiol a Chydymffurfedd.
- Monitro datblygiad Adroddiad Atebolrwydd yr Ymddiriedolaeth.
- Monitro Trefniadau Llywodraethu ar draws y sefydliad.
- Monitro'r broses rheoli risg gyffredinol drwy adolygu Cofrestr Risg yr Ymddiriedolaeth ymhob cyfarfod.

Ceir rhagor o fanylion am weithgarwch y Pwyllgor Archwilio yn ystod 2024-2025 yn llawn ar wefan yr Ymddiriedolaeth [yma](#).

## Camau Gweithredu Brys y Cadeirydd

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i weithredu system o ddefnyddio Camau Gweithredu Brys y Cadeirydd ar gyfer amgylchiadau eithriadol y tu allan i'r cylch cyfarfodydd ffurfiol yn unig. Adroddir manylion y penderfyniadau i gyfarfod nesaf Bwrdd yr Ymddiriedolaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn parhau i ddefnyddio 'Agenda Caniatâd' ar gyfer holl gyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau fel y gellir prosesu unrhyw eitemau, pan fo'n briodol, heb eu rhoi ar y brif agenda sy'n gwneud y defnydd gorau o'r amser cyfarfod sydd ar gael. Gall unrhyw aelod o'r Bwrdd ofyn am gael symud eitemau ar yr 'Agenda Caniatâd' i brif agenda'r cyfarfod i'w trafod.

## Ymgysylltu â'r Fforwm Partneriaeth Lleol

I gefnogi Bwrdd yr Ymddiriedolaeth, mae gan yr Ymddiriedolaeth Fforwm Partneriaeth Lleol hefyd, a gyfarfu bedair gwaith yn ystod 2024-2025, gyda Chyd-gadeiryddion a enwebir o blith cynrychiolwyr Undebau Llafur a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol. Rôl y Fforwm Partneriaeth Lleol yw sicrhau cydweithio, trafodaeth ac ymgysylltiad rhwng arweinwyr a rheolwyr yr Ymddiriedolaeth a'n cydweithwyr undebau llafur, gyda phwyslais ar ddod i gonsensws wrth ddatblygu cynlluniau'r Ymddiriedolaeth mewn perthynas â'r gweithlu. Nid yw hyn yn cynnwys cyflogeion yr Ymddiriedolaeth sy'n gweithio mewn gwasanaethau a gynhelir.

Mae esiamplau o ymgysylltu â'r Fforwm Partneriaeth Lleol yn ystod 2024-2025 yn cynnwys:

- Adolygiad parhaus o'r Fframwaith Rheoli Perfformiad, gan gynnwys absenoldeb oherwydd salwch, hyfforddiant Statudol a Gorfodol a chydymffurfedd ag AGDP. Ymyrraeth benodol wedi'i thargedu i Welliannau Absenoldeb Salwch.
- Cytundebau nad ydynt yn ymwneud â chyflog a chynllunio sy'n cyd-fynd â gweithredu diwydiannol 2023 – 2024.
- Prosiect Denu ac Adnoddau a gofynion arweinyddiaeth i sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn cael yr adnoddau gorau i gyflawni ei hamcanion.
- Addewid Arweinyddiaeth Dosturiol yr Ymddiriedolaeth
- Canlyniadau Arolwg Staff y GIG a Chynllun Gweithredu 2023-2024
- Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol
- Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau yr Ymddiriedolaeth
- Adrodd yn flynyddol ar y berthynas â chyflogeion
- Prosiect Niwed i Weithwyr y Gellir ei Osgoi
- Cynnig a chynllun gweithredu gwirfoddolwyr
- Prosesau a diweddariadau Newid Sefydliadol
- Datblygiadau adeiladu Canolfan Loeren Radiotherapi a Chanolfan Ganser newydd Felindre (CGFn)
- Adolygu a datblygu Polisiau a Gweithdrefnau Gweithlu'r Ymddiriedolaeth.

## Strwythur Gorchymyn a Rheoli

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu strwythur Gorchymyn a Rheoli digwyddiadau pan fo angen. Yn ystod 2024, parhaodd yr Ymddiriedolaeth i ddefnyddio ei strwythur Gorchymyn a Rheoli wrth ymateb i berfformiad dirywiol Therapi Gwrth-ganser Systemig (SACT). Cafodd amllder cyfarfodydd Rheolaeth Aur yn ystod y cyfnod hwn ei asesu'n



barhaus a'i addasu yn unol ag anghenion monitro perfformiad, a'r rhyng-gysylltiad â Rheolaeth Arian Gwasanaeth Canser Felindre. Fodd bynnag, yn gynnar yn 2025, tynnwyd Rheolaeth Aur yn ôl oherwydd bod perfformiad SACT yn gwella ac fe'i hisgyfeiriwyd at Grŵp Llywio dan Gadeiryddiaeth Weithredol a Grŵp Cyflawni Is-adrannol.

### Diben Y System Rheolaeth Fewnol

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth ar y cyd yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion y sefydliad ac mae hefyd yn gyfrifol am roi trefniadau ar waith i gael sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd y system gyffredinol honno.

Fel Swyddog Atebol, mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae barn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol yn cyfrannu at y sicrwydd sydd ar gael i'r Swyddog Atebol a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth sy'n sail i asesiad y Bwrdd ei hun o effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol y sefydliad. Mae'r adolygiad o'r system rheolaeth fewnol wedi'i seilio ar waith yr archwilwyr mewnol, a'r swyddogion gweithredol yn y sefydliad, sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, ac ar sylwadau gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr archwilio ac mewn adroddiadau eraill.

Mae'r system rheolaeth fewnol wedi'i chynllunio i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg. Dim ond sicrwydd rhesymol y gall ei roi ynghylch effeithiolrwydd, felly, yn hytrach na sicrwydd absoliwt.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a luniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni'r polisiau, nodau ac amcanion, i werthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n cael eu gwireddu a'r effaith pe baent yn cael eu gwireddu, ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol a darbodus.

Mae Llywodraeth Cymru yn mynnu bod yr Ymddiriedolaeth yn gweithredu o fewn y fframwaith llywodraethu ehangach a osodwyd ar gyfer GIG Cymru, a'i bod yn ymgorffori'r safonau llywodraethu da a osodwyd ar gyfer GIG Cymru (fel y'u diffinnir yn yr Egwyddorion Llywodraethu sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd a'r Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru), ynghyd â'i fframweithiau cynllunio a rheoli perfformiad.

Dangosir crynodeb cyffredinol o Fframwaith Llywodraethiant ac Atebolrwydd yr Ymddiriedolaeth dros y dudalen.

## Fframwaith Llywodraethiant ac Atebolrwydd yr Ymddiriedolaeth

Bwrdd yr Ymddiriedolaeth				
Pwyllgorau				
Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad (Bob yn ail fis)	Y Pwyllgor Datblygu Strategol (Bob yn ail fis)	Y Pwyllgor Archwilio (Chwarterol)	Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth (Bob yn ail fis)	Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol (Chwarterol)
<p>Ansawdd a Diogelwch Perfformiad a Sicrwydd Cydymffurfedd a Safonau Rheoli Risg</p> <p>Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth</p> <p>Monitro Cynllun Blynyddol/IMTP</p> <p>Gwrando a Dysgu Y Gweithlu</p> <p>Cyflawni Digidol Llywodraethu Gwybodaeth</p>	<p>Strategaeth ar gyfer Comisiynu Arloesedd Gosod Cyfeiriad Trawsnewid</p> <p>Gwasanaethau Canser yn y Dyfodol a Rhaglenni Mawr eraill</p> <p>Strategaethau'r Ymddiriedolaeth.</p> <p>Datblygu Cynllun Tymor Canolog Integredig (IMTP)</p> <p>Partneriaethau (y Byd Academaidd / Diwydiant / y Trydydd Sector)</p> <p>Datblygiadau Digidol Datblygu Sefydliadol</p>	<p>Llywodraethu a Risg Cyfrifon</p> <p>Archwilio Mewnol</p> <p>Archwilio Allanol</p> <p>Atal Twyll</p> <p>Traciwr Archwilio</p>	<p>Amcanion Swyddogion Gweithredol</p> <p>Perfformiad Swyddogion Gweithredol</p> <p>Gohebiaeth Anhysbys Cynllun Gadael Swydd yn Gynnar o Wirfodd (VERS)</p>	<p>Llywodraethu a Risg Strategaeth a Pherfformiad</p> <p>Adroddiadau Ariannol Buddsoddi</p> <p>Gweithgarwch Codi Arian Radiotherapi Datblygedig Bwrdd y Rhaglen</p>
<p>Is-bwyllgor: Craffu'r Rhaglen Trawsnewid</p> <p>Gwasanaethau Canser Adroddiad ar y Prif Bwyntiau</p> <p>Risgiau a Materion</p>	<p>Is-bwyllgor: Craffu'r Rhaglen Trawsnewid</p> <p>Gwasanaethau Canser Gosod cyfeiriad y Rhaglen Trawsnewid</p> <p>Gwasanaethau Canser ar gyfer y Dyfodol</p> <p>Camau Gweithredu Arfaethedig i'w datblygu</p>			<p>Is-bwyllgor: Adolygu Perfformiad Buddsoddiadau'r Cronfeydd Elusennol</p> <p>Adolygu Perfformiad a Strategaeth ar gyfer y Portffolio Buddsoddi</p>
<p>Is-bwyllgor: YDA Adroddiad ar y Prif Bwyntiau</p> <p>Cynnydd yn erbyn Cynllun Gweithredol Blynyddol Ymchwil, Datblygu ac Arloesi'r Ymddiriedolaeth</p>	<p>Is-bwyllgor: YDA Diweddariadau Strategaeth Ymchwil, Datblygu ac Arloesi'r Ymddiriedolaeth</p> <p>Diweddariadau'r Grŵp Llywio</p>			<p>Is-bwyllgor: YDA Cydweddu â Strategaeth a Chyllid</p>

### Grwpiau Cyngori a Fforymau:

Fforwm Partneriaeth Lleol / Pwyllgor Penodi Ymgynghorwyr Cyngorol / Bwrdd Partneriaeth Academaidd / Grŵp Aelodau Annibynnol

**Pwrpas:** Gwella Bywydau

**Gweledigaeth:** Gofal Ardderchog; Dysgu Ysbrydoledig; Pobl Iachach

**Gwerthoedd:** Gofalgar; Parchus; Atebol

## Llywodraethu'r Cronfeydd Elusennol

Penodwyd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn Ymddiriedolwr Corfforaethol y Cronfeydd Elusennol yn rhinwedd Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Sefydlu) Rhif 2838 a ddaeth i fodolaeth ar 1 Rhagfyr 1993, ac mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn gwasanaethu fel ei asiant yn y broses o weinyddu'r cronfeydd elusennol a ddelir gan yr Ymddiriedolaeth.

Yr Ymddiriedolaeth, fel Ymddiriedolwr Corfforaethol, sy'n atebol yn y pen draw am Gronfeydd Elusennol a roddir i Elusen Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Er mwyn hwyluso'r broses o weinyddu a rheoli'r cronfeydd hyn, mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth wedi sefydlu Pwyllgor Cronfeydd Elusennol i roi cyngor ac argymhellion i'r Bwrdd. Mae'r Pwyllgor yn rhoi sicrwydd i'w hun bod trefnau llywodraethu ariannol a diogelwch pob digwyddiad codi arian a gynhelir gan yr Elusen yn briodol.

Cynhelir cyfarfodydd y Pwyllgor bob tri mis ac fel arall, yn ôl cyfarwyddyd Cadeiryddion y Pwyllgorau. Mae'n rhaid i o leiaf dau aelod ddod i'r cyfarfodydd, i sicrhau bod digon o bobl yn bresennol yn y Pwyllgorau.

Cefnogir y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol gan Grŵp Uwch Arweinwyr y Cronfeydd Elusennol sy'n cwrdd bob mis. Fe'i cefnogir hefyd gan Is-bwyllgor Adolygu Perfformiad Buddsoddiadau, i oruchwyllo'r buddsoddiadau a wneir gan yr Elusen.

O 2024/2025 ymlaen, mae'r Ymddiriedolaeth, gyda chytundeb Llywodraeth Cymru, wedi mabwysiadu'r eithriad IFRS10 i gyfuno'r Cyfrifon Elusennol.

Mae rhagor o wybodaeth am y Cronfeydd Elusennol ar gael yn Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr sydd ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth [yma](#).

## Systemau Rheolaeth A Sicrwydd Mewnol - Gwasanaethau A Rhaglenni A Gynhelir

Mae'r Datganiadau Cydymffurfedd a gwblhawyd gan wasanaethau a gynhelir gan yr Ymddiriedolaeth ar gael fel Atodiadau 1, 2 a 3.

## Rheoli Risg

Mae gan yr Ymddiriedolaeth Fframwaith Risg a Sicrwydd cymeradwy a pholisïau cysylltiedig ar waith. Mae'r polisïau'n manylu ar broses gadarn o asesu risg i nodi, asesu a rheoli risgiau sefydliadol, a adroddir ar gofrestr risg i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth, yn unol â lefelau parodrwydd i dderbyn risg a bennir gan

Fwrdd yr Ymddiriedolaeth. Mae Polisi Rheoli Risg cyffredinol yr Ymddiriedolaeth, a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth, yn darparu dogfen gyffredinol a lefel strategol ar gyfer y fframwaith rheoli risg yn Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Mae'n seiliedig ar fodel llywodraethu risg y 3 Llinell Amddiffyn: y llinell amddiffyn gyntaf yw rheolaeth lwyr wrth gymryd cyfrifoldeb am risg a'i rheoli, yr ail linell amddiffyn yw'r swyddogaethau arbenigol amrywiol megis Cyllid, Gweithlu, Ansawdd ac ati, a chaiff y drydedd linell ei darparu gan sicrwydd annibynnol ar effeithiolrwydd y fframwaith rheoli risg.

Ochr yn ochr â'r Polisi Rheoli Risg, ceir Gweithdrefn Rheoli Risg yr Ymddiriedolaeth, sy'n cefnogi cymhwyso'r Polisi Rheoli Risg ar draws yr Ymddiriedolaeth.

Mae gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth gyfrifoldeb cyffredinol am reoli risg. Mae'n gosod y 'cywair ar y brig' ar gyfer diwylliant rheoli risg drwy osod archwaeth risg ac ystyried risg yn benodol wrth ddatblygu neu ddiweddarau'r strategaeth, neu wrth ystyried perfformiad a/neu raglenni newid mawr. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth hefyd yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y fframwaith fel y sicrhawyd gan y Pwyllgor Archwilio. Mae'n gosod y 'cywair ar y brig' ar gyfer diwylliant rheoli risg drwy osod archwaeth risg ac ystyried risg yn benodol wrth ddatblygu neu ddiweddarau'r strategaeth, neu wrth ystyried perfformiad a/neu raglenni newid mawr.

Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad yn rhoi sicrwydd i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth fod y gofrestr risg yn adlewyrchu'n briodol y risgiau mwyaf arwyddocaol sy'n wynebu'r sefydliad. Mae'n ystyried risg o safbwynt Ansawdd a Diogelwch, priodoldeb y fframwaith rheoli sydd ar waith ac effeithiolrwydd y camau gweithredu i reoli risg.

Mae Pwyllgorau eraill yn rhoi sicrwydd i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth fod adrannau penodol Cofrestr Risg yr Ymddiriedolaeth yn adlewyrchu'n briodol y risgiau mwyaf arwyddocaol sy'n wynebu'r sefydliad, yn unol â'u cwmpas.

Mae Cyfarwyddwyr y Bwrdd Rheoli Gweithredol yn cefnogi ac yn hyrwyddo rheoli risg. Maent yn sicrhau bod rheoli risg wedi'i integreiddio i bob gweithgarwch.

Y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol yw'r Arweinydd Gweithredol ar gyfer fframwaith risg yr Ymddiriedolaeth.

I grynhoi, mae fframwaith rheoli risg yr Ymddiriedolaeth yn:

- hyrwyddo cysondeb a thryloywder drwy fynegi fframwaith trosfwaol ar gyfer rheoli risg a sefydlu iaith risg gyffredin ar draws yr Ymddiriedolaeth;
- esbonio sut mae'r tair llinell amddiffyn yn gweithredu;
- esbonio sut mae rheoli risg yn cyd-fynd â'r strwythurau llywodraethu ar draws y sefydliad;
- diffinio rolau a chyfrifoldebau rheoli risg ar gyfer unigolion a thimau o fewn VUNHST;
- sicrhau bod prosesau rheoli risg yn cefnogi ac yn cyd-fynd â strategaeth gyffredinol yr Ymddiriedolaeth, y mae ein hymrwymiad i ansawdd a diogelwch yn llinyn aur drwyddi, gan sicrhau ein bod yn rhoi ein cleifion a'n rhoddwyr wrth wraidd popeth a wnawn;
- cydnabod bod monitro, adolygu, cyfathrebu ac adrodd ar risg yn amserol ac yn gywir yn hanfodol i ddarparu:
- mecanweithiau rhybuddio cynnar ar gyfer rheoli digwyddiadau risg yn effeithiol
- sicrwydd i'n cleifion a'n rhoddwyr
- sicrwydd drwy strwythurau llywodraethu i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ac i'n partneriaid/rhanddeiliaid megis Rheolyddion a chyrrff Arolygu
- llwyfan cadarn ar gyfer gwydnwch sefydliadol
- cefnogi gwneud penderfyniadau trwy wybodaeth yn seiliedig ar risg; ac yn
- cefnogi datblygiad parhaus diwylliant lle mae rheoli risg yn rhagweithiol wedi'i integreiddio i holl fusnes yr Ymddiriedolaeth.

## Cofrestrau Risg Yr Ymddiriedolaeth

Gellir gweld proffil risg y sefydliad trwy Gofrestr Risg yr Ymddiriedolaeth. Mae'r risgiau'n cael eu nodi ar ddechrau gweithgareddau newydd neu'r rhai sy'n cael eu diwygio a thrwy adolygu risgiau presennol yn barhaus. Cynhelir asesiadau risg i asesu'r effaith ar y gwasanaeth ac ar randdeiliaid eraill.

Mae pob risg yn cael ei hasesu ac yn cael sgôr, sy'n ymwneud â'r effaith y gallai'r risg ei chael a'i thebygolrwydd. Mae risgiau'n cael eu huwchgyfeirio, ac mae'r risgiau ar y lefel uchaf yn cael eu cyfeirio at Fwrdd Rheoli Gweithredol yr Ymddiriedolaeth i'w gwerthuso cyn eu cynnwys ar gofrestr risg yr Ymddiriedolaeth a'u hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad cyn Bwrdd yr Ymddiriedolaeth.

Ceir mynediad i risgiau newydd drwy'r cylch llywodraethu; mae risgiau newydd yn cael eu hadolygu gan Uwch Dimau Arwain/Uwch Dimau Rheoli is-adrannol, pan fydd risg yn cael ei derbyn, ei gwrthod neu ei chau. Arweinir rheolaeth o'r pwynt hwnnw gan yr arweinydd risg, ar y cyd â pherchennog y risg, a lle mae'r lefel yn gyfryw (graddfa risg dros 15 neu dros 12 ar gyfer risgiau diogelwch) rhoddir gwybod am y risg drwy'r cylch llywodraethu a nodir isod.

Mae gan yr Ymddiriedolaeth dair lefel o hyfforddiant risg:

**Lefel 1** – Mae'r hyfforddiant hwn yn cael ei wneud gan holl staff yr Ymddiriedolaeth trwy gyfrwng e-ddysgu. Mae'r hyfforddiant yn nodi sut i adnabod risg ac adrodd am risg, trwy'r system Datix trwy'r ffurflen fewnbwn gyntaf.

**Lefel 2** – Mae'r hyfforddiant wedi'i anelu at arweinwyr risg, gan ddarparu gwybodaeth am reoli risg, i ddechrau drwy ail ffurflen fewnbwn, gan gynnwys asesiadau risg, pam a sut rydym yn rheoli risg, disgrifiadau o risg a graddfeydd risgiau. Prif amcan hyfforddiant lefel dau yw rheoli risg a dilyn y cylch risg, mesurau lliniaru, cynlluniau gweithredu a rheolaeth reolaidd.

**Lefel 3** – Mae'r hyfforddiant hwn yn canolbwyntio ar lywodraethu a rolau unigol Aelodau o'r Bwrdd a Chyfarwyddwyr o ran risg.

Mae'r risgiau a gafodd y sgôr uchaf ar ddiwedd mis Mawrth 2025, a lywiwyd drwy Bwyllgor mis Mawrth a chylch Bwrdd yr Ymddiriedolaeth wedi'u crynhoi isod. I gael gweld manylion llawnach, gan gynnwys camau gweithredu a rheolaethau lliniaru, adolygwch Bapur Risg Bwrdd yr Ymddiriedolaeth Mawrth 2025 yma. Nid yw risgiau sy'n ymwneud â gwasanaethau a gynhelir wedi'u cynnwys yn y rhestr hon.

Math o Risg	Is-adran	Teitl	Sgôr (Cyfredol)
Perfformiad, Ansawdd a Diogelwch	Gwasanaeth Canser Felindre	Mae risg i berfformiad a chynaliadwyedd gwasanaethau oherwydd bod y galw cynyddol am SACT yn dechrau mynd y tu hwnt i'r capasiti ym mhob clinig, gan arwain at ddiffygiad y gweithlu meddygol a chefnogol o ganlyniad i lwythi gwaith gormodol.	16
Y Gweithlu	Gwasanaeth Canser Felindre	Mae risg i les staff gan nad oes gan ymgynghorwyr ddigon o amser i ymgymryd â gweinyddiaeth uniongyrchol cleifion, gan gynnwys rhagnodi a chwblhau Nodiadau Oncoleg Cleifion Allanol, oherwydd cynnydd yn nifer y cleifion yn y clinigau, sy'n arwain at gynnydd mewn traffig e-bost ac oedi posibl i driniaeth.	16
Y Gweithlu	Gwasanaeth Canser Felindre	Mae risg i'r ddarpariaeth Ddeieteg o ganlyniad i lai o staff oherwydd swyddi gwag, gan arwain at effaith bosibl ar ofal cleifion.	16
Perfformiad, Ansawdd a Diogelwch	Gwasanaeth Canser Felindre	Mae risg na fydd gwasanaeth Thrombosis sy'n Gysylltiedig â Chanser (CAT) Canolfan Ganser Felindre (CGF) yn gallu parhau oherwydd bod 2 o'r 3 ymarferydd hyfforddedig ar gyfer CGF (presgripsiynwyr meddygol ac anfeddygol) wedi nodi'n ddiweddar efallai na fyddant yn gallu parhau yn y gwasanaeth mwyach. Bydd hyn yn arwain at golli gwasanaeth CAT CGF a fydd yn arwain at risg i ddiogelwch cleifion ac enw da'r sefydliad gan nad yw cynaliadwyedd y gwasanaeth wedi'i sicrhau. Ni fydd cleifion sy'n cael diagnosis o CAT yn gallu cael mynediad at wasanaethau arbenigol ac felly efallai na fyddant yn cael y driniaeth orau, gan gynnwys oedi i'w triniaethau canser ac ôl-ffeithiau tymor hwy Thrombo-emboledd Gwythiennol (VTE).	16
Cynaliadwyedd Ariannol	Gwasanaeth Canser Felindre	Mae risg i gynaliadwyedd ariannol o ganlyniad i darfu ar y gwasanaeth oherwydd nifer y swyddi a ariennir gan gyllid â chyfyngiad amser, gan arwain at ansefydlogrwydd ariannol ac anawsterau recriwtio.	16
Ansawdd, Diogelwch a'r Gweithlu	Gwasanaeth a'r Gweithlu	Mae risg i ddiogelwch cleifion oherwydd diffyg staff yn yr Adran Ffiseg Radiotherapi a'r angen i gydbwysu dyletswyddau craidd â thasgau datblygiadol.	15
Ansawdd, Diogelwch, Perfformiad a Chynaliadwyedd	Gwasanaeth Canser Felindre	Mae risg i berfformiad a chynaliadwyedd y gwasanaeth o ganlyniad i oedi o ran y prosiect TrAMS cenedlaethol, gan arwain at gapasiti annigonol o fewn gwasanaethau technegol fferyllfa i fodloni cynhyrchiant SACT.	15
Perfformiad a Chynaliadwyedd	Gwasanaeth Gwaed Cymru	Mae risg colli perfformiad a chynaliadwyedd o ganlyniad i goll i cyflenwad trydanol, gan arwain at golli gwasanaeth a chynhyrchiant yng Ngwasanaethau Gwaed Cymru Llantrisant.	15
Ansawdd a Diogelwch	Canolfan Ganser Felindre	Mae risg i ddiogelwch cleifion yn cael ei achosi gan ddyblygu gwybodaeth, defnydd gormodol o e-bost a diffyg dulliau cyfathrebu amgen ar gyfer prosesu gwybodaeth glinigol.	12

Math o Risg	Is-adran	Teitl	Sgôr (Cyfredol)
Ansawdd	Gwasanaeth Canser Felindre	Mae risg i berfformiad a chynaliadwyedd y gwasanaeth o ganlyniad i alw cynyddol sydd bellach yn fwy na'r capasiti yn y Tîm Safle Penodol croen/melanoma.	12
Diogelwch	Gwasanaeth Canser Felindre	Mae risg i ddiogelwch cleifion o ganlyniad i ansicrwydd ynghylch 12 y broses o adolygu a gweithredu ar ganlyniadau profion gwaed, a'r cyfrifoldeb am wneud hynny, a allai arwain at hepgoriad neu oedi wrth ymgymryd ag ymyrraeth glinigol adferol	
Ansawdd a Diogelwch	Gwasanaeth Gwaed Cymru	Mae risg i ansawdd a diogelwch o ganlyniad i geisio atebion ymarferol helaeth yn lle hen systemau TG sydd wedi dyddio, gan arwain at risg uwch o ganlyniadau profion anghywir a niwed i gleifion.	12

### Datganiad o'r Parodrwydd i Dderbyn Risg

Mae'r Ymddiriedolaeth yn wynebu ystod eang o risgiau sy'n adlewyrchu ei chyfrifoldebau. Gall y risgiau sy'n deillio o'i chyfrifoldebau fod yn sylweddol. Mae'r risgiau hyn yn cael eu rheoli trwy brosesau manwl sy'n pwysleisio pwysigrwydd uniondeb, ymholi deallus, cynnal staff o safon uchel ac atebolrwydd i'r cyhoedd.

Cymeradwywyd Datganiad Derbynioldeb Risg yr Ymddiriedolaeth gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ym mis Ionawr 2023 ac mae'n cael ei adolygu ar hyn o bryd fel rhan o adolygiad ehangach o Strategaeth Risg, Polisi Risg a gweithdrefnau cysylltiedig yr Ymddiriedolaeth. Mae'n ystyried y risgiau mwyaf

arwyddocaol y mae'r Ymddiriedolaeth yn agored iddynt. Mae'n rhoi amlinelliad o'r dull o reoli'r risgiau hyn. Mae'n rhaid i bob cynllun strategol a busnes ar gyfer meysydd gweithredol fod yn gyson â'r Datganiad hwn. O ystyried ystod gweithgareddau a chyfrifoldebau'r Ymddiriedolaeth, nid yw'n briodol gwneud un datganiad trosfwaol am agwedd yr Ymddiriedolaeth at risg. Yn hytrach, mae ystod o ddatganiadau am barodrwydd i dderbyn risg sy'n codi o wahanol feysydd ein gwaith wedi cael eu datblygu a'u cymeradwyo gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth yn y meysydd canlynol: Mae'r dull o gategoreiddio Parodrwydd i Dderbyn Risg wedi'i seilio ar Fatrics Parodrwydd i Dderbyn Risg ar gyfer Sefydliadau'r GIG y Sefydliad Llywodraethu Da (GGI):

Maes / Categori Risg	Lefel Dderbyn	Parodrwydd i Risg
Diogelwch	1	Lleiaf
Ansawdd	2	Pwyllog
Cydymffurfio	2	Pwyllog
Ymchwil a Datblygu	2	Pwyllog
Enw da	2	Pwyllog
Perfformiad a Chynaliadwyedd Gwasanaethau	2	Pwyllog
Cynaliadwyedd Ariannol	2	Pwyllog
Cyfarwyddiaeth Gweithlu a Datblygu Sefydliadol	3	Ar agor
Partneriaethau ac Arloesi	4	Ceisio
Llywodraethu Gwybodaeth	2	Pwyllog
Amgylcheddol	3	Agored

## Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth

Mae Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth (TAF) yn galluogi'r Bwrdd i nodi a deall y prif risgiau i gyflawni ei amcanion strategol; cael sicrwydd bod rheolaethau addas ar waith i reoli'r risgiau hyn, a lle mae angen gwelliannau, bod cynlluniau gweithredu addas ar waith ac yn cael eu cyflawni; a darparu asesiad o'r risg i gyflawni'r amcan cysylltiedig.

Cafodd Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth ei gymeradwyo a'i weithredu gyntaf ym mis Medi 2020 ynghyd â'r lefelau Parodrwydd i Dderbyn Risg a Goddefgarwch Risg. Cafodd fersiwn ddiweddaraf y TAF ei hadolygu a'i chymeradwyo'n ffurfiol gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ym mis Ionawr 2024.

Mae'r Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad a'r Pwyllgor Datblygu Strategol yn goruchwyllo'r prosesau y mae'r Bwrdd yn eu defnyddio i gael sicrwydd mewn perthynas â rheoli'r TAF.

Mae rheolwyr yn arwain ar reoli risg ac yn gyfrifol am fodelu diwylliant sy'n ymwybodol o risg yn eu maes. Mae rheolwyr yn derbyn Hyfforddiant Risg Lefel 2 a gyflwynir gan y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol a hyfforddiant rheoli risg Lefel 1 trwy fodiwl gorfodol ar ESR. Mae offer, gweithdrefnau a chanllawiau ar gael ar fewnwyd staff yr Ymddiriedolaeth.

Caiff gwasanaethau eu herio ar eu rheolaeth risg drwy'r Bwrdd Rheoli Gweithredol a Chyfarfodydd Adolygu Gwasanaethau.

Y TAF yw'r ffynhonnell wybodaeth allweddol sy'n cysylltu Amcanion Strategol Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre â risg a sicrwydd.

Cynhaliwyd adolygiad o brif risgiau'r Ymddiriedolaeth a chymeradwywyd deg risg gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ym mis Mawrth 2025 fel rhan o'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Mae gwaith ar y gweill nawr i ddatblygu TAF newydd i'w ystyried gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ym mis Gorffennaf 2025.

Mae gan bob un o'r prif risgiau Berchennog Gweithredol sy'n gyfrifol am gydlynu'r camau gweithredu sydd eu hangen i wella effeithiolrwydd y rheolaethau allweddol a'r sicrwydd yn barhaus. Mae'r Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol yn gweithio gyda phob un o'r perchnogion Gweithredol i ddiweddarau Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth bob deufis er mwyn rhoi adroddiad yn y Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Datblygu Strategol, y Pwyllgor Diogelwch a Pherfformiad a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth.

## Parhad Busnes a Pharodrwydd am Argyfyngau

Rhaid i sefydliadau'r GIG sicrhau bod ganddynt gynlluniau brys a threfniadau parhad busnes ar waith sy'n rhoi ystyriaeth lawn i'w dyletswyddau statudol o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil 2004.

Mae'n ofynnol i Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre gyflwyno Adroddiad Blynyddol Cynllunio at Argyfyngau lechyd sy'n nodi'n fras ei lefel o gydymffurfedd o ran bodloni'r gofynion hyn, gweithgareddau sydd wedi digwydd yn y ddwy adran (Gwasanaeth Gwaed Cymru a Gwasanaeth Canser Felindre) a chyflwyno copi o'i chynllun digwyddiadau mawr/argyfyngau cyfredol i'w adolygu. Mae'r Adroddiad Blynyddol Cynllunio at Argyfwng lechyd ar gyfer 2024 wedi cael ei ddisbarthu gan Weithrediaeth y GIG ac mae'n cael ei gwblhau yn barod i'w ddychwelyd i Weithrediaeth y GIG erbyn 31 Gorffennaf.

### Cwblhau Canfyddiadau'r Archwiliad Parhad Busnes;

Yn ystod 2023, roedd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn destun archwiliad parhad busnes a gynhaliwyd gan Wasanaethau Archwilio a Sicrwydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, a chyflawnodd sgôr sicrwydd rhesymol yn yr adroddiad terfynol a dderbyniwyd ar ddiwedd blwyddyn 2023-2024. Adroddwyd ar ganfyddiadau'r archwiliad hwn a chynnydd ar y camau rheoli y cytunwyd arnynt yn fisol i'r Pwyllgor Archwilio o fis Ionawr i fis Hydref 2024, a nododd y diweddariad terfynol fod yr holl gamau rheoli wedi'u cwblhau.

### Ymateb i Ddigwyddiadau Mawr a dysgu a nodwyd;

Ymatebodd Gwasanaeth Gwaed Cymru i nifer o ddigwyddiadau mawr wrth gefn / a ddatganwyd yn ystod 2024, gan gynnwys y trê'n a aeth oddi ar y cledrau ym Mhowys ar 21 Hydref 2024. Ysgogwyd Cynllun Digwyddiadau Mawr Gwasanaeth Gwaed Cymru, gan arwain at ymateb cyflym gan ymatebwyr ar alwad ar y safle yn barod i ddarparu gwaed ar frys i achub bywydau pe byddai ei angen. Er bod nifer fawr o bobl wedi'u hanafu, nid oedd angen gwaed na chyfansoddion gwaed ar yr un ohonynt ar yr achlysur hwn. Cwblhaodd Gwasanaeth Gwaed Cymru ei sesiwn ôl-drafod fewnol ar 29 Hydref, a chyfrannodd at sesiwn ôl-drafod genedlaethol GIG Cymru lle y nodwyd ac y rhannwyd heriau ac argymhellion dysgu i gryfhau'r cydweithrediad iechyd yn ystod y digwyddiadau hyn.

## Rhaglen Ymarfer a Phrofi;

Yn ystod y cyfnod 2024 i 2025, cynhaliwyd cyfanswm o 28 o ymarferion a phrofion ar draws yr isadrannau (Gwasanaeth Canser Felindre a Gwasanaeth Gwaed Cymru) gyda rhaglenni ymarfer a phrofion wedi'u hadolygu a'u cymeradwyo'n ddiweddar ar gyfer 2025 i 2026. Roedd dau o'r ymarferion hyn a gynhaliwyd yn ystod y misoedd diwethaf yn cynnwys ymarfer cloi byw o safle Gwasanaeth Gwaed Cymru yn Ne Cymru, ac ymarfer seiberymosodiad bwrdd gwaith sy'n canolbwyntio ar Wasanaethau Digidol a gynhaliwyd gan arweinydd Seiber yr Ymddiriedolaeth.

Mae ymarfer seiber ar y cyd ar gyfer Gwasanaethau Gwaed y Deyrnas Unedig yn cael ei ddatblygu gan arweinwyr Parhad Busnes Fforwm y Deyrnas Unedig i ganolbwyntio ar ymarfer trefniadau parhad busnes ar draws Gwasanaethau Gwaed y Deyrnas Unedig. Yn ogystal â hyn, mae grŵp gorchwyl a gorffen wedi bod yn cyfarfod i ddatblygu ymarfer efelychu Digwyddiad Mawr ar y cyd rhwng BIP Caerdydd a'r Fro a Gwasanaeth Gwaed Cymru gyda chynnig i'w gynnal yn ddiweddarach yn y flwyddyn 2025 - 2026.

## Rhaglen waith Parhad Busnes a Pharodrzydd am Argyfwng Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre;

Mae grŵp Parhad Busnes a Pharodrzydd am Argyfwng Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn parhau i gyfarfod bob dau fis i oruchwylio ac adrodd ar gynnydd Rhaglen Parhad Busnes a Pharodrzydd am Argyfwng yr Ymddiriedolaeth.

Yn ystod 2024, bu cynnydd amlwg yn nifer y gweithgareddau a gwblhawyd ar y rhaglen hon. Mae'r rhaglen yn gallu newid yn sgil adolygu ac ail-flaenoriaethu, ac mae'n cynnwys cynnal cofrestr risg parhad busnes a pharodrzydd am argyfwng. Mae adolygiad cychwynnol o Gofrestr Risg sengl gyntaf Cymru a gyhoeddwyd ar 01/11/2024 wedi'i gwblhau ac mae'r grŵp wedi derbyn papur rheoli canlyniadau sy'n benodol i Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Un o flaenoriaethau niferus y rhaglen waith yw mapio asesiadau risg mewnol, cynlluniau ac ymarferion yn seiliedig ar y canlyniadau hyn o Gofrestr Risg Cymru.

## Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal Cymru

Ar 1 Ebrill 2023, yn unol â gweithredu'r Ddyletswydd Ansawdd o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, mae'r safonau ansawdd iechyd a gofal yn y Ddyletswydd yn disodli safonau iechyd a gofal 2015 a gyhoeddwyd o dan Gylchlythyr Iechyd Cymru (2015) 015.

Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth gyhoeddi adroddiad Dyletswydd Ansawdd blynyddol, ac mae copiau ohono ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth.

## Sesiynau Datblygu'r Bwrdd a'u Heffeithlonrwydd

Yn ystod 2024-2025 mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth wedi cynnal chwe sesiwn Datblygu'r Bwrdd yn ymdrin â nifer o feysydd allweddol gan gynnwys y canlynol:

### Mehefin 2024

- Adolygiad o Alluoedd a Llywodraethu Canolfan Ganser newydd Felindre (CGFn)
- Adolygiad Archwilio Cymru o Broses Gwneud Penderfyniadau Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre a Llywodraeth Cymru ynghylch Prosiect CGFn
- Cydweithredfa Gofal Diogel
  - Gofal Dydd Diogel ac Effeithiol
  - Gofal Cymunedol Diogel ac Effeithiol
  - Gofal Acíwt Diogel ac Effeithiol
  - Arweinyddiaeth ar gyfer Gwella Diogelwch Cleifion
- Adolygiad Effeithiolrwydd y Bwrdd

### Gorffennaf 2024

- Diweddariad ar Ganolfan Ymchwil Canser Caerdydd a Phenawdau'r Telerau
- Cofrestr Rhoddwyr Mêr Esgyrn Cymru
- Arolwg Ymgysylltu Staff

### Hydref 2024

- Effeithiolrwydd y Bwrdd – Gweithio gyda'n Gilydd fel Bwrdd Unedol
- Elusen Felindre

### Rhagfyr 2024

- Diweddariadau Allweddol ar Gyfraith Cyflogaeth
- Dysgu o Adolygiadau ac Ymchwiliadau
- Cytundebau Hirdymor / Ail-seilio Contractau

## Chwefror 2025

- Myfyrdodau'r Prif Swyddog Gweithredol: blaenoriaethau a llywodraethu
- Gwersi a ddysgwyd:
  - Rheoli Contractau
  - Prosiect Canolfan Ganser newydd Felindre
- Addysg Dynladdiad Corfforaethol
- Diwylliant Sefydliadol
- Newidiadau Arfaethedig i Broses Arfarnu Cadeiryddion GIG Cymru

Mae ymweliadau Aelodau Gweithredol ac Annibynnol ('Proses Ymweliad 15 Cam') â'n staff wedi parhau yn ystod 2024-2025 er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r gwaith amlochrog a wneir gan ein staff ar draws yr Ymddiriedolaeth, a hefyd deall yn well y gwahanol fathau o bwysau a wynebir yn ddyddiol. Mae'r ymweliadau hyn hefyd wedi ymgorffori agweddau rôl 'Hyrwyddwr' Aelodau Gweithredol ac Annibynnol, a ddefnyddir i lywio Adroddiadau Blynyddol Hyrwyddwr y Bwrdd a gyflwynir yng nghyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth.

## Asesiad Llywodraethiant ac Atebolrwydd / Effeithiolrwydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd gynnal hunanasesiad blynyddol o'i effeithiolrwydd. Yn ogystal, comisiynodd Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio adolygiad o lywodraethu pwyllgorau a gynhaliwyd yn ystod y pedwerydd chwarter gan PwC.

## Adolygiad o Effeithiolrwydd - Ffynonellau Sicrwydd Ychwanegol

Fel Swyddog Atebol, mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae adolygiad y Prif Weithredwr o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol wedi'i seilio ar waith Archwilwyr Mewnol ac Allanol, y Cyfarwyddwyr Gweithredol ac adroddiadau asesu a sicrwydd eraill gan gynnwys gwaith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Mae'r Prif Weithredwr wedi gwrando ar farn y Bwrdd ynghylch cryfderau a chyfleoedd yn y system rheolaeth fewnol, ac mae gwaith y Pwyllgor Archwilio a Phwyllgorau eraill a sefydlwyd gan y Bwrdd wedi llywio ei farn. Mae materion sydd wedi dod i'r amlwg mewn perthynas â gwasanaethau a gynhelir wedi cael eu codi gyda Llywodraeth Cymru ac Archwilio Cymru.

Caiff perfformiad y Prif Weithredwr wrth gyflawni'r cyfrifoldebau personol hyn ei asesu gan Gadeirydd yr Ymddiriedolaeth a Chyfarwyddwr Cyffredinol yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru.

## Effeithiolrwydd y Bwrdd

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd gynnal hunanasesiad blynyddol o'i effeithiolrwydd. Y dull a ddefnyddiwyd eleni oedd dwyn ynghyd y gwahanol ffynonellau sicrwydd mewnol ac allanol a fyddai'n cefnogi'r Bwrdd wrth ystyried ei lefel aeddfedrwydd gyffredinol mewn perthynas â llywodraethu da ac effeithiolrwydd y Bwrdd.

Mae'r Bwrdd yn adolygu ei effeithiolrwydd yn barhaus drwy gydol y flwyddyn. Mae'n gwneud hyn drwy ystyried:

- triongli themâu cyfarfodydd,
- trwy gyfarfodydd grŵp yr Aelodau Annibynnol
- y rhaglen gwella sy'n ymwneud â Llywodraethu, Sicrwydd a Risg
- sicrwydd mewnol ac allanol trwy Archwilio Mewnol ac Archwilio Cymru, gan gynnwys Asesiad Strwythuredig blynyddol o effeithiolrwydd y Bwrdd.

Yn ogystal, ym mis Chwefror 2025, comisiynodd yr Ymddiriedolaeth adolygiad allanol o effeithiolrwydd ei Bwrdd a'i Llywodraethiant. Cyflwynir yr adroddiad i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth yn ystod ail chwarter 2025-26 a bydd yn llywio ei raglen gwelliannau ymhellach.

Cynhaliwyd cyfarfod Asesiad Llywodraethu ac Effeithiolrwydd Blynyddol y Bwrdd ar 19 Mehefin 2025 i ystyried ei sgôr Lefel Aeddfedrwydd. Wrth drafod y dogfennau, cododd yr aelodau feysydd cryfder allweddol gan gynnwys:

- lefel briodol o gefnogaeth a her;
- diddordeb gwirioneddol mewn safbwyntiau allanol a dysgu o fannau eraill;
- meithrin perthnasoedd gwaith adeiladol a chynhyrchiol;
- ymdeimlad cryf ein bod yn adeiladu ar sylfeini cryf;
- awydd i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar risg.

Cytunodd y Bwrdd fod heriau'n parhau yn y meysydd canlynol ac y dylid blaenoriaethu camau gweithredu i gryfhau'r sefyllfa mewn perthynas â nhw ar gyfer 2025-26:

- cryfhau llywodraethiant y Bwrdd o ran ein trefniadau a gynhelir
- cynyddu gwelededd y Bwrdd mewn straeon a phrofiadau cleifion a rhoddwyr
- cryfhau ein blaengynllun gwaith a'n hamserlen hyfforddi ar gyfer Datblygu'r Bwrdd
- cyflawni dadansoddiad o anghenion mewn perthynas â'r agendâu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- dathlu llwyddiannau

## Archwilio - Mewnol

### Barn Archwilio a Sgorau ar Gyfer 2024 – 2025

Mae archwilio mewnol yn ffynhonnell o sicrwydd i'r Prif Weithredwr fel Swyddog Atebol a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth drwy'r Pwyllgor Archwilio gyda llif o sicrwydd ynghylch y system rheolaeth fewnol. Cytunodd y Prif Weithredwr ac Archwilio Mewnol ar raglen o waith archwilio, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio, ac a gyflwynwyd yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus gan Wasanaeth Archwilio Mewnol GIG Cymru. Mae rhaglen y gwaith archwilio wedi canolbwyntio'n fwiadol ar feysydd risg strategol a gweithredol allweddol; felly, gallai canlyniad yr adolygiadau archwilio hyn amlygu gwendidau rheoli sy'n effeithio ar y farn sicrwydd gyffredinol. Y meysydd a ddefnyddiwyd i fframio proses cynllunio archwilio mewnol 2024/25 oedd:

1. Llywodraethu Corfforaethol, Rheoli Risg a Chydymffurfiaeth Reoleiddiol
2. Cynllunio Strategol, Rheoli Perfformiad ac Adrodd
3. Llywodraethu a Rheoli Ariannol
4. Ansawdd a Diogelwch
5. Llywodraethu Gwybodaeth a Diogeled
6. Gwasanaeth Gweithredol a Rheolaeth Swyddogaethol
7. Rheoli'r Gweithlu
8. Rheoli Cyfalaf ac Ystadau


Cytunodd y Bwrdd mai'r lefel gyffredinol o aeddfedrwydd o ran llywodraethu ac effeithiolrwydd y Bwrdd oedd "Lefel 4 – Mae gennym gynlluniau a phrosesau datblygedig a gallwn ddangos gwelliant cynaliadwy yn y gwasanaeth". Wrth ystyried y sgôr, myfyriodd y Bwrdd ar y pryderon sylweddol yr oedd wedi'u trafod mewn perthynas ag agweddau ar ei drefniadau cynnal, y byddai'n rhoi sgôr o ddau iddynt. Gan gydnabod bod gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau cynnydd cynaliadwy, gan gynnwys adolygiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, roedd y Bwrdd yn hyderus y byddai hyn yn arwain at sgôr unedig a gwell ar gyfer 2025-26.

Mae'r Cynllun Archwilio Mewnol wedi'i gyflawni yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni gyda'r Pwyllgor Archwilio i raddau helaeth, yn amodol ar newidiadau y cytunwyd arnynt wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen. Mae adroddiadau cynnydd archwilio rheolaidd wedi'u cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio yn ystod y flwyddyn. Bydd archwiliadau sydd heb eu hadrodd o hyd, ond sy'n cael eu hadlewyrchu yn yr Adroddiad Blynyddol hwn, yn cael eu hadrodd ochr yn ochr ag archwiliadau o gynllun archwilio gweithredol 2024/25.

Roedd y Cynllun Archwilio a gymeradwywyd gan y Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2024 yn cynnwys 18 o adolygiadau wedi'u cynllunio. Mae newidiadau wedi'u gwneud i'r cynllun; ychwanegwyd 3 archwiliad a gohiriwyd 1 archwiliad. Adroddwyd ar yr holl newidiadau hyn i'r Pwyllgor Archwilio, ac fe'u cymeradwywyd ganddo.

Adroddwyd ar gyfanswm o 17 o adolygiadau archwilio yn ystod y flwyddyn, ac roedd tri adolygiad arall yn mynd rhagddynt ar yr adeg adrodd ym mis Mehefin 2025. Mae Ffigur 1 isod yn cyflwyno'r sgoriau sicrwydd, a nifer yr archwiliadau a ddeilliwyd ar gyfer pob un.

## Crynodeb o'r sgoriau archwilio



Yn ogystal, gall Archwilio Mewnol ymateb i geisiadau am gyngor a/neu gymorth ar draws amrywiaeth o feysydd busnes ar draws yr Ymddiriedolaeth. Caniateir y gwaith cynghori hwn, a wneir yn ogystal â'r cynllun sicrwydd, o dan y safonau i gynorthwyo rheolwyr i wella llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth. Adroddir ar y gweithgarwch hwn yn ystod y flwyddyn mewn adroddiadau cynnydd i'r Pwyllgor Archwilio.

Mae barn gyffredinol y Pennaeth Archwilio Mewnol yn rhoi'r sicrwydd canlynol i'r Ymddiriedolaeth fod trefniadau i sicrhau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth wedi'u cynllunio'n addas a'u cymhwyso'n effeithiol yn y meysydd sylweddol a rhesymol yn y tabl isod sy'n crynhoi'r archwiliadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn a'r canlyniadau.

Lle y darparwyd Sicrwydd Cyfyngedig neu Anfoddhaol, mae'r Ymddiriedolaeth yn ymwybodol

o'r materion penodol a nodwyd ac wedi cytuno ar gynlluniau gweithredu i wella rheolaeth yn y meysydd hyn.

Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn fodlon y bu digon o sylw i archwiliadau mewnol yn ystod y cyfnod adrodd er mwyn rhoi Barn Flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol. Wrth lunio'r Farn, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi ystyried effaith yr archwiliadau nad ydynt wedi'u cwblhau.

Mae crynodeb o'r archwiliadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn a'u canlyniadau wedi'u hamlinellu yn y tabl isod. Mae'r Bwrdd Rheoli Gweithredol yn ymdrin â chyfleoedd gwella a nodwyd o'r canfyddiadau, a bydd cynnydd parhaus yn cael ei fonitro drwy'r Pwyllgor Archwilio drwy graffu ar y Traciwr Gweithredu Archwilio.

## Crynodeb o Archwiliadau 2024/25

<b>Sicrwydd Sylweddol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dilyniad i'r Argymhellion Blaenorol</li> <li>• Y Ddyletswydd Gonestrwydd</li> </ul>
<b>Sicrwydd Rhesymol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y Ddyletswydd Ansawdd</li> <li>• Sicrwydd y Bwrdd a Rheoli Risg</li> <li>• Rheolaethau Ariannol Allweddol</li> <li>• Cynaliadwyedd Ariannol a Gwasanaethau Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth</li> <li>• Fframwaith Rheoli Perfformiad</li> <li>• Llywodraethu Dyfodol Gwasanaeth Gwaed Cymru</li> <li>• Gwasanaeth Oncoleg Acíwt</li> <li>• Gwasanaeth Gwaed Cymru – Rhaglen Seilwaith a Moderneiddio</li> <li>• Gweithredu'r Datrysiaid Radiotherapi Integredig (IRS) (drafft)</li> <li>• Sicrwydd Ystadau – Rheoli Ynni</li> <li>• Llywodraethu CGFn ar ôl Cwblhau'r Agweddau Ariannol (drafft)</li> <li>• Prosiect Digidol Canolfan Ganser newydd Felindre (CGFn)</li> </ul>
<b>Sicrwydd Cyfyngedig</b>	Ddim yn berthnasol
<b>Anfoddhaol</b>	Ddim yn berthnasol
<b>Cynghorol/Heb Farn</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dilysu Camau Rheoli CGFn</li> <li>• Caffael a Rheoli Contractau</li> <li>• Penodi Cynghorwyr CGFn (drafft)</li> </ul>
<b>Ar y Gweill?</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cydymffurfedd Contractau CGFn (WIP)</li> <li>• Cyflenwi Contractau CGFn (Adeiladu) (WIP)</li> <li>• Cofnod Iechyd a Gofal Digidol (WIP)</li> </ul>

Noder bod barn gyffredinol y Pennaeth Archwilio Mewnol hefyd wedi ystyried nifer ac arwyddocâd unrhyw archwiliadau a ohiriwyd yn ystod y flwyddyn a gwybodaeth arall a gafwyd yn ystod y flwyddyn y barnwyd ei bod yn berthnasol i'r gwaith archwilio mewnol.


### Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2024–2025

Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn fodlon fod digon o waith archwilio wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn i allu rhoi barn gyffredinol yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector

Cyhoeddus. Mae adroddiadau cynnydd archwilio rheolaidd wedi'u cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio yn ystod y flwyddyn.

Dylai asesiad y Pennaeth Archwilio Mewnol gael ei ddehongli yn y cyd-destun hwn wrth adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol, a dylid ei ystyried yn sbardun mewnol ar gyfer gwelliant parhaus.

Mae barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg, a rheolaeth y sefydliad wedi'i nodi isod. Cafodd y farn gyffredinol ei rhestru fel Sicrwydd Rhesymol.



Gall y Bwrdd fod yn rhesymol o sicr fod y trefniadau sydd yn eu lle i sicrhau llywodraethiant, rheolaeth risg a rheolaeth fewnol, yn y meysydd hynny sydd wedi eu hadolygu, wedi eu dylunio'n addas ac wedi eu rhoi ar waith yn effeithiol.

Mae angen i rai materion gael sylw rheolwyr o ran rheoli, dylunio neu gydymffurfio.

Effaith isel i gymedrol ar wireddu risgiau gweddilliol hyd nes y cânt eu datrys.

Yn ogystal, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi ystyried amlygiad i risgiau sy'n anodd cael gwared arnyn nhw ar draws yr aseiniadau hynny lle yr adroddwyd bod sicrwydd cyfyngedig. At hynny, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi ystyried yr effaith lle na arweiniodd aseiniadau archwilio a gynlluniwyd eleni at archwiliadau llawn yn dilyn gwaith cynllunio rhagarweiniol ac roedd y rhain naill ai: wedi'u tynnu o'r cynllun; wedi'u tynnu o'r cynllun a rhoi archwiliad arall yn eu lle; neu wedi'u gohirio tan flwyddyn archwilio yn y dyfodol. Cyflwynwyd y rhesymau dros newidiadau i'r cynllun archwilio i'r Pwyllgor Archwilio i'w hystyried a'u cymeradwyo. Er gwaethaf y ffaith bod y farn wedi'i chyfyngu i'r meysydd hynny a oedd yn destun adolygiad archwilio, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi ystyried effaith newidiadau a wnaed i'r cynllun wrth lunio ei farn gyffredinol.

Darperir crynodeb o'r canfyddiadau isod gan ddefnyddio wyth maes gweithgareddau'r Ymddiriedolaeth i strwythuro'r cynlluniau strategol a gweithredol blwyddyn o hyd.

### Llywodraethu Corfforaethol, Rheoli Risg a Chydymffurfiaeth Reoleiddiol

Mae Archwilio Mewnol wedi cynnal pum adolygiad yn y maes hwn.

- **Dyletswydd Ansawdd:** Asesodd Archwilio Mewnol a yw'r Ymddiriedolaeth wedi gweithredu gofynion y Ddyletswydd Ansawdd a daeth i'r casgliad cyffredinol bod ganddi sicrwydd **rhesymol** yn y maes hwn. Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr adolygiad a chanfuwyd fframwaith rheoli cadarnhaol sy'n cefnogi gofynion y Ddyletswydd Ansawdd. Fodd bynnag, nodwyd rhai materion a gododd a ddylai barhau i wella'r trefniadau, cryfhau prosesau presennol, a lliniaru risgiau yn y dyfodol.

- **Dyletswydd Gonestrwydd:** Asesodd Archwilio Mewnol a yw'r Ymddiriedolaeth yn cydymffurfio â gofynion y Ddyletswydd Gonestrwydd. Rhoddodd yr archwiliad sicrwydd **sylweddol** i'r Ymddiriedolaeth ei bod yn bodloni gofynion y Ddyletswydd Gonestrwydd, yn erbyn meysydd cwmphas yr archwiliad a brofwyd. Mae meysydd gwella allweddol yn cynnwys cyfraddau cwblhau hyfforddiant isel, rhannu gwybodaeth gyfyngedig â sefydliadau gofal iechyd eraill, dadansoddiad annigonol o ddata o hawliadau a chwynion, a diffyg canllawiau clir ar gyfer amgylchiadau eithriadol. Er gwaethaf y pwyntiau hyn, mae gan yr Ymddiriedolaeth bolisiau a gweithdrefnau sydd wedi'u diffinio'n glir, mae'n darparu hyfforddiant a chymorth i staff, ac mae'n nodi camau gweithredu i leihau'r risg o ddigwyddiadau'n digwydd eto. Argymhellir gwelliannau wrth gofnodi cofnodion cleifion a chyfathrebu rhyng-sefydliadol.
- **Sicrwydd y Bwrdd a Rheoli Risg:** Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar roi sicrwydd ar weithrediad a chymhwyso prosesau sicrwydd bwrdd a rheoli risg corfforaethol yr Ymddiriedolaeth. Daeth Archwilio Mewnol i'r casgliad fod sicrwydd **rhesymol** yn y maes hwn. Er bod y trefniadau a welwyd yn gadarn mewn llawer o achosion, codwyd materion lle dylid herio'r adrodd yn llawn er mwyn sicrhau bod y cyfeiriadau rhwng Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth (TAF), Cofrestr Risg yr Ymddiriedolaeth (TRR) a'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) yn gywir cyn eu cyflwyno i grwpiau/pwyllgorau perthnasol; dylid adrodd ar risgiau yn gyson ac yn ddigon aml ar draws y sefydliad; a chyfleoedd i wella'r templed a sicrhau bod y TAF/TRR yn cael eu cwblhau'n gyson.

- **Llywodraethu Dyfodol Gwasanaeth Gwaed Cymru:** Adolygodd Archwilio Mewnol y dulliau llywodraethu ar gyfer cyflawni rhaglen Dyfodol Gwasanaeth Gwaed Cymru. At ei gilydd, daeth Archwilio Mewnol i'r casgliad fod sicrwydd **rhesymol**. Esblygodd dulliau llywodraethu Dyfodol Gwasanaeth Gwaed Cymru yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu, gan sefydlu strwythurau llywodraethu ac atebolrwydd allweddol ar gyfer y rhaglenni, ac aliniwyd rhaglenni unigol yn glir â Strategaeth Pum Mlynedd a Chynllun Tymor Canolig Integredig Gwasanaeth Gwaed Cymru. Ar ben hynny, mae prosesau adrodd ac uwchgyfeirio wedi darparu rheolaeth dda dros gyflawni rhaglenni hyd yn hyn ac mae risgiau allweddol y rhaglen wedi'u cofnodi, eu hadrodd a'u huwchgyfeirio. Er bod y dulliau llywodraethu wedi darparu rheolaeth briodol hyd yn hyn, mae angen cryfhau a gwella'r dulliau hyn ymhellach, er mwyn sicrhau cadernid parhaus wrth i raglenni Dyfodol Gwasanaeth Gwaed Cymru ddechrau ar y cyfnod cyflawni. Yn benodol, cynnal cydymffurfedd â'r strategaeth os bydd newidiadau i'r rhaglen yn digwydd; sicrhau bod adrodd ar y dangosfwrdd yn ymgorffori'r holl ffactorau perthnasol; sefydlu targedau clir a mesuradwy i asesu gwireddu buddion; a cheisio cymeradwyaeth yr Ymddiriedolaeth os oes unrhyw wyriad o'r Polisi a'r Weithdrefn Rheoli Risg.
- **Gwaith Dilynol ar yr Argymhellion Archwilio Mewnol:** Derbyniodd yr archwiliad hwn, lle yr ystyriodd Archwilio Mewnol weithrediad amserol sampl o argymhellion archwilio mewnol 2023/24, farn sicrwydd **sylweddol**. Ni nodwyd unrhyw faterion i'w hadrodd.

### Cynllunio Strategol, Rheoli Perfformiad ac Adrodd

Mae Archwilio Mewnol wedi cynnal un adolygiad yn y maes hwn.

- **Fframwaith Rheoli Perfformiad:** Rhoddodd Archwilio Mewnol sicrwydd **rhesymol** ynghylch gweithredu'r Fframwaith Rheoli Perfformiad oherwydd gwaith a gwblhawyd yn ddiweddar a datblygu cynllun gweithredu newydd. Fodd bynnag, cododd Archwilio Mewnol faterion ynghylch gosod amcanion SMART ac adolygu metrigau ar gyfer cyflawni; asesu adnoddau i gefnogi cyflawni; a chadw dogfennau gwneud penderfyniadau.

### Llywodraethu a Rheoli Ariannol

Mae Archwilio Mewnol wedi cynnal dau adolygiad yn y maes hwn.

- **Rheolaethau Ariannol Allweddol:** Rhoddodd yr archwiliad sicrwydd i'r Ymddiriedolaeth fod systemau ariannol craidd yn gweithredu'n effeithiol, gyda phwyslais ar feysydd rhagdaliadau / cronladau a chyfrifon dros dro. Ar y cyfan, daeth Archwilio Mewnol i'r casgliad bod sicrwydd **rhesymol** a chanfu fod rheolaethau cadarn ar waith ar gyfer amseroldeb a chywirdeb cronladau a rhagdaliadau a bod cyfrifon dros dro yn cael eu rheoli'n fisol.
- **Cynaliadwyedd Ariannol a Gwasanaethau:** Rhoddodd yr archwiliad sicrwydd ynghylch trefniadau llywodraethu prosiect Rhaglen Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth yr Ymddiriedolaeth. Daeth Archwilio Mewnol i'r casgliad bod sicrwydd **rhesymol** a chanfu fod y rhaglen wedi gwneud cynnydd cryf, yn enwedig o ran llywodraethu, adrodd, a chydlynu prosiectau. Mae'r fenter hon, sy'n adrodd i'r ffurf Bwrdd Rheoli Gweithredol, yn cael ei goruchwyllo gan Grŵp Llywio Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth, gan sicrhau bod ei hamcanion yn cyd-fynd â nodau ehangach y system gofal iechyd. Fodd bynnag, mae meysydd sydd angen eu gwella yn cynnwys mireinio amcanion i fod yn SMART, lleihau dyblygu adrodd, cwblhau'r strategaeth gyfathrebu, diweddarau'r cofnod risgiau, a ffurfioli gwersi a ddysgwyd.

### Ansawdd a Diogelwch

Mae Archwilio Mewnol wedi cynnal un adolygiad yn y maes hwn.

- **Gwasanaeth Oncoleg Acíwt (AOS):** Rhoddodd Archwilio Mewnol sicrwydd **rhesymol** ynghylch llywodraethu Gwasanaeth Oncoleg Acíwt yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys cyd-fynd â chanllawiau a disgwyliadau cenedlaethol. At ei gilydd, mae gan y Gwasanaeth Oncoleg Acíwt ddulliau llywodraethu cadarn ar waith, gan gynnwys cyfres o weithdrefnau gweithredu safonol, adrodd ar berfformiad yn rheolaidd a rheoli risg. Yn ogystal, gwnaed gwaith sylweddol trwy Brosiect Gwella'r Gwasanaeth Oncoleg Acíwt o fis Mai 2023 i fis Mawrth 2024 i nodi argymhellion gwella a chynhaliwyd hunanasesiad yn erbyn safonau Oncoleg Acíwt2 ym mis Awst 2024.

## Llywodraethu a Diogelwch Gwybodaeth

Mae Archwilio Mewnol wedi cynnal un adolygiad yn y maes hwn.

- **Prosiect Digidol Canolfan Ganser Felindre newydd (CGFn)** Rhoddodd Archwilio Mewnol sicrwydd **rhesymol** ar gynnydd cynllunio a datblygu systemau a datrysiadau digidol ar gyfer Canolfan Ganser newydd Felindre, gan gynnwys deall sut y bydd gwasanaethau'n defnyddio'r ysbyty newydd o safbwynt dylunio digidol. Mae'r casgliadau allweddol yn cynnwys pwysigrwydd sicrhau bod digon o adnoddau digidol ar gael adeg mynd yn fyw, a'r argymhelliad i flaenoriaethu digideiddio cofnodion. Fodd bynnag, canfu Archwilio Mewnol fod rhyng-gysylltiadau a dulliau ymgysylltu effeithiol ar waith, a bod dealltwriaeth o ryng-gysylltiadau â phrosiectau eraill a'u bod wedi'u hintegreiddio'n dda.

## Gwasanaeth Gweithredol a Rheolaeth Swyddogaethol

Mae Archwilio Mewnol wedi cynnal un adolygiad yn y maes hwn.

- **Caffael a Rheoli Contractau:** Asesodd Archwilio Mewnol a oes gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau rheoli contractau priodol ar waith. Asesodd yr adolygiad **ymgynghorol** hwn arferion rheoli contractau'r Ymddiriedolaeth, gan nodi bylchau allweddol mewn polisi, hyfforddiant, dogfennau a goruchwyliaeth. Nodwyd absenoldeb cofrestr gcontractau ar draws yr Ymddiriedolaeth, anghysondeb wrth neilltuo cyfrifoldebau contractau, a diffyg hyfforddiant ffurfiol. Roedd monitro perfformiad yn amrywio, gyda chysylltiad cyfyngedig â thelerau contract. Darparodd Archwilio Mewnol argymhellion ynghylch datblygu gweithdrefnau gweithredu safonol, cofrestr gcontractau gynhwysfawr, rhaglenni hyfforddi ffurfiol, a strwythurau llywodraethu mwy eglur.

## Rheoli'r Gweithlu

Nid yw Archwilio Mewnol wedi cynnal unrhyw adolygiadau yn y maes hwn yn ystod 2024/25.

## Rheoli Cyfalaf ac Ystadau

Mae Archwilio Mewnol wedi cynnal chwe adolygiad yn y maes hwn.

- **Gwasanaeth Gwaed Cymru – Rhaglen Seilwaith a Moderneiddio:** Gwerthusodd Archwilio Mewnol gynnydd a chyflawniad y Rhaglen Seilwaith yn erbyn amcanion allweddol yr achos busnes, er mwyn asesu digonolrwydd y systemau a'r rheolaethau sydd ar waith i gefnogi cyflawni'r Rhaglen Seilwaith yn llwyddiannus. Rhoddodd yr archwiliad sicrwydd **rhesymol**. Dangoswyd arfer da mewn sawl maes, gan gynnwys cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid a llywodraethu cyffredinol y Rhaglen trwy gyfarfodydd Bwrdd y Rhaglen a Chynnydd y Rhaglen. Codwyd materion ynghylch sicrhau bod cyflenwyr yn cael eu talu'n amserol; cworwm cyfarfodydd; glynu wrth derfynau dirprwyedig; a rheoli dogfennau cytundebol allweddol.
- **Gweithredu'r Datrysiad Radiotherapi Integredig:** Adolygodd yr archwiliad gam gweithredu'r Datrysiad Radiotherapi Integredig (IRS) yn Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, gan ddyfarnu sgôr sicrwydd **rhesymol**. Roedd y cryfderau allweddol yn cynnwys goruchwyliaeth ariannol gadarn a rheoli contractau'n rhagweithiol. Fodd bynnag, roedd angen gwella prosesau llywodraethu a rheoli newid, gan gynnwys cofrestrau risg wedi'u prisio, cymeradwyaethau wedi'u gohirio, a dogfennau anghyflawn. Effeithiodd oedi ym mhrosiect CGFn ar yr amserlenni a'r cwmpas, gan ysgogi addasiadau i'r defnydd o offer. Er gwaethaf cyfyngiadau adnoddau, nodwyd gwelliannau diweddar mewn rheoli prosiectau ac adrodd.
- **Sicrwydd Ystadau – Rheoli Ynni:** Asesodd Archwilio Mewnol y trefniadau a'r rheolaethau rheoli ynni o fewn yr Ymddiriedolaeth i sicrhau eu bod yn effeithiol a rhoddodd sicrwydd **rhesymol**. Canfu'r archwiliad fod y defnydd o ynni yn cael ei fonitro a'i adrodd i fforymau priodol, a bod arfer gorau'n cael ei rannu ar draws sefydliadau eraill GIG Cymru. Fodd bynnag, roedd symud i gcontract ynni newydd GIG Cymru yn 2023 wedi arwain at rai problemau, gan gynnwys anawsterau wrth ddarparu rhagolygon ynni cywir i sefydliadau sy'n cymryd rhan. Fodd bynnag, nid oedd effaith y materion cenedlaethol yn yr Ymddiriedolaeth mor arwyddocaol ag a welwyd mewn manau eraill. Mae'r prosesau cysoni, talu ac adrodd wedi bod yn llafurddwys ac, yn unol â hynny, roedd yr Ymddiriedolaeth yn y broses o awtomeiddio llawer o'r gwaith prosesu hwn. Er bod cydymffurfedd wedi'i nodi yn y rhan fwyaf o feysydd, roedd rhai materion yr oedd angen sylw pellach gan reolwyr e.e. yr angen i adolygu cost / budd is-fesuryddion ychwanegol a gwelliannau cysylltiedig

i wybodaeth, yn enwedig mewn perthynas â Chyflymyddion Llinol;

- gwella cadernid monitro ac awdurdodi anfonebau gan ddefnyddio cyfleoedd a ddarperir gan awtomeiddio cynyddol (yn enwedig mewn perthynas ag ôl-ddyledion a thaliadau rhannol, a thaliadau amserol); rheoli ynni;
- adolygu a chadarnhau gweithrediad priodol y cynllun dirprwyo ar gyfer taliadau;
- sicrhau bod cynllun dros dro wedi'i brisio ar waith ar gyfer unrhyw ddileu tanwydd ffosil yn raddol cyn Canolfan Ganser newydd Felindre (CGFn) (yn enwedig defnyddio trydan yn lle nwy); ac
- adolygu'r potensial ar gyfer mwy o effeithlonrwydd wrth ddefnyddio Cyflymyddion Llinol trwy hyfforddiant arbenigol.

- **Llywodraethu CGFn ar ôl Cwblhau'r Agweddau Ariannol:** Rhoddodd Archwilio Mewnol sicrwydd **rhesymol** ynghylch yr archwiliad o brosiect Canolfan Ganser newydd Felindre (CGFn) ar ôl cwblhau'r agweddau ariannol (Mawrth 2024). Nodwyd gwelliannau llywodraethu sylweddol, gan gynnwys Bwrdd Prosiect wedi'i ailstrwythuro, arweinyddiaeth newydd, a gwell offer rheoli prosiectau. Fodd bynnag, mae llawer o brosesau newydd yn parhau heb eu hymgorffori, ac mae swyddi gwag allweddol yn parhau, yn enwedig ym maes Digidol ac Offer.
- **Penodi Cyngorwyr CGFn:** Adolygiad **ymgyngorol** oedd hwn o brosiect Canolfan Ganser newydd Felindre, gan ganolbwyntio ar benodi cyngorwyr a rheoli contractau a pherfformiad. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud gwelliannau sylweddol yn ei fframwaith rheoli contractau, gan gynnwys penodi Rheolwr Contractau llawn-amser a datblygu Llawlyfr Rheoli Contractau pwrpasol. Yn sgil mwy o adnoddau, a chanllawiau mwy eglur, roedd yr amgylchedd rheoli contractau mewn sefyllfa well i ymgorffori gwelliannau. Gwnaed argymhellion i wella ymhellach y gofrestr gcontractau, strategaethau contractau/caffael, a'r trefniadau adrodd a monitro a welwyd.
- **Dilysu Camau Rheoli CGFn:** Asesodd Archwilio Mewnol a gymerwyd camau rheoli amserol a phriodol i fynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd ac a adroddwyd yn archwiliadau CGFn o 2023/24. Nododd yr adolygiad **ymgyngorol** hwn, o'r 35 o gamau gweithredu a aseswyd, fod 22 wedi'u cau, bod 9 yn weddill a bod 4 nad oedd modd eu gweithredu eto.

## Ymagwedd at Argymhellion Dilydol

Fel rhan o waith archwilio Dilyn Argymhellion Archwilio Mewnol Blaenorol (a gafodd sgôr sicrwydd sylweddol), ystyriodd Archwilio Mewnol y cynnydd a wnaed wrth weithredu'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt o'i adroddiadau blaenorol y rhoddwyd Sicrwydd Cyfyngedig iddynt yn unig. Yn ogystal, lle bo'n briodol, ystyriodd Archwilio Mewnol y cynnydd a wnaed ar ganfyddiadau blaenoriaeth uchel mewn adroddiadau lle'r oedd yn gallu rhoi Sicrwydd Rhesymol o hyd.

Cynhaliodd Archwilio Mewnol rai profion hefyd ar gywirdeb ac effeithiolrwydd y Traciwr Argymhellion Archwilio, ac mae'r Pwyllgor Archwilio yn monitro cynnydd wrth weithredu'r argymhellion. Rôl y Pwyllgorau Archwilio yw ystyried a chytuno ar ddigonolrwydd ymatebion y rheolwyr a'r dyddiadau ar gyfer gweithredu, ac unrhyw gais dilydol am ddyddiadau diwygiedig, a gynigir gan y Rheolwyr.

Mae Archwilio Mewnol yn mynychu pob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio ac yn arsylwi ansawdd a thrylwyredd y prosesau hyn a, lle bo'n briodol, wedi addasu eu hymagwedd at waith dilydol i adlewyrchu'r heriau hyn.

Mae Archwilio Mewnol wedi ystyried effaith y gwaith dilydol a lle bu oedi wrth weithredu argymhellion, ar ei allu i roi barn gyffredinol (yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS)) a lefel y sicrwydd cyffredinol y gall Archwilio Mewnol ei ddarparu.

Nododd Archwilio Mewnol fod proses olrhain argymhellion yr Ymddiriedolaeth wedi parhau yn ystod 2024/25 er bod angen i'r rheolwyr barhau i ymgysylltu drwy gydol y broses i fynd i'r afael â'r argymhellion ar ôl y dyddiad gweithredu a ymgynghorwyd.

## Archwilio – Allanol

### Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru 2024

Cynllunnir gwaith Asesiad Strwythuredig Archwilwyr Allanol yr Ymddiriedolaeth, Archwilio Cymru er mwyn helpu i gyflawni gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol i fod yn fodlon bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau cynildeb, effeithlonrwydd, ac effeithiolrwydd yn eu defnydd o adnoddau o dan adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r gwaith hwn wedi'i gyfyngu i'r Ymddiriedolaeth graidd, ac yn hanesyddol nid yw'n cynnwys gwasanaethau a gynhelir a gweithwyr yr Ymddiriedolaeth sy'n gweithio yn yr ardaloedd hynny.

Cynhaliwyd Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru 2024 ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn parhau i ymateb i set ehangach o heriau sy'n gysylltiedig â'r argyfwng costau byw, yr argyfwng hinsawdd, pwysau chwyddiant ar gyllid cyhoeddus, prinder gweithlu, ac ystâd sy'n heneiddio. Yn ogystal, mae cyrff y GIG yn parhau i ddelio ag ôl-ffeithiau'r pandemig COVID-19. Felly, yn fwy nag erioed, mae angen i gyrff y GIG a'u Byrddau gael trefniadau llywodraethu corfforaethol cadarn a all roi sicrwydd iddynt eu hunain, y cyhoedd, a rhanddeiliaid allweddol bod y camau angenrheidiol yn cael eu cymryd i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel, sy'n ddiogel ac yn ymatebol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n ddoeth.

Prif ffocws y gwaith oedd trefniadau corfforaethol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus, gyda phwyslais penodol ar y canlynol:

- Tryloywder, cydlyniant ac effeithiolrwydd y Bwrdd;
- Systemau corfforaethol o sicrwydd;
- Dull corfforaethol o gynllunio; ac
- Agwedd gorfforaethol at reolaeth ariannol.

Adolygodd asesiad 2024 hefyd gynnydd yr Ymddiriedolaeth o ran mynd i'r afael ag argymhellion heb eu cwblhau a nodwyd mewn adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol. Mae hefyd wedi cael ei lwio gan y canlynol:

- Rheolau Sefydlog, Cadw a Dirprwyo Pwerau Enghreifftiol;
- Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog Enghreifftiol;
- cylchlythyrau a chanllawiau iechyd perthnasol Llywodraeth Cymru;
- y Canllaw Llywodraethu Da ar gyfer Byrddau GIG Cymru (Ail Argraffiad); a
- chanllawiau arfer da perthnasol eraill.

Daeth yr asesiad i'r casgliad, ar y cyfan, fod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i gael ei harwain a'i llywodraethu'n dda, gyda gweledigaeth a blaenoriaethau strategol clir, systemau sicrwydd sy'n gwella, a threfniadau effeithiol ar gyfer rheoli ei chyllid. Fodd bynnag, mae cyfleoedd o hyd i sicrhau bod papurau'r Bwrdd a'r Pwyllgorau, Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth, a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn cynnwys y wybodaeth sydd ei hangen i gefnogi craffu a gwneud penderfyniadau effeithiol. Nododd Archwilio Cymru eu bod yn gweld craffu a herio da o amgylch sefyllfa ariannol y sefydliad yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch, a Pherfformiad.

Mae'r holl argymhellion yn mynd rhagddynt ac yn cael eu monitro gan Grŵp Llywodraethu, Sicrwydd a Risg yr Ymddiriedolaeth, sy'n cynnwys Aelodau Annibynnol a Chyfarwyddwyr Gweithredol y Bwrdd.

## Datgwiad Llywodraethu Blynyddol

Ni nodwyd unrhyw faterion rheolaeth fewnol na llywodraethu sylweddol yn ystod y flwyddyn ariannol (a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 a hyd at ddyddiad cymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-2025) mewn perthynas â gwasanaethau craidd yr Ymddiriedolaeth.

Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth wedi codi pryderon llywodraethu mewn perthynas â Chydwasanaethau. Mae'r pryderon yn amrywiol ac wedi cael eu huwchgyfeirio, fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid ydynt yn rhoi unrhyw achos i bryderu bod effaith ar y cyfrifon ariannol cyfunol na'u bod yn anghywir mewn unrhyw ffordd. Edrychwn ymlaen at drafod canlyniadau'r adolygiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i'r materion hyn a gweithio gyda'n

harchwilwyr i archwilio a yw asesiadau strwythuredig a chynlluniau archwilio mewnol yn y dyfodol yn mynd y tu hwnt i wasanaethau craidd i gefnogi'r Bwrdd i gyflawni ei gyfrifoldebau'n briodol mewn perthynas â'r endid cyfan, gan gynnwys gwasanaethau a gynhelir.

Llofnodwyd gan:



**Mr. David Donegan**  
**Prif Weithredwr**

Dyddiad: 26 Mehefin 2025



## Atodiad 1 i Ran 2A

# Datganiad o Gydymffurfedd â Threfniadau Llywodraethu Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre Gan y Swyddog Atebol Ar Gyfer Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i'r Swyddog Atebol Ar Gyfer Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

### Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC)

Fel y Swyddog Atebol ar gyfer Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, y mae'r Ymddiriedolaeth yn darparu trefniadau cynnal iddi, rwyf yn cadarnhau ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025 fy mod i:

- a) Wedi gweithredu bob amser o fewn fframwaith llywodraethu corfforaethol yr Ymddiriedolaeth;
- b) Sicrhau bod gweithdrefnau ariannol priodol wedi'u dilyn a bod cofnodion cyfrifyddu wedi'u cadw ar ffurf sy'n addas i ofynion y rheolwyr yn ogystal ag ar y ffurf a ragnodir ar gyfer cyfrifon cyhoeddedig;
- c) Sicrhau bod yr arian cyhoeddus yr wyf yn gyfrifol amdano wedi cael ei reoli a'i ddiogelu'n briodol ac yn dda, gyda gwiriadau annibynnol ac effeithiol o falansau arian parod yn nwylo unrhyw swyddog;
- d) Sicrhau bod asedau yr wyf yn gyfrifol amdanynt megis tir, adeiladau neu eiddo arall, gan gynnwys storfeydd ac offer, wedi cael eu rheoli a'u diogelu gyda gofal tebyg, a chyda gwiriadau yn ôl yr angen;
- e) Sicrhau bod fy nghyfrifoldeb fel Swyddog Atebol am drefniadaeth, rheolaeth a staffio cyffredinol Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a'i threfniadau sy'n ymwneud â chefnogi cyrff statudol GIG Cymru trwy ddarparu ystod gynhwysfawr o swyddogaethau a gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, yn ogystal â materion cyllid, ynghyd ag unrhyw agwedd arall sy'n berthnasol i gynnal busnes Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn unol â'r cyfeiriad strategol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru (LIC) wedi'u cyflawni'n unol â hynny;
- f) Sicrhau bod pob eitem o wariant, gan gynnwys taliadau i staff, yn dod o fewn pwerau cyfreithiol yr Ymddiriedolaeth;
- g) Gweithredu o fewn y cynllun dirprwyo a sicrhau fy mod yn cydymffurfio â chanllawiau ar ddsbarthiadau taliadau y dylwn eu hawdurdodi'n bersonol;
- h) Sicrhau, wrth ddirprwyo swyddogaethau i swyddogion, fy mod yn fodlon ar eu gallu parhaus i gyflawni'r swyddogaethau hynny, gan hwyluso mynediad at y wybodaeth oedd arnynt ei hangen, hyfforddiant a datblygiad parhaus, yn ogystal â chynghor proffesiynol neu arbenigol lle bo'n briodol;
- i) Sicrhau gweinyddiaeth ddoeth a darbodus, er mwyn osgoi gwastraff a gormodedd, ac er mwyn defnyddio'r holl adnoddau'n effeithlon ac yn effeithiol;
- j) Sicrhau bod risgiau i gyflawni amcanion Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a chyflawni ei chyfrifoldebau wedi'u nodi, bod eu harwyddocâd wedi'i asesu, a bod system gadarn o reolaeth fewnol ar waith i'w rheoli;
- k) Wedi gweithredu fframwaith sicrwydd priodol sy'n cwmpasu pob agwedd ar fusnes Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, gan sicrhau bod gwaith ymchwil a gwerthuso wedi'i gynllunio fel bod amcanion strategol a rhaglenni gwariant yr wyf yn gyfrifol amdanynt yn cael eu gwerthuso'n rheolaidd i asesu eu heffeithiolrwydd a'u gwerth am arian;
- l) Sicrhau, wrth ystyried cynigion polisi sy'n ymwneud â'r gwariant neu'r incwm yr wyf yn gyfrifol amdano, fod yr holl ystyriaethau ariannol perthnasol, gan gynnwys unrhyw faterion priodoldeb, rheoleidd-dra neu werth

am arian, wedi'u hystyried, a lle bo'n briodol eu bod wedi'u dwyn i'ch sylw, fel Swyddog Atebol Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre;

- m) Cytuno i fynychu unrhyw gyfarfod Bwrdd neu is-bwyllgor o'r Ymddiriedolaeth mewn perthynas â materion perfformiad neu lywodraethu Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a allai effeithio ar berfformiad gweithredol, ariannol neu enw da'r Ymddiriedolaeth; a
- n) Chytuno i'r fath strwythur adrodd ag a oedd yn rhesymol ofynnol gennych chi neu'r Bwrdd mewn perthynas â chyflawni eich rhwymedigaethau.
- o) Sicrhau bod gweithdrefnau priodol wedi'u sefydlu ar gyfer Llywodraethu Gwybodaeth i sicrhau bod yr holl ddata/gwybodaeth yn cael ei rheoli yn unol â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol (h.y. Deddf Diogelu Data 1998, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, a Mynediad at Gofnodion Iechyd 1990), safonau'r GIG a chanllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a chyrrff proffesiynol eraill.
- p) Uwchgyfeirio unrhyw ddigwyddiadau a/neu risgiau a allai effeithio ar ddarparu ein gwasanaeth i Bwyllgor priodol yr Ymddiriedolaeth lle bo'n briodol.

Mewn perthynas â'm cyfrifoldebau a amlinellwyd uchod, gallaf gadarnhau:

- i. Rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau fel y'u nodir yn y Datganiad hwn ac yn cadarnhau bod y wybodaeth ariannol sydd wedi'i chynnwys yng nghyfrifon yr Ymddiriedolaeth fel y maent yn ymwneud â Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn cynrychioli darlun gwir a theg o'i sefyllfa ar sail barhaus;
- Bod pob achos colledion a thaliadau arbennig wedi'u rheoli'n briodol yn unol â'r cyfarwyddiadau a'r gweithdrefnau a nodir yn y 'Llawlyfr Canllawiau Colledion a Thaliadau Arbennig' a hefyd, o ran trin hawliadau esgeuluster clinigol ac anafiadau personol, y canllawiau a gyhoeddwyd o dan Gylchlythyrau Iechyd Cymru WHC(97)7, Adran 8 Canllawiau Gweithio i Wella – Ymglyfreitha Esgeuluster Clinigol ac Anafiadau Personol: Trin Hawliadau: Gweithio i Wella – Canllawiau ar ddelio â phryderon ynghylch y GIG o 1 Ebrill 2012 (Fersiwn 2 – Ebrill 2012) sy'n disodli WHC(97)17 – Ymglyfreitha Esgeuluster Clinigol ac Anafiadau Personol: Setliadau Strwythuredig.
- Rheolau Gweithdrefn Sifil 1998
- WHC(98)8 - Indemniad y GIG – Trefniadau ar gyfer Ymdrin â Hawliadau Esgeuluster Clinigol yn erbyn Staff y GIG
- WHC(99)128 – Ymdrin â Hawliadau Esgeuluster Clinigol: Protocol Cyn Gweithredu
- ii. Mae'r cyfrifoldeb hwn hefyd yn cynnwys sicrhau bod mesurau atal twyll wedi'u rhoi ar waith a'u gweithredu yn unol â Chyfarwyddiadau LLC ar atal twyll yn y GIG yng Nghymru;
- iii. Bod dyletswydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru dros reolaeth fewnol wedi'i hymgorffori'n llawn ledled y sefydliad, bod Pwyllgorau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn cael adroddiadau rheolaidd ar faterion o'r fath a bod camau priodol yn cael eu cymryd ar unrhyw faterion a ddaeth i'r amlwg o'r adroddiadau hyn;
- iv. Bod camau priodol wedi'u cymryd ynghylch argymhellion a wnaed mewn unrhyw adroddiadau a gynhyrchwyd gan Bwyllgorau Cyfrifon Cyhoeddus Llywodraeth Cymru a Senedd San Steffan; neu a wnaed mewn adroddiadau i Lywodraeth Cymru neu Senedd Cymru gan Archwilydd Cyffredinol Cymru neu mewn adroddiadau i'r Senedd gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol;
- v. Rwyf wedi darparu gwybodaeth yn unol â chais Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Rwyf wedi cydweithredu ag archwilydwr allanol mewn unrhyw ymholiadau i ddefnydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru o arian cyhoeddus. Ar eich cais, rwyf wedi darparu gwybodaeth am unrhyw bwyntiau a godwyd gan archwilydwr allanol sy'n ennyn diddordeb y cyhoedd, Llywodraeth Cymru neu Senedd y Deyrnas Unedig. Byddaf yn sicrhau bod camau prydlon yn cael eu cymryd i ymateb i bryderon a godwyd gan archwilydau allanol a mewnol;
- vi. Rwyf wedi darparu unrhyw wybodaeth y gofynnwyd amdani gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, y Comisiwn Ansawdd Gofal ac unrhyw asiantaeth arolygu statudol arall fel yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch; ac wedi sicrhau bod camau priodol wedi'u cymryd ynghylch argymhellion a wnaed mewn unrhyw adroddiadau a gynhyrchwyd gan y sefydliadau hyn;
- vii. Fel y bo'n briodol, amlygais uwch swyddog a allai, mewn unrhyw gyfnod dros dro o beidio â bod ar gael oherwydd salwch neu achos arall, neu yn ystod cyfnodau arferol o wyliau blynyddol, weithredu ar fy rhan pe byddai angen;

- viii. Mae gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru systemau rheoli effeithiol ar waith sy'n diogelu arian cyhoeddus ac sy'n briodol ar gyfer cyflawni amcanion Llywodraethu'r Ymddiriedolaeth ac fel y'u nodir yn y Cod Ymddygiad ac Atebolrwydd. Rheolwyr ar bob lefel;
- roedd ganddynt olwg glir ar eu hamcanion a'r dulliau o asesu a, lle bynnag y bo modd, mesur allbynnau neu berfformiad mewn perthynas â'r amcanion hynny;
  - neilltuwyd cyfrifoldebau a ddiffiniwyd yn dda iddynt ar gyfer gwneud y defnydd gorau o adnoddau;
  - cawsant y wybodaeth, yr hyfforddiant a'r mynediad at y cyngor arbenigol y mae arnynt eu hangen i gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol.
- ix. Roedd systemau rheoli ar waith, a oedd yn ymdrin â mater perthnasoedd a chyfrifoldebau Pwyllgorau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth; a
- x. Chydymffurfiais â'r Cod Ymddygiad ac Atebolrwydd a gyhoeddwyd i Fyrddau'r GIG gan Lywodraeth Cymru wrth arfer fy nghyfrifoldebau fel Swyddog Atebol am reoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian.

#### Ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025



**Neil Frow** Dyddiad: 03/04/2025  
Rheolwr Gyfarwyddwr a Swyddog Atebol –  
Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

#### Edrych i'r dyfodol – ar gyfer 2025-2026

Rwyf yn cadarnhau fy mod yn ymwybodol o fy nghyfrifoldeb ac atebolrwydd parhaus i chi, i sicrhau bod cydymffurfedd ym mhob maes fel yr amlinellir yn y datganiadau uchod yn parhau i gael ei gyflawni ym mlwyddyn ariannol 2025-2026.



**Neil Frow** Dyddiad: 03/04/2025  
Rheolwr Gyfarwyddwr a Swyddog Atebol –  
Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

## Atodiad 2 i Ran 2A

# Datganiad o gydymffurfedd â Threfniadau Llywodraethu Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre gan Gyfarwyddwr Technoleg Iechyd Cymru i'r Swyddog Atebol ar Gyfer Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

### Technoleg Iechyd Cymru (TIC)

Fel Cyfarwyddwr Technoleg Iechyd Cymru, y mae'r Ymddiriedolaeth yn darparu gwasanaethau cynnal iddi, rwyf yn cadarnhau ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025 fy mod i:

- a) Wedi gweithredu bob amser o fewn fframwaith llywodraethu corfforaethol yr Ymddiriedolaeth;
- b) Sicrhau bod gweithdrefnau ariannol priodol wedi'u dilyn a bod cofnodion cyfrifyddu wedi'u cadw ar ffurf sy'n addas i ofynion y rheolwyr yn ogystal ag ar y ffurf a ragnodir ar gyfer cyfrifon cyhoeddedig;
- c) Sicrhau bod yr arian cyhoeddus yr wyf yn gyfrifol amdano yn cael ei reoli a'i ddiogelu'n briodol ac yn dda, gyda gwiriadau annibynnol ac effeithiol o falansau arian parod yn nwylo unrhyw swyddog;
- d) Sicrhau bod asedau yr wyf yn gyfrifol amdanynt megis tir, adeiladau neu eiddo arall, gan gynnwys storfeydd ac offer, yn cael eu rheoli a'u diogelu gyda gofal tebyg, a chyda gwiriadau yn ôl yr angen;
- e) Sicrhau bod fy nghyfrifoldeb dros drefniadaeth, rheolaeth a staffio cyffredinol Technoleg Iechyd Cymru a'i threfniadau sy'n ymwneud â mabwysiadu'n amserol technolegau iechyd sy'n effeithiol yn glinigol ac yn gost-effeithiol yng Nghymru yn ogystal â materion cyllid, ynghyd ag unrhyw agwedd arall sy'n berthnasol i gynnal busnes Technoleg Iechyd Cymru yn unol â'r cyfeiriad strategol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru (LLC), wedi'u cyflawni'n unol â hynny;
- f) Sicrhau bod pob eitem o wariant, gan gynnwys taliadau i staff, yn dod o fewn pwerau cyfreithiol yr Ymddiriedolaeth;
- g) Gweithredu o fewn y cynllun dirprwyo a sicrhau fy mod yn cydymffurfio â chanllawiau ar ddsbarthiadau taliadau y dylwn eu hawdurdodi'n bersonol;
- h) Sicrhau, wrth ddirprwyo swyddogaethau i swyddogion, fy mod yn fodlon ar eu gallu parhaus i gyflawni'r swyddogaethau hynny, gan hwyluso mynediad at y wybodaeth oedd arnynt ei hangen, hyfforddiant a datblygiad parhaus, yn ogystal â chyingor proffesiynol neu arbenigol lle bo'n briodol;
- i) Sicrhau gweinyddiaeth ddoeth a darbodus, er mwyn osgoi gwastraff a gormodedd, ac er mwyn defnyddio'r holl adnoddau'n effeithlon ac yn effeithiol;
- j) Sicrhau bod risgiau i gyflawni amcanion Technoleg Iechyd Cymru a chyflawni ei chyfrifoldebau wedi'u nodi, bod eu harwyddocâd wedi'i asesu, a bod system gadarn o reolaeth fewnol ar waith i'w rheoli;
- k) Gweithredu fframwaith sicrwydd priodol sy'n cwmpasu pob agwedd ar fusnes Technoleg Iechyd Cymru, gan sicrhau bod gwaith ymchwil a gwerthuso wedi'i gynllunio fel bod amcanion strategol a rhaglenni gwariant yr wyf yn gyfrifol amdanynt yn cael eu gwerthuso'n rheolaidd i asesu eu heffeithiolrwydd a'u gwerth am arian;
- l) Sicrhau, wrth ystyried cynigion polisi sy'n ymwneud â'r gwariant neu'r incwm yr wyf yn gyfrifol amdano, fod yr holl ystyriaethau ariannol perthnasol, gan gynnwys unrhyw faterion priodoldeb, rheoleidd-dra neu werth am arian, wedi'u hystyried, a lle bo angen, eu bod wedi'u dwyn i'ch sylw, fel Swyddog Atebol Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre;
- m) Cytuno i fynychu unrhyw gyfarfod o'r Bwrdd neu is-bwyllgor yr Ymddiriedolaeth mewn perthynas â materion perfformiad neu lywodraethu Technoleg Iechyd Cymru a allai effeithio ar berfformiad gweithredol, ariannol neu enw da'r Ymddiriedolaeth; a

- n) Chytuno i'r fath strwythur adrodd ag a oedd yn rhesymol ofynnol gennych chi neu'r Bwrdd mewn perthynas â chyflawni eich rhwymedigaethau.
- o) Sicrhau bod gweithdrefnau priodol wedi'u sefydlu ar gyfer Llywodraethu Gwybodaeth i sicrhau bod yr holl ddata/gwybodaeth yn cael ei rheoli yn unol â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol (h.y. Deddf Diogelu Data 1998, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, a Mynediad at Gofnodion Iechyd 1990), safonau'r GIG a chanllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a chyrrff proffesiynol eraill.
- p) Uwchgyfeirio unrhyw ddigwyddiadau a/neu risgiau a allai effeithio ar ddarparu ein gwasanaeth i'r Pwyllgor Ymddiriedolaeth / Arweinydd Gweithredol priodol.

Mewn perthynas â'm cyfrifoldebau a amlinellwyd uchod, gallaf gadarnhau:

- i. Rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau fel y'u nodir yn y Datganiad hwn ac yn cadarnhau bod y wybodaeth ariannol sydd wedi'i chynnwys yng nghyfrifon yr Ymddiriedolaeth fel y maent yn ymwneud â Thechnoleg Iechyd Cymru yn cynrychioli darlun gwir a theg o'i sefyllfa ar sail barhaus;
  - Bod pob achos colledion a thaliadau arbennig wedi'u rheoli'n briodol yn unol â'r cyfarwyddiadau a'r gweithdrefnau a nodir yn y 'Llawlyfr Canllawiau Colledion a Thaliadau Arbennig' a hefyd, o ran trin hawliadau esgeuluster clinigol ac anafiadau personol, y canllawiau a gyhoeddwyd o dan Gylchlythyrau Iechyd Cymru WHC(97)7, Adran 8 Canllawiau Gweithio i Wella – Ymglyfreitha Esgeuluster Clinigol ac Anafiadau Personol: Trin Hawliadau: Gweithio i Wella – Canllawiau ar ddelio â phryderon ynghylch y GIG o 1 Ebrill 2012 (Fersiwn 2 – Ebrill 2012) sy'n disodli WHC(97)17 – Ymglyfreitha Esgeuluster Clinigol ac Anafiadau Personol: Setliadau Strwythuredig.
  - Rheolau Gweithdrefn Sifil 1998
  - WHC(98)8 - Indemniad y GIG – Trefniadau ar gyfer Ymdrin â Hawliadau Esgeuluster Clinigol yn erbyn Staff y GIG
  - WHC(99)128 – Ymdrin â Hawliadau Esgeuluster Clinigol: Protocol Cyn Gweithredu
- ii. Mae'r cyfrifoldeb hwn hefyd yn cynnwys sicrhau bod mesurau atal twyll wedi'u rhoi ar waith a'u gweithredu yn unol â Chyfarwyddiadau LLC ar atal twyll yn y GIG yng Nghymru;
  - iii. Bod dyletswydd Technoleg Iechyd Cymru dros reolaeth fewnol wedi'i hymgorffori'n llawn ledled y sefydliad, bod Pwyllgorau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn cael adroddiadau rheolaidd ar faterion o'r fath a bod camau priodol yn cael eu cymryd ar unrhyw faterion a ddaeth i'r amlwg o'r adroddiadau hyn;
  - iv. Bod camau priodol wedi'u cymryd ynghylch argymhellion a wnaed mewn unrhyw adroddiadau a gynhyrchwyd gan Bwyllgorau Cyfrifon Cyhoeddus Llywodraeth Cymru a Senedd San Steffan; neu a wnaed mewn adroddiadau i LLC neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Archwilydd Cyffredinol Cymru neu mewn adroddiadau i'r Senedd gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol;
  - v. Rwyf wedi darparu gwybodaeth yn unol â chais Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Rwyf wedi cydweithredu ag archwilyr allanol mewn unrhyw ymholiadau i'r defnydd y mae Gwasanaeth Technoleg Iechyd Cymru wedi'i wneud o arian cyhoeddus. Ar eich cais, rwyf wedi darparu gwybodaeth am unrhyw bwyntiau a godwyd gan archwilyr allanol sy'n ennyn diddordeb y cyhoedd, Llywodraeth Cymru neu Senedd y Deyrnas Unedig. Byddaf yn sicrhau bod camau prydlon yn cael eu cymryd i ymateb i bryderon a godwyd gan archwiliadau allanol a mewnol;
  - vi. Rwyf wedi darparu unrhyw wybodaeth y gofynnwyd amdani gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, y Comisiwn Ansawdd Gofal ac unrhyw asiantaeth arolygu statudol arall fel yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch; ac wedi sicrhau bod camau priodol wedi'u cymryd ynghylch argymhellion a wnaed mewn unrhyw adroddiadau a gynhyrchwyd gan y sefydliadau hyn;
  - vii. Fel y bo'n briodol, amlygais uwch swyddog a allai, mewn unrhyw gyfnod dros dro o beidio â bod ar gael oherwydd salwch neu achos arall, neu yn ystod cyfnodau arferol o wyliau blynyddol, weithredu ar fy rhan pe byddai angen;

- viii. Mae gan Dechnoleg Iechyd Cymru systemau rheoli effeithiol ar waith sy'n diogelu arian cyhoeddus ac sy'n briodol ar gyfer cyflawni amcanion Llywodraethu'r Ymddiriedolaeth ac fel y nodir yn y Cod Ymddygiad ac Atebolrwydd. Rheolwyr ar bob lefel;
- Roedd ganddynt olwg glir ar eu hamcanion a'r dulliau o asesu a, lle bynnag y bo modd, mesur allbynnau neu berfformiad mewn perthynas â'r amcanion hynny;
  - neilltuwyd cyfrifoldebau a ddiffiniwyd yn dda iddynt ar gyfer gwneud y defnydd gorau o adnoddau;
  - cawsant y wybodaeth, yr hyfforddiant a'r mynediad at y cyngor arbenigol y mae arnynt eu hangen i gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol.
- ix. Roedd systemau rheoli ar waith, a oedd yn ymdrin â mater perthnasoedd a chyfrifoldebau Pwyllgorau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth; a
- x. Chydymffurfiais â'r Cod Ymddygiad ac Atebolrwydd a gyhoeddwyd i Fyrddau'r GIG gan Lywodraeth Cymru wrth arfer fy nghyfrifoldebau am reoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian

#### Am y cyfnod 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025



**Susan Myles** Dyddiad: 27 Mawrth 2025  
Cyfarwyddwr - Technoleg Iechyd Cymru

#### Edrych i'r dyfodol – ar gyfer 2025-2026

Rwyf yn cadarnhau fy mod yn ymwybodol o fy nghyfrifoldeb ac atebolrwydd parhaus i chi, i sicrhau bod cydymffurfedd ym mhob maes fel yr amlinellir yn y datganiadau uchod yn parhau i gael ei gyflawni ym mlwyddyn ariannol 2025-2026.



**Susan Myles** Dyddiad: 27 Mawrth 2025  
Cyfarwyddwr - Technoleg Iechyd Cymru

## Atodiad 3 i Ran 2A

# Datganiad o gydymffurfedd â Threfniadau Llywodraethu Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre Gan Bennaeth Rhaglen Therapiau Datblygedig Cymru i'r Swyddog Atebol ar Gyfer Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

### Therapiau Datblygedig Cymru (ThDC)

Fel Pennaeth Rhaglen Therapiau Datblygedig Cymru, y mae'r Ymddiriedolaeth yn darparu gwasanaethau cynnal iddi, rwyf yn cadarnhau ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025 fy mod i:

- a) Wedi gweithredu bob amser o fewn fframwaith llywodraethu corfforaethol yr Ymddiriedolaeth;
- b) Sicrhau bod gweithdrefnau ariannol priodol wedi'u dilyn a bod cofnodion cyfrifyddu wedi'u cadw ar ffurf sy'n addas i ofynion y rheolwyr yn ogystal ag ar y ffurf a ragnodir ar gyfer cyfrifon cyhoeddedig;
- c) Sicrhau bod yr arian cyhoeddus yr wyf yn gyfrifol amdano yn cael ei reoli a'i ddiogelu'n briodol ac yn dda, gyda gwiriadau annibynnol ac effeithiol o falansau arian parod yn nwylo unrhyw swyddog;
- d) Sicrhau bod asedau yr wyf yn gyfrifol amdanynt megis tir, adeiladau neu eiddo arall, gan gynnwys storfeydd ac offer, yn cael eu rheoli a'u diogelu gyda gofal tebyg, a chyda gwiriadau yn ôl yr angen;
- e) Sicrhau bod fy nghyfrifoldeb dros drefniadaeth, rheolaeth a staffio cyffredinol Therapiau Datblygedig Cymru a'r holl drefniadau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen yng Nghymru yn ogystal â materion cyllid, ynghyd ag unrhyw agwedd arall sy'n berthnasol i gynnal busnes Therapiau Datblygedig Cymru yn unol â'r cyfeiriad strategol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru (LLC), wedi'u cyflawni'n unol â hynny;
- f) Sicrhau bod pob eitem o wariant, gan gynnwys taliadau i staff, yn dod o fewn pwerau cyfreithiol yr Ymddiriedolaeth;
- g) Gweithredu o fewn y cynllun dirprwyo a sicrhau fy mod yn cydymffurfio â chanllawiau ar ddsbarthiadau taliadau y dylwn eu hawdurdodi'n bersonol;
- h) Sicrhau, wrth ddirprwyo swyddogaethau i swyddogion, fy mod yn fodlon ar eu gallu parhaus i gyflawni'r swyddogaethau hynny, gan hwyluso mynediad at y wybodaeth oedd arnynt ei hangen, hyfforddiant a datblygiad parhaus, yn ogystal â chyngor proffesiynol neu arbenigol lle bo'n briodol;
- i) Sicrhau gweinyddiaeth ddoeth a darbodus, er mwyn osgoi gwastraff a gormodedd, ac er mwyn defnyddio'r holl adnoddau'n effeithlon ac yn effeithiol;
- j) Sicrhau bod risgiau i gyflawni amcanion Therapiau Datblygedig Cymru a chyflawni ei gyfrifoldebau wedi'u nodi, bod eu harwyddocâd wedi'i asesu, a bod system gadarn o reolaeth fewnol ar waith i'w rheoli;
- k) gweithredu fframwaith sicrwydd priodol sy'n cwmpasu pob agwedd ar fusnes Therapiau Datblygedig Cymru, gan sicrhau bod gwaith ymchwil a gwerthuso wedi'i gynllunio fel bod amcanion strategol a rhaglenni gwariant yr wyf yn gyfrifol amdanynt yn cael eu gwerthuso'n rheolaidd i asesu eu heffeithiolrwydd a'u gwerth am arian;
- l) Sicrhau, wrth ystyried cynigion polisi sy'n ymwneud â'r gwariant neu'r incwm yr wyf yn gyfrifol amdano, fod yr holl ystyriaethau ariannol perthnasol, gan gynnwys unrhyw faterion priodoldeb, rheoleidd-dra neu werth am arian, wedi'u hystyried, a lle bo angen, eu bod wedi'u dwyn i'ch sylw, fel Swyddog Atebol Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre;
- m) Cytuno i fynychu unrhyw gyfarfod o'r Bwrdd neu is-bwyllgor yr Ymddiriedolaeth mewn perthynas â materion perfformiad neu lywodraethu Therapiau Datblygedig Cymru a allai effeithio ar berfformiad gweithredol, ariannol neu enw da'r Ymddiriedolaeth; a

- n) Chytuno i'r fath strwythur adrodd ag a oedd yn rhesymol ofynnol gennych chi neu'r Bwrdd mewn perthynas â chyflawni eich rhwymedigaethau.
- o) Sicrhau bod gweithdrefnau priodol wedi'u sefydlu ar gyfer Llywodraethu Gwybodaeth i sicrhau bod yr holl ddata/gwybodaeth yn cael ei rheoli yn unol â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol (h.y. Deddf Diogelu Data 1998, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, a Mynediad at Gofnodion Iechyd 1990), safonau'r GIG a chanllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a chyrrff proffesiynol eraill.
- p) Uwchgyfeirio unrhyw ddigwyddiadau a/neu risgiau a allai effeithio ar ddarparu ein gwasanaeth i'r Pwyllgor Ymddiriedolaeth / Arweinydd Gweithredol priodol.

Mewn perthynas â'm cyfrifoldebau a amlinellwyd uchod, gallaf gadarnhau:

- i. Rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau fel y'u nodir yn y Datganiad hwn ac yn cadarnhau bod y wybodaeth ariannol sydd wedi'i chynnwys yng nghyfrifon yr Ymddiriedolaeth fel y maent yn ymwneud â Therapiau Datblygedig Cymru yn cynrychioli darlun gwir a theg o'i sefyllfa ar sail barhaus;
- Bod pob achos colledion a thaliadau arbennig wedi'u rheoli'n briodol yn unol â'r cyfarwyddiadau a'r gweithdrefnau a nodir yn y 'Llawlyfr Canllawiau Colledion a Taliadau Arbennig' a hefyd, o ran trin hawliadau esgeuluster clinigol ac anafiadau personol, y canllawiau a gyhoeddwyd o dan Gylchlythyrau Iechyd Cymru WHC(97)7, Adran 8 Canllawiau Gweithio i Wella – Ymglyfreitha Esgeuluster Clinigol ac Anafiadau Personol: Trin Hawliadau: Gweithio i Wella – Canllawiau ar ddelio â phryderon ynghylch y GIG o 1 Ebrill 2012 (Fersiwn 2 – Ebrill 2012) sy'n disodli WHC(97)17 – Ymglyfreitha Esgeuluster Clinigol ac Anafiadau Personol: Setliadau Strwythuredig.
- Rheolau Gweithdrefn Sifil 1998
- WHC(98)8 -Indemniad y GIG – Trefniadau ar gyfer Ymdrin â Hawliadau Esgeuluster Clinigol yn erbyn Staff y GIG
- WHC(99)128 – Ymdrin â Hawliadau Esgeuluster Clinigol: Protocol Cyn Gweithredu
- ii. Mae'r cyfrifoldeb hwn hefyd yn cynnwys sicrhau bod mesurau atal twyll wedi'u rhoi ar waith a'u gweithredu yn unol â Chyfarwyddiadau LLC ar atal twyll yn y GIG yng Nghymru;
- iii. Bod dyletswydd Therapiau Datblygedig Cymru dros reolaeth fewnol wedi'i hymgorffori'n llawn ledled y sefydliad, bod Pwyllgorau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn cael adroddiadau rheolaidd ar faterion o'r fath a bod camau priodol yn cael eu cymryd ar unrhyw faterion a ddaeth i'r amlwg o'r adroddiadau hyn;
- iv. Bod camau priodol wedi'u cymryd ynghylch argymhellion a wnaed mewn unrhyw adroddiadau a gynhyrchwyd gan Bwyllgorau Cyfrifon Cyhoeddus Llywodraeth Cymru a Senedd San Steffan; neu a wnaed mewn adroddiadau i LLC neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Archwilydd Cyffredinol Cymru neu mewn adroddiadau i'r Senedd gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol;
- v. Rwyf wedi darparu gwybodaeth yn unol â chais Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Rwyf wedi cydweithredu ag archwilywr allanol mewn unrhyw ymholiadau i'r defnydd y mae Gwasanaeth Therapiau Datblygedig Cymru wedi'i wneud o arian cyhoeddus. Ar eich cais, rwyf wedi darparu gwybodaeth am unrhyw bwyntiau a godwyd gan archwilywr allanol sy'n ennyn diddordeb y cyhoedd, Llywodraeth Cymru neu Senedd y Deyrnas Unedig. Byddaf yn sicrhau bod camau prydlon yn cael eu cymryd i ymateb i bryderon a godwyd gan archwiliadau allanol a mewnol;
- vi. Rwyf wedi darparu unrhyw wybodaeth y gofynnwyd amdani gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, y Comisiwn Ansawdd Gofal ac unrhyw asiantaeth arolygu statudol arall fel yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch; ac wedi sicrhau bod camau priodol wedi'u cymryd ynghylch argymhellion a wnaed mewn unrhyw adroddiadau a gynhyrchwyd gan y sefydliadau hyn;
- vii. Fel y bo'n briodol, amlygais uwch swyddog a allai, mewn unrhyw gyfnod dros dro o beidio â bod ar gael oherwydd salwch neu achos arall, neu yn ystod cyfnodau arferol o wyliau blynyddol, weithredu ar fy rhan pe byddai angen;
- viii. Mae gan Therapiau Datblygedig Cymru systemau rheoli effeithiol ar waith sy'n diogelu arian cyhoeddus ac sy'n briodol ar gyfer cyflawni amcanion Llywodraethu'r Ymddiriedolaeth ac fel y'u nodir yn y Cod Ymddygiad ac Atebolrwydd. Rheolwyr ar bob lefel;

- a. Roedd ganddynt olwg glir ar eu hamcanion a'r dulliau o asesu a, lle bynnag y bo modd, mesur allbynnau neu berfformiad mewn perthynas â'r amcanion hynny;
  - b. neilltuwyd cyfrifoldebau a ddiffiniwyd yn dda iddynt ar gyfer gwneud y defnydd gorau o adnoddau;
  - c. cawsant y wybodaeth, yr hyfforddiant a'r mynediad at y cyngor arbenigol y mae arnynt eu hangen i gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol.
- ix. Roedd systemau rheoli ar waith, a oedd yn ymdrin â mater perthnasoedd a chyfrifoldebau Pwyllgorau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth; a
- x. Chydymffurfiais â'r Cod Ymddygiad ac Atebolrwydd a gyhoeddwyd i Fyrddau'r GIG gan Lywodraeth Cymru wrth arfer fy nghyfrifoldebau am reoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian.

#### Am y cyfnod 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025



**Rachel Savery** Dyddiad: 12/06/2025  
Pennaeth y Rhaglen – Therapiau Datblygedig Cymru

#### Edrych i'r dyfodol – ar gyfer 2025-2026

Rwyf yn cadarnhau fy mod yn ymwybodol o fy nghyfrifoldeb ac atebolrwydd parhaus i chi, i sicrhau bod cydymffurfedd ym mhob maes fel yr amlinellir yn y datganiadau uchod yn parhau i gael ei gyflawni ym mlwyddyn ariannol 2025-2026.



**Rachel Savery** Dyddiad: 12/06/2025  
Pennaeth y Rhaglen – Therapiau Datblygedig Cymru

## Atodiad 4 i Ran 2A

# Gweithgarwch Bwrdd yr Ymddiriedolaeth, Pwyllgorau, Grŵp Ymgynghorol a Fforymau 2024-2025

Mae'r tabl isod yn amlinellu rhywfaint o'r prif bwyntiau a'r gweithgarwch a ystyriwyd gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth a'i Phwyllgorau yn ystod 2024-2025. Nid yw'r rhestr hon yn holl gynhwysfawr.

Cyfarfod:	Dyddiadau Cyfarfodydd:	Gweithgaredd:
<p><b>Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre – Cyfarfod Cyhoeddus Bwrdd yr Ymddiriedolaeth.</b></p> <p>Mae Agendâu, Cofnodion a Phapurau'r Cyfarfodydd ar gael ar Wefan yr Ymddiriedolaeth <a href="#">yma</a>:</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• 23.05.2024</li> <li>• 30.07.2024</li> <li>• 26.09.2024</li> <li>• 28.11.2024</li> <li>• 30.01.2025</li> <li>• 27.03.2025</li> </ul> <p>Roedd cworwm ym mhob cyfarfod.</p>	<p>Crynodebau/penawdau lefel uchel o bynciau allweddol a dderbyniwyd gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth yn ystod 2024-2025:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Adroddiadau Diweddarau gan y Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd a'r Prif Weithredwr</li> <li>• Adroddiadau Camau Brys y Cadeirydd</li> <li>• Ymrwymiad o Wariant sy'n uwch na Therfyn y Prif Weithredwr</li> <li>• Cymeradwyo Polisiâu ac Adroddiadau Diweddarau Polisi ar draws yr Ymddiriedolaeth</li> <li>• Dogfennau Adroddiadau 'Wedi'u Selio'</li> <li>• Prif Bwyntiau Pwyllgor / Is-bwyllgor y Bwrdd ac Adroddiadau Blynyddol</li> <li>• Briffiau Cydbwyllgor Comisiynu GIG Cymru</li> <li>• Adroddiad Sicrwydd Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau</li> <li>• Adroddiadau Perfformiad</li> <li>• Adroddiadau Ariannol</li> <li>• Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023/2024</li> <li>• Cofrestr Risg yr Ymddiriedolaeth a Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth</li> <li>• Y Cynllun Tymor Canolig Integredig</li> <li>• Adroddiadau Cyflawni Cynnydd Cynllun Tymor Canolig Integredig ac Amodau Atebolrwydd</li> <li>• Diwygiadau / Amrywiadau i Reolau Sefydlog, Cynllun Dirprwyo a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yr Ymddiriedolaeth</li> <li>• Fframwaith Ansawdd a Diogelwch a Blaenoriaethau Ansawdd yr Ymddiriedolaeth</li> <li>• Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016</li> <li>• Cynllun Cynhwysiant Digidol</li> <li>• Adroddiadau Llais Cymru</li> <li>• Adroddiad Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau 2023-24</li> <li>• Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2023-24</li> <li>• Adroddiad Blynyddol y Gymraeg 2023-24</li> <li>• Adroddiad Blynyddol y Ddyletswydd Ansawdd 2023-24</li> <li>• Adroddiad Blynyddol Cofrestru / Ailddilysu Proffesiynol 2023-24</li> </ul>

Cyfarfod:	Dyddiadau Cyfarfodydd:	Gweithgaredd:
		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Adroddiad Blynyddol Profiad Cleifion a Rhoddwyr 2023-24</li> <li>• Adroddiad Blynyddol Archwilio Clinigol 2023-24</li> <li>• Adroddiad Blynyddol Cyfathrebu ac Ymgysylltu 2023-24</li> <li>• Adroddiad Blynyddol Gweithio i Wella 2023-24</li> <li>• Adroddiad Blynyddol Hyrwyddwr y Bwrdd 2023-24</li> <li>• Adroddiad Blynyddol Technoleg Iechyd Cymru 2023-24</li> <li>• Cylch Gorchwyl Bwrdd Prosiect Canolfan Ganser Felindre newydd (CGFn)</li> <li>• Amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol</li> <li>• Arolwg Ymgysylltu Staff</li> <li>• Adroddiad Diwylliant Gwerthoedd yr Ymddiriedaeth</li> <li>• Strategaeth Glinigol a Gwyddonol</li> <li>• Strategaeth Ymchwil, Datblygu ac Arloesi Gwasanaeth Gwaed Cymru</li> <li>• Addewid Arweinyddiaeth Dosturiol</li> <li>• Diweddariad Cynllunio Strategol</li> <li>• Achos Cyfiawnhad Busnes - Adnewyddu Fflyd Gwasanaeth Gwaed Cymru</li> <li>• Cymeradwyaethau PCCG: <ul style="list-style-type: none"> <li>- Ildio Prydlesi o fewn Tŷ'r Cwmnïau (PCGC)</li> <li>- Cynnydd mewn Rhent Tŷ Gwern (PCGC)</li> <li>- Ymestyn Prydles Charnwood Court (PCGC)</li> <li>- Diwygiadau Arfaethedig PCCG i Ddirprwyo Ariannol</li> </ul> </li> </ul>
<p><b>Pwyllgor Penodi Ymgynghorwyr Cynghorol</b></p>	<p>Paneli a gynhaliwyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• 02.04.2024</li> <li>• 02.05.2024</li> <li>• 11.10.2024</li> <li>• 07.01.2025</li> </ul>	<p>Cynhaliwyd y paneli canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Radiolegydd Cyffredinol â diddordeb yn y Fron</li> <li>• Ymgynghorydd Oncoleg Glinigol (Pen a Gwddf)</li> <li>• Oncolegydd Clinigol Ymgynghorol (Ysgyfaint a Lymffoma)</li> <li>• Oncolegydd Clinigol Ymgynghorol – Canserau oesoffagogastrig a cholorefrol</li> </ul>
<p><b>Pwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth</b></p> <p>Mae Agendâu, Cofnodion a Phapurau'r Cyfarfodydd ar gael ar Wefan yr Ymddiriedolaeth <a href="#">yma</a>:</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• 10.07.2024</li> <li>• 24.09.2024</li> <li>• 12.12.2024</li> <li>• 25.03.2025</li> </ul> <p>Roedd cworwm ym mhob cyfarfod.</p>	<p>Crynodeb lefel uchel/penawdau o bynciau allweddol a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Archwilio yn ystod 2024-2025:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Adroddiad Atebolrwydd Blynyddol</li> <li>• Cyfrifon Blynyddol</li> <li>• Adroddiadau ac Archwiliadau Archwilio Mewnol</li> <li>• Adroddiadau ac Archwiliadau Archwilio Cymru</li> <li>• Cynlluniau Gweithredu'r Gweithlu a Datblygu Sefydliadol</li> <li>• Rheoli Contractau</li> <li>• Datganiadau o Fuddiant; Adroddiadau Rhoddion, Lletygarwch, Nawdd a Honoraria</li> <li>• Cofrestr Risg yr Ymddiriedolaeth</li> <li>• Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth</li> <li>• Adolygiad o'r Traciwr Camau Gweithredu Argymhellion Archwilio</li> <li>• Adroddiadau Atal Twyll</li> <li>• Adroddiadau Colledion a Thaliadau Arbennig</li> <li>• Diweddariadau Technegol Cyllid</li> </ul>

Cyfarfod:	Dyddiadau Cyfarfodydd:	Gweithgaredd:
		<ul style="list-style-type: none"> <li>Adroddiadau Cyllid</li> <li>Cynllun Gwasanaeth Cleifion Preifat</li> <li>Adolygiad o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor</li> <li>Diwygiadau / Amrywiadau i Reolau Sefydlog, Cynllun Dirprwyo a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yr Ymddiriedolaeth</li> <li>Adolygiad o Gylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi</li> <li>Adolygiad o Gylch Busnes y Pwyllgor</li> <li>Adroddiad Cydymffurfio â Chaffael</li> <li>Cynllun Blynyddol ac Adroddiad Blynyddol Archwilio Clinigol</li> <li>Rhaglen Waith Llywodraethu, Sicrwydd a Risg</li> <li>Cyfuno'r Cyfrifon Cronfeydd Elusennol</li> <li>Cofrestr Deddfwriaeth a Chydymffurfiaeth</li> <li>Adroddiad Camau Gweithredu Brys y Cadeirydd</li> <li>Polisi 'Dim Archeb Brynu, Dim Tâl' GIG Cymru</li> <li>Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio</li> </ul>
<p><b>Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol</b></p> <p>Mae Agendâu, Cofnodion a Phapurau'r Cyfarfodydd ar gael ar Wefan yr Ymddiriedolaeth <a href="#">yma</a>:</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>21.05.2024</li> <li>05.09.2024</li> <li>23.01.2024</li> <li>19.03.2024</li> </ul> <p>Roedd cworwm ym mhob cyfarfod.</p>	<p>Crynodeb lefel uchel/penawdau o bynciau allweddol a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol yn ystod 2024-2025:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Adroddiadau ac Archwiliadau Archwilio Mewnol</li> <li>Adroddiadau Atal Twyll</li> <li>Adroddiadau Materion Llywodraethu</li> <li>Y Gofrestr Risg Gorfforaethol</li> <li>Tracio Argymhellion Archwilio</li> <li>Blaengynllun Gwaith</li> <li>Adroddiadau'r Rheolwr Gyfarwyddwr</li> <li>Adroddiadau ac Archwiliadau Archwilio Cymru</li> <li>Diweddariadau TrAMS</li> <li>Datganiadau Blynyddol o Fuddiant a Rhoddion, Lletygarwch a Nawdd</li> <li>Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio</li> <li>Adolygiad o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio</li> <li>Adroddiad Blynyddol y Gymraeg</li> <li>Adolygiad Blynyddol PCCG</li> <li>Adolygiad Effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio</li> </ul>
<p><b>Y Fforwm Partneriaeth Lleol</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>04.06.2024</li> <li>17.09.2024</li> <li>12.12.2024</li> </ul> <p>Roedd cworwm ym mhob cyfarfod.</p>	<p>Crynodeb lefel uchel/penawdau o bynciau allweddol a dderbyniwyd gan y Fforwm Partneriaeth Lleol yn ystod 2024-2025:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Adroddiad Cyflenwad a Siâp y Gweithlu</li> <li>Canlyniadau'r Arolwg Staff</li> <li>Adroddiad Blynyddol y Fforwm Partneriaeth Lleol</li> <li>Adroddiad ar yr Ymchwiliad Gwaed Heintiedig</li> <li>Proffil Rôl Arweinydd Partneriaeth Gymdeithasol</li> <li>Addewid Arweinyddiaeth Dosturiol 2024</li> <li>Adroddiadau Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol</li> <li>Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau'r Ymddiriedolaeth</li> </ul>

Cyfarfod:	Dyddiadau Cyfarfodydd:	Gweithgaredd:
		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Adroddiad Cysylltiadau Cyflogeion 2024</li> <li>• Rolau Gwirfoddolwyr Ychwanegol yr Ymddiriedolaeth</li> <li>• Diweddariad ar y Ganolfan Loeren Radiotherapi</li> <li>• Prosesau Newid Sefydliadol</li> <li>• Briffio ar Ddiogelwch Rhywiol</li> <li>• Diweddariad ar Aflonyddu Rhywiol</li> <li>• Prosiect Denu ac Adnoddau</li> <li>• Polisiâu a Gweithdrefnau Pobl a Datblygu Sefydliadol</li> <li>• Uwchgyfeirio o Fforwm Partneriaeth Is-adrannol Gwasanaeth Gwaed Cymru</li> <li>• Salwch Cysylltiedig â'r Gweithle yn cael ei olrhain ar ESR / Archwiliad Dwfn o Salwch</li> <li>• Cynnydd ar Elfennau Dyfarniad Cyflog Nad Ydynt yn Gysylltiedig â Chyflog</li> <li>• Ymgynghoriad Uwch Arweinyddiaeth CGF</li> <li>• Prosiect Denu ac Adnoddau</li> <li>• Diweddariad ar y Strategaeth Pobl</li> <li>• Diweddariad ar y Strategaeth Addysg</li> <li>• Grŵp Cydweithredol dros Atal Trais</li> </ul>
<p><b>Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad</b></p> <p>Mae Agendâu, Cofnodion a Phapurau'r Cyfarfodydd ar gael ar Wefan yr Ymddiriedolaeth <a href="#">yma</a>:</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• 09.05.2024</li> <li>• 09.07.2024</li> <li>• 11.07.2024</li> <li>• 12.09.2024</li> <li>• 14.11.2024</li> <li>• 16.01.2025</li> <li>• 13.03.2025</li> </ul> <p>Roedd cworwm ym mhob cyfarfod.</p>	<p>Crynodeb lefel uchel/penawdau o bynciau allweddol a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad yn ystod 2024-2025:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Newid i Ddyraniad Canolfan Les Adeilad Noddfa</li> <li>• Tueddiadau / Themâu Digwyddiadau Iechyd a Diogelwch</li> <li>• Cofrestr Risg yr Ymddiriedolaeth</li> <li>• Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth</li> <li>• Adroddiad Fframwaith Rheoli Perfformiad a Dadansoddiad Ategol</li> <li>• Adroddiadau Ansawdd a Diogelwch Is-adrannol</li> <li>• Cyflenwad a Ffurf y Gweithlu a Risgiau Cyllid Cysylltiedig</li> <li>• Adroddiadau Cyllid</li> <li>• Adroddiadau Chwarterol Ansawdd a Diogelwch</li> <li>• Adroddiad ar y Prif Bwyntiau a Chynllun Gwella Grŵp Gwella Gwasanaethau Cleifion Preifat</li> <li>• Cynllun Archwilio Clinigol yr Ymddiriedolaeth</li> <li>• Adroddiad Cydymffurfio â Pholisiâu a Gweithdrefnau ar draws yr Ymddiriedolaeth</li> <li>• Diweddariad ar Gynnydd TraMS</li> <li>• Contractio Cyffuriau Cymru Gyfan</li> <li>• Diweddariad ar Weithredu'r Ddyletswydd Ansawdd</li> <li>• Polisiâu'r Ymddiriedolaeth i'w Cymeradwyo</li> <li>• Fframwaith Dysgu'r Ymddiriedolaeth</li> <li>• Fframwaith Rheoli Digwyddiadau'r Ymddiriedolaeth</li> <li>• Diweddariad i Ganllawiau a Phrotocol Cwest yr Ymddiriedolaeth</li> <li>• Adnewyddu'r Fframwaith Ansawdd a Diogelwch</li> <li>• Adroddiad Sicrwydd Tair Blynyddol ar Gydymffurfio â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) (2016)</li> </ul>

Cyfarfod:	Dyddiadau Cyfarfodydd:	Gweithgaredd:
		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Adroddiadau Sicrwydd Grŵp Rheoli Meddyginiaethau</li> <li>• Adroddiad ar Brif Bwyntiau'r Grŵp Strategol Diogelu rhag Ymbelydredd a Chysylltiad Meddygol</li> <li>• Safonau Sicrwydd Cymhwysedd ar gyfer Rhagnodwyr Anfeddygol yng Nghymru</li> <li>• Adolygiad Fferylliaeth</li> <li>• Diweddariad ar yr Ymchwiliad i Waed Heintiedig</li> <li>• Adroddiad Archwilio Strategaeth Addysg</li> <li>• Cynllun Gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol</li> <li>• Adroddiad Cynnydd Chwarterol y Cynllun Tymor Canolig Integredig</li> <li>• Adroddiadau ar Brif Bwyntiau'r Is-bwyllgor Craffu ar y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser</li> <li>• Dadansoddiad o Themâu Cyfarfodydd wedi'u Triongli</li> <li>• Arolwg Staff 2023-2024</li> <li>• Adroddiad Blynyddol Cynaliadwyedd</li> <li>• Adroddiad Blynyddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol</li> <li>• Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Digidol</li> <li>• Adroddiad Blynyddol Deddf Rhyddid Gwybodaeth</li> <li>• Adroddiad Blynyddol LFP</li> <li>• Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant</li> <li>• Adroddiad Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau</li> <li>• Adroddiad Blynyddol y Gymraeg</li> <li>• Adroddiad Blynyddol Atal a Rheoli Heintiau</li> <li>• Adroddiad Blynyddol y Grŵp Rheoli Diogelu ac Oedolion Agored i Niwed</li> <li>• Adroddiad Blynyddol Profiad Cleifion a Rhoddwyr</li> <li>• Adroddiad Blynyddol y Strategaeth Nyrsio</li> <li>• Adroddiad Blynyddol Llywodraethu Gwybodaeth</li> <li>• Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch</li> <li>• Adroddiad Blynyddol Cyfathrebu ac Ymgysylltu</li> <li>• Adroddiad Blynyddol Archwilio Clinigol yr Ymddiriedolaeth</li> <li>• Adroddiad Blynyddol Gweithio i Wella</li> <li>• Adroddiad Blynyddol Dyletswydd Ansawdd</li> <li>• Adroddiad Perfformiad Blynyddol</li> <li>• Adroddiad Blynyddol Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad</li> <li>• Adroddiad Blynyddol y Labordy Profi Deunyddiau Llawfeddygol</li> <li>• Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Archwilwyr Meddygol</li> <li>• Adroddiad Blynyddol Dyfeisiau Meddygol</li> <li>• Adroddiad Blynyddol Ystadau</li> <li>• Adroddiad Blynyddol Parhad Busnes a Chynllunio at Argyfyngau</li> <li>• Adroddiad Cofrestru/Ail-ddilysu Proffesiynol</li> <li>• Adroddiad Blynyddol y Strategaeth Pobl</li> <li>• Adolygiad Effeithiolrwydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad</li> <li>• Adroddiad Aur SACT</li> </ul>

Cyfarfod:	Dyddiadau Cyfarfodydd:	Gweithgaredd:
		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau'r Ymddiriedolaeth</li> <li>• Addewid Arweinyddiaeth Dosturiol</li> <li>• Polisiâu a Phrosesau Pobl a Datblygu Sefydliadol</li> <li>• Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru</li> <li>• Adolygu Cylch Gorchwyl y Pwyllgor</li> <li>• Diweddariad y Fforwm Nyrsio Proffesiynol</li> <li>• Adroddiad Blynyddol Rheoliad 28 y GIG</li> <li>• Cynlluniau Gweithredu'r Gweithlu a Datblygu Sefydliadol</li> <li>• Adroddiad Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth</li> <li>• Adroddiad ar Brif Bwyntiau Grŵp Sicrwydd Ystadau'r Ymddiriedolaeth</li> <li>• Diweddariad ar Ymweliadau 15 Cam</li> <li>• Adroddiad Llais Cymru</li> <li>• Dadansoddi Data Lefelau Absenoldeb</li> <li>• Adroddiadau ar Brif Bwyntiau Iechyd a Diogelwch</li> <li>• Cynnal a Chadw Ôl-groniad Adeiladau – CGF</li> <li>• Adroddiad Llywodraethu Blynyddol Addysg Feddygol</li> <li>• Adroddiad Blynyddol Technoleg Iechyd Cymru</li> <li>• Diweddariad ar Wasanaethau Technoleg TraMS / Llwybr Clinigol</li> <li>• Adroddiadau ar Brif Bwyntiau'r Is-bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi</li> <li>• Adroddiad Effeithiolrwydd Blynyddol yr Is-bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi</li> <li>• Adroddiad Blynyddol yr Is-bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi</li> <li>• Adroddiad ar Brif Bwyntiau Diogelwch Tân</li> <li>• Diweddariad Cynaliadwyedd</li> <li>• Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol</li> <li>• Cynllun Gweithredu Arolwg Staff y GIG 2023</li> <li>• Diweddariad ar Weithredu Dyletswydd Ansawdd PCGC</li> <li>• Dadansoddi Data Bwlio</li> <li>• Adroddiad Cau Aur SACT</li> <li>• Diweddariad ar Elfennau Nad Ydynt yn Gysylltiedig â Chyflog</li> <li>• Adroddiadau chwarterol Rhyddid Gwybodaeth / Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol</li> <li>• Adroddiad ar Brif Bwyntiau'r Grŵp Rheoli Meddyginiaethau</li> <li>• Adroddiad ar Brif Bwyntiau'r Grŵp Strategol Diogelu rhag Ymbelydredd a Chysylltiadau Meddygol</li> <li>• Adroddiad Diwylliant a Chynhwysiant</li> <li>• Cynllun Gwella MRHA</li> <li>• Adolygiad Cylch Busnes y Pwyllgor</li> </ul>
<p><b>Pwyllgor Datblygu Strategol</b></p> <p>Mae Agendâu, Cofnodion a Phapurau'r Cyfarfodydd ar gael ar Wefan yr Ymddiriedolaeth <a href="#">yma</a>:</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• 15.05.2024</li> <li>• 18.06.2024</li> <li>• 22.10.2024</li> <li>• 05.12.2024</li> <li>• 20.03.2025</li> </ul> <p>Roedd cworwm ym mhob cyfarfod.</p>	<p>Crynodeb lefel uchel/penawdau o bynciau allweddol a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Datblygu Strategol yn ystod 2024-2025:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nodau Llesiant yr Ymddiriedolaeth</li> <li>• Proses Datblygu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP)</li> <li>• Fframwaith IMTP 2025-2028</li> </ul>

Cyfarfod:	Dyddiadau Cyfarfodydd:	Gweithgaredd:
		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd</li> <li>• Proses Blaenoriaethu Cyfalaf</li> <li>• Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth</li> <li>• Adolygiad Effeithiolrwydd y Pwyllgor</li> <li>• Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor</li> <li>• Adroddiad ar Brif Bwyntiau'r Strategaeth Glinigol a Gwyddonol</li> <li>• Adroddiad ar y Prif Bwyntiau - Academi Oncoleg Felindre</li> <li>• Adroddiad ar y Prif Bwyntiau ar Ddyfodol Gwasanaeth Gwaed Cymru</li> <li>• Adroddiad ar y Prif Bwyntiau - Dyfodol Felindre</li> <li>• Adroddiad ar Brif Bwyntiau'r Rhaglen Ddigidol</li> <li>• Strategaeth Ymchwil, Datblygu ac Arloesi Gwasanaeth Gwaed Cymru</li> <li>• Strategaeth Gynaliadwyedd</li> <li>• Estyniad y Contract ChemoCare</li> <li>• Meysydd Blaenoriaeth Data a Mewnwelediad</li> <li>• Adrodd ar Raglenni Mawr</li> <li>• Diweddariad ar y Rhaglen Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth</li> <li>• Achos Cyfiawnhad Busnes - Adnewyddu Fflyd Gwasanaeth Gwaed Cymru</li> <li>• Cais am Gyllid ar gyfer Achos Busnes Integredig ar gyfer Rhaglen Seilwaith Tonysguboriau</li> <li>• Adroddiad Camau Gweithredu Brys y Cadeirydd</li> <li>• Cylch Gorchwyl y Grŵp Cynllunio Cyfalaf</li> <li>• Adroddiadau ar Brif Bwyntiau'r Is-bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi</li> <li>• Y Diweddaraaf am y Strategaeth Ddigidol</li> <li>• Trefniadau ar gyfer Diffodd y Rhwydwaith Ffôn Cyhoeddus</li> </ul>
<p><b>Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• 06.06.2024</li> <li>• 05.09.2024</li> <li>• 20.11.2024</li> </ul> <p>Roedd cworwm ym mhob cyfarfod.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Diweddariad Blynyddol ar y Strategaeth Pobl ac Addysg</li> <li>• Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol – Diweddariad ar Gynnydd Cynlluniau 2024-25 a'r Cynllun sydd ar Ddod ar gyfer 2025-26</li> <li>• Y Pwyllgor Datblygu Strategol yn Adolygu ein Gweithgareddau</li> </ul> <p>Crynodeb lefel uchel/penawdau o bynciau allweddol a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth yn ystod 2024-2025:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ailwerthuso Bandiau Cyflog Amrywiol</li> <li>• Penodi Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro</li> <li>• Penodiad Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro</li> <li>• Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Trawsnewid Strategol, Cynllunio a Digidol</li> <li>• Penodi Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol</li> <li>• Penodi Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol Dros Dro</li> <li>• Trefniadau Cyflog ar gyfer Staff ar Delerau ac Amodau Meddygol a Deintyddol</li> <li>• Camau gweithredu yn dilyn Taliad Arbennig</li> <li>• Newid Cyflog JESP o fewn PCCG</li> </ul>

Cyfarfod:	Dyddiadau Cyfarfodydd:	Gweithgaredd:
		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Penodi Prif Swyddog Gweithredol</li> <li>• Trefniadau Cyflog ar gyfer Staff ar yr Agenda ar gyfer Newid a Graddfeydd Cyflog Rheolwyr Gweithredol ac Uwch Reolwyr</li> </ul>
<p><b>Is-bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi</b></p> <p>Mae Agendâu, Cofnodion a Phapurau'r Cyfarfodydd ar gael ar Wefan yr Ymddiriedolaeth <a href="#">yma</a>:</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• 14.05.2024</li> <li>• 17.09.2024</li> <li>• 10.12.2024</li> <li>• 12.03.2025</li> </ul> <p>Roedd cworwm ym mhob cyfarfod.</p>	<p>Crynodeb lefel uchel/penawdau o bynciau allweddol a dderbyniwyd gan yr Is-bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi yn ystod 2024-2025:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Briff y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol</li> <li>• Detholiad o Gofrestr Risg y Pwyllgor a Chrynodeb o Broffil Risg Ymchwil, Datblygu ac Arloesi</li> <li>• Rhaglen Llwybr Gyrfaoedd Cyfadran ac Ymchwil H&amp;CRW</li> <li>• Diweddariad ar Strategaeth Ymchwil, Datblygu ac Arloesi Gwasanaeth Gwaed Cymru</li> <li>• Adroddiad Perfformiad Blynyddol Ymchwil, Datblygu ac Arloesi'r Ymddiriedolaeth 2023-24</li> <li>• Adolygu Cylch Busnes y Pwyllgor</li> <li>• Adolygu Cylch Gorchwyl y Pwyllgor</li> <li>• Adroddiad Blynyddol ac Adolygiad Effeithiolrwydd y Pwyllgor</li> <li>• Adroddiad ar y Prif Bwyntiau/Cau'r Gronfa Hyrwyddo Radiotherapi</li> <li>• Rhaglen Brechlyn Cancer BioNTech</li> <li>• Adroddiad Perfformiad Chwarterol Ymchwil, Datblygu ac Arloesi</li> <li>• Datblygiadau o fewn y Labordy Datblygu ac Ymchwil Cydrannau</li> <li>• Diweddariad ar Uchelgeisiau Canolfan Ymchwil Cancer Caerdydd</li> </ul>
<p><b>Is-bwyllgor Craffu ar y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser Is-bwyllgor</b></p> <p>Mae Agendâu, Cofnodion a Phapurau'r Cyfarfodydd ar gael ar Wefan yr Ymddiriedolaeth <a href="#">yma</a>:</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• 18.04.2024</li> <li>• 16.05.2024</li> <li>• 20.06.2024</li> <li>• 23.07.2024</li> <li>• 25.09.2024</li> <li>• 17.10.2024</li> <li>• 21.11.2024</li> <li>• 19.12.2024</li> <li>• 23.01.2025</li> <li>• 20.02.2025</li> <li>• 20.03.2025</li> </ul> <p>Roedd cworwm ym mhob cyfarfod.</p>	<p>Crynodeb lefel uchel/penawdau o bynciau allweddol a dderbyniwyd gan yr Is-bwyllgor Craffu ar y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser yn ystod 2024-2025:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Adroddiad Cyllid y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser</li> <li>• Diweddariad Cyfathrebu ac Ymgysylltu</li> <li>• Symud ar ôl Cau Ariannol</li> <li>• Adroddiad y Cyfarwyddwyr Rhaglenni – Llunio'r Camau Nesaf</li> <li>• Siâp y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser yn y Dyfodol</li> <li>• Adroddiad Effeithiolrwydd y Pwyllgor</li> <li>• Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor</li> <li>• Prosiect Canolfan Loeren Radiotherapi: Diweddariad ar Gynllun a Chynnydd</li> <li>• Cylch Gorchwyl Bwrdd Prosiect Canolfan Ganser Felindre newydd (CGFn)</li> <li>• Adroddiad Cyfarwyddwyr y Prosiect ac Adroddiad Cyddibyniaethau</li> <li>• Adroddiad ar Brif Bwyntiau Prosiect CGFn</li> <li>• Adroddiad Cyllid Gwaith Galluogi</li> <li>• Adroddiad Cyllid CGFn</li> <li>• Diweddariad ar Allgymorth</li> </ul>

## Atodiad 5 i Ran 2A

### Presenoldeb Aelodau'r Bwrdd Cyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth, Pwyllgorau, Grŵp Ymgynghorol a Fforymau 2024-2025

Enw:	Swydd A Maes Cynrychiolaeth	Aelodaeth Y Bwrdd, Pwyllgorau, Grŵp Ymgynghorol a Fforymau a Chofnod o Bresenoldeb	Rôl Hyrwyddwr	Meysydd Arbenigedd
<b>Yr Athro Donna Mead, OBE</b>	Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bwrdd yr Ymddiriedolaeth <b>(Cadeirydd) 4/6</b></li> <li>Pwyllgor Cronfeydd Elusennol <b>(Cadeirydd) 4/4</b></li> <li>Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth <b>(Cadeirydd) 3/3</b></li> <li>Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad <b>5/7</b></li> <li>Pwyllgor Datblygu Strategol <b>5/5</b></li> <li>Is-Bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi <b>2/4</b></li> <li>Is-bwyllgor Craffu'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser <b>10/11</b></li> </ul>	Hyrwyddwr yr Ymddiriedolaeth dros y Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr, Ymddiriedolaeth y Brifysgol	Addysg Uwch, Ymchwil, y GIG ac Addysg, Partneriaethau a Chydweithio.
<b>Stephen Harries</b>	Is-gadeirydd	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bwrdd yr Ymddiriedolaeth <b>6/6</b></li> <li>Pwyllgor Datblygu Strategol <b>5/5 (Cadeirydd)</b> tan fis Hydref 2024)</li> <li>Is-bwyllgor Craffu'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser (Cadeirydd tan fis Chwefror 2025) <b>10/11</b></li> <li>Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad <b>5/7</b></li> <li>Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth <b>3/3</b></li> </ul>	Digidol a Lles Staff	Llywodraethu Gwybodaeth, Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg.
<b>Gareth Jones</b>	Aelod Annibynnol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bwrdd yr Ymddiriedolaeth <b>6/6</b></li> <li>Pwyllgor Datblygu Strategol <b>5/5</b></li> <li>Pwyllgor Archwilio <b>(Cadeirydd) 4/4</b></li> </ul>	Gwybodaeth i Gleifion a'r Iaith Gymraeg.	Cyfreithiol

Enw:	Swydd A Maes Cynrychiolaeth	Aelodaeth Y Bwrdd, Pwyllgorau, Grŵp Ymgynghorol a Fforymau a Chofnod o Bresenoldeb	Rôl Hyrwyddwr	Meysydd Arbenigedd
		<ul style="list-style-type: none"> <li>Pwyllgor Archwilio Cydwasanaethau Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre <b>(Cadeirydd) 4/4</b></li> <li>Is-bwyllgor Craffu'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser <b>9/11</b></li> <li>Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth <b>3/3</b></li> </ul>		
<b>Hilary Jones</b>	Aelod Annibynnol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bwrdd yr Ymddiriedolaeth <b>5/6</b></li> <li>Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad <b>5/7</b></li> <li>Pwyllgor Cronfeydd Elusennol <b>4/4</b></li> <li>Is-bwyllgor Adolygu Perfformiad Buddsoddiadau'r Cronfeydd Elusennol <b>(Cadeirydd) 2/2</b></li> <li>Is-bwyllgor Craffu'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser <b>10/11</b> (Cadeirydd o fis Mawrth 2025)</li> </ul>	Ymgysylltu â Chleifion a Phrofiad y Claf, Datblygu Cynaliadwy a Dylunio	Ystadau a Chynllunio
<b>Vicky Morris</b>	Aelod Annibynnol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bwrdd yr Ymddiriedolaeth <b>5/6</b></li> <li>Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad <b>(Cadeirydd) 7/7</b></li> <li>Pwyllgor Archwilio <b>3/4</b></li> <li>Pwyllgor Archwilio Cydwasanaethau Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre <b>4/4</b></li> <li>Is-Bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi <b>4/4</b></li> </ul>	Atal Heintiau, Gwendid a Thrais ac Ymddygiad Ymosodol	Ansawdd a Diogelwch
<b>Yr Athro Andrew Westwell</b>	Aelod Annibynnol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bwrdd yr Ymddiriedolaeth <b>6/6</b></li> <li>Is-bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi <b>(Cadeirydd) 4/4</b></li> <li>Pwyllgor Datblygu Strategol <b>5/5</b></li> </ul>	Ymchwil, Datblygu ac Arloesi.	Cynrychiolydd y Brifysgol

Enw:	Swydd A Maes Cynrychiolaeth	Aelodaeth Y Bwrdd, Pwyllgorau, Grŵp Ymgynghorol a Fforymau a Chofnod o Bresenoldeb	Rôl Hyrwyddwr	Meysydd Arbenigedd
<b>Lindsay Foyster</b>	Aelod Annibynnol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bwrdd yr Ymddiriedolaeth <b>6/6</b></li> <li>Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad <b>6/7</b></li> <li>Pwyllgor Datblygu Strategol <b>2/5</b> (Cadeirydd o fis Rhagfyr 2024)</li> <li>Pwyllgor Cronfeydd Elusennol <b>3/4</b></li> </ul>		Amrywiaeth a Chynhwysiant
<b>Steve Ham</b>	Prif Weithredwr (tan 30 Mehefin 2024)	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bwrdd yr Ymddiriedolaeth <b>1/1</b></li> <li>Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad <b>1/1</b></li> <li>Pwyllgor Datblygu Strategol <b>0/2</b></li> <li>Pwyllgor Cronfeydd Elusennol <b>1/1</b></li> <li>Is-bwyllgor Adolygu Perfformiad Buddsoddiadau'r Cronfeydd Elusennol <b>0/1</b></li> <li>Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth <b>1/1</b></li> <li>Is-Bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi <b>1/1</b></li> <li>Is-bwyllgor Craffu'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser <b>3/3</b></li> <li>Fforwm Partneriaeth Lleol <b>1/3</b></li> </ul>		Prif Weithredwr Swyddog Atebol
<b>David Donegan</b>	Prif Weithredwr (o 1 Rhagfyr 2024)	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bwrdd yr Ymddiriedolaeth <b>2/2</b></li> <li>Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad <b>0/2</b></li> <li>Pwyllgor Datblygu Strategol <b>0/2</b></li> <li>Pwyllgor Cronfeydd Elusennol <b>0/2</b></li> <li>Is-bwyllgor Adolygu Perfformiad Buddsoddiadau'r Cronfeydd Elusennol <b>0/1</b></li> <li>Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth <b>0/0</b></li> <li>Is-Bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi <b>0/2</b></li> <li>Is-bwyllgor Craffu'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser <b>0/4</b></li> <li>Pwyllgor Archwilio <b>0/2</b></li> <li>Fforwm Partneriaeth Lleol <b>0/1</b></li> </ul>		Prif Weithredwr Swyddog Atebol
<b>Carl James</b>	Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro (1 Gorffennaf 2024 i 30 Tachwedd 2024)	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bwrdd yr Ymddiriedolaeth <b>6/6</b></li> <li>Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad <b>4/7</b></li> <li>Pwyllgor Datblygu Strategol <b>4/5</b></li> <li>Is-bwyllgor Craffu'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser <b>10/11</b></li> <li>Pwyllgor Archwilio (Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro) <b>1/2</b></li> <li>Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth (Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro) <b>1/3</b></li> <li>Fforwm Partneriaeth Lleol <b>0/2</b> (Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro)</li> </ul>		Trawsnewid Strategol, Cynllunio, Digidol ac Ystadau.

Enw:	Swydd A Maes Cynrychiolaeth	Aelodaeth Y Bwrdd, Pwyllgorau, Grŵp Ymgynghorol a Fforymau a Chofnod o Bresenoldeb	Rôl Hyrwyddwr	Meysydd Arbenigedd
<b>Lauren Fear</b>	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Trawsnewid Strategol, Cynllunio a Digidol (1 Gorffennaf 2024 – 30 Tachwedd 2024) Cyfarwyddwr Trawsnewid (Dros Dro) (1 Rhagfyr 2024)	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bwrdd yr Ymddiriedolaeth <b>3/3</b></li> <li>Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad <b>4/4</b></li> <li>Pwyllgor Datblygu Strategol <b>2/3</b></li> <li>Is-bwyllgor Craffu'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser <b>8/8</b></li> </ul>		Trawsnewid Strategol, Cynllunio, Digidol ac Ystadau.
<b>Jacinta Abraham</b>	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bwrdd yr Ymddiriedolaeth <b>5/6</b></li> <li>Is-bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi <b>3/4</b></li> <li>Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad <b>5/7</b></li> <li>Is-bwyllgor Craffu'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser <b>5/11</b></li> <li>Pwyllgor Datblygu Strategol <b>2/5</b></li> <li>Pwyllgor Cronfeydd Elusennol <b>1/4</b></li> <li>Pwyllgor Archwilio <b>1/4</b></li> </ul>		Cyfarwyddwr Meddygol ac Ymchwil
<b>Matthew Bunce</b>	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bwrdd yr Ymddiriedolaeth <b>5/6</b></li> <li>Pwyllgor Archwilio <b>4/4</b></li> <li>Pwyllgor Archwilio Cydwasanaethau Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre <b>4/4</b></li> <li>Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad <b>6/7</b></li> <li>Pwyllgor Datblygu Strategol <b>4/5</b></li> <li>Pwyllgor Cronfeydd Elusennol <b>4/4</b></li> <li>Is-bwyllgor Craffu'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser <b>7/11</b></li> <li>Is-bwyllgor Adolygu Perfformiad Buddsoddiadau'r Cronfeydd Elusennol <b>2/2</b></li> <li>Is-Bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi <b>4/4</b></li> <li>Fforwm Partneriaeth Lleol <b>1/3</b></li> <li>Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth <b>3/3</b></li> </ul>		Cyllid, Llywodraethu Gwybodaeth, Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth a Chronfeydd Elusennol
<b>Sarah Morley</b>	Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bwrdd yr Ymddiriedolaeth <b>4/6</b></li> <li>Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad <b>7/7</b></li> <li>Pwyllgor Datblygu Strategol <b>1/5</b></li> <li>Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth <b>4/4</b></li> <li>Is-bwyllgor Craffu'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser <b>4/11</b></li> <li>Fforwm Partneriaeth Lleol (Cadeirydd) <b>3/3</b></li> </ul>		Datblygu Sefydliadol a'r Gweithlu
<b>Nicola Williams</b>	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Proffesiynau Perthynol i Iechyd a Gwyddonwyr Gofal Iechyd	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bwrdd yr Ymddiriedolaeth <b>5/6</b></li> <li>Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad <b>6/7</b></li> <li>Pwyllgor Datblygu Strategol <b>4/5</b></li> <li>Is-bwyllgor Craffu'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser <b>10/11</b></li> <li>Is-bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi <b>3/4</b></li> <li>Pwyllgor Cronfeydd Elusennol <b>2/4</b></li> <li>Fforwm Partneriaeth Lleol <b>1/3</b></li> </ul>		Ansawdd a Diogelwch, Diogelu, Atal a Rheoli Heintiau, arweinydd proffesiynol ar gyfer nyrsio, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddonwyr Gofal Iechyd.

## Atodiad 6 i Ran 2A

### Cyfarwyddiadau Gweinidogol a Chylchlythyrau Iechyd Cymru

#### Cyfarwyddiadau Gweinidogol

Cyfarwyddiadau Gweinidogol	Dyddiad/Blwyddyn Mabwysiadu	Arweinydd/ion Gweithredol:	Statws
WG 24-42 Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 Deddf Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Clinigol) (Cymru) (Diwygio) 2024	1 Hydref 2024	Prif Swyddog Gweithredu	Mae'r Cyfarwyddyd Gweinidogol hwn wedi'i ddeddfu.
WG24-39 Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 Y Cyfarwyddiadau i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru ar y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth 2024	1 Medi 2024	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	Mae'r Cyfarwyddyd Gweinidogol hwn wedi'i ddeddfu.
WG24-17 Cyfarwyddiadau i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru 2003 a Chyfarwyddiadau Cyflwyno Meddyginiaethau Newydd dan Reolaeth i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru 2009 (Diwygio) (Cymru) 2024	1 Mai 2024	Prif Swyddog Gweithredu	Mae'r Cyfarwyddyd Gweinidogol hwn wedi'i ddeddfu.
WG25-12 Cyfarwyddiadau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2025	1 Ebrill 2025	Prif Swyddog Gweithredu	Mae'r Cyfarwyddyd Gweinidogol hwn i'w ddeddfu.
WHC/2025/005: Diwrnod Arweinyddiaeth ac Addasu Argyfwng Hinsawdd	12 Mawrth 2025	Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid Strategol, Cynllunio a Digidol	Mae'r Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn wedi'i ddeddfu

## Cylchlythyrau Iechyd Cymru

Cyfarwyddiadau Gweinidogol	Dyddiad/Blwyddyn Mabwysiadu	Arweinydd/ion Gweithredol:	Statws
<b>WHC/2025/001:</b> Cynhadledd a Gwobrau Cynaliadwyedd GIG Cymru 2025	6 Mawrth 2025	Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid Strategol, Cynllunio a Digidol	Mae'r Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn wedi'i ddeddfu
<b>WHC/2025/002:</b> Amserlenni a Chyfrifoldebau ar gyfer Sgorau Rhybudd Cynnar (EWS)	4 Mawrth 2025	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Proffesiynau Perthynol i Iechyd a Gwyddonwyr Iechyd / Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol	Mae'r Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn wedi'i ddeddfu
<b>WHC/2024/022:</b> Dyledion Dadleuol rhwng Sefydliadau'r GIG	3 Chwefror 2025	Prif Weithredwr / Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	Mae'r Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn wedi'i ddeddfu
<b>WHC/2024/051:</b> Dyraniadau Byrddau Iechyd: 2025 i 2026	27 Ionawr 2025	Prif Weithredwr / Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	Mae'r Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn wedi'i ddeddfu
<b>WHC/2024/021:</b> Fframwaith Integreiddio ar gyfer Nyrsys a Addysgwyd yn Rhyngwladol	25 Tachwedd 2024	Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Sefydliadol a'r Gweithlu	Mae'r Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn wedi'i ddeddfu
<b>WHC/2024/044:</b> Modiwl e-Ddysgu Gwrth-hiliaeth	5 Tachwedd 2024	Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Sefydliadol a'r Gweithlu	Mae'r Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn wedi'i ddeddfu
<b>WHC/2024/040:</b> Mabwysiadu Dull Uwchgyfeirio a Gychwynnir gan y Claf a'r Teulu	3 Hydref 2024	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Proffesiynau Perthynol i Iechyd a Gwyddonwyr Iechyd / Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol	Mae'r Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn wedi'i ddeddfu
<b>WHC/2024/039:</b> Cymryd Samplau Cyn-trallwyso Cydymffurfio â'r Rheol Samplau Cadarnhau	3 Hydref 2024	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Proffesiynau Perthynol i Iechyd a Gwyddonwyr Iechyd / Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol	Mae'r Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn wedi'i ddeddfu
<b>WHC/2024/038:</b> Nodau Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd ac Ymwrthedd Gwrthficrobaidd 2024 i 2025	20 Medi 2024	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Proffesiynau Perthynol i Iechyd a Gwyddonwyr Iechyd / Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol	Mae'r Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn wedi'i ddeddfu
<b>WHC/2024/037:</b> Fframwaith Anadlol y Gaeaf 2024 i 2025	20 Medi 2024	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Proffesiynau Perthynol i Iechyd a Gwyddonwyr Iechyd / Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol	Mae'r Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn wedi'i ddeddfu

Cyfarwyddiadau Gweinidogol	Dyddiad/Blwyddyn Mabwysiadu	Arweinydd/ion Gweithredol:	Statws
<b>WHC/2024/035:</b> <b>Safoni Rheoli Dirywiad Acíwt</b>	17 Medi 2024	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Proffesiynau Perthynol i Iechyd a Gwyddonwyr Iechyd / Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol	Mae'r Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn wedi'i ddeddfu
<b>WHC/2024/033:</b> <b>Rhaglen Frechu Anadlol y Gaeaf 2024 i 2025</b>	12 Medi 2024	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Proffesiynau Perthynol i Iechyd a Gwyddonwyr Iechyd	Mae'r Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn wedi'i ddeddfu
<b>WHC/2024/036:</b> <b>Silindrau Ocsigen: Adroddiad Rheoliad 28 a Hysbysiad Diogelwch Cleifion 041 Nodyn Atgoffa</b>	30 Awst 2024	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Proffesiynau Perthynol i Iechyd a Gwyddonwyr Iechyd / Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol	Mae'r Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn wedi'i ddeddfu
<b>WHC/2024/0234:</b> <b>Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth</b>	28 Awst 2024	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	Mae'r Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn wedi'i ddeddfu
<b>WHC/2024/013:</b> <b>Llywodraethiant ar Benodiadau Dros Dro i Swyddi Gweithredol ac Uwch</b>	22 Awst 2024	Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Sefydliadol a'r Gweithlu	Mae'r Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn wedi'i ddeddfu
<b>WHC/2024/031:</b> <b>Rhaglen Lleihau Gweithlu Asiantaeth a Fframwaith Rheoli 2024 i 2025</b>	17 Mehefin 2024	Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Sefydliadol a'r Gweithlu	Mae'r Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn wedi'i ddeddfu
<b>WHC/2024/028:</b> <b>Rhaglen Genedlaethol Imiwneiddio rhag Fflw 2024 i 2024.</b>	12 Mehefin 2024	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Proffesiynau Perthynol i Iechyd a Gwyddonwyr Iechyd	Mae'r Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn wedi'i ddeddfu
<b>WHC/2024/026:</b> <b>Canllawiau Monitro Ariannol GIG Cymru 2024 i 2025</b>	11 Mehefin 2024	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	Mae'r Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn wedi'i ddeddfu
<b>WHC/025/24:</b> <b>Cynllun Archwiliadau Clinigol Cenedlaethol ac Adolygu Canlyniadau GIG Cymru 2024 i 2025</b>	4 Mehefin 2024	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol	Mae'r Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn wedi'i ddeddfu
<b>WHC/2024/024:</b> <b>Dogfen Ymatebion Gorfodol Grŵp Cydweithredol dros Atal Trais</b>	17 Mai 2024	Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Sefydliadol a'r Gweithlu	Mae'r Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn wedi'i ddeddfu

Cyfarwyddiadau Gweinidogol	Dyddiad/Blwyddyn Mabwysiadu	Arweinydd/ion Gweithredol:	Statws
<b>WHC/2024/020:</b> <b>Cronfa Triniaethau Newydd: Cyfarwyddiadau ar yr Eithriadau ar gyfer Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau</b>	29 Ebrill 2024	Prif Swyddog Gweithredu	Mae'r Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn wedi'i ddeddfu
<b>WHC/2024/019:</b> <b>Newidiadau i Reolau Sefydlog mewn Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau ar ôl Dechrau Cydbwyllgor Comisiynu GIG Cymru a diwedd Dau Bwyllgor Iechyd</b>	23 Ebrill 2024	Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol a Phennaeth Staff	Mae'r Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn wedi'i ddeddfu
<b>WHC/2024/014:</b> <b>Cyflwyno Codau Daearyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol i'w Defnyddio fel Mater o Drefn yn GIG Cymru</b>	7 Mai 2024	Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid Strategol, Cynllunio a Digidol	Mae'r Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn wedi'i ddeddfu
<b>WHC/2024/017:</b> <b>Gweithredu'r Elfennau o Gytundeb ar y Cyd 2022 i 2024 Nad Ydynt yn Ymwneud â Chyflog</b>	5 Ebrill 2024	Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Sefydliadol a'r Gweithlu	Mae'r Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn wedi'i ddeddfu
<b>WHC/2024/007:</b> <b>Canllawiau ar gyfer Rheoli Cleifion ar y Llwybr Lle'r Amheuir Canser</b>	10 Ebrill 2024	Prif Swyddog Gweithredu / Prif Swyddog Digidol	Mae'r Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn wedi'i ddeddfu

# Adroddiad Atebolrwydd Ariannol

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i weithredu mewn amgylchedd ariannol heriol, fel pob sefydliad yn GIG Cymru. Yn ystod 2024/2025, parhaodd yr Ymddiriedolaeth i ddiwallu'r galw cynyddol am ei gwasanaethau ar yr un pryd â delio â heriau ariannol sylweddol oherwydd nifer o ddatblygiadau strategol mawr fel rhan o raglen drawsnewid yr Ymddiriedolaeth. Yn ogystal, roedd pwysau sylweddol eraill o ran costau a gwasanaeth yn ogystal â chost gweithredu capasiti ychwanegol i ymdopi â'r galw cynyddol. Er gwaethaf yr heriau hyn, llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i gyflawni'r tri tharged ariannol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2024/2025 a gweithredu lefelau gwell o effeithlonrwydd a chynhyrchiant ochr yn ochr â chyflawni targedau cenedlaethol a/neu safonau perfformiad proffesiynol yn barhaus.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ymrwymo i ddarparu gofal diogel o safon uchel gyda'r canlyniadau gorau posibl i'w chleifion, gan ymdrechu i gyflawni hyn trwy wasanaethau effeithlon ac effeithiol. Felly, bydd chwilio am gyfleoedd i wneud arbedion effeithlonrwydd a nodi gostyngiadau rheolaidd mewn costau wrth gynnal neu wella yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Ymddiriedolaeth.

## Targedau Ariannol

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi bodloni pob un o'i thri tharged ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025:

**Dyletswydd Adennill Costau:** Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth warged refeniw o £0.057m yn 2024/2025 (2023/2024: gwarged o £0.042m; gwarged o £0.076m yn 2022/2023), gan arwain at warged o £0.175m dros gyfnod o dair blynedd. Felly mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflawni ei dyletswydd ariannol statudol i sicrhau ei bod yn adennill costau dros gyfnod treigl o dair blynedd.

## Dyletswydd i baratoi Cynllun Integredig tair

**blynedd:** Cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer y cyfnod 2024-2027 yn unol â Fframwaith Cynllunio GIG Cymru a gymeradwywyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 9 Awst 2024. Felly mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflawni ei dyletswydd statudol i gael cynllun ariannol cymeradwy.

## Taliadau Credydwy:

Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth dalu 95% o nifer y biliau nad ydynt yn ymwneud â'r GIG o fewn 30 diwrnod o dderbyn nwyddau neu anfoneb ddilys (pa un bynnag a ddaw olaf). Cyrhaeddodd yr Ymddiriedolaeth y targed hwn, gan dalu 97.9% (2023/2024: 96.8%) o fewn yr amser gofynnol.

## Fel rheol, byddai gan yr Ymddiriedolaeth bedwar

**targed ariannol i'w cyflawni:** Terfyn Adnoddau Allanol (EFL) fyddai'r pedwerydd targed. Mae Llywodraeth Cymru wedi atal y targed hwn dros dro.

## Rhwymedigaethau Digwyddiadol Materol Pell

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal Cronfa Risg Cymru fel rhan o Gydwasanaethau. Mae ffurflenni Cronfa Risg Cymru gan Sefydliadau Iechyd Cymru yn amcangyfrif bod gan yr Ymddiriedolaeth rwymedigaethau amodol pell o £43m (2023/2024: £84m) yn 2024/2025 sy'n ymwneud â hawliadau cyfreithiol posibl yn erbyn GIG Cymru a allai godi yn y dyfodol oherwydd digwyddiadau hysbys. Oherwydd natur ac ansicrwydd yr hawliadau hyn, nid oes unrhyw ddarpariaeth wedi cael ei gwneud ar eu cyfer yn y cyfrifon.

## Tueddiadau Gwariant Hirdymor

	2020/2021 £000	2021/2022 £000	2022/2020 £000	2023/2024 £000	2024/2025 £000
<b>Cyfanswm Refeniw</b>	<b>848,405</b>	<b>1,044,074</b>	<b>961,179</b>	<b>1,075,091</b>	<b>1,153,627</b>
Cyflogau	242,072	294,020	404,977	437,084	534,562
Gwariant nad yw'n gysylltiedig â chyflogau	587,320	738,544	551,840	636,051	599,186
Dibrisiant	17,554	10,222	11,860	13,494	25,592
<b>Cyfanswm Gwariant</b>	<b>846,946</b>	<b>1,042,786</b>	<b>968,677</b>	<b>1,086,629</b>	<b>1,159,340</b>
Refeniw a chostau anweithredol	(207)	(953)	10,324	13,891	5,770
Cyfanswm y gwarged/(diffyg) cyfunol	1,222	(203)	76	259	57

Mae'r tabl uchod yn cynnwys incwm a gwariant cronfa elusennol yr Ymddiriedolaeth ac asedau sydd wedi cael eu rhoi i'r Ymddiriedolaeth hyd at ac yn cynnwys 2023/2024. O 2024/2025 ymlaen, mae'r Ymddiriedolaeth, gyda chytundeb Llywodraeth

Cymru, wedi mabwysiadu'r eithriad IFRS10 i gydgrynhoi'r Cyfrifon Elusennol. Mae gwarged / (diffyg) blynyddol yr Ymddiriedolaeth, ac eithrio'r gronfa elusennol a'r asedau a roddwyd, yn cael ei ddangos gyferbyn:

	2020/2021 £000	2021/2022 £000	2022/2020 £000	2023/2024 £000	2024/2025 £000
<b>Gwarged/(diffyg) ac eithrio cronfeydd elusennol ac asedau a roddwyd</b>	<b>38</b>	<b>41</b>	<b>76</b>	<b>42</b>	<b>57</b>

### Nodiadau

- Yn ystod 2020/2021, sefydlwyd gwasanaeth Cymru Gyfan newydd o fewn yr Ymddiriedolaeth (Cydwasaethau – y Bartneriaeth Banc Cydweithredol; a dechreuodd dau wasanaeth presennol ehangu – y Cynllun Un Cyflogwr Arweiniol a'r Cynllun Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol i gynnwys y derbyn graddol cyntaf i'r Cynllun Atebolrwydd Presennol.
- Yn 2021/2022, trosglwyddwyd Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (GGGC) o'r Ymddiriedolaeth ar 1 Ebrill 2021 i'r Awdurdod Iechyd Arbennig newydd, Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC). Parhaodd yr Ymddiriedolaeth (Cydwasaethau) i ehangu'r Cynllun Un Cyflogwr Arweiniol a sefydlodd wasanaeth newydd – Gwasanaeth Golchdy Cymru Gyfan.
- Yn ystod 2022/2023, cwblhaodd yr Ymddiriedolaeth (Cydwasaethau) broses gyflwyno fesul cam o'r holl hyfforddeion meddygol craidd ac arbenigol yn GIG Cymru trwy'r Cynllun Un Cyflogwr Arweiniol.

- Mae'r duedd cynnydd pum mlynedd mewn costau cyflog a adroddwyd yn yr adroddiad atebolrwydd yn ymwneud yn bennaf â'r cynnydd mewn staff Un Cyflogwr Arweiniol flwyddyn ar ôl blwyddyn. Caiff y rhain eu gwrthbwyso gan incwm a dderbynnir gan fyrdau iechyd. Mae'r cynnydd mewn costau o 2020/2021 i 2024/2025 yn £292m gyda thua £259m yn ymwneud â'r cynnydd Un Cyflogwr Arweiniol.
- Yn ystod 2024/2025, mae'r dibrisiant a godwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys dibrisiant cyflymach o £10.6m sy'n gysylltiedig â'r gostyngiad yng ngwerth Canolfan Ganser bresennol Felindre o ganlyniad i ddechrau adeiladu Canolfan Ganser newydd Felindre.
- Gwelodd 2024/2025 ostyngiad mewn costau cyllid (costau nad ydynt yn gostau gweithredu) o ganlyniad i ddad-ddirwyn y disgownt ar ddarpariaethau Cronfa Risg Cymru. Roedd y gwerthoedd dad-ddirwyn yn is, yn bennaf oherwydd y symudiad yng nghyfradd disgownt yr Offeryn Ariannol, o gymharu â 2023/2024.

# Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015

## Datganiad Tryloywder Mewn Cadwyni Cyflenwi 2023/2024

Gwnaed y datganiad hwn i gydymffurfio ag Adran 54 Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 a Chod Ymddygiad Llywodraeth Cymru: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi. Mae'r Datganiad hwn yn amlinellu'r camau y mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre wedi'u cymryd ac y mae'n parhau i'w cymryd, er mwyn sicrhau nad yw caethwasiaeth fodern a/neu fasnachu pobl yn digwydd yn yr Ymddiriedolaeth nac yn ei chadwyni cyflenwi yn ystod y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2024.

Mae caethwasiaeth fodern yn cynnwys caethwasiaeth, caethiwed, masnachu pobl a llafur gorfodol. Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn goddef unrhyw ffurf ar gaethwasiaeth fodern (caethwasiaeth, caethiwed, masnachu pobl a llafur gorfodol). Rydym wedi ymrwymo i weithredu'n foesegol a chydag uniondeb a thryloywder ym mhob gweithgaredd busnes, yn ogystal â sefydlu systemau a rheolaethau effeithiol i ddiogelu yn erbyn unrhyw ffurf ar gaethwasiaeth fodern sy'n digwydd yng nghadwyni cyflenwi'r Ymddiriedolaeth.

Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi ymrwymo'n gyfan gwbl i gydymffurfio â'i rhwymedigaethau cyfreithiol. Wrth wneud hynny, mae wedi ymrwymo, fel cyflogwr y GIG, i gael gwared ar gaethwasiaeth fodern a masnachu pobl, a hynny trwy ddileu arferion cyflogaeth anghyfreithlon ac anfoesol a thrwy gefnogi'r rhai yr effeithiwyd arnynt.

Ni fydd yr Ymddiriedolaeth yn ymgymryd ag unrhyw arferion cyflogaeth sy'n:

- Cefnogi caethwasiaeth fodern a sathru ar hawliau dynol.
- Cefnogi neu annog gweithredu cosbrestrau / rhestrau gwaharddedig;
- Hwyluso hunangyflogaeth ffug;
- Caniatáu'r defnydd o gynlluniau mantell ffug;
- Rhoi contractau dim oriau i weithwyr; a
- Hwyluso talu cyflogau sy'n is na'r Cyflog Byw Cenedlaethol.

### Polisiau a Mentrau Presennol

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwbl ymwybodol o'i chyfrifoldebau at gleifion, rhoddwyr, defnyddwyr gwasanaeth, gweithwyr a'r gymuned leol, ac mae'n disgwyl i'r holl weithwyr a chyflenwyr weithredu'n foesegol a chydag uniondeb, a hynny ym mhob perthynas fusnes.

Cymerwyd y camau canlynol gan yr Ymddiriedolaeth er mwyn sicrhau nad oes unrhyw achosion o gaethwasiaeth fodern neu fasnachu pobl yn ein cadwyni cyflenwi nac yn unrhyw ran o'n busnes:

### Pobl (Ymddiriedolaeth Graidd)

- Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydymffurfio'n llwyr â chwe gofyniad y GIG mewn perthynas â gwiriadau cyn cyflogaeth, er mwyn gwirio bod ymgeiswyr yn bodloni rhag-amodau'r swydd maent yn ymgeisio amdani. Mae hyn yn cynnwys gwiriad ynghylch yr hawl i weithio yn y DU.
- Mae gan yr Ymddiriedolaeth bolisi a phrosesau IR35 cadarn ar waith, sy'n sicrhau nad oes unrhyw ddefnydd annheg o weithwyr neu weithwyr hunangyflogedig ffug o dan gynlluniau mantell. Mae'r broses hon yn sicrhau yr ymgysylltir â gweithwyr mewn modd teg a phriodol, ac mae'n atal unigolion rhag osgoi talu treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol.
- Mae gan yr Ymddiriedolaeth Delerau Cyflogi cadarn sy'n cefnogi unigolion a ddefnyddir i gefnogi'r Ymddiriedolaeth dros dro trwy'r banc staff, ac mae adnoddau lleol ar gyfer y banc staff yn dilyn yr un egwyddorion â gofynion gwirio cyn cyflogaeth y GIG. Mae'r Ymddiriedolaeth yn talu ei gweithwyr sydd ar y cyflog isaf ar Fand Cyflog 2 (band cyflog isaf GIG Cymru). Mae'r cyflog hwn yn cydymffurfio â'r Cyflog Byw Cenedlaethol, ac fel rhan o broses Gaffael GIG Cymru mae'n ofynnol i gyflenwyr trydydd parti sicrhau bod yr isafswm cyflog cenedlaethol yn cael ei dalu.
- Mae gan yr Ymddiriedolaeth bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ac ystod o brosesau a gweithdrefnau sy'n sicrhau nad yw unrhyw ymgeisydd, cyflogai neu weithiwr posibl sy'n ymwneud â'r Ymddiriedolaeth o dan anfantais afresymol mewn unrhyw ffordd o ran tâl, hawliau cyflogaeth, cyflogaeth, hyfforddiant a datblygiad a chyfleoedd gyrfa;
- Mae gan yr Ymddiriedolaeth ystod o bolisiau ar waith ar gyfer y gweithlu e.e. Polisi Parch a Datrys, Polisi Cwynion, Gweithdrefn Urddas yn y Gwaith, Trais, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn y Gweithle; ac ati. Mae ein polisiau yn galluogi ein cyflogeion i leisio eu pryderon am arferion gwaith gwael;





- Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydymffurfio'n llwyr â'r Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) gan sicrhau bod cyflogeion yn yr Ymddiriedolaeth y gallai fod angen arnynt drosglwyddo i sefydliad newydd, yn cadw eu Telerau ac Amodau Gwasanaeth; ac
- Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio cosbrest / rhestr waharddedig;

### Hyfforddiant

Mynychodd uwch gydweithwyr yn y tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol hyfforddiant Llywodraeth Cymru ar gaethwasiaeth fodern ym maes recriwtio, fel rhan o gynhadledd gweithredu Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus 2023 ym mis Mehefin 2024.

Darperir cyngor a hyfforddiant ar gaethwasiaeth fodern a masnachu pobl i gyflogeion trwy ein rhaglenni hyfforddiant gorfodol ar ddiogelu plant ac oedolion, ein polisiau a gweithdrefnau diogelu a'n harweinydd diogelu. Mae'r Ymddiriedolaeth yn archwilio ffyrdd newydd o gynyddu ymwybyddiaeth yn barhaus yn ein sefydliad, ac o sicrhau lefel uchel o ddealltwriaeth o'r risgiau sydd ynghlwm wrth gaethwasiaeth fodern a masnachu pobl, a hynny yn ein cadwyni cyflenwi ac yn ein busnes.

### Gwrthderfysgaeth

Yn ystod y cyfnod adrodd diwethaf, ymgymrodd y Bwrdd â hyfforddiant gwrthderfysgaeth o dan y cynllun PREVENT. Gan fod aelodau newydd o'r Bwrdd yn ystod 2024 ymlaen, bydd yr hyfforddiant yn cael ei gynnal eto.

## 2B – Adroddiad ar Dâl Cydnabyddiaeth a Staff

Mae'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â thâl uwch reolwyr a gyflogir gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Fodd bynnag, mae'r canllawiau presennol yn eithrio'r Ymddiriedolaeth rhag cynnwys tâl gweithwyr yr Ymddiriedolaeth sy'n uwch reolwyr ein gwasanaethau a gynhelir.

Y diffiniad o "Uwch Reolwr" yw: 'yr unigolion hynny mewn swyddi uwch sydd ag awdurdod neu gyfrifoldeb dros gyfarwyddo neu reoli prif weithgareddau corff y GIG. Mae hyn yn golygu'r rhai sy'n dylanwadu ar benderfyniadau'r endid yn ei gyfarwydd yn hytrach na phenderfyniadau cyfarwyddiaethau neu adrannau unigol.' Gan nad oes gan y sefydliad cyfan strwythur atebolrwydd unedig ar hyn o bryd, nid oes gan y Bwrdd reolaeth dros yr endid cyfan. Ar gyfer yr Ymddiriedolaeth graidd, mae'r uwch dîm rheoli yn cynnwys y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r Aelodau Annibynnol (Cyfarwyddwyr Anweithredol), y Prif Swyddog Gweithredu, y Cyfarwyddwr Trawsnewid a'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol. Dangosir manylion llawn tâl uwch reolwyr yr Ymddiriedolaeth graidd, h.y. aelodau Gweithredol ac Anweithredol Bwrdd yr Ymddiriedolaeth, yn y tabl sy'n dechrau ar dudalen 149. Ar gyfer Cydwasanaethau, mae'r uwch dîm rheoli yn cynnwys y Rheolwr Gyfarwyddwr, Cadeirydd Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau, ynghyd â'r Cyfarwyddwyr. Ar gyfer Technoleg Iechyd Cymru, mae'r uwch dîm rheoli yn cynnwys y Cyfarwyddwr a Chadeirydd y Panel Arfarnu.

Gall y cyfansymiau yn rhai o'r tablau canlynol fod yn wahanol i'r rhai yn y Cyfrifon Blynyddol gan eu bod yn cynrychioli staff mewn swydd ar 31 Mawrth 2025 tra bo'r Cyfrifon Blynyddol (nodyn 10.2) yn dangos nifer cyfartalog y gweithwyr yn ystod y flwyddyn.

Cofnodir manylion y Berthynas Tâl ar dudalen 149 yr Adroddiad Atebolrwydd ac yn nodyn 10.6 y Cyfrifon Blynyddol.

Mae cyflog a thelerau ac amodau cyflogaeth y Tîm Gweithredol ac uwch reolwyr yr Ymddiriedolaeth graidd wedi'u pennu a byddant yn cael eu pennu gan Bwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, o fewn y fframwaith a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Yn hanesyddol, nid yw'r Pwyllgor Tâl yn pennu'r cyflog (na chodiadau cyflog ar gyfer staff presennol) ar gyfer gweithwyr yr Ymddiriedolaeth sy'n gweithio mewn gwasanaethau a gynhelir. Llywodraeth Cymru sydd wedi pennu cyflog gwasanaethau a gynhelir yn hanesyddol, heb ymwneud blaenorol gan yr Ymddiriedolaeth.

Ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth hefyd geisiadau yn ymwneud â'r cynllun gadael swydd yn gynnar o wirfodd. Mae aelodau Pwyllgor Tâl yr Ymddiriedolaeth yn Aelodau Annibynnol o'r Bwrdd. Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth sy'n cadeirio'r Pwyllgor. Ceir manylion am aelodaeth y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth ar dudalennau 78-81 yn adran Adroddiad y Cyfarwyddwyr yr adroddiad hwn.

Mae trefniadau cyflog presennol y sector cyhoeddus yn gymwys i bob aelod o staff gan gynnwys y Tîm Gweithredol. Mae pob aelod o'r Tîm Gweithredol ar bwytiau cyflog yn hytrach na graddfeydd cyflog. Mae perfformiad y Tîm Gweithredol yn cael ei asesu yn erbyn amcanion personol a pherfformiad cyffredinol yr Ymddiriedolaeth. Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu cynllun tâl ar sail perfformiad.

Mae gan bob Cyfarwyddwr Gweithredol yr opsiwn o gael car prydles, o dan delerau cytundeb ceir prydles yr Ymddiriedolaeth.

Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol yn cael eu cyflogi ar gontractau parhaol, y gellir eu terfynu drwy roi rhybudd priodol oni bai am resymau o gamymddygiad.

### Cyfansoddiad Staff Yn Ôl Rhyw

Mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad o'r gweithlu yn ôl rhyw. Mae'r ffigur hwn yn cynrychioli'r cyfansoddiad fel ar 31 Mawrth 2025. Noder ei fod yn cynnwys gweithwyr yr Ymddiriedolaeth sy'n gweithio yng Ngwasanaethau Corfforaethol yr Ymddiriedolaeth, Gwasanaeth Gwaed Cymru, Gwasanaeth Canser Felindre, Cydwasanaethau, Technoleg Iechyd Cymru, a Therapiau Datblygedig Cymru, ac nid yw'n cynnwys y rhai mewn swyddi Banc, Locwm ac Anrhydeddus. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys y data mewn perthynas â'r cynllun Un Cyflogwr Arweiniol, lle mae tua 3000 o staff ychwanegol yn cael eu cyflogi.

Rhyw	Cyfrif	Cyferth ag Amser Llawn	% y Cyfrif Pennau
Benyw	2,791	2,457.99	62.78%
Gwryw	1,655	1,540.08	37.22%
<b>Cyfanswm terfynol</b>	<b>4,446</b>	<b>3,998.07</b>	<b>100%</b>

Ceir dadansoddiad o Gyfarwyddwyr Gweithredol ac Uwch Reolwyr craidd yr Ymddiriedolaeth yn ôl rhyw yn y tabl isod. Mae'r ffigur hwn yn cynrychioli'r cyfansoddiad fel ar 31 Mawrth 2025.

Teitl y Swydd	Rhyw	Cyfrif	Cyferth ag Amser Llawn pennau	% y Cyfrif Pennau
Prif Swyddog Gweithredol	Gwryw	1	1.00	8.33%
Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	Gwryw	1	1.00	8.33%
Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol	Benyw	1	1.00	8.33%
Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddor Gofal Iechyd	Benyw	1	1.00	8.33%
Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol	Benyw	1	1.00	8.33%
Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid Strategol, Cynllunio a Digidol	Gwryw	1	1.00	8.33%
Prif Swyddog Gweithredu	Benyw	1	1.00	8.33%
Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol a Phennaeth Staff	Benyw	1	1.00	8.33%
Cyfarwyddwr Trawsnewid	Benyw	1	1.00	8.33%
Cyfarwyddwr y Prosiect Canolfan Ganser newydd Felindre (nVCC)	Gwryw	1	1.00	8.33%
Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwaed Cymru	Gwryw	1	1.00	8.33%
Cyfarwyddwr Gwasanaeth Canser Felindre	Benyw	1	1.00	8.33%
<b>Cyfanswm terfynol</b>		<b>12</b>	<b>12.00</b>	<b>100%</b>
	<b>Gwryw</b>	<b>5</b>	<b>5.00</b>	<b>41.67%</b>
	<b>Benyw</b>	<b>7</b>	<b>7.00</b>	<b>58.33%</b>

## Cyfansoddiad Staff yn ôl Grŵp Staff

Yn ystod 2024/2025, nifer cyfartalog y staff gweithredol Cyfwerth ag Amser Llawn oedd yn cael eu cyflogi'n barhaol gan yr Ymddiriedolaeth oedd 3,870. Cyfrifir nifer cyfartalog y staff fel nifer cyfwerth ag amser llawn y staff ym mhob

wythnos o'r flwyddyn ariannol wedi'i rannu â nifer yr wythnosau yn y flwyddyn ariannol. Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o'r gweithlu yn ôl grŵp staff ac yn ogystal â staff a gyflogir yn barhaol, mae'n dangos staff ar Secondiad mewnol, staff asiantaeth, hyfforddeion arbenigol (SLE) a staff eraill.

## Nifer Cyfartalog y Gweithwyr Gweithredol Cyfwerth ag Amser Llawn

Grŵp Staff	Wedi'u Cyflogi yn Barhaol	Staff ar Secondiad Mewnol	Staff Asiantaeth	Hyfforddai Arbenigol (SLE)	Staff Eraill	2023/2024 2024/2025 Cyfanswm
Staff Gweinyddol, Clerigol ac Aelodau o'r Bwrdd	2,220	6	9	0	25	2,260 <b>2,166</b>
Meddygol a Deintyddol	105	1	0	34	2	142 <b>126</b>
Nyrsys a Bydwragedd Cofrestredig	250	0	0	0	0	250 <b>206</b>
Staff Proffesiynol, Gwyddonol a Thechnegol	93	0	2	0	0	95 <b>88</b>
Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol	260	0	3	0	1	264 <b>254</b>
Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd	156	0	3	0	0	159 <b>155</b>
Gwyddonwyr Gofal Iechyd	173	0	1	0	0	174 <b>157</b>
Ystadau ac Ategol	610	0	4	0	38	652 <b>597</b>
Myfyrwyr	3	0	0	0	0	3 <b>3</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>3,870</b>	<b>7</b>	<b>22</b>	<b>34</b>	<b>66</b>	<b>3,999 3,752</b>

## Data Absenoldeb Oherwydd Salwch 2024/2025 – Staff Craidd a Gwasanaethau a Gynhelir (heb gynnwys staff Un Cyflogwr Arweiniol sy'n gweithio mewn Cyrff Iechyd eraill)

Adroddiad	2024/25	2023/24	Amrywiant
Cyfanswm y Diwrnodau CALL (FTE) a Gollwyd (Hirdymor):	50856.29	45079.31	5,776.98
Cyfanswm y Diwrnodau CALL (FTE) a Gollwyd (Tymor byr):	20824.19	18453.37	2,370.82
<b>Cyfanswm y Diwrnodau a Gollwyd:</b>	<b>71680.48</b>	<b>63532.68</b>	<b>8147.0</b>
Cyfartaledd y Staff a Gyflogwyd yn ystod y Cyfnod – Cyfwerth ag Amser Llawn (CALL) (heb gynnwys staff a secondiwyd i mewn, asiantaeth, banc)	3905	3602.07	302.93
<b>Diwrnodau Gwaith Cyfartalog a Gollwyd (CALL):</b>	<b>18.36</b>	<b>17.64</b>	<b>0.7183</b>
Cyfanswm y staff a gyflogwyd yn ystod y cyfnod (nifer y bobl): (Cyfrifir pennau)	4456	4086	370
Cyfanswm y Staff a Gyflogwyd yn ystod y Cyfnod heb unrhyw Absenoldeb oherwydd Salwch (nifer y bobl):	1779	1751	28
<b>Canran y staff na fuont yn absennol oherwydd salwch (%):</b>	<b>39.92</b>	<b>42.85</b>	<b>-2.93</b>

Ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Graidd, mae tîm y gweithlu yn gweithio gyda gweithwyr i reoli lles staff ac absenoldeb oherwydd salwch.

Datblygir adroddiadau perfformiad misol ar gyfer gwasanaethau a chydweithwyr Gweithredol i fonitro salwch. Mae ymyriadau i gefnogi rheolwyr yn cyd-fynd â'r rhesymau dros salwch er mwyn sicrhau ymyriadau effeithiol sy'n cefnogi staff.

Salwch seicolegol yw'r prif reswm dros absenoldeb salwch ar draws yr Ymddiriedolaeth o hyd. Er mwyn darparu cymorth priodol ac ychwanegol i staff, mae'r Ymddiriedolaeth wedi canolbwyntio ar ymyriadau i gefnogi lles seicolegol ein staff. Mae hyn wedi cynnwys sesiynau galw heibio gyda'n tîm lles, cymorth ar y safle gan ein gwasanaeth Rhaglen Cymorth i Weithwyr, hyfforddi hyrwyddwyr cymorth cyntaf iechyd meddwl, a chynnal nifer o rwydweithiau staff i gefnogi staff.

### Polisiau Staff

Mae asesiad yn cael ei gynnal ar holl bolisiau a gweithdrefnau'r Ymddiriedolaeth o'u heffaith ar gydraddoldeb yn erbyn y naw nodwedd warchoddedig, er mwyn sicrhau nad ydynt yn gwahaniaethu yn erbyn pobl sy'n gwneud cais i weithio yn yr Ymddiriedolaeth neu sy'n cael eu cyflogi gan yr Ymddiriedolaeth. Mae holl bolisiau a gweithdrefnau'r Ymddiriedolaeth ar gael trwy wefan yr Ymddiriedolaeth.

### Tablau Datgelu Cyflogau a Phensiynau (Wedi'u Harchwilio) – Ffigur Cyfanswm Taliad Sengl

Mae'r Adroddiad hwn ar Dâl yn cynnwys un ffigur cyfanswm y taliadau. Mae swm y buddiannau pensiwn ar gyfer y flwyddyn sy'n cyfrannu at un ffigur y cyfanswm yn cael ei gyfrifo ar sail y canllawiau a ddarperir gan Asiantaeth Pensiynau Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG.

Mae'r swm a gynhwysir yn y tabl ar gyfer buddiannau pensiwn yn seiliedig ar y cynnydd mewn pensiwn cronodig wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant. Bydd hyn yn gyffredinol yn cymryd blwyddyn ychwanegol o wasanaeth i ystyriaeth, ynghyd ag unrhyw newidiadau mewn cyflog pensiwnadwy. Nid yw hyn yn swm sydd wedi cael ei dalu i unigolyn gan yr Ymddiriedolaeth yn ystod y flwyddyn; mae'n gyfrifiad sy'n defnyddio gwybodaeth o'r tabl buddiannau pensiwn. Gall y ffigurau hyn gael eu dylanwadu gan sawl ffactor e.e. newidiadau mewn cyflog unigolyn, p'un a ydynt yn dewis gwneud cyfraniadau ychwanegol i'r cynllun pensiwn o'u cyflog, a ffactorau prisio eraill sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn cyfan.



Mae'r datgeliadau cyflogau a phensiynau yn adlewyrchu gwybodaeth yr uwch-reolwyr. Fel y nodir ar dudalennau 78-81, mae uwch dîm rheoli'r Ymddiriedolaeth yn cynnwys y Prif Weithredwr, y

Cyfarwyddwyr Gweithredol, a'r Aelodau Annibynnol (Cyfarwyddwyr Anweithredol), y Prif Swyddog Gweithredu, y Cyfarwyddwr Trawsnewid, a'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol.

